Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 42/2026

Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2026

# Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy – adroddiad gwerthuso terfynol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-105-0

Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy - adroddiad gwerthuso terfynol

Awduron: Heledd Bebb a Nia Bryer
gyda chyfraniadau gan Rob Owen a Sue Rice, Partneriaeth BRO a Val Williams, Sylfaen

Ymchwil Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bebb, H., Bryer, N. (2023). Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy - adroddiad gwerthuso terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 42/2026.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....................4

Rhestr o ffigurau....................5

Rhestr o dermau....................6

1. Cyflwyniad....................9

1.1. Trosolwg o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy....................9

1.2. Nodau'r gwerthusiad yw....................12

2. Methodoleg....................14

2.1. Gweithgareddau'r gwerthusiad....................14

2.2. Adolygiad o ddata a thystiolaeth ar lefel prosiect....................15

2.3. Arolwg ar-lein....................16

2.4. Cyfweliadau'r gwaith maes....................17

2.5. Ystyriaethau methodolegol....................19

3. Trosolwg o ganfyddiadau'r gwerthusiad o'r SMS hyd yma....................21

3.1. Adroddiad Diweddaru 2020 y Gwerthusiad....................21

3.2. Adroddiad Diweddaru 2021 y Gwerthusiad....................23

4. Y cyd-destun polisi....................25

4.1. Rhaglen Lywodraethu 2021-2026....................25

4.2. Papur Gwyn Amaeth (Cymru) [troednodyn....................26

4.3. Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022....................26

4.4. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy....................27

4.5. COP 15 Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang....................29

4.6. Ymarfer Plymio Dwfn Bioamrywiaeth....................30

5. Canfyddiadau allweddol: gweithredu'r SMS....................31

5.1. Y gallu i gyflawni prosiectau yn unol â'r bwriad....................31

5.2. Effeithiolrwydd trefniadau rheoli a monitro Llywodraeth Cymru....................33

5.3. Elfennau allweddol prosiectau cydweithredol effeithiol ac effeithlon ar raddfa'r dirwedd....................35

6. Canfyddiadau allweddol: cydweithio a chynaliadwyedd....................37

6.1. Gwerth ac effeithiolrwydd partneriaethau a threfniadau cydweithredol....................37

6.2. Gwerth dulliau cydweithredol o ran cyflawni amcanion SMNR....................42

6.3. Manteision gweithio ar raddfa'r dirwedd....................43

6.4. Cynaliadwyedd prosiectau cydweithredol ....45
7. Canfyddiadau allweddol: allbynnau, canlyniadau, a'r gwahaniaeth a wnaed ....49
7.1. Gwariant a gwariant cyhoeddus ....50
7.2. Perfformiad o ran y DPA ....51
7.3. Cyflawniadau cyffredinol yr SMS o ran allbynnau ....52
7.4. Cyflawniadau'r prosiectau a gwblhawyd ....55
7.5. I ba raddau y mae gwaith monitro prosiectau a'r gwerthusiadau terfynol yn cofnodi cyflawniadau ac effaith ....58
7.6. Manteision amgylcheddol ....59
7.7. Manteision cymdeithasol ....66
7.8. Manteision economaidd ....70
7.9. Beth fyddai'n helpu prosiectau i gynnal y canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar ôl i gyllid SMS ddod i ben? ....73
7.10. I ba raddau y byddai prosiectau wedi cael eu cyflawni heb gyllid SMS ....73
8. Canfyddiadau allweddol: themâu ac amcanion trawsbynciol ....74
8.1. Cyfraniad at themâu trawsbynciol yr UE ....75
8.1.1. Cyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhywedd ....75
8.1.2. Datblygu cynaliadwy ....75
8.1.3. Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol ....76
8.2. Cyfraniad at amcanion trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig ....77
8.2.1. Yr amgylchedd ....77
8.2.2. Arloesi ....77
8.2.3. Addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru ....78
8.3. Cyfraniad at strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050 ....79
9. Casgliadau ac argymhellion ....80
9.1. Cyfatebiaeth y prosiectau ag egwyddorion SMNR ....81
9.2. Rheoli a gweithredu'r cynllun ....81
9.3. Natur a maint y cydweithio ....83
9.4. Canlyniadau'r SMS ....84
9.5. Themâu ac amcanion trawsbynciol ....86
9.6. Argymhellion ....87
10. Cyfeiriadau ....90
Atodiad A: Enghreifftiau o gyflawniadau prosiectau wedi'u mapio yn erbyn amcanion SMNR ....91

Atodiad B: Canfyddiadau allweddol o Adroddiadau Diweddaru SMS 2020 a 2021 ........... 132
Adroddiad Diweddaru 2020 y Gwerthusiad ........... 132
Adroddiad Diweddaru 2021 y Gwerthusiad ........... 137
Atodiad C: Manylion prosiectau SMS a ariannwyd ........... 142
Atodiad D: Model Rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid ........... 146
Atodiad E: Gwybodaeth Gefndir – Prosiectau SMS ........... 147
CYFNOD 1 ........... 147
CYFNOD 2 ........... 150
CYFNOD 3 ........... 154
CYFNOD 4 ........... 157
CYFNOD 5 ........... 160
Atodiad F: Canllaw Trafod – Staff a rhanddeiliaid ........... 163
Atodiad G: Canllaw Trafod – cyfweliadau â phrosiectau ........... 168
Atodiad H: Templed ar gyfer yr Astudiaethau Achos ........... 172
Atodiad I: Arolwg ar-lein yr SMS ........... 175

## Rhestr o dablau

Tabl 1.1: Llinellau amser cyfnodau cyllido'r SMS ............ 11
Tabl 2.1: Prosiectau SMS a gyfwelwyd ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol ............ 17
Tabl 2.2: Prosiectau astudiaethau achos SMS a gyfrannodd at yr adroddiad gwerthuso terfynol ............ 18
Tabl 7.1 Hyd cyfartalog prosiectau a ariannwyd gan SMS a grant a ddyfarnwyd iddynt fesul cyfnod cyllido ............ 50
Tabl 7.2 Targedau a chyflawniadau amgylcheddol yr SMS ............ 52
Tabl 7.3 Targedau a chyflawniadau cymdeithasol yr SMS ............ 53
Tabl 7.4 Targedau a chyflawniadau economaidd yr SMS ............ 53
Tabl 7.5 Targedau a chyflawniadau eraill yr SMS ............ 54
Tabl 7.6 Targedau a chyflawniadau amgylcheddol y prosiectau a gwblhawyd ............ 55
Tabl 7.7 Targedau a chyflawniadau cymdeithasol prosiectau a gwblhawyd ............ 56
Tabl 7.8 Targedau a chyflawniadau economaidd y prosiectau a gwblhawyd ............ 56
Tabl 7.9 Targedau a chyflawniadau eraill y prosiectau a gwblhawyd ............ 57

# Rhestr o ffigurau


Ffigur 3.1: Argymhellion o adroddiad diweddaru SMS 2020 ....... 21
Ffigur 3.2: Argymhellion o adroddiad diweddaru SMS 2021 ....... 23
Ffigur 6.1: Effeithiau cadarnhaol cydweithio ....... 38
Ffigur 6.2: Effeithiau negyddol cydweithio ....... 39
Ffigur 7.1: Canlyniadau amgylcheddol a gyflawnwyd gan brosiectau SMS ....... 59
Ffigur 7.2: Cyfraniad a wnaed gan brosiectau SMS at greu ecosystemau mwy gwydn ....... 60
Ffigur 7.3: A fydd canlyniadau amgylcheddol yn cael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben ....... 65
Ffigur 7.4: Manteision cymdeithasol a gyflawnwyd gan brosiectau SMS ....... 66
Ffigur 7.5: A fydd manteision cymdeithasol yn cael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben ....... 69
Ffigur 7.6: Manteision economaidd a gyflawnwyd gan brosiectau SMS ....... 70
Ffigur 7.7: A fydd manteision economaidd yn cael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben ....... 72
Ffigur 8.1: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau SMS tuag at themâu trawsbynciol a'r strategaeth Cymraeg 2050 ....... 74
Ffigur Atodiad B.1: Argymhellion o adroddiad diweddaru SMS 2020 ....... 135
Ffigur Atodiad B.2: Argymhellion o adroddiad diweddaru SMS 2021 ....... 140

## Rhestr o dermau

**AHNE**

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

**CBC**

Cwmni Buddiannau Cymunedol

**CBS**

Cyngor Bwrdeistref Sirol

**CEF**

Carchar Ei Fawrhydi

**CNC**

Cyfoeth Naturiol Cymru

**CO2**

Carbon Deuocsid

**COP15**

Cynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig 2022

**COVID-19**

Clefyd y Coronafeirws 2019

**DPA**

Dangosydd Perfformiad Allweddol

**DU**

Y Deyrnas Unedig

**EAFRD**

Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig

**ENRaW**

Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru

**GIS**

System Gwybodaeth Ddaearyddol

**H2O**

Dŵr

**OECM**

Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill yn Seiliedig ar Ardal

**QR**

Ymateb Cyflym

**RPW**

Taliadau Gwledig Cymru

**RSPB**

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

**SFS**

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**SMNR**

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

**SMS**

Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy

**SoDdGA**

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

**SoNaRR**

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

**UE**

Undeb Ewropeaidd

**WEFO**

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

**WG RC-RDP**

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig

**WWF**

Cronfa Natur Byd Natur

**Y Ddeddf Llesiant**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

# 1. Cyflwyniad

Penodwyd OB3 Research, ar y cyd â Phartneriaeth BRO, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) a ariennir drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru–Rhaglen Datblygu Gwledig (WG RC-RDP) 2014-2020, sy'n cael ei chyllido gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

## 1.1. Trosolwg o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Nod yr SMS yw cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd sy'n cymryd camau i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur i wella gwytnwch ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i fusnesau fferm a chymunedau gwledig.[troednodyn 1]. Mae'r SMS yn darparu cymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn gwella'r ffordd y rheolir adnoddau naturiol Cymru a thrwy wneud hynny, yn cyfrannu at les cymunedau gwledig. Mae'r cynllun yn cynnig grantiau i grwpiau cydweithredol sy'n awyddus i:

- wella bioamrywiaeth
- gwella seilwaith gwyrdd
- cynnal trefniadau gwell o ran rheoli tir a dŵr
- hwyluso addasu i newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effaith ar raddfa'r dirwedd.[troednodyn 2]

Mae prosiectau cydweithredol yr SMS yn cynnwys perchenogion tir, ffermwyr a phorwyr. Mae prosiectau'n cydweithio â nifer o bartneriaid ar lefel leol ac ar raddfa'r dirwedd i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac i wella gwytnwch ecosystemau.[troednodyn 3]

Cyflawnir yr SMS o dan is-Fesur 16.5 WG RC-RDP 2014-2020 a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi camau gweithredu uniongyrchol ar reoli adnoddau naturiol ledled Cymru, fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

---

Troednodiadau

[1] Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru)

[2] Ibid.

[3] Ibid.

Yn sail i'r SMS mae egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sef:

- rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd
- ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu
- hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt
- gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
- ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch
- ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau
- ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor camau gweithredu
- cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau
- ystyried gwytnwch ecosystemau ac yn benodol, yr agweddau a ganlyn:
    - amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt
    - y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt
    - graddfa ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad
    - gallu ecosystemau i addasu

Erbyn diwedd y cyfnod cyllido, roedd disgwyl i'r SMS, drwy brosiectau cydweithredol rheoli dalgylchoedd ar raddfa'r dirwedd, gyflawni camau gweithredu a fyddai'n cyfrannu at y canlyniadau a ganlyn:

- cynnydd mewn dal a storio carbon
- cynyddu bioamrywiaeth
- rheoli perygl llifogydd drwy ddulliau naturiol yn well
- iechyd pridd ac ansawdd dŵr gwell [troednodyn 4].

Troednodiadau
[4] Ibid.

Yn ogystal â hynny, roedd y cynllun yn gobeithio gweld cynnydd mewn plannu coed a choetiroedd presennol yn cael eu rheoli. Disgwyliwyd hefyd ganlyniadau'n ymwneud â datblygu sgiliau, creu swyddi a chadw sgiliau gwledig, treftadaeth a'r Gymraeg. Yn ogystal â ffocws ar fanteision iechyd a lles a chefnogi datblygiadau lleol a arweinir gan y gymuned.[troednodyn 5]

Roedd y cyllid ar gael drwy bum cyfnod cyllido gwahanol.

**Tabl 1.1: Llinellau amser cyfnodau cyllido'r SMS**

| | **Cyfnod 1** | **Cyfnod 2** | **Cyfnod 3** | **Cyfnod 4** | **Cyfnod 5** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y cyfnod gwneud cais yn agor** | Chwefror 2016 | Hydref 2016 | Gorffennaf 2017 | Gorffennaf 2018 | Mai 2019 |
| **Y cyfnod gwneud cais yn cau** | Mai 2015 | Tachwedd 2016 | Medi 2017 | Medi 2018 | Awst 2019 |
| **Prosiectau'n dechrau** | Gorffennaf 2017 i Fawrth 2018 | Mehefin 2018 i Orffennaf 2019 | Ionawr 2019 i Fedi 2020 | Awst 2020 i Chwefror 2021 | Chwefror 2021 i Dachwedd 2021 |
| **Prosiectau'n cael eu cwblhau** | Mawrth 2020 i Fawrth 2021 [troednodyn 6] | Gorffennaf 2021 i Fawrth 2022 [troednodyn 7] | Gorffennaf 2022 i Fawrth 2023 | Mawrth 2023 i Fawrth 2023 | Mawrth 2023 i Fawrth 2023 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Troednodiadau
[5] Ibid.
[6] Mae eithriadau i'r dyddiadau hyn
[7] Mae eithriadau i'r dyddiadau hyn

## 1.2. Nodau'r gwerthusiad yw

Nod y gwerthusiad oedd adolygu sut y cyflawnodd yr SMS ei nodau craidd, sef cefnogi camau cydweithredol i wella adnoddau naturiol a helpu i sicrhau gwytnwch yr ecosystem ac asesu ei gyfraniad at gynnal manteision cymdeithasol ac economaidd i gymunedau.

Bwriadwyd i'r gwerthusiad ymchwilio i bum amcan allweddol:

- cyfatebiaeth y prosiectau a ariennir ag egwyddorion SMNR [troednodyn 8]
- y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i weithredu
- natur a graddau'r cydweithio a'r hyn a gyflawnwyd yn sgil hynny
- canlyniadau'r cynllun a chamau gweithredu ar y blaenoriaethau polisi
- y cyfraniad y mae prosiectau wedi'i wneud at y themâu trawsbynciol a nodir yn Cymunedau Gwledig-Rhaglen Datblygu Gwledig, yn enwedig addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effaith

Roedd disgwyl hefyd i'r gwerthusiad adolygu rôl yr SMS o ran cyfrannu at y dystiolaeth ar gyfer darparu mecanweithiau cyllido amaeth-amgylcheddol newydd yn y dyfodol, ar ôl Brexit.

Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Ionawr 2020 a mis Mawrth 2023 ac roedd yn cynnwys:

- adroddiad diweddaru blynyddol cyntaf (Tachwedd 2020) a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu damcaniaeth newid a model rhesymeg [troednodyn 9] a gwerthusiad proses [troednodyn 10]
- ail adroddiad diweddaru blynyddol (Tachwedd 2021) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau'r gwerthusiad proses ac i adrodd ar unrhyw ganlyniadau ac effeithiau a oedd yn dod i'r amlwg [troednodyn 11]
- yr adroddiad gwerthuso terfynol hwn (Mawrth 2023) sydd wedi'i fwriadu i fod yn werthusiad crynodol llawn o ganlyniadau ac effaith y cynllun

---

Troednodiadau

[8] Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn amlinellu fframwaith newydd ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) sy'n cynnwys diffiniad o SMNR a'r naw egwyddor i'w gyflawni a Pholisi Adnoddau Naturiol Cymru.

[9] Nod gwerthusiad proses yw cynhyrchu canfyddiadau ac argymhellion a all helpu i wella'r modd y caiff prosiect neu raglen eu rheoli a'u cyflawni.

[10] Y Cynllun Rheoli Cynaliadw (Llywodraeth Cymru).

[11] Diweddariad mewnol oedd yr adroddiad hwn ac nid yw wedi'i gyhoeddi.

Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn naw pennod, fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: trosolwg o'r argymhellion o adroddiadau diweddaru blaenorol gwerthusiad yr SMS
- pennod pedwar: diweddariad ar y cyd-destun polisi a'r cyd-destun strategol ar gyfer yr SMS
- penodau pump i wyth: canfyddiadau'r gwaith maes
- pennod naw: casgliadau ac argymhellion ar gyfer y dyfodol

Yn Atodiad A rhoddir dadansoddiad manwl o 11 o brosiectau SMS yr ymwelwyd â nhw yn ystod y gwaith maes hwn yn erbyn egwyddorion SMNR. Yn Atodiad B ceir manylion y prosiectau a ariannwyd, symiau'r grantiau a'r cyfnodau cyllido. Yn Atodiad C ceir y Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid ar gyfer yr SMS. Mae Atodiad D yn grynodeb o'r prosiectau a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r gwaith maes ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol hwn. Mae Atodiadau E-F yn nodi’r canllawiau trafod a ddefnyddiwyd i gasglu’r dystiolaeth. Mae Atodiad G yn cynnwys y templed a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaethau achos a darperir yr arolwg yn Atodiad H.

# 2. Methodoleg

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull o gynnal y gwerthusiad terfynol, proffil y rhai a gyfwelwyd ac yn trafod rhai o'r ystyriaethau methodolegol allweddol.

## 2.1. Gweithgareddau'r gwerthusiad

Mae’r cam gwerthuso terfynol wedi cynnwys yr elfennau canlynol o waith:

- cyfarfod cychwynnol ar gyfer y cam adrodd terfynol hwn, a oedd yn cynnwys cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi dull methodolegol wedi'i fireinio
- adolygu dogfennau polisi a deddfwriaethol perthnasol
- adolygu data monitro'r cynllun, yr adroddiadau cynnydd diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pob prosiect 'byw' a'r adroddiadau gwerthuso ar lefel prosiect a ddaeth i law gan bedwar ar ddeg o brosiectau SMS a gwblhawyd
- drafftio canllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau â staff Llywodraeth Cymru a chydag arweinwyr prosiectau a phartneriaid allweddol ar draws prosiectau SMS a ariannwyd yng Nghyfnodau 3-5 (gweler Atodiadau E ac F)
- datblygu arolwg ar-lein i Lywodraeth Cymru ei ddosbarthu i bob prosiect a ariannwyd gan yr SMS a dadansoddi 29 o ymatebion (gweler Atodiad H).
- casglu barn 43 o arweinwyr prosiectau a phartneriaid allweddol ar draws 21 o brosiectau SMS a ariannwyd yng Nghyfnodau 3-5. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023. Mewn saith prosiect, cynhaliwyd y gwaith maes wyneb yn wyneb yn ystod ymweliadau â'r prosiectau. Ar gyfer pob prosiect arall, cynhaliwyd y gwaith maes drwy Teams neu dros y ffôn
- cyfweld â thri aelod o Lywodraeth Cymru drwy Teams
- cyfuno canfyddiadau'r adolygiad desg a'r gwaith maes
- paratoi'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn

## 2.2. Adolygiad o ddata a thystiolaeth ar lefel prosiect

Mae'n un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd bod cynnydd prosiectau'n cael ei fonitro a'u llwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Mae'n ofynnol i brosiectau ddarparu diweddariadau rheolaidd ac adroddiad terfynol dri mis ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

Roedd canllawiau'r SMS ar y cychwyn yn nodi bod angen i brosiectau ddangos eu bod yn gallu rhoi trefniadau monitro a gwerthuso ar waith gan ganolbwyntio'n benodol ar adrodd ar 'weithgareddau i ddangos canlyniadau'r camau cydweithredol'. At hynny, roedd y canllawiau'n gofyn am dystiolaeth werthuso o brosiectau'n ymwneud â datblygu gwersi allweddol a chofnodi profiadau cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â nhw yn y cydweithrediad i siapio rhaglenni a phrosiectau yn y dyfodol.

Ym mis Ionawr 2022, rhoddodd tîm polisi SMS becyn cymorth gwerthuso ar gyfer prosiectau, yn amlinellu cwestiynau ymchwil allweddol y dylid eu hateb ar lefel prosiect, gwybodaeth am yr hyn y dylai'r adroddiad gwerthuso diwedd prosiect ei gynnwys ac awgrymwyd fframwaith holi a oedd yn ceisio casglu tystiolaeth benodol o gydweithio; canlyniadau economaidd-gymdeithasol, iechyd a lles; a chyllid a chynaliadwyedd hirdymor.

Roedd cyfanswm o 15 o adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect ar gael i'w hadolygu yn ystod y cam gwerthuso terfynol hwn, sef 30% o'r holl brosiectau. Mae pob un ac eithrio tri o'r adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect hyn yn adroddiadau ar gyfer prosiectau a ariannwyd yng nghyfnodau un a dau. Dim ond pedwar o'r adroddiadau a oedd yn ychwanegol at y rhai a ddadansoddwyd yn flaenorol yn ail adroddiad diweddaru'r gwerthusiad a baratowyd ar ddiwedd 2021. Darparwyd tair dogfen arall – roedd un yn adroddiad gwerthuso canol tymor (a ddadansoddwyd yn flaenorol) a dwy yn ddogfennau myfyriol ychwanegol gan brosiectau (nad oeddent wedi'u paratoi gan werthuswr annibynnol).

Byddai nifer fwy o adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect wedi bod ar gael pe cedwid at y dyddiadau gorffen gwreiddiol, ond mae llawer o'r prosiectau a ariannwyd yn y cyfnod cynharach wedi bod yn destun prosesau ailwerthuso sydd wedi arwain at ymestyn eu terfynau amser (ac felly'r dyddiadau gorffen). Fodd bynnag, ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd 23 o brosiectau SMS wedi cyrraedd y cam cwblhau materion ariannol ac felly dylai fod ganddynt adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect a fyddai wedi darparu 50% yn fwy o dystiolaeth i'w dadansoddi.

Fel rhan o'r adolygiad desg o dystiolaeth, ystyriwyd adroddiadau cynnydd prosiectau hefyd ond mae gwerth yr ymarfer hwn wedi bod yn gyfyngedig. Mae rhai prosiectau wedi darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd tra bod eraill wedi darparu un neu ddau o adroddiadau cynnydd yn unig yn ystod eu cyfnod cyflawni. Yn ogystal â hynny, ychydig iawn o wybodaeth yn yr adroddiadau cynnydd sydd o werth i werthusiad crynodol o'r cynllun, gan eu bod yn adrodd yn bennaf ar gynnydd mewn perthynas â gweithgareddau a gwariant.

Mae'r adolygiad desg hefyd yn ystyried data monitro cyfanredol a gyflwynwyd gan brosiectau unigol yn erbyn targedau dangosyddion ar lefel achos y Rhaglen Datblygu Gwledig er mwyn ystyried perfformiad cyffredinol y cynllun. Rhannwyd canllawiau'r Rhaglen

Datblygu Gwledig, a oedd yn diffinio pob un o'r dangosyddion hyn, â phrosiectau ar ddechrau eu cyfnod cyflawni, ond nid yw'n hysbys i ba raddau yr oedd y prosiectau'n cydymffurfio'n gyson â'r diffiniadau hyn.

## 2.3. Arolwg ar-lein

Casglodd yr arolwg ddata ansoddol a meintiol. Fe’i datblygwyd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru o’r timau polisi ac ymchwil, monitro a gwerthuso, ac fe'i cymeradwywyd ganddynt.

Dosbarthwyd yr arolwg ar-lein yn uniongyrchol gan dîm polisi SMS Llywodraeth Cymru i ymgeisydd arweiniol pob un o’r 50 o brosiectau SMS a ariannwyd. Derbyniodd Llywodraeth Cymru dri ymateb yn dweud na chyrhaeddodd y neges ben ei thaith, ond ailgyfeiriwyd y rhain wedyn at unigolyn addas arall a oedd yn rhan o'r prosiect. Defnyddiwyd dull pelen eira, a gofynnwyd i ymgeiswyr rannu’r arolwg ar-lein yn ehangach ymhlith partneriaid cyflawni, aelodau’r tîm cyflawni a gwirfoddolwyr.

Anfonwyd tri e-bost atgoffa pellach gan swyddogion Llywodraeth Cymru i’r rhai ar y rhestr gyswllt er mwyn cynyddu'r gyfradd ymateb a gwnaed galwadau ffôn dilynol i bob prosiect nad oedd wedi ymateb. Roedd yr arolwg ar agor am ddau fis a hanner o 15 Tachwedd 2022 tan 31 Ionawr 2023.

Cafwyd cyfanswm o 29 o ymatebion i'r arolwg ar y we. Roedd pob ymateb, ac eithrio un, yn Saesneg. Cwblhawyd un arolwg yn Gymraeg.

Darparodd 25 o blith 29 o ymatebwyr enw'r prosiect SMS yr oeddent yn gysylltiedig ag ef. Enwyd 18 o brosiectau i gyd o ystyried bod rhai ymatebwyr yn cynrychioli'r un prosiect. Mae hyn yn golygu y cafwyd adborth drwy'r arolwg gan tua thraean o brosiectau SMS.

O blith y 29 o ymatebwyr, roedd 12 yn cynrychioli sefydliadau arweiniol ac roedd saith yn aelodau o dimau cyflawni prosiectau. Roedd gweddill yr ymatebwyr yn bartneriaid cyflawni (saith), yn wirfoddolwyr (dau) neu'n gontractwr gwerthuso prosiect. Holwyd sefydliadau a oedd yn ymgeiswyr arweiniol am statws eu prosiect: roedd naw o blith y 12 wedi cwblhau eu prosiect, roedd un bron â’i gwblhau ac roedd dau yn dal ar y gweill adeg cwblhau’r arolwg.

## 2.4. Cyfweliadau'r gwaith maes

Dewiswyd 25 o brosiectau ar gyfer gwaith maes yn ystod y cam gwerthuso terfynol. O blith y rhain, y bwriad oedd y byddai 13 yn cynnwys cyfweliad ansoddol gydag arweinwyr prosiectau ac y byddai'r 12 arall yn astudiaethau achos manwl yn cynnwys pecyn o gyfweliadau gydag ystod ehangach o gyfranwyr.

Roedd y sampl o 13 o brosiectau a ddewiswyd ar gyfer cyfweliadau ansoddol yn ystod y cam gwerthuso terfynol yn cynnwys yr holl brosiectau na chawsant eu gwahodd i gyfrannu at ddau adroddiad diweddaru blaenorol y gwerthusiad. Llwyddwyd i gysylltu â 10 o'r prosiectau hyn. Er gwaethaf sawl ymgais gan y tîm gwerthuso a thîm Llywodraeth Cymru, ni fu'n bosibl cael gafael ar y tri phrosiect a oedd yn weddill, ac na wnaethant ymateb i geisiadau.

**Tabl 2.1: Prosiectau SMS a gyfwelwyd ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol**

| Sefydliad Arweiniol | Teitl y prosiect | Cyfnod cyllido |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Natur Maesyfed | Adfer Rhostir Pori | 3 |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt | Cynefinoedd Dŵr Croyw Gwydn Dalgylch Irfon | 3 |
| CBC Y Tri Phlwyf ar gyfer y Da Cyffredin | Y Tri Phlwyf ar gyfer y Da Cyffredin | 4 |
| CBC SMS Dyffryn Camlad | Prosiect Dyffryn Camlad | 4 |
| Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn | Prosiect Sgiliau Gwyllt, Lleoedd Gwyllt | 4 |
| Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren | Rheoli Tir Nant Alan | 4 |
| Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren | Rheolaeth Tir Cynaliadwy Dyffryn Cain | 4 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Cynefinoedd Cynaliadwy Amaethwyr Mawddwy | 5 |
| Cyngor Gwynedd | Prosiect Coedlan Glynllifon | 5 |
| Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru | Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN 2) | 5 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Dewiswyd 12 prosiect arall yn y sampl arfaethedig ar gyfer ymweliadau astudiaeth achos manwl lle y rhoddodd ystod o bartneriaid, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr adborth ehangach ar eu profiad. Dewiswyd chwe phrosiect o gyfnodau cyllido cynharach a oedd eisoes wedi'u cyfweld ar gyfer adroddiadau blaenorol, gyda'r bwriad o geisio casglu rhywfaint o ddata a gwybodaeth am ganlyniadau tymor hwy. Dewiswyd chwe phrosiect arall o blith prosiectau a ariannwyd yng nghyfnodau pedwar a phump nad oeddent wedi'u gwahodd yn flaenorol i gymryd rhan mewn unrhyw waith maes ansoddol.

Roedd y deuddeg prosiect a ddewiswyd yn y sampl yn cwmpasu ystod o leoliadau daearyddol (tri yr un o ganolbarth, gogledd, de-ddwyrain a de-orllewin Cymru), symiau cyllid a ddyfarnwyd (yn amrywio o £252,000 i £818,283) a mathau o sefydliad arweiniol (e.e., ymddiriedolaeth, elusen trydydd sector neu sefydliad o'r sector cyhoeddus). Cynhaliwyd ymweliadau gwaith maes gyda naw o blith y deuddeg prosiect a samplwyd. Cynhaliwyd cyfweliad dros Teams gydag arweinydd y prosiect yn unig ar gyfer dau brosiect arall. Cynhaliwyd cyfanswm o 32 o gyfweliadau ar draws y prosiectau astudiaeth achos hyn.

**Tabl 2.2: Prosiectau astudiaethau achos SMS a gyfrannodd at yr adroddiad gwerthuso terfynol**

| Sefydliad Arweiniol | Teitl y prosiect | Cyfnod cyllido |
|---|---|---|
| Partneriaeth Pennal | Pennal 2050 | 2 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Partneriaeth Tirwedd Caerffili | 2 |
| Cwm Arian Renewable Energy | Creu Cysylltiadau Gwell | 3 |
| RSPB | Cynnal Gwastadeddau Gwent | 3 |
| Cymdeithas Mwynder Cymunedol Talyllychau | Prosiect LAND Lleol – Talyllychau a Chwm-du | 4 |
| Gelligaer a Merthyr | Cydweithredu ar y Comin - Common Collaboration | 4 |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt | Cors Caron | 5 |
| Grŵp Cydweithredol Maesmawr | Pobl a Natur – Gweithio Gyda'n Gilydd | 5 |
| Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru | Coetir a Dŵr | 5 |
| Cyngor Gwynedd | Dawnsio ar y Dibyn | 5 |
| Grŵp Elenydd Cyf | Atebion Naturiol yn Elenydd | 5 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Er mwyn cynnal cyfweliadau â rhanddeiliaid fel rhan o'r adroddiad diweddaru hwn, gofynnwyd am fanylion cyswllt gan Lywodraeth Cymru. Darparwyd cyfanswm o naw enw cyswllt gan Lywodraeth Cymru o bobl i'w cyfweld a allai ddymuno cyfrannu at y cam hwn o'r gwerthusiad. O blith y rhain, cyfwelwyd â thri, gwrthododd pedwar gymryd rhan gan nad oeddent yn teimlo bod ganddynt unrhyw gyfraniad pellach i'w wneud ar ôl cyfrannu at gamau blaenorol y gwerthusiad, ac ni chafwyd ymateb gan y ddau gyswllt arall.

Dadansoddwyd nodiadau o'r cyfweliadau manwl ar sail thema, gan ddefnyddio'r penawdau o'r canllaw trafod i ddechrau, a chanfod patrymau a nodweddion cyffredin ar draws yr ymatebion a dderbyniwyd i gynhyrchu'r canfyddiadau allweddol sydd i'w gweld yn yr adroddiad hwn drwyddo draw. Mae'r canfyddiadau hyn, lle bo modd, wedi'u croesgyfeirio ar draws adroddiadau diwedd prosiect ac ymatebion ansoddol o'r arolwg ar-lein.

## 2.5. Ystyriaethau methodolegol

Mae angen ystyried y materion a ganlyn mewn perthynas â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon:

- roedd sicrhau bod staff prosiectau a ariannwyd gan SMS yn ymateb i'r arolwg neu'n cytuno i gael eu cyfweld yn heriol drwy gydol y cam gwerthuso terfynol hwn, er i ni gysylltu ag arweinwyr prosiectau'n rheolaidd i ofyn am gyfweliad dros gyfnod o dri mis ac er i Lywodraeth Cymru hefyd anfon sawl nodyn atgoffa a mynd ar drywydd pobl ar ein rhan. Mewn rhai achosion, roedd unigolion wedi symud ymlaen neu roedd y prosiect wedi dod i ben, ac nid oedd staff ar gael mwyach. Mewn achosion eraill, gwrthododd staff y cyfle i gymryd rhan oherwydd bod hawliadau heb eu talu neu broblemau ehangach eraill gyda'r cynllun SMS a oedd yn eu golygu nad oeddent yn dymuno cymryd rhan.

- anfonwyd yr arolwg ar-lein at holl brif gysylltiadau'r prosiect yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na chan y tîm gwerthuso oherwydd cyfyngiadau GDPR. Er i dîm Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i gynyddu'r gyfradd ymateb, roedd yn parhau i fod yn isel, sef traean o'r holl brosiectau a ariannwyd (yn unol â'r gyfradd ymateb a welwyd ar draws y ddau gam gwerthuso blaenorol)

- darparwyd dadansoddiad manylach o ddata ar lefel cynllun a thystiolaeth o allbynnau ar gyfer prosiectau SMS a ariannwyd ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol. Mae gwybodaeth am y cynnydd hyd yn hyn yn erbyn gwariant ar gyfer prosiectau unigol hefyd wedi'i ddarparu y tro hwn, ond nid yw hyn wedi bod ar gael i ni o'r blaen

- er y darparwyd 15 o adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect i ni i'w dadansoddi adeg drafftio'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn, mae ansawdd yr adroddiadau hyn yn amrywio ac maent yn canolbwyntio'n bennaf ar adrodd ar weithgareddau ac allbynnau prosiectau a ariannwyd. Mae llai na'u hanner yn darparu tystiolaeth fanwl o ganlyniadau

- gan mai dim ond 30% o adroddiadau gwerthuso ar ddiwedd prosiect sydd ar gael, mae hyn yn anochel yn effeithio ar allu'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn i ddod i gasgliadau ynghylch perfformiad y cynllun SMS yn ei gyfanrwydd, ond gwneir pob ymdrech i roi sylwadau ar berfformiad y prosiectau a gwblhawyd

- er y gall yr adroddiad terfynol hwn ystyried tystiolaeth o ganlyniadau mewn perthynas â chydweithio a chanlyniadau cymdeithasol ac economaidd, mae'n wir i ddweud na ellir disgwyl i ganlyniadau amgylcheddol gael eu cyflawni o fewn amserlenni'r prosiectau. Mae amserlenni cyflawni llawer o brosiectau cyfnodau pedwar a phump y cyfwelwyd â nhw wedi bod yn fyrrach (1 flwyddyn 11 mis ar gyfartaledd yng nghyfnod pump o gymharu â 3 blynedd 11 mis ar gyfer prosiectau a ariannwyd yng nghyfnod un) sydd hefyd yn effeithio ar eu gallu i wireddu eu canlyniadau'n llawn

- yn olaf, roedd dyluniad y cynllun SMS o'r cychwyn cyntaf yn ddull hyblyg o'r gwaelod i fyny a oedd yn caniatáu i brosiectau osod targedau rhifiadol ac adrodd yn erbyn dangosyddion lefel achos y Rhaglen Datblygu Gwledig a oedd yn berthnasol iddynt,

gan sicrhau eu bod yn dewis o leiaf ddau ddangosydd o'r fath. Dengys dadansoddiad o ddangosyddion lefel achos a ddewiswyd gan 50 o brosiectau SMS eu bod wedi mabwysiadu ychydig dros chwe dangosydd yr un ar gyfartaledd. O ystyried bod rhai prosiectau yn dal i fynd rhagddynt adeg y gwaith maes, rydym wedi ystyried perfformiad cyffredinol y cynllun hyd yma yn erbyn y targedau a osodwyd gan bob prosiect yn ogystal ag allbynnau terfynol y prosiectau a gwblhawyd. Mae'r olaf yn rhoi syniad mwy manwl gywir o berfformiad y cynllun.

Oherwydd y materion methodolegol uchod, sydd wedi bod yn gyson ar draws y tri chyfnod gwerthuso, mae'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn yn parhau i ddibynnu'n sylweddol ar adborth ansoddol a barn cynrychiolwyr y prosiectau a gyfwelwyd. Nid oes gan y gwerthusiad hwn ar lefel cynllun fynediad at ddigon o dystiolaeth werthuso o ansawdd uchel ar lefel prosiect y gellir ei gwirio neu ei chefnogi gan ddata neu dystiolaeth ddogfennol mewn llawer o achosion.

Er gwaethaf yr ystyriaethau methodolegol uchod, mae’r adroddiad gwerthuso terfynol hwn ar draws yr holl ddulliau methodolegol a ddefnyddiwyd – ymatebion i arolygon, cyfweliadau, ymweliadau manwl, a dadansoddiad o dystiolaeth ddogfennol – wedi dadansoddi gwybodaeth a gasglwyd gan 38 o blith y 50 (neu dri chwarter) o brosiectau SMS a ariannwyd mewn rhyw ffurf [troednodyn 12].

Troednodiadau

[12] Ystyriwyd ymatebion dyblyg ar draws yr amrywiol ddulliau methodolegol.

# 3. Trosolwg o ganfyddiadau'r gwerthusiad o'r SMS hyd yma

Yn y bennod hon, rydym yn nodi’n fras yr argymhellion allweddol a gynigiwyd yn adroddiad diweddaru cyntaf y gwerthusiad yn 2020 ac ail adroddiad diweddaru'r gwerthusiad o ddiwedd 2021. Ceir crynodeb manylach o’r canfyddiadau allweddol a’r argymhellion o’r ddau adroddiad blaenorol yn Atodiad B.

## 3.1. Adroddiad Diweddaru 2020 y Gwerthusiad

Roedd yr adroddiad diweddaru cyntaf yn adroddiad proses a oedd yn amlinellu'r ddamcaniaeth newid y dylid ei defnyddio yn y gwerthusiad hwn (gweler Atodiad C ar gyfer model rhesymeg Damcaniaeth Newid SMS a ddatblygwyd).

Roedd adroddiad diweddaru 2020 y gwerthusiad yn cynnig wyth argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer gweddill cyfnod cyflawni’r cynllun SMS ac argymhellion ehangach a allai helpu i lywio dulliau cyllido yn y dyfodol. Fe’u hamlinellir yn Ffigur 3.1 isod:

**Ffigur 3.1: Argymhellion o adroddiad diweddaru SMS 2020**

**Argymhelliad 1:** Dylid ystyried gwersi allweddol o ran dylunio polisi ar gyfer prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd mewn unrhyw ddulliau cyllido yn y dyfodol. Dylid rhannu canfyddiadau a chanlyniadau cynnar yr adroddiad gwerthuso hwn â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru sydd wrthi’n llunio’r strwythur ar gyfer cyllido ffermio yng Nghymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod dulliau cyllido ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd yn y dyfodol yn adeiladu ar ddull cydweithredol arloesol a hyblyg yr SMS ond yn ystyried mabwysiadu amserlen gyflawni 5 mlynedd a mwy ar gyfer cynlluniau grant o'r fath yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3:** Mae sawl pwynt dysgu allweddol wedi dod i'r amlwg o broses Datgan Diddordeb a phroses ymgeisio'r SMS y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu proses ymgeisio ar gyfer unrhyw gynllun cyllido yn y dyfodol, gan gynnwys:

- yr angen am broses Datgan Diddordeb fyrrach (dim mwy na 15 tudalen o hyd)
- cyfnod datblygu o rhwng chwech a 12 mis cyn cyfnod cyflawni tair blynedd llawn
- proses asesu sy'n asesu'r cais cyfan yn hytrach nag adrannau unigol
- mwy o gyfranogiad gan CNC yn y broses asesu, er mwyn sicrhau cysondeb â blaenoriaethau rhanbarthol
- amlinellu'r dyddiadau ar gyfer cyfnodau cyllido o'r cychwyn cyntaf a chadw atynt

- proses gyflym o ymdrin â cheisiadau llwyddiannus a dyfarnu cyllid

**Argymhelliad 4:** Dylai'r rôl cymorth gan hwylusydd gael ei darparu o ddechrau cynllun cyllido yn y dyfodol a dylid ymestyn ei gylch gwaith i helpu prosiectau i bontio'r bwlch a symud o'r cam ymgeisio i'r cam cyflawni. Gallai hwyluswyr ymgymryd yn rhannol â rôl rheoli prosiectau o fewn prosiectau cydweithredol nad ydynt yn cael eu harwain gan awdurdod cyhoeddus neu gyrff anllywodraethol nes bod tîm rheoli'r prosiect wedi'i benodi.

**Argymhelliad 5:** Mae angen i Lywodraeth Cymru hwyluso ac annog rhwydweithio rhanbarthol rhwng cymheiriaid ymysg prosiectau'r SMS er mwyn rhannu profiadau a'r hyn a ddysgwyd. Dylai'r sesiynau hyn fod yn sesiynau rheolaidd (bob chwarter o leiaf ym mhob rhanbarth), a gynhelir ar y safle lle bo hynny'n bosibl, a dylent gynnwys mewnbwn gan Lywodraeth Cymru a CNC.

**Argymhelliad 6:** Dylid ymchwilio'n llawn hefyd i gyfleoedd i ymgysylltu'n fwy rhwng yr SMS a CNC. Byddai seminar polisi i staff CNC i ledaenu’r gwersi cynnar o’r SMS yn galluogi gwell dealltwriaeth o’r cynllun. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried ffyrdd o annog CNC i ymgysylltu'n fwy cyson â phob prosiect SMS ledled Cymru.

**Argymhelliad 7:** Dylid cynyddu capasiti tîm polisi Llywodraeth Cymru fel bod digon o amser ac adnoddau staff ar gael i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer ystod mor eang o brosiectau cymhleth ac amrywiol a ariennir gan yr SMS ar gyfer y cyfnod sy'n weddill.

**Argymhelliad 8:** Mae angen adolygu ac addasu gweithdrefn hawliadau gyfredol RPW ar unwaith fel y gall fod yn fwy ymatebol i anghenion yr SMS. Dylid trefnu hyfforddiant i sicrhau bod holl staff Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â hawliadau yn deall natur cynlluniau grant ar raddfa'r dirwedd a goblygiadau oedi wrth gyflawni. Dylid ystyried sefydlu tîm pwrpasol o fewn RPW, er mwyn caniatáu prosesau asesu a chymeradwyo symlach, a dyrannu unigolyn penodol ar gyfer pob prosiect SMS i ymateb yn brydlon i ymholiadau.

## 3.2. Adroddiad Diweddaru 2021 y Gwerthusiad

Roedd yr adroddiad diweddaru nas cyhoeddwyd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2021 yn nodi rhai casgliadau ac argymhellion pellach yn unol â’r amcanion allweddol a bennwyd ar gyfer y gwerthusiad.

Roedd adroddiad diweddaru 2021 y gwerthusiad yn cynnwys chwe argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu hystyried:

**Ffigur 3.2: Argymhellion o adroddiad diweddaru SMS 2021**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu rhestr wirio glir ar gyfer diwedd prosiectau a ariennir er mwyn sicrhau y gellir darparu’r data, y wybodaeth a’r dystiolaeth mewn gwerthusiadau diwedd prosiect o ansawdd uchel sy’n darparu dadansoddiad cadarn o ganlyniadau ac effeithiau ar lefel prosiect. |
| **Argymhelliad 2:** Mae angen i ddata gwiriadwy sy’n ymwneud ag allbynnau prosiectau SMS, a data sy’n ymwneud â chyflawni a rheolaeth ariannol y cynllun gael eu rhannu’n rheolaidd ac yn amserol gan RPW gyda thîm polisi Llywodraeth Cymru, ac wedi hynny, gyda thîm gwerthuso’r cynllun. |
| **Argymhelliad 3:** Dylai RPW addasu ei ddull o ailbroffilio hawliadau er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach o ran gwariant ar brosiectau. Dylai hyn gynnwys proses lle y gall arweinwyr prosiectau drafod materion yn bersonol fel y gellir datrys unrhyw faterion sy'n codi'n gyflym. |
| **Argymhelliad 4:** Mae pryderon cynnar wedi'u codi y bydd rhai o'r manteision amgylcheddol sy'n deillio o brosiectau SMS yn cael eu colli heb waith cynnal a chadw blynyddol. O'r herwydd, dylid ystyried darparu cronfa cynnal a chadw fel etifeddiaeth barhaus y cynllun grant. |
| **Argymhelliad 5:** Mae’r oedi a brofwyd gan yr SMS a’r diffyg eglurder o ran yr adroddiadau gofynnol ar allbynnau a chanlyniadau yn golygu mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i’w hystyried hyd yma. Byddai'n fuddiol ailedrych ar y fethodoleg a'r amseriad ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol ar lefel cynllun, er mwyn gwella'r cyfle i ddadansoddi'n gadarn yr holl ffynonellau tystiolaeth posibl a fydd ar gael tuag at ddiwedd y cynllun cyllido. |
| **Argymhelliad 6:** O ran gwersi penodol i'w dysgu ar gyfer dulliau cyllido yn y dyfodol, nid yw model cyflawni presennol yr SMS yn gweithio.<br><br>Er bod egwyddorion dylunio'r SMS wedi cadw at egwyddorion SMNR, mae angen i unrhyw gronfa yn y dyfodol hefyd gael ei strwythuro mewn modd sy'n adlewyrchu amcanion y cynllun ac sy'n cyd-fynd ag egwyddorion SMNR. Dylai:<br><br>• gael ei reoli gan un tîm gyda'r un cyfrifoldeb rheoli am ddylunio, cyflawni a monitro'r cynllun |

- bod yn hyblyg ac yn ymatebol i newidiadau yn ystod oes y prosiect, a bod yn gymesur â’r disgwyliad cyllido
- cael ei lywio gan fframwaith wedi'i arwain gan ganlyniadau sydd wedi’i nodi’n glir o’r cychwyn cyntaf
- sefydlu prosesau gweinyddu grantiau sy'n adlewyrchu amcanion cyllido ac anghenion penodol prosiectau cydweithredol a arweinir gan bartneriaeth
- darparu cymorth hwyluso parhaus i bartneriaethau a ddatblygir yn y gymuned sy'n cael eu harwain gan ffermwyr
- darparu sefydlogrwydd cyllido hirdymor dros o leiaf bedair blynedd lawn

# 4. Y cyd-destun polisi

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad byr ar ddatblygiadau polisi perthnasol ers i'r SMS gael ei ddylunio'n wreiddiol.

## 4.1. Rhaglen Lywodraethu 2021-2026

Mae rhaglen newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y cylch pum mlynedd hwn yn amlygu'r angen i ymgorffori ei hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wna.[troednodyn 13]. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i gyflawni trawsnewidiad gwyrdd sy'n dechrau mewn cymunedau lleol ac i integreiddio camau gweithredu cadarnhaol er budd natur i fwy o'i gweithgaredd economaidd [troednodyn 14]. Mae amcanion penodol sy'n berthnasol i'r SMS yn cynnwys yr ymrwymiad i:

- fanteisio ar botensial economaidd, diwylliannol a hamdden y Goedwig Genedlaethol gan adeiladu ar y cynnydd tuag at greu diwydiant coed cynaliadwy
- creu system newydd o gymorth ffermio a fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio
- ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol [troednodyn 15]

Troednodiadau

[13] Llywodraeth Cymru (2021), Rhaglen Lywodraethu, tud. 4

[14] Ibid.

[15] Ibid.

## 4.2. Papur Gwyn Amaeth (Cymru) [troednodyn 16]

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn Amaeth (Cymru) a oedd yn amlinellu ei chynlluniau ar gyfer y newid mwyaf mewn polisi amaethyddiaeth ers degawdau, gyda'r bwriad o bennu deddfwriaeth sylfaenol yn ystod tymor y Senedd bresennol (2021-26).

Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod rôl y sector amaethyddiaeth wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol ac mae'n cyflwyno system gymorth ar gyfer y dyfodol sy'n seiliedig ar egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu sut y byddai Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer polisi a chymorth yn y dyfodol, gan wobrwyo ffermwyr am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac am eu cyfraniad at iechyd a lles yng Nghymru. Mae'r Papur Gwyn yn nodi bwriad i gynnig un cynllun cymorth uniongyrchol ar gyfer ffermwyr a fyddai'n disodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol a chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yr UE sydd ar waith ar hyn o bryd.

Byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) hwn yn gwobrwyo ffermwyr i gynhyrchu nwyddau ychwanegol nad oes marchnad iddynt gan gynnwys gwella'r pridd, aer glân, dŵr glân, gwella cyflwr cynefinoedd a chamau i leihau cynhesu byd-eang.

Yn dilyn ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Amaeth (Cymru) a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb polisi a'i blaengynllun sy'n arwain at lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2025.

## 4.3. Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022

Gosodwyd y Bil Amaethyddiaeth drafft gerbron y Senedd ym mis Medi 2022.

Mae'r Bil yn sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer polisi amaethyddol yn y dyfodol. Mae'n fframwaith polisi a 'wnaed yng Nghymru' sy'n canolbwyntio ar gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ochr yn ochr â gweithredu i ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur a chyfrannu at gymunedau gwledig ffyniannus.

---

Troednodiadau

[16] Bil Amaethyddiaeth (Cymru) (Llywodraeth Cymru)

## 4.4. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Yn ystod y cam cyd-ddylunio cychwynnol i alluogi ffermwyr, tirfeddianwyr, cyrff anllywodraethol a rhanddeiliaid i ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cyhoeddwyd y byddai’n cynnwys tair lefel:

- elfen gyffredinol a fydd ar gael i bob ffermwr
- taliad lefel uwch lle y darperir mwy o gyllid ar gyfer mwy o gamau gweithredu
- taliadau ychwanegol am gamau cydweithredol

Cyhoeddwyd rhagor o fanylion am ddatblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer ail gam y gwaith cyd-ddylunio.

Nod y cynllun yw cefnogi ffermwyr i gyflawni pedwar amcan allweddol:

- cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy
- lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a’r manteision y maent yn eu darparu
- gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, gan hyrwyddo mynediad i’r cyhoedd ac ymgysylltu [troednodyn 17]

Mae'r cynllun yn cydnabod bod yn rhaid i'r amcanion hyn gael eu cyflawni gyda'i gilydd ac mae'n bwriadu gwneud hynny drwy ddefnyddio dull 'rhannu tir' sy'n golygu bod canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yn cael eu cyflawni drwy fabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy.

Mae’r ddogfen yn amlinellu tair haen i’r Cynllun, ac un ohonynt yw ‘Gweithredoedd Cydweithredol’ i’w cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig gan nifer o ffermwyr neu reolwyr tir ar raddfa tirwedd, dalgylch neu'n genedlaethol er mwyn esgor ar fwy o fanteision na phe baent yn cael eu cyflawni gan ffermwyr unigol. Ymysg yr enghreifftiau o gamau cydweithredol o’r fath mae creu cynefinoedd sy'n cysylltu â'i gilydd, datblygu cyfleoedd o fewn cadwyni cyflenwi, a rhannu gwybodaeth ac arloesedd.[troednodyn 18] Mae’n cydnabod y bydd camau cydweithredol yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr, rheolwyr tir ac unigolion eraill nad ydynt yn rhan o’r Cynllun gymryd rhan mewn prosiectau ar y cyd.

Troednodiadau

[17] Llywodraeth Cymru (2022), Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Cynigion Bras ar gyfer 2025, tud. 9

[18] Ibid., tud.15

Mae'n amlygu'r angen tebygol am sefydliad, hwylusydd, neu strwythur cymorth trydydd parti i ddod â'r gwahanol ffermwyr, rheolwyr tir ac unigolion at ei gilydd er mwyn iddynt allu gweithredu'n llwyddiannus ac mae'n nodi y defnyddir profiad o brosiectau eraill i ddeall rôl cynghorwyr a hwyluswyr i helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau unigol a chydweithredol [troednodyn 19].

Ymhellach, noda y bydd yn 'adeiladu ar lwyddiant RPW Ar-lein a'i gymwysiadau geo-ofodol' er mwyn gallu dangos y cyfleoedd sydd ar gael i'r ffermwr o ran 'enillion ariannol a chanlyniadau amgylcheddol.[troednodyn 20]'

Mae nifer o gamau gweithredu arfaethedig wedi'u nodi yn yr SFS sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer camau cydweithredol gan gynnwys:

- lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon (gan gynnwys adfer mawnogydd lled-naturiol a chreu a rheoli amaeth-goedwigaeth a choetir presennol)
- diogelu a gwella ecosystem y fferm (gan gynnwys diogelu pridd rhag erydu a dirywio a diogelu bridiau brodorol)
- rheoli cynefinoedd a rhywogaethau (gan gynnwys cynnal a chreu cynefinoedd, bod o fudd i gynefinoedd ar dir wedi'i wella a safleoedd dynodedig, lleihau'r risg o lygredd gwasgaredig a dulliau naturiol o reoli llifogydd)
- lles pobl, anifeiliaid, a lle (gan gynnwys cynnal yr amgylchedd, treftadaeth a harddwch hanesyddol a galluogi pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a mynd iddo) [troednodyn 21].

Os yw ffermwyr yn dymuno bod yn rhan o'r cynllun, bydd gofyn iddynt gwblhau Adolygiad o Gynaliadwyedd ac ymuno â'r Cynllun drwy RPW Ar-lein. Bydd meini prawf ar wahân i fod yn gymwys am haen Gydweithredol y Cynllun, gan gydnabod y bydd angen prosiectau ar y cyd ar gyfer yr elfen hon. Bydd y meini prawf arfaethedig yn cael eu trafod maes o law.

Y meddylfryd polisi presennol, a nodir yn y ddogfen, yw Cyfnod Paratoi a Threialu (2022-24) i helpu i baratoi ffermwyr i fod yn y sefyllfa orau i ymuno â'r SFS. Yn y cyfamser, bydd y Cynllun Taliad Sylfaenol a Glastir yn parhau, yn ogystal â fframwaith o gyllid ychwanegol ar gyfer y cyfnod pontio. 2025-2029 fydd y Cyfnod Pontio wrth i'r Cynllun Taliad Sylfaenol ddod i ben yn raddol [troednodyn 22].

Troednodiadau
[19] Ibid., tud.60
[20] Ibid., tud.61
[21] Ibid tud. 19-56
[22] Ibid, tud. 64-65.

## 4.5. COP 15 Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang

Daeth Cynhadledd Fioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (COP15) a gynhaliwyd yng Nghanada ym mis Rhagfyr 2022 i ben gyda chytundeb i arwain camau gweithredu byd-eang ar fyd natur hyd at 2030 [troednodyn 23]. Mae Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal yn nodi mesurau i atal a gwrthdroi colledion natur, gan gynnwys diogelu 30% o’r blaned a 30% o ecosystemau sy'n dirywio erbyn 2030.

Mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn cynnwys pedwar nod byd-eang trosfwaol a 23 o dargedau. Mae’r pedwar nod yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer bioamrywiaeth erbyn 2050:

- cynyddu'n sylweddol arwynebedd ecosystemau naturiol drwy gynnal, gwella, neu adfer uniondeb, cysylltedd a gwytnwch pob ecosystem.
- sicrhau bod cyfraniadau natur i bobl yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnal a’u gwella, ac adfer y cyfraniadau hynny sy’n prinhau ar hyn o bryd.
- rhannu manteision ariannol ac anariannol defnyddio adnoddau genetig
- sicrhau bod gan bob parti (yn benodol gwledydd sy'n datblygu) ddulliau digonol i roi adnoddau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar waith

Mae’r targedau byd-eang ar gyfer 2030 yn cynnwys:

- gwarchod a rheoli o leiaf 30% o diroedd, dyfroedd mewndirol, ardaloedd arfordirol, a chefnforoedd y byd yn effeithiol, gyda phwyslais ar feysydd o bwysigrwydd arbennig i fioamrywiaeth a gweithrediad a gwasanaethau ecosystemau. Cyfeiriwyd at hyn yn anffurfiol fel y fargen '30 wrth 30'.
- haneru gwastraff bwyd byd-eang a lleihau gorddefnydd a chynhyrchu gwastraff yn sylweddol
- haneru maetholion gormodol a'r risg gyffredinol a achosir gan blaladdwyr a chemegau hynod beryglus
- dirwyn cymorthdaliadau sy’n niweidio bioamrywiaeth i ben yn raddol, neu eu diwygio, ar gyfradd o $500 biliwn y flwyddyn o leiaf, a chynyddu cymhellion cadarnhaol ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth
- annog o leiaf $200 biliwn y flwyddyn mewn cyllid domestig a rhyngwladol sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth o ffynonellau cyhoeddus a phreifat
- cynyddu llif ariannol rhyngwladol o wledydd datblygedig i wledydd sy’n datblygu i o leiaf $20 biliwn y flwyddyn erbyn 2025, ac i o leiaf $30 biliwn y flwyddyn erbyn 2030

Troednodiadau

[23] COP15: Nations Adopt Four Goals, 23 Targets for 2030 In Landmark UN Biodiversity Agreement (Convention on Biological Diversity (cbd.int))

- ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau trawswladol a sefydliadau ariannol fonitro, asesu a datgelu effaith eu gweithrediadau, eu cadwyni cyflenwi a'u portffolios ar fioamrywiaeth

### 4.6. Ymarfer Plymio Dwfn Bioamrywiaeth

Gan ragweld y cytundeb COP15, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp o arbenigwyr allweddol i gynnal ymarfer Plymio Dwfn Bioamrywiaeth yn ystod haf 2022. Cafodd y grŵp y dasg o ddatblygu camau gweithredu y gallai Cymru eu cymryd i gefnogi adferiad byd natur, ac i gyrraedd y nod o ddiogelu 30% o dir, dŵr croyw a môr ar gyfer byd natur erbyn 2030. Mae'r nod hwn yn un o'r targedau sy'n rhan o Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang COP15 a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2022.

Mewn datganiad ysgrifenedig ar yr ymarfer Plymio Dwfn Bioamrywiaeth [troednodyn 24] (Hydref 2022) cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd Julie James AS y camau gweithredu ar y cyd y gallai Cymru eu cymryd i gefnogi adferiad byd natur. Cynigiwyd cyfanswm o wyth argymhelliad [troednodyn 25]:

- trawsnewid y gyfres o safleoedd gwarchodedig er mwyn i'r gyfres fod yn well, yn fwy, a chael ei chysylltu'n fwy effeithiol
- creu fframwaith i gydnabod Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur a Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar sail Ardal (OECMs) sy'n cyflawni canlyniadau bioamrywiaeth
- rhyddhau potensial tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) i gyflawni mwy ar gyfer natur a 30 erbyn 30
- parhau i ddiwygio gwaith rheoli a chynllunio tir a morol (gan gynnwys gofodol) i gyflawni mwy ar gyfer safleoedd gwarchodedig a thir / morweddau yn ehangach
- adeiladu sylfaen gref ar gyfer cyflawni yn y dyfodol drwy ddatblygu capasiti, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau
- rhyddhau cyllid cyhoeddus a phreifat er mwyn cyflawni ar gyfer natur yn gyflymach ac ar raddfa fwy
- datblygu ac addasu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at y targed 30x30 a llywio'r broses o flaenoriaethu camau gweithredu
- rhoi Adfer Natur wrth wraidd polisi a strategaeth mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru

---

Troednodiadau
[24] Datganiad Ysgrifenedig: Plymio Dwfn Bioamrywiaeth (3 Hydref 2022) ( Llywodraeth Cymru)
[25] Plymio dwfn bioamrywiaeth: argymhellion [HTML] (Llywodraeth Cymru)

# 5. Canfyddiadau allweddol: gweithredu'r SMS

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r adborth a gafwyd gan brosiectau yn ystod cyfweliadau a thrwy ymatebion i arolygon mewn perthynas â'u gallu i weithredu eu prosiectau yn unol â'r bwriad ac i reoli'n ymaddasol. Mae hefyd yn cofnodi barn prosiectau, a ariannwyd yn y tri chyfnod cyllido olaf, ynghylch sut y bu i Lywodraeth Cymru fonitro a rheoli'r cynllun – o ran RPW a rolau'r tîm polisi. Mae'r adran hon hefyd yn amlinellu barn prosiectau am yr elfennau allweddol sydd eu hangen i wireddu prosiect cydweithredol ar raddfa tirwedd yn effeithiol ac yn effeithlon.

## 5.1. Y gallu i gyflawni prosiectau yn unol â'r bwriad

Cyfeiriodd y 21 o brosiectau a gyfwelwyd yn ystod y rownd hon o'r gwerthusiad at faterion a rhesymau a oedd wedi effeithio ar eu gallu i gyflawni eu prosiect yn unol â'r bwriad, a oedd yn debyg i'r rhai a grybwyllwyd yn adroddiadau diweddaru blaenorol y gwerthusiad.

Dywedodd tri chwarter y prosiectau a ariannwyd (15) fod materion gweinyddol wedi'i gwneud yn heriol cyflawni'r prosiectau yn unol â'r bwriad. Disgrifiwyd yr heriau hyn fel:

- cyfnod cyflawni byrrach
- oedi cyn cymeradwyo trefniadau caffael
- heriau'n ymwneud â llif arian
- oedi'n ymwneud ag elfennau gweinyddol eraill - gan gynnwys oedi wrth ailbroffilio oherwydd gwall gweinyddol, oedi cyn cael cytundeb gan CNC ynghylch defnydd tir a chaniatâd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (2) ac oedi cyn cael caniatâd cynllunio yn lleol (2)

Roedd bron i hanner y prosiectau a gyfwelwyd (10) wedi profi oedi o ran cael cymeradwyaeth gychwynnol er mwyn caniatáu i'w prosiect ddechrau. Mewn dau o'r achosion hyn, arweiniwyd y prosiectau gan awdurdod lleol ac ymddiriedolaeth fawr a oedd wedi penderfynu bwrw ymlaen a chymryd risg a defnyddio ei harian cyfatebol i ddechrau gwaith cyfalaf. Fodd bynnag, nid oedd ymddiriedolaethau llai a grwpiau buddiant cymunedol wedi bod mewn sefyllfa ariannol i wneud hyn ac roeddent wedi cael eu gwasgu i gyfnod cyflawni byrrach fyth o ganlyniad. Soniodd pob un o’r prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnod 5 y cyfwelwyd â nhw sut yr oedd eu cyfnod cyflawni byrrach (yn aml dim mwy na deunaw mis o’i gymharu â’r tair blynedd ddisgwyliedig) wedi’i gwneud yn amhosibl cyflawni holl uchelgeisiau eu cynllun gwreiddiol. Mewn un enghraifft, roedd y prosiect yn amcangyfrif nad fyddai tua £80,000 o'r gwaith yn cael ei gyflawni.

Codwyd heriau ynghylch llif arian a chaffael gan brosiectau a arweiniwyd gan ymddiriedolaethau llai. Arweiniodd yr anallu i fforddio cychwyn prosiect a 'chymryd risg' at oedi o ddwy flynedd cyn cael cymeradwyaeth derfynol ar gyfer un prosiect a chwe mis ar gyfer un arall. Roedd oedi wrth brosesu hawliadau wedi golygu nad oedd modd i un ymddiriedolaeth dalu contractwyr na hyd yn oed gyflog eu swyddog prosiect eu hunain am gyfnod tra roedd yn aros i hawliadau gael eu setlo (gydag oedi hir cyn cael cymeradwyaeth).

Y pandemig COVID-19 oedd y mater a grybwyllwyd gan fwy na hanner (11/21) y prosiectau a gyfwelwyd, gyda'r rhai o Gyfnodau 2-4 yn fwy tebygol o godi hyn fel rheswm dros orfod addasu na'r rhai yng Nghyfnod 5 (gan fod cymeradwyaeth a'r amserlen gyflawni yn fwy tebygol o ddod o fewn y cyfnod pan oedd cyfyngiadau mwy difrifol ar waith). Roedd y pandemig wedi effeithio ar brosiectau mewn gwahanol ffyrdd. Disgrifiodd rhai sut yr oedd wedi lleihau eu gallu i gynnal sesiynau hyfforddi, gweithgareddau cymunedol neu ddigwyddiadau. Fodd bynnag, mewn un achos, er bod COVID-19 wedi lleihau eu gallu i gyflawni, roedd hefyd wedi cael effaith gadarnhaol o ran ysgogi'r gymuned i weithredu gan arwain at fwy o bobl leol yn cymryd rhan.

Teimlai traean o'r prosiectau (7 o blith 21) ei bod wedi bod yn anos ymgysylltu â thirfeddianwyr neu'r gymuned leol nag yr oeddent wedi'i ragweld yn wreiddiol. Rhoddwyd nifer o resymau am hynny, gan gynnwys:

- oedi cychwynnol a arweiniodd at golli diddordeb, ffydd a momentwm
- ffermwyr a thirfeddianwyr dan bwysau cynyddol ac yn llai parod i gyfrannu amser neu arian
- datblygu perthnasoedd gyda rhanddeiliaid yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd
- colli staff mewnol i ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu
- cyfyngiadau'n gysylltiedig â'r pandemig yn ei gwneud yn anoddach dod â phobl ynghyd.

Roedd tri phrosiect a ariannwyd yng Nghyfnod 5 yn credu bod Brexit wedi effeithio ar y gallu i gyflawni eu prosiect yn unol â'r bwriad, yn sgil contractwyr yn penderfynu tynnu'n ôl o weithio yng Nghymru a bod deunyddiau anoddach cael gafael arnynt. Soniodd dau brosiect (y ddau wedi'u hariannu yng Nghyfnod 5) sut yr oedd costau cynyddol a chynnydd mewn prisiau wedi effeithio ar eu gallu i gyflawni'r prosiect – roedd contractwyr yn brysur, ac roedd cost deunyddiau'n codi bron bob mis. Roedd y prosiectau hyn hefyd wedi profi oedi cyn i'r trefniadau caffael gael eu cymeradwyo ac roedd hynny'n gwaethygu'r sefyllfa ymhellach. Dywedodd dau brosiect fod y tywydd wedi effeithio ar eu gallu i gyflawni yn unol â'r bwriad.

## 5.2. Effeithiolrwydd trefniadau rheoli a monitro Llywodraeth Cymru

Roedd sylwadau a wnaed gan arweinwyr prosiectau mewn cyfweliadau neu adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect ynghylch rheoli a monitro’r SMS yn ymdrin yn fras â dwy thema, ac rydym yn eu trafod yma yn eu tro.

Yn gyntaf, cyfeiriodd dros eu hanner (18 o blith 33) at broblemau'n ymwneud â hawliadau SMS, gan barhau ag adborth tebyg i'r hyn a adroddwyd o ddechrau gwerthusiad y cynllun. Roedd arweinwyr y prosiectau'n cwyno:

- bod system RPW yn 'anodd,' yn 'gymhleth,' yn 'rhwystredig iawn' a 'ddim yn reddfol' (8)
- bod y 'pyst' (neu ganllawiau a rheolau) yn newid yn gyson, bod cael cyngor anghyson gan wahanol swyddogion RPW, neu'n aros am wythnosau i gael atebion i gwestiynau, gan achosi oedi pellach (8)
- bod hawliadau’n cymryd amser hir i’w prosesu o hyd, yn aml yn cael eu ‘hoedi’ a ‘ddim yn cael eu talu’n brydlon’ (7)
- bod swyddogion prosiectau wedi treulio llawer o amser yn gweinyddu hawliadau gan wneud y prosiect yn fwy aneffeithlon (4)
- bod oedi cyn cael cymeradwyaeth yn golygu bod y berthynas rhwng y prosiect a’r cyllidwr wedi’i ‘thanseilio o’r dechrau’ (3)

  'rydych chi'n treulio dau ddiwrnod yr wythnos yn gweithio ar y gweithdrefnau gweinyddol...mae'n ddau gam ymlaen, tri cham yn ôl...mae'n digalonni rhywun'

- bod RPW yn ailgysylltu â phrosiectau'n gyson i gael gwybodaeth ychwanegol (2)
- dim ond un hawliad ar y tro y gall prosiectau ei gyflwyno (2) sy'n cael effaith negyddol ar lif arian

Awgrymodd sawl arweinydd prosiect a gyfwelwyd fod y sefyllfa wedi gwaethygu'n ddiweddar, yn sgil newid y system archwilio y llynedd. Roedd hi bellach yn anoddach fyth cyflwyno hawliadau, ac roedd yr amser aros ar gyfer prosesu yn hwy fyth. Yn yr un modd, cyfeiriodd pedwar arweinydd prosiect a gyfwelwyd at newidiadau i reolau caffael ac amodau arbennig sy'n ei wneud yn fwy beichus. Disgrifiwyd proses gaffael a oedd yn gofyn am ffurflen a phroses ymgeisio ar gyfer yr holl wariant dros £500 a allai fod wedi’i ysgogi gan archwiliad yr UE. Mae’n ymddangos bod ôl-groniad canfyddedig yn RPW wrth ymdrin â hawliadau caffael hefyd wedi cael sgil-effaith ar brosesu hawliadau.

Soniodd tri arweinydd prosiect fod staff wedi bod yn gymwynasgar ac yn 'gefnogol yn ddieithriad' pan oeddent wedi llwyddo i siarad ag unigolyn yn RPW ond roedd y system ei hun yn achosi 'problemau enfawr.' Nododd dau brosiect sut y bu’r taliad ymlaen llaw (20%) yn ddefnyddiol ac awgrymodd tri phrosiect y gallai sesiynau hyfforddi ar-lein i ddeall system RPW yn well neu/a swyddog achos penodedig wedi'i neilltuo i bob prosiect o’r cychwyn fod wedi lliniaru rhywfaint ar y sefyllfa.

Mae prosiectau llai wedi cael trafferthion mawr i ymdopi â'r gofynion a osodwyd arnynt. Disgrifiodd un ymatebydd sut yr oedd yn disgwyl lefel o ymddiriedaeth ar ôl i’r cyllid gael ei ddyrannu, a'i fod wedi cael ei farnu ar y canlyniadau:

> “Mae ymyrraeth gyson, mae'r bar yn cael ei godi a mwy a mwy o gamau'n cael eu cyflwyno. Bu adegau pan nad oedd arian ar gael i dalu'r staff. Rydyn ni'n gwneud popeth yn iawn ac yn drwyadl yn ein gweithgareddau ariannol ond nid yw Llywodraeth Cymru yn ymddiried ynom”.

Disgrifiodd pedwar ymatebydd o sefydliadau mwy, gyda phrofiad o gyllid Ewropeaidd a systemau hawliadau grant blaenorol, sut yr oedd eu profiad gyda’r SMS wedi bod yn wahanol i unrhyw gynllun blaenorol ac yn anoddach na’r disgwyl o ran y drefn fiwrocrataidd a’r llwyth gwaith a ddeilliodd ohono. Mynegwyd rhwystredigaethau tebyg ganddynt am ddiffyg ymddiriedaeth:

> “Rydym wedi bod yn aros am naw mis i hawliad gael ei brosesu. Rydym yn awdurdod mawr felly gallwn ymdopi gydag aros i dros gan mil o bunnoedd gael eu talu - ond dychmygwch pe bai hyn wedi bod yn ffermwyr! Byddai'r prosiect hwn wedi mynd ar chwâl. Mae system hawliadau gyfan WEFO yn aneffeithiol. Mae'n amhosibl. Fel awdurdod dylai ein systemau archwilio gyfrif am rywbeth. Dylen nhw ymddiriedaeth ynom ni.”

Mae data a dderbyniwyd gan RPW ar amseroedd prosesu hawliadau mewn perthynas â phrosiectau a ariannwyd gan SMS yn dangos iddi gymryd 46 diwrnod ar gyfartaledd i brosesu hawliadau. Roedd hyn yn amrywio o gyfnod cwblhau dau ddiwrnod i 264 diwrnod i brosesu hawliadau. Mae'r data'n dangos, yn achos 11 o'r 50 prosiect, bod yr amser prosesu yn llai na 30 diwrnod. Mewn saith achos, cymerodd hawliadau prosiect fwy na 60 diwrnod i'w prosesu. Mae’r data a ddarperir wedi’i rag-rybuddio gan ddatganiad bod yr amseroedd prosesu yn cyfateb i’r amser y mae hawliad o fewn y system rheoli gwybodaeth a ddefnyddir gan RPW. Nid yw'n cynnwys yr amser y cafodd hawliad ei ohirio. Byddai hawliadau'n cael eu gohirio pe bai cwsmeriaid yn codi ymholiad dilysu hawliad. O’r herwydd, mae’n anodd canfod cyfanswm yr amser y byddai rhai prosiectau wedi gorfod aros i hawliadau gael eu prosesu (gan gynnwys amser wedi’i ohirio wrth godi ymholiadau), ond mae’n amlwg, mewn rhai achosion, y bu cyfnod amser hir (ac annerbyniol) i brosiectau aros am daliad.

Yn ail, awgrymodd dros hanner yr ymatebwyr (16) – ac yn bennaf o gyfnod pedwar neu gyfnod diweddarach – mai eu hunig berthynas â'r SMS oedd drwy RPW ac y gellid gwella’r berthynas â’r tîm polisi. Dywedodd pedwar prosiect mai ychydig iawn o gefnogaeth neu gysylltiad, os o gwbl, a gawsant gyda thîm polisi Llywodraeth Cymru. Roedd dau ymatebydd yn cofio mynychu digwyddiad Rhwydweithiau Gwledig ym mis Mehefin 2022 a siarad ag aelod o dîm polisi SMS am gyfleoedd cyllido yn y dyfodol.

> “Roedden ni'n teimlo'n unig iawn yn gwneud yr SMS.”

> “Yn ddelfrydol dylai fod gennym swyddog achos penodedig, fel gyda'r Loteri, sy'n gallu delio â ni.”

Roedd yr adborth a gasglwyd o adroddiadau gwerthuso ar ddiwedd prosiectau (6) yn awgrymu nad oedd syniadau, gwybodaeth ac arbenigedd wedi cael eu rhannu ar draws prosiectau a bod cyfle wedi'i golli i hyrwyddo mwy o gysylltiadau rhwng prosiectau SMS a'r cynlluniau peilot sy'n dod i'r amlwg a ddylai fod yn flaenoriaeth ar gyfer y cyllid SFS newydd.

Disgrifiodd tri phrosiect berthynas dda iawn gyda'r tîm polisi a chyfeiriwyd at un unigolyn yn benodol a oedd wedi bod yn gefnogol. Disgrifiwyd sut yr oedd cyfarfod ag arweinydd polisi o Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddiddorol ac wedi gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Awgrymodd pedwar prosiect ei bod yn ymddangos bod tîm polisi Llywodraeth Cymru wedi 'colli diddordeb' yn yr SMS ac nad oedd ganddo'r capasiti disgwyliedig i ymgysylltu â phrosiectau.

## 5.3. Elfennau allweddol prosiectau cydweithredol effeithiol ac effeithlon ar raddfa'r dirwedd

Cyfeiriodd arweinwyr prosiectau a gyfwelwyd at nifer o wersi o'u profiad o gyflawni prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd.

Cododd pedair rhan o bump (16) o'r rhai a gyfwelwyd bwysigrwydd hyblygrwydd ac ymddiriedaeth. Ystyriwyd bod hyblygrwydd yn egwyddor SMNR allweddol yr oedd prosiectau'n dymuno i'r cynllun SMS gadw ati. Awgrymodd arweinwyr y prosiectau y byddai mwy o hyblygrwydd i symud arian o un pennawd cyllido i un arall (heb groesi'r ffiniau rhwng refeniw a chyfalaf) heb fod angen caniatâd yn ddefnyddiol. Byddai hyn yn galluogi prosiectau i ymateb i anghenion lleol wrth iddynt godi a byddai'n bodloni'n well yr egwyddor SMNR o gynllunio a rheoli lleol ymaddasol.

Dywedodd bron i dri chwarter (14) yr ymatebwyr hefyd fod angen gwell systemau gweinyddol a chanllawiau cliriach er mwyn i brosiectau allu canolbwyntio ar yr agweddau cyflawni sy'n gysylltiedig â'u prosiectau.

Cyfeiriodd hanner (10) y rhai a gyfwelwyd at bwysigrwydd trefniadau rheoli prosiect cryf a gweithdrefnau cynllunio clir a chadarn:

> "Mae hwylusydd a rheolwr prosiect profiadol a gwybodus a chanddo agwedd gadarnhaol a digon o ddyfalbarhad wedi bod yn amhrisiadwy."
>
> "Mae angen syniad clir arnoch chi o'r hyn rydych chi'n ceisio'i gyflawni – amcanion clir."
>
> "Mae angen llawer o amser swyddog prosiect arnoch chi, a phobl brofiadol sy'n deall ffermwyr a thirfeddianwyr."
>
> "Rhaid i'r syniad cychwynnol fod yn gryf. Mae angen amcanion clir arnoch chi y gallwch eu cyflawni."

Soniodd nifer tebyg (9) hefyd am bwysigrwydd cyfnod cyllido hwy. Disgrifiodd un prosiect sut yr oedd wedi cymryd pum mlynedd i ddod â’r bartneriaeth gydweithredol ynghyd, ond dim ond dwy flynedd a oedd ar gael wedyn i gyflawni'r prosiect: 'yn ddelfrydol dylai fod i'r gwrthwyneb'. Awgrymodd eraill mai cyllid craidd cynaliadwy, hirdymor (2) oedd yr unig ateb gwirioneddol.

Cyfeiriodd pedair rhan o bump o’r arweinwyr prosiectau a gyfwelwyd (16) at ba mor hanfodol oedd partneriaethau cryf, sefydledig i gydweithio llwyddiannus. Ailbwysleisiodd arweinwyr prosiectau faint o amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu ymddiriedaeth a chael ffermwyr a thirfeddianwyr i gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol, yn enwedig y rhai a all fod yn ddrwgdybus i ddechrau o sefydliadau'r sector cyhoeddus. Disgrifiodd un prosiect faint o’i waith, yr oedd angen ei gyflawni ar dir preifat, na fyddai wedi bod yn bosibl heb randdeiliaid ymroddedig a pharod. Er mwyn cyrraedd y cam hwnnw, cynhaliwyd ymweliad cynghorol gan y sefydliad arweiniol â phobl fferm er mwyn dod i gytundeb, a chrëwyd cynlluniau pwrpasol ar gyfer pob tirfeddiannwr a oedd, o’u hystyried ar y cyd, yn creu rhwydwaith o gamau gweithredu ategol ar draws y dirwedd. Soniodd arweinydd prosiect arall am yr amser a dreuliwyd yn siarad â’r gymuned ac i ddeall bod lleisiau a barnau gwahanol o fewn cymuned y mae angen eu hystyried er mwyn cytuno ar ddull gweithredu a ffordd ymlaen.

Teimlai rhai arweinwyr prosiectau fod cefnogaeth o'r tu allan yn ffactor allweddol o ran galluogi ymdrechion cydweithredol ar raddfa'r dirwedd. Er enghraifft, codwyd yr angen am ryngweithio rheolaidd â Llywodraeth Cymru (6) a chefnogaeth barhaus gan hwylusydd ar lawr gwlad drwy gydol cyfnod y prosiect (2).

Pe bai'r cynllun SMS yn cael ei ddylunio o'r newydd, awgrymodd arweinwyr prosiectau mai cadw ffocws ar egwyddorion SMNR oedd y dull cywir a theimlwyd y dylai hyn barhau (8). Byddai bron i hanner yr ymatebwyr (9) yn hoffi gweld cyfnod cyllido hwy - yn ddelfrydol tua phum mlynedd neu fwy er mwyn galluogi prosiectau i fwrw gwreiddiau a chyflawni gwell canlyniadau. Teimlai un rhan o bump o'r ymatebwyr y dylid canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol yn hytrach na chanlyniadau economaidd-gymdeithasol. Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- gwneud taliadau safonol neu fwy o daliadau ymlaen llaw i brosiectau (3)
- ailystyried a ddylai prosiectau o'r natur hon gael eu harwain gan ffermydd (2) oherwydd y gofynion gweinyddol
- cadw neu hyd yn oed gryfhau'r cam Datgan Diddordeb yn y broses ymgeisio (2).

# 6. Canfyddiadau allweddol: cydweithio a chynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau allweddol mewn perthynas â gwerth ac effeithiolrwydd y partneriaethau cydweithredol sy'n cyflawni prosiectau SMS ac yn trafod rhai o'r manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r dulliau cydweithio hyn. Mae hefyd yn ystyried i ba raddau y mae prosiectau cydweithredol yn gydnaws â'r naw egwyddor SMNR, a thystiolaeth o sut mae partneriaethau a'u cyflawniadau'n debygol o gael eu cynnal yn y dyfodol.


## 6.1. Gwerth ac effeithiolrwydd partneriaethau a threfniadau cydweithredol

Dywedodd y sefydliadau arweiniol a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cydweithio â sefydliadau'r trydydd sector yn bennaf (10 neu 83%), ac yna sefydliadau anllywodraethol (9 neu 75%). Roedd llai wedi cydweithio ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol neu AHNE (pedwar neu 25%) neu awdurdodau lleol (tri neu 25%).

Awgryma canfyddiadau'r arolwg fod cyllid SMS wedi bod yn bwysig wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau cydweithredol newydd. Dywedodd pump (neu 42%) o'r sefydliadau arweiniol a ymatebodd i'r arolwg fod SMS wedi cefnogi trefniadau cydweithredol newydd i gyflawni'r prosiect a ariannwyd, a dywedodd pedwar arall fod y cymorth wedi eu helpu i ddatblygu trefniadau cydweithredol newydd a oedd yn ychwanegol at gefnogi'r rhai a oedd yn bodoli eisoes. Roedd dau (neu 16%) yn credu ei fod wedi cefnogi trefniant cydweithredol a oedd yn bodoli eisoes ac nid oedd un (neu 8%) yn gwybod.

Awgryma canfyddiadau'r arolwg fod cydweithio mewn partneriaeth wedi dod â llawer o fanteision i brosiectau. Fel y dangosir yn Ffigur 6.1, dywedodd dwy ran o dair neu fwy o'r ymatebwyr i'r arolwg fod cydweithio wedi arwain at effeithiau cadarnhaol megis mwy o arloesi a throsglwyddo gwybodaeth, darpariaeth fwy effeithiol ar raddfa’r dirwedd, a gwell ymgysylltiad â’r gymuned leol.


**Ffigur 6.1: Effeithiau cadarnhaol cydweithio**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=29)

Yn gyffredinol, roedd llai o ymatebwyr i’r arolwg o’r farn bod cydweithio wedi arwain at effeithiau negyddol ac nid oedd traean (34% neu 10 o 29) yn meddwl y bu unrhyw effeithiau negyddol o’r fath, fel y dangosir yn Ffigur 6.2. Yr effaith negyddol y cyfeiriwyd ati amlaf oedd y cynnydd mewn baich gweinyddol, yna arafu cyflymder y gweithredu, ond roedd nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at y rhain yn fach.

**Ffigur 6.2: Effeithiau negyddol cydweithio**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=29)

Roedd pob ymatebydd i'r arolwg ac eithrio un o'r farn y byddai'n debygol iawn (69% neu 20 o blith 29) neu'n weddol debygol (28% neu 8 o blith 29) y byddai partneriaid y prosiect yn parhau i gydweithio yn y dyfodol ar ôl i gyllid yr SMS ddod i ben. Roedd yr un ymatebydd arall yn ansicr.

O blith y 21 o brosiectau a gafodd eu cyfweld yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad, disgrifiodd dros eu hanner (12) sut yr oedd cydweithio rhwng partneriaid wedi gwella yn ystod y broses o gyflawni'r prosiect SMS. Teimlai pump ei fod wedi edwino dros y cyfnod hwnnw, ac nid oedd pump arall yn meddwl y bu newid mawr yn natur neu raddau'r cydweithio. Roedd saith o blith y deg a ddywedodd eu bod wedi gweld gwelliannau mewn cydweithio yn cael eu harwain gan ymddiriedolaethau bach neu grwpiau cymunedol neu gymdeithasau, gyda’r lleill yn cael eu harwain gan awdurdodau lleol (2) neu elusen. Nid oes unrhyw batrymau amlwg eraill i'w gweld - gwelwyd gwell cydweithio ar draws gwahanol fathau o brosiectau a chyfnodau cyllido, a chafwyd enghreifftiau o berthnasoedd cryfach mewn partneriaethau hirsefydlog a phartneriaethau mwy newydd fel ei gilydd.

> “Mae dod â sefydliadau ynghyd sy'n gweithio ar un dirwedd, a hyrwyddo arfer da, gan annog dysgu a chefnogaeth yn gweithio er budd yr amgylchedd.”

> “Mae meithrin perthnasoedd gwaith dros gyfnod o amser gyda phobl sydd â'r un gwerthoedd, dealltwriaeth ac arferion gwaith tebyg yn hanfodol i lwyddiant.”

Rhoddodd y rhai a oedd wedi gweld eu partneriaethau’n ehangu neu’n datblygu dros amser nifer o enghreifftiau a rhesymau am hyn gan gynnwys:

- cyfathrebu cryf a rheolaidd wedi datblygu rhwng partneriaid y prosiect a defnyddio grwpiau llywio i fanteisio ar farn ac arbenigedd y rhai a oedd yn cymryd rhan (3)
- defnyddio proses hwyluso sy’n caniatáu i’r holl bartneriaid gael eu clywed, i nodi’r hyn y maent am ei wneud a chyfrannu’n gyfartal at ddatblygu syniadau (3)
- cysondeb o ran aelodaeth y bartneriaeth a sylweddoli dros amser y gallant gyflawni mwy drwy ddod at ei gilydd er budd pawb (3)
- dealltwriaeth glir a chyd-ddealltwriaeth o’r cychwyn cyntaf o rolau a chyfrifoldebau’r holl bartneriaid ac ymrwymiad gan bawb sy’n ymwneud â'r prosiect (3)
- ffocws parhaus gan y prosiect ar ymgysylltu â phartneriaid posibl, cymunedau o ddiddordeb ac aelodau o'r gymuned wrth i'r prosiect ddatblygu (2) - er enghraifft drwy ddatblygu gwefan yn darparu gwybodaeth fanwl am weithgaredd y prosiect a hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu

Roedd pedwar o blith y pump a deimlai fod cydweithio wedi lleihau yn ystod y broses o gyflawni prosiectau SMS yn brosiectau a gafodd symiau bach o arian ac a gyflawnwyd gan ymddiriedolaethau. Roedd y rhesymau a roddwyd am leihad yn niddordeb a'r amser a fuddsoddwyd gan aelodau partneriaethau dros amser yn cynnwys:

- newidiadau i staff unigol neu bersonél neu sefydliadau sy’n wynebu problemau gyda chapasiti mewnol (4) – er enghraifft ar lefel cyngor cymuned, ALl neu CNC
- llai o bryder am y dyfodol neu ddim angen y partner(iaid) dan sylw mwyach (2) - er enghraifft roedd cyllid SMS wedi datrys y mater a ddaeth â nhw at ei gilydd neu roedd cyfraniad y partner yn ymwneud â mater penodol
- diffyg diddordeb wrth i bartneriaid (yn enwedig tirfeddianwyr a ffermwyr) gael 'llond bol ar yr oedi', er eu bod yn llawn brwdfrydedd i ddechrau (2)

Rhoddodd un adroddiad gwerthuso ar ddiwedd prosiect enghraifft fanwl o bartneriaeth nad oedd wedi gweithio'n arbennig o dda. Roedd diffyg cytundeb ysgrifenedig gyda phob tirfeddiannwr ar y cychwyn wedi arwain at ddryswch ynghylch yr hyn a addawyd a'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r adroddiad yn cwestiynu a oedd y gofyniad i brosiectau SMS gynnwys ffermwyr ym mhob partneriaeth yn briodol gan ddod i'r casgliad mai'r 'argraff gref yw eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd artiffisial er mwyn ticio bocs. Onid gwell fyddai canolbwyntio ar ganlyniadau?' Mae'r un adroddiad gwerthuso hefyd yn disgrifio ymwneud CNC â'r prosiect fel 'siomedig o anhrefnus' yn enwedig o ystyried bod y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau yr oedd y prosiect yn helpu i fynd i'r afael â nhw yn dod o dan gylch gwaith CNC. Fodd bynnag, daeth darlun gwahanol i’r amlwg yn ystod ein cyfweliadau gwaith maes, gydag arweinydd y prosiect yn egluro sut y mae’r berthynas â CNC wedi parhau i gael ei datblygu a’i meithrin a bod y prosiect a ariennir gan yr SMS bellach yn arwain at rywfaint o

ddylanwad ar bolisi, a bod CNC yn ystyried yr hyn a ddysgwyd wrth ddatblygu ei bolisi coedwigaeth.

O blith y prosiectau na nododd unrhyw newid mawr yn ystod y cyfweliadau, teimlai'r rhan fwyaf fod eu partneriaethau eisoes yn gweithio'n dda cyn cael cyllid SMS a'u bod wedi parhau i wneud hynny.

O ran y manteision a oedd wedi'u gwireddu o ganlyniad i gydweithio, soniodd wyth prosiect am y wybodaeth a drosglwyddwyd yn sgil partneriaid yn cydweithio.

- er enghraifft, roedd un prosiect wedi datblygu ei gamau gweithredu arfaethedig yn seiliedig ar ymchwil gadarn o'r cychwyn cyntaf, ac wedi ehangu ei gysylltiadau â phrosiectau prifysgol, gan rannu'r hyn a ddysgwyd gyda grwpiau cymunedol lleol a'r ysgol leol. Roedd ganddo hefyd hyb trosglwyddo gwybodaeth ar ei wefan gymunedol.
- roedd gan un prosiect a oedd yn cwmpasu Cymru gyfan bartneriaid yn gweithio mewn ardaloedd daearyddol a oedd wedi'u diffinio'n glir, ond disgrifiwyd bod y cyfathrebu rheolaidd a'r cyfleoedd i rannu arfer da wedi cyfuno arbenigedd, codi safonau a darparu rhywfaint o atebolrwydd am y gwaith sy'n cael ei wneud.
- roedd gweithio gydag arbenigwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus dibynadwy fel CNC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt (FAWG) Cymru, wedi galluogi un prosiect a arweiniwyd gan grŵp cymunedol i gael mynediad at wybodaeth, cyngor technegol ac arbenigedd monitro a gwerthuso gwerthfawr. Roedd y gymuned ehangach yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r arbenigedd a oedd yn cael eu cyflwyno i'r broses ac wedi elwa drwy ddysgu o hynny, gan gryfhau ei gallu i lwyddo yn y dyfodol.
- canlyniad annisgwyl un prosiect oedd cydweithrediad newydd gyda Ramblers Cymru a oedd wedi mynd o nerth i nerth ac a allai o bosibl arwain at gyllido prosiect newydd. Roedd y prosiect hefyd wedi datblygu perthynas lawer gwell gyda CNC, ac roedd memorandwm cyd-ddealltwriaeth a drafodwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect hefyd wedi'i adnewyddu. Roedd aelodau'r prosiect bellach yn dylanwadu ar y Datganiad Ardal a pholisi coedwigaeth ehangach ar draws gwaith CNC.

Darparodd adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect rywfaint o dystiolaeth fyfyriol gan brosiectau a gwblhawyd ynghylch yr hyn a weithiodd yn dda, a'r hyn y gellid bod wedi'i wella o ran eu dull cydweithredol. Un o'r pethau allweddol a ddysgwyd (3) oedd bod ffurfioli cynlluniau cyflawni neu gynlluniau gwaith a oedd yn nodi cyfrifoldebau pob sefydliad partner o'r cychwyn cyntaf, ac adolygu'r rhain yn rheolaidd, yn ddefnyddiol o ran sicrhau cyfranogiad parhaus a chyflawni camau gweithredu.

Gwnaed rhai awgrymiadau hefyd drwy atebion penagored i'r arolwg ynghylch elfennau allweddol dulliau cydweithio cryf. Soniodd pum prosiect am bwysigrwydd rôl y swyddog prosiect neu reolwr y prosiect wrth gynllunio, rheoli a hwyluso'r bartneriaeth er mwyn cynnal momentwm. Disgrifiwyd rôl y swyddog prosiect fel un 'bwysig o ran gwneud penderfyniadau a rhoi camau gweithredu ar waith a bod yn ddygn ac yn benderfynol wrth eu gweithredu'.

Roedd creu cyfleoedd i'r genhedlaeth iau fod yn rhan o unrhyw gydweithrediad hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn sicrhau dilyniant yn y dyfodol.

Yn olaf, cyfeiriodd tri ymateb i'r arolwg at bwysigrwydd trosglwyddo gwybodaeth o fewn dulliau cydweithredol drwy ddulliau mwy ffurfiol megis hyfforddiant i grŵp o gymheiriaid a gweithdai i annog trosglwyddo sgiliau neu ar lefel fwy anffurfiol, drwy gyfnewid profiadau ac arbenigedd o fewn grŵp a darparu datblygiad proffesiynol parhaus.

## 6.2. Gwerth dulliau cydweithredol o ran cyflawni amcanion SMNR

Cynhaliwyd ymweliadau a chyfweliadau manwl ag ystod ehangach o unigolion o un ar ddeg o brosiectau a ariannwyd gan SMS yn ystod y cam olaf hwn o'r gwerthusiad, gyda'r nod o ganfod tystiolaeth o weithgareddau a chanlyniadau a oedd yn gydnaws â naw egwyddor SMNR.

Wrth gynnal yr ymweliadau ac wrth ddadansoddi unrhyw dystiolaeth ddogfennol ychwanegol a oedd ar gael megis adroddiadau cynnydd neu adroddiadau diwedd prosiect, roedd yn ofynnol i ymchwilwyr adrodd yn erbyn o leiaf dair neu bedair egwyddor SMNR lle roedd digon o dystiolaeth i wneud hynny. Nid oedd unrhyw ddisgwyliad y byddai pob prosiect yn gydnaws â phob un o egwyddorion SMNR i'r un graddau.

Amlinellir y casgliadau manwl fesul prosiect yn Atodiad A ond nododd yr ymarfer dystiolaeth o arferion prosiectau a gyfrannodd at y naw egwyddor SMNR. Roedd tystiolaeth gref ar draws y rhan fwyaf o brosiectau o raddfa; cydweithio ac ymgysylltu; manteision lluosog; meithrin gwytnwch a meddwl yn yr hirdymor, sy'n awgrymu bod yr elfennau hyn wrth wraidd prosiectau a ariannwyd gan yr SMS.

Nodwyd tystiolaeth dda hefyd ar draws yr egwyddorion a oedd yn weddill: rheoli mewn modd ymaddasol; cyfranogiad y cyhoedd; tystiolaeth; a chamau ataliol. Mae'r ymarfer hwn yn awgrymu'n gryf felly y gwireddwyd dyluniad a bwriad y cynllun SMS yn ei gyfanrwydd drwy gyllido prosiectau a gyfrannodd at egwyddorion SMNR ac a oedd yn gydnaws â nhw.

## 6.3. Manteision gweithio ar raddfa'r dirwedd

Roedd ychydig yn llai na thraean o brosiectau SMS (30% neu 15) yn cael eu harwain gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cyrff anllywodraethol ac awdurdodau lleol, tra bod bron i hanner (48% neu 24) yn cael eu harwain gan sefydliadau'r trydydd sector neu'r sector preifat. Roedd y pumed sy'n weddill (22% neu 11) yn cael eu harwain gan grwpiau cymunedol, yn bennaf grwpiau dan arweiniad ffermwyr. Roedd natur cydweithio mewn perthynas â'r dirwedd ar draws yr ystod eang hon o ddulliau gweithredu yn amrywio yn yr ystyr bod prosiectau a arweiniwyd gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat yn aml yn cydlynu gweithgareddau ar draws ffermydd a thiroedd eraill, tra bod y rhai a arweiniwyd gan grwpiau cymunedol yn adlewyrchu model cydweithredol o'r gwaelod i fyny gan ffermwyr eu hunain.

Waeth beth fo'r model a fabwysiadwyd, dywedodd y prosiectau a gyfwelwyd yn aml fod gweithio ar raddfa'r dirwedd wedi caniatáu iddynt fynd i'r afael â heriau allweddol o fewn y dirwedd leol a chael mwy o effaith na thrwy weithio ar sail ffermydd unigol. Roedd y prosiectau a gyfwelwyd a oedd yn cael eu harwain gan ffermwyr a thirfeddianwyr, neu yr oedd ffermwyr a thirfeddianwyr yn cyfrannu atynt, yn adrodd yn aml bod cydweithio rhwng y partneriaid hyn wedi eu galluogi i ddylanwadu ar arferion rheoli tir a'u newid ar raddfa tirwedd, a fyddai yn ei dro yn arwain at fwy o fanteision i natur ac ecosystemau lleol. Disgrifiodd dau gydweithrediad a arweiniwyd gan gyrff anllywodraethol sut yr oeddent yn gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr lleol mewn ardaloedd newydd ac yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd gwell a oedd yn cael eu sefydlu.

Mae nifer y ffermwyr sydd wedi cymryd rhan mewn prosiectau SMS wedi amrywio, gydag un prosiect wedi ymgysylltu â 386 o ffermwyr ar draws tirwedd o dros 24,000 hectar er enghraifft. Roedd enghreifftiau o fanteision cydweithio ar raddfa'r dirwedd a gasglwyd yn ystod gwaith maes y gwerthusiad terfynol yn cynnwys y canlynol:

- nododd saith prosiect SMS fod ffermwyr wedi cydweithio ar raddfa'r dirwedd i blannu ac adfer nodweddion cynefinoedd, megis coed, gwrychoedd, pyllau, a choetiroedd bach sydd yn eu tro wedi gwella cysylltedd ar draws ardaloedd mawr i gefnogi cynefinoedd a bioamrywiaeth ar raddfa fwy nag a fyddai wedi digwydd fel arall. Mewn un achos, mae ffermwyr sydd â chyfrifoldeb am 2,000 o erwau o ffermdir wedi bod yn rhan o'r prosiect i osod ac adfer nodweddion cynefinoedd o'r fath ac mewn un arall, mae'r prosiect wedi gallu delio â phroblemau'n ymwneud â gwrychoedd a rennir rhwng ffermydd lle nad oedd y naill ffermwr na'r llall yn eu cynnal a'u cadw. Mewn prosiect arall, mae 30 o bartneriaid ffermio wedi plannu coed a gwrychoedd, wedi adfer cynefinoedd, ac wedi creu pyllau. Nododd dau brosiect arall fod adfer y rhwydwaith gwrychoedd ar draws ffermdir wedi gwella cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt drwy gysylltu gwahanol gynefinoedd â'i gilydd
- mewn pedwar achos, mae cydweithio ar draws dalgylchoedd afonydd wedi arwain at fwy o fanteision. Yn un o'r achosion hyn, mae 40 o bartneriaid ffermio wedi cydweithio i gyflwyno cynllun 'slo-flo' ar draws coedwigaeth a thir amaethyddol, lle mae gweddillion coed, ceuffosydd, ac argaeau sy'n gollwng wedi'u cyflwyno i ddargyfeirio dŵr o gyrsiau dŵr ac i'r tir. Mewn ail brosiect, cymerwyd camau ar y cyd

gan 85 o ffermwyr i leihau llygredd yn sgil dŵr ffo mewn nentydd ac afonydd. Mewn un arall, mae cydweithio rhwng 12 o ffermwr lleol ar draws 15 milltir o ddalgylch uchaf afon wedi arwain at ddealltwriaeth gynyddol o effaith camau a gymerwyd ar un fferm ar fferm arall, wedi creu ymdeimlad o gydgyfrifoldeb ac wedi rhoi cyfle i ddod o hyd i atebion ar y cyd. Mewn achos arall, dadleuwyd y byddai wedi bod yn amhosibl peidio â gweithio ar lefel y dirwedd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â draenio dŵr, o ystyried cydgysylltiad y system ddraenio yn yr ardal

- mewn achos arall, dadleuwyd bod gweithio ar lefel y dirwedd wedi sicrhau bod adnoddau ariannol wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf, lle y gallai newidiadau a gwelliannau gael yr effaith fwyaf ar ansawdd dŵr
- dadleuodd un prosiect fod cydweithio rhwng ffermwyr a thirfeddianwyr wedi bod yn fodd o gynnwys ystod ehangach o bartneriaid yn y prosiect, na fyddent o bosibl yn ymgysylltu â pherchnogion fferm unigol. Roedd y rhain yn cynnwys partneriaid fel cyrff cyhoeddus, grwpiau cymunedol, sefydliadau'r trydydd sector ac ysgolion lleol. Roedd y prosiect hwn yn credu bod gweithio ar y cyd ar lefel tirwedd (yn yr achos hwn 3000 hectar o dir) wedi ei alluogi i gynnwys partneriaid allweddol eraill, fel yr awdurdod lleol, yr heddlu a gwasanaethau tân, grwpiau gwarchod y gymdogaeth a grwpiau ceffylau, na fyddent fel arall wedi ymgysylltu â pherchnogion fferm unigol i fynd i'r afael â heriau lleol megis tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn yr achos hwn, roedd partneriaid y prosiect yn credu bod gweithredu ar lefel y dirwedd wedi cael llawer mwy o effaith ar broblemau'n ymwneud â cherbydau oddi ar y ffordd gan eu bod wedi gallu gwahardd cerbydau o ardal lawer mwy nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall

## 6.4. Cynaliadwyedd prosiectau cydweithredol

O blith y 12 sefydliad arweiniol a ymatebodd i'r arolwg, roedd saith (neu 58%) eisoes wedi sicrhau ffynonellau cyllid eraill i barhau â'u prosiect ar ôl i gyllid yr SMS ddod i ben. O blith y saith hyn, roedd pedwar wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ac roedd pump wedi sicrhau ffynonellau cyllid gan gyrff anllywodraethol eraill [troednodyn 26]. Roedd tri (neu 25%) yn aros am ganlyniad cais am gyllid ac nid oedd y ddau arall (neu 17%) wedi gwneud cais am unrhyw gyllid eto ond byddent yn gwneud hynny yn y dyfodol. Gwnaed cais am ystod eang o ffynonellau cyllid a/neu fe'u sicrhawyd gan gynnwys:

- cynllun ENRaW Llywodraeth Cymru
- Cronfa Rheoli Llifogydd yn Naturiol Llywodraeth Cymru
- Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio Llywodraeth Cymru
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (gan gynnwys y Gronfa Rhwydweithiau Natur)
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys y Gronfa Rhwydweithiau Natur
- Ymddiriedolaethau Lleol
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyllid Treth Tirlenwi
- cyllid yr UE
- ffynonellau preifat, gan gynnwys cronfeydd tirfeddianwyr a chyllid ymddiriedolaeth ynni adnewyddadwy

Troednodiadau

[26] Roedd dau brosiect wedi cael y ddau

O blith y 21 o brosiectau a gyfwelwyd yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad, dywedodd mwy na'u hanner (12) eu bod yn debygol o barhau i gydweithio. O blith y rhain, roedd gan bump rai cynlluniau ar waith eisoes (rhaid cofio mai prosiectau 'byw' yw'r rhain yn bennaf a ariannwyd drwy'r cyfnodau olaf):

- cyfeiriodd tri o'r rhai a oedd â chynlluniau ar waith at geisiadau a gyflwynwyd i gronfa Rhwydweithiau Natur Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol [troednodyn 27], gyda pheth optimistiaeth y byddai tair blynedd ychwanegol o gyllid yn cael ei sicrhau pe bai'r ceisiadau'n llwyddiannus
- roedd un prosiect dan arweiniad awdurdod lleol yn chwilio am gyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin [troednodyn 28] fel ffordd debygol ymlaen i benodi swyddog tirwedd am ddwy flynedd, gyda'r disgwyliad y byddai'r rôl yn cael ei phrif ffrydio wedi hynny (yn amodol ar gyllid)
- roedd prosiect arall wedi cael cyllid yn lleol gan gynnwys cyllid o gronfa gymunedol fferm wynt leol i gyllido hyb teithio cynaliadwy yn rhannol a chyllid gan chwarel leol i gynnal gwelliannau i'r dirwedd. Roedd yn parhau i edrych ar gyfleoedd cyllido eraill er mwyn gallu datblygu ymhellach ei ddull cydweithredol mewn perthynas â'r dirwedd

O blith y prosiectau eraill a gyfwelwyd a ddywedodd eu bod yn debygol o barhau ond nad oedd ganddynt gynlluniau ar waith ar hyn o bryd i gynnal y trefniant cydweithredol, soniodd wyth am elfen gydweithredol y cynllun newydd ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru o 2025 (h.y., yr SFS) fel ffynhonnell incwm bosibl yn y dyfodol, a chyfeiriodd dau at 'SMS #2' a allai fod ar gael yn y cyfamser.

Roedd naw prosiect yn llai clir ynghylch a fyddai eu dull cydweithredol yn parhau yn y dyfodol. Teimlai dau brosiect a arweiniwyd gan awdurdodau lleol neu elusennau bywyd gwyllt eu bod yn annhebygol o barhau – gan awgrymu bod eu dull gweithredu wedi canolbwyntio ar brosiect penodol. Awgrymodd eraill na fyddent yn parhau heb gael cymorth ariannol pellach o rywle, yn aml oherwydd bod yr elfen o gynnal a chadw gwaith presennol wedi'i chynnwys mewn contractau neu bod disgwyl i ffermwyr a thirfeddianwyr lleol gynnal a chadw'r gwelliannau a wnaed (e.e. gwrychoedd) neu fod deunyddiau o safon wedi'u defnyddio gan negyddu'r angen am unrhyw waith cynnal a chadw gwirioneddol am o leiaf ddeng mlynedd. Dywedodd dau brosiect cydweithredol na fyddent yn parhau gan fod eu profiad o SMS wedi 'eu gwangalonni'.

Cododd chwe phrosiect y mater o gyllid parhaus neu gyllid ar gyfer cynnal a chadw – gan ddisgrifio sut y byddai eu hangen am gyllid yn y dyfodol gryn dipyn yn llai na chyllid yr SMS, ond y byddai angen swm bach o arian (yn cyfateb i 20% o'r lefelau presennol o bosibl) er mwyn cynnal rhai gweithgareddau neu welliannau a wnaed i'r dirwedd.

Troednodiadau

[27] Cronfa Rhwydweithiau Natur (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol)

[28] Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: prosbectws (Llywodraeth y DU) (Saesneg yn unig)

Ychydig iawn o dystiolaeth a geir mewn adroddiadau diwedd prosiect o ddull cadarn o gynnal gwaddol eu cyllid SMS. Maent yn codi'r angen am gyllid tymor hwy er mwyn sicrhau y gellir cynnal gwelliannau ac yn tynnu sylw at y ffaith bod y materion yn rhai hirdymor. Felly, mae llwyddiant o ran sicrhau cynaliadwyedd yn gymysg:

- un enghraifft lwyddiannus yw prosiect sydd wedi sefydlu cynlluniau rheoli hirdymor gyda thirfeddianwyr yn y sector preifat a chyhoeddus i gynnal y cynefinoedd newydd a sefydlwyd. Mae rhai o'r contractau i reoli'r safleoedd yn werth tua £20,000, ac mae'r cyngor lleol hefyd wedi cyllido contract o tua £5,000 ar gyfer cylchfannau blodau gwyllt. Adeg ysgrifennu'r adroddiad diwedd prosiect, dywedwyd bod y prosiect hwn 'ar y trywydd iawn i fod yn hunangynhaliol'

- arweiniodd prosiect sy'n cwmpasu Cymru gyfan, a ariannwyd gan yr SMS, at gydlynu ymdrechion ymchwil yn well a meithrin gallu ymchwil i sicrhau sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer rheoli mawndiroedd Cymru yn gynaliadwy. Trosglwyddwyd y gwaith a wnaed yn wreiddiol gan y prosiect i'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd newydd o dan CNC a all 'arwain ymlaen o waddol y prosiect SMS gydag £1.1m o gyllid ar gyfer mawndiroedd a thros £500,000 ar gyfer parciau cenedlaethol.' Sicrhawyd cyllid ar gyfer ymchwil yn y dyfodol drwy gais llwyddiannus am Gymrodoriaeth Penderfyniadau Tirwedd Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol i gefnogi datblygu polisi, strategaeth ac ymarfer ar gyfer mawndiroedd yng Nghymru. Ar lefel fwy ymarferol hefyd, defnyddiwyd cyllid yr SMS gan y prosiect i brynu dadansoddwr nwyon tŷ gwydr (methan, CO2, a H2O) cludadwy newydd, sef Licor, sy'n golygu y gellir parhau i'w ddefnyddio ledled Cymru ar gyfer arolygon cyflym a monitro safleoedd allweddol yn yr hirdymor

- mewn un prosiect, gan fod y materion sy'n cael sylw yn uniongyrchol berthnasol i sefydliadau'r sector cyhoeddus a chyrff anllywodraethol, mae'r adroddiad diwedd prosiect yn nodi y dylai fod disgwyliad i'r sefydliadau hynny wneud ymdrech ragweithiol i integreiddio'r prosiect yn eu prosesau monitro. Aiff ymlaen i ddatgan y dylai hyn fod yn elfen annatod o asesiad Llywodraeth Cymru o gyllido buddsoddiadau tebyg i'r SMS

- mae mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol mewn ffordd gydlynol ar sail dalgylch drwy gyllid prosiectau yn codi pryderon ynghylch cynaliadwyedd mewn adroddiad diwedd prosiect arall. Er bod allbynnau da wedi'u cyflawni yn ystod cyfnod cyllido'r prosiect, ac er y gwnaed ymdrechion i hyfforddi grwpiau lleol a gwirfoddolwyr a rhoi'r sgiliau iddynt gynnal hyn yn y tymor hwy, mae'r adroddiad diwedd prosiect yn cyfeirio at risgiau cynnal a chadw ar ôl i gyllid y prosiect ddod i ben

- llwyddodd un prosiect i gael cyllid allanol i ategu gweithgaredd y prosiect SMS drwy'r cyngor lleol a thrwy bartneriaeth Tesco/Cronfa Natur Fyd-eang (WWF) drwy Ymrwymiad Courtauld [troednodyn 29]. Fe wnaeth y prosiect ymchwilio i farchnadoedd newydd ar gyfer gwasanaethau ecosystem a phrofi'r marchnadoedd hynny, a sefydlodd berthnasoedd pwysig ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Datblygwyd cyfleoedd Taliadau am Wasanaethau Amgylcheddol gyda'r rhai sy'n prynu ac yn pacio wyau yn ymwneud â dofednod maes o fewn dalgylch y prosiect, ond adroddwyd y bydd y momentwm yn dibynnu ar gadw swyddogion prosiect
- heb gyllid ar gyfer swydd ceidwad Tir Comin, mae un prosiect o'r farn y bydd yn anodd cynnal y gwaith a wneir gyda chyllid yr SMS gan y 'bydd y grŵp gwirfoddol yn diflannu'n araf…bydd tipio anghyfreithlon yn creithio'r dirwedd unwaith eto, a bydd plismona a chael gwared ar y sbwriel anghyfreithlon yn costio llawer mwy na chyflog ceidwad'

Troednodiadau

[29] Mae Ymrwymiad Courthauld 2030 yn gytundeb gwirfoddol sy'n galluogi gweithredu ar y cyd ar draws cadwyn fwyd gyfan y DU er mwyn sicrhau lleihau gwastraff bwyd, allyriadau nwyon tŷ gwydr a phrinder dŵr o'r fferm i'r fforc a fydd yn helpu sector bwyd a diod y DU i gyflawni nodau amgylcheddol byd-eang: Hanes Ymrwymiad Courtauld (Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau).

# 7. Canfyddiadau allweddol: allbynnau, canlyniadau, a'r gwahaniaeth a wnaed

Mae'r bennod hon yn ystyried cyflawniadau'r SMS a pherfformiad prosiectau yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA). Mae hefyd yn ystyried y canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a gyflawnir gan brosiectau ac i ba raddau y mae'r rhain yn debygol o gael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Mae’r bennod yn seiliedig ar wybodaeth fonitro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, adborth gan yr ymatebwyr i’r arolwg, cyfweliadau a gynhaliwyd gyda sampl o 21 o brosiectau a ariannwyd gan SMS ac unrhyw dystiolaeth berthnasol sydd ar gael mewn naw adroddiad gwerthuso ar lefel prosiect.

## 7.1. Gwariant a gwariant cyhoeddus

Mae 50 o brosiectau wedi cael eu cyllido gan yr SMS (gweler Atodiad A) gyda chyfanswm o £23,657,976 o arian y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i ymrwymo i brosiectau. Ym mis Rhagfyr 2022, roedd yr SMS wedi gwario £13,484,881 o'r cyfanswm a ymrwymwyd iddo, sef 57% o'r cyllid a oedd ar gael.

Mae Tabl 7.1 isod yn dangos sut y mae cyfnod cyfartalog cyflawni prosiect SMS wedi lleihau dros amser.

**Tabl 7.1 Hyd cyfartalog prosiectau a ariannwyd gan SMS a grant a ddyfarnwyd iddynt fesul cyfnod cyllido**

| Cyfnod Cyllido | Nifer y prosiectau | Cyfanswm Costau Prosiect Cymwys Cyfartalog | Cyfartaledd Cyfanswm y Grant Cymwys | Hyd cyfartalog y prosiect [troednodyn 30] |
|---|---|---|---|---|
| **1** | 11 | £564,561 | £563,198 | 3 blynedd ac 11 mis |
| **2** | 13 | £518,514 | £501,169 | 3 blynedd a 6 mis |
| **3** | 9 | £473,035 | £460,000 | 2 flynedd a 6 mis |
| **4** | 9 | £520,054 | £520,054 | 2 flynedd a 3 mis |
| **5** | 8 | £425,028 [troednodyn 31] | £417,885 [troednodyn 32] | 1 flwyddyn ac 11 mis |
| **Cyfanswm** | **50** | **£498,677** | **£490,528** | **3 blynedd** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r tabl yn dangos gostyngiad yng nghyfanswm y grant cyfartalog a ddyfarnwyd yn arbennig yn ystod cyfnodau tri a phump ond mae cyfanswm y grant cyfartalog yn parhau'n debyg ar draws y cyfnodau cyllido eraill. Fodd bynnag, mae gostyngiad amlwg yn yr amser sydd ar gael i brosiectau gyflawni eu hallbynnau a’u canlyniadau o bron i bedair blynedd ar gyfer y rhai a ariannwyd yn ystod cyfnod un i lai na dwy flynedd ar gyfartaledd yng Nghyfnod 5. Roedd canllawiau'r SMS yn nodi y byddai o leiaf ddwy flynedd ar gael i gyflawni'r prosiectau, ond mewn pedwar achos ar draws cyfnodau pedwar a phump, rhoddwyd llai na 24 mis i gyflawni'r prosiectau, a phriodolir hyn i oedi a achoswyd gan y pandemig Covid a phrosesau gweinyddol wrth gymeradwyo prosiectau i ddechrau cael eu cyflawni'n llawn. Er cymhariaeth, mae tri o'r prosiectau a ariannwyd yn ystod camau cynnar

Troednodiadau

[30] o'r dyddiad cymeradwyo i ddyddiad cwblhau'r materion ariannol

[31] Nid yw hyn yn cynnwys un prosiect a ariannwyd am £70,000 a estynnodd waith prosiect Cyfnod 1.

[32] Ibid.

y cynllun (cyfnodau un a dau) wedi'u cyllido am bron i bum mlynedd, ac mae dau wedi'u cyllido am fwy na phum mlynedd.

Mae llawer o'r prosiectau cynharach hyn wedi bod drwy brosesau ailwerthuso sydd wedi ymestyn hyd eu prosiectau o ganlyniad. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu cael gafael ar ddata gan RPW Ar-lein ynghylch nifer yr ailwerthusiadau y gofynnwyd amdanynt neu y cytunwyd iddynt, ac nid oes gennym ychwaith wybodaeth ynghylch faint o amser y mae wedi'i gymryd i ailwerthusiadau gael eu hasesu.

## 7.2. Perfformiad o ran y DPA

Dywedodd yr holl ymatebwyr i'r arolwg o sefydliadau sy'n arwain prosiectau (n=12) eu bod wedi cyflawni (neu'n disgwyl cyflawni) eu holl DPA neu bron bob un ohonynt. Roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn cyfleu darlun ychydig yn fwy cymysg o ran i ba raddau yr oeddent wedi cyflawni (neu yn cyflawni) yn erbyn eu DPA. O blith y 21 o brosiectau a gyfwelwyd, roedd dros eu hanner (12) yn meddwl eu bod wedi rhagori ar neu wedi cyflawni eu holl DPA neu'r rhan fwyaf ohonynt, neu eu bod ar y trywydd iawn i wneud hynny. Disgrifiodd y prosiectau a oedd yn weddill ddarlun mwy cymysg ac roedd sawl prosiect parhaus yn credu y byddent yn cyflawni rhai o'u targedau, ond nid pob un. Awgrymodd rhai prosiectau parhaus hefyd eu bod yn canolbwyntio ar geisio gwneud iawn am yr amser a gollwyd dros yr ychydig fisoedd a oedd yn weddill o'r prosiect.

Roedd y ffactorau y credwyd eu bod i gyfrif am berfformiad cryf yn erbyn DPA yn cynnwys:

- targedau nad oeddent yn arbennig o uchelgeisiol
- gwaith partneriaeth cryf
- tîm ymroddedig a chydlynu cryf.

Roedd y ffactorau y credwyd eu bod i gyfrif am unrhyw danberfformiad ar lefel prosiect yn erbyn y DPA yn cynnwys:

- targedau rhy uchelgeisiol, yn enwedig o fewn yr amserlenni a bennwyd
- dibyniaeth ar sefydliadau partner a oedd wedi cael trafferthion gyda chapasiti i gyflawni eu helfennau nhw o brosiect (a gwers a ddysgwyd yn hyn o beth o ran yr angen i gyllido'r gweithgareddau hyn)
- yr angen i gyflawni gweithgareddau prosiectau mewn modd dilyniannol fel amod cyllido h.y. adroddiadau astudiaethau dichonoldeb yn cael eu paratoi cyn i waith ffisegol gael ei wneud
- anawsterau o ran dod o hyd i gontractwyr
- materion yn ymwneud â llif arian
- y pandemig COVID-19 (a effeithiodd ar ymgysylltu, gwirfoddoli, a hyfforddiant ar gyfer DPA yn benodol)

## 7.3. Cyflawniadau cyffredinol yr SMS o ran allbynnau

Yn gyffredinol, aeth y 50 o brosiectau SMS ati i gyflawni cyfanswm o 24 o ddangosyddion lefel achos y Rhaglen Datblygu Gwledig, er nad oedd gan ddau o'r dangosyddion hyn unrhyw dargedau rhifiadol [troednodyn 33]. Nodir y rhain yn Nhablau 7.2 i 7.5 ac maent wedi'u grwpio yn allbynnau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd ac allbynnau eraill. Mae prosiectau hefyd wedi nodi allbynnau eraill a gyflawnwyd, ond nid yw'r rhain wedi'u hagregu ar lefel cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys allbynnau megis nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd, gwelliannau a wnaed i lwybrau, gwella neu greu dolydd blodau, hyd y gwrychoedd a blannwyd neu a gynhelir, a nifer y coed a blannwyd.

Mae dadansoddiad o berfformiad y cynllun ym mis Rhagfyr 2022 yn dangos bod yr SMS eisoes wedi cyflawni 10 o blith y 24 dangosydd lefel achos neu wedi rhagori arnynt [troednodyn 34], a'i fod yn agos iawn at gyflawni pump arall (ac mae wedi cyflawni o leiaf 90% o'r targed ym mhob achos). Mae wedi gwneud rhywfaint o gynnydd rhesymol yn erbyn pum dangosydd arall ond nid yw wedi adrodd ar unrhyw gyflawniadau yn erbyn y pedwar dangosydd arall eto.

**Tabl 7.2 Targedau a chyflawniadau amgylcheddol yr SMS**

| Allbynnau amgylcheddol | Targed | Cyflawnwyd | Wedi'i gyflawni hyd yma fel % o'r targed |
|---|---|---|---|
| **Arwynebedd (ha) y cynefin mawndir a ailwlychwyd** | 160 | 100 | 63% |
| **Arwynebedd (ha) o ucheldir wedi'i adfer i wella cyflwr cadw carbon** | 46 | 46 | 100% |
| **Arwynebedd (ha) y coetir a gynhaliwyd** | 4,374 | 2,277 | 52% |
| **Nifer y mentrau sy'n datblygu'r amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol** | 0 | 1 | ddim ar gael |
| **Nifer y gweithgareddau a gynhaliwyd / a gefnogwyd i ddatblygu neu sefydlu Taliadau am Wasanaethau Amgylcheddol** | 0 | 1 | ddim ar gael |
| **Nifer yr astudiaethau dichonoldeb** | 51 | 52 | 102% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Troednodiadau

[33] Y ddau hyn oedd (i) Mentrau i ddatblygu'r amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol a (ii) Nifer y gweithgareddau a gynhaliwyd / a gefnogwyd i ddatblygu neu sefydlu Taliadau am Wasanaethau Amgylcheddol.

[34] Gan dderbyn nad oedd gan ddau o'r rhain unrhyw dargedau ar waith.

**Tabl 7.3 Targedau a chyflawniadau cymdeithasol yr SMS**

| Allbynnau cymdeithasol | Targed | Cyflawnwyd | Wedi'i gyflawni hyd yma fel % o'r targed |
|---|---|---|---|
| Mynediad rheoledig i gefn gwlad neu'r arfordir (km) | 1,145 | 1,089 | 95% |
| Nifer y camau gweithredu i ddefnyddio adnoddau naturiol er budd iechyd | 919 | 1,275 | 139% |
| Nifer yr unigolion a enillodd gymhwyster | 108 | 76 | 70% |
| Nifer y cyfranogwyr a gafodd hyfforddiant | 1,528 | 1,480 | 97% |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi | 678 | 663 | 98% |
| Y boblogaeth sy'n elwa o well gwasanaethau / seilwaith | 1,500 | Heb ei adrodd | Heb ei adrodd |
| Cyfanswm y gwariant cyhoeddus ar hyfforddiant / sgiliau | £182,408 | Heb ei adrodd | Heb ei adrodd |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Tabl 7.4 Targedau a chyflawniadau economaidd yr SMS**

| Allbynnau economaidd | Targed | Cyflawnwyd | Wedi'i gyflawni hyd yma fel % o'r targed |
|---|---|---|---|
| Nifer y mentrau a gynorthwywyd | 292 | 320 | 110% |
| Nifer y mentrau a gefnogwyd yn ariannol | 15 | 0 | 0% |
| Nifer y mentrau a gafodd gyngor arbenigol sy'n cyflwyno cynnyrch, proses neu wasanaeth newydd | 12 | 12 | 100% |
| Nifer y swyddi a grëwyd | 34 | 41 | 132% |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 24 | 22 | 92% |
| Nifer y microfusnesau a'r busnesau bach a chanolig a gefnogwyd | 392 | 523 | 133% |
| Nifer y marchnadoedd newydd y cafwyd mynediad iddynt | 1 | 3 | 300% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Tabl 7.5 Targedau a chyflawniadau eraill yr SMS**

| Allbynnau eraill | Targed | Cyflawnwyd | Wedi'i gyflawni hyd yma fel % o'r targed |
|---|---|---|---|
| **Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd** | 65 | 63 | 97% |
| **Nifer y gweithgareddau peilot a gyflawnwyd / a gefnogwyd** | 180 | 45 | 25% |
| **Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw** | 8,546 | 6,144 | 72% |
| **Gweithgaredd arfer da o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid** | 5 | Heb ei adrodd | Heb ei adrodd |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## 7.4. Cyflawniadau'r prosiectau a gwblhawyd

Ym mis Rhagfyr 2022, roedd cyfanswm o 19 o brosiectau SMS wedi'u cwblhau. Mae dadansoddiad o gyflawniadau'r prosiectau hyn a gwblhawyd yn erbyn y targedau a ariannwyd yn dangos eu bod wedi cyflawni 19 o blith 24 o ddangosyddion lefel achos neu wedi rhagori arnynt. Ni wnaeth y prosiectau a gwblhawyd adrodd ar unrhyw allbynnau mewn perthynas â dau ddangosydd, sef cyfanswm y gwariant cyhoeddus ar hyfforddiant neu sgiliau a gweithgaredd arfer da o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ni osodwyd unrhyw dargedau, ac ni chyflawnwyd unrhyw allbynnau ar gyfer tri dangosydd, sef poblogaeth sy'n elwa ar wasanaethau/seilwaith gwell, mentrau a gefnogwyd yn ariannol neu fentrau a gafodd gyngor arbenigol sy'n cyflwyno cynnyrch, proses neu wasanaeth newydd.

**Tabl 7.6 Targedau a chyflawniadau amgylcheddol y prosiectau a gwblhawyd**

| Allbynnau amgylcheddol | Targed | Cyflawnwyd | Wedi'i gyflawni hyd yma fel % o'r targed |
|---|---:|---:|---:|
| **Arwynebedd (ha) y cynefin mawndir a ailwlychwyd** | 26 | 31 | 119% |
| **Arwynebedd (ha) o ucheldir wedi'i adfer i wella cyflwr cadw carbon** | 46 | 46 | 100% |
| **Arwynebedd (ha) y coetir a gynhaliwyd** | 173 | 234 | 135% |
| **Nifer y mentrau sy'n datblygu'r amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol** | 0 | 1 | ddim ar gael |
| **Nifer y gweithgareddau a gynhaliwyd / a gefnogwyd i ddatblygu neu sefydlu Taliadau am Wasanaethau Amgylcheddol** | 0 | 1 | ddim ar gael |
| **Nifer yr astudiaethau dichonoldeb** | 26 | 45 | 173% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Tabl 7.7 Targedau a chyflawniadau cymdeithasol prosiectau a gwblhawyd**

| Allbynnau cymdeithasol | Targed | Cyflawnwyd | Wedi'i gyflawni hyd yma fel % o'r targed |
|---|---|---|---|
| Mynediad rheoledig i gefn gwlad neu'r arfordir (km) | 72 | 77 | 107% |
| Nifer y camau gweithredu i ddefnyddio adnoddau naturiol er budd iechyd | 475 | 997 | 210% |
| Nifer yr unigolion a enillodd gymhwyster | 51 | 61 | 120% |
| Nifer y cyfranogwyr a gafodd hyfforddiant | 403 | 928 | 230% |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi | 521 | 555 | 107% |
| Y boblogaeth sy'n elwa o well gwasanaethau / seilwaith | 0 | 0 | ddim ar gael |
| Cyfanswm y gwariant cyhoeddus ar hyfforddiant / sgiliau | £159,908 | 0 | 0% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Tabl 7.8 Targedau a chyflawniadau economaidd y prosiectau a gwblhawyd**

| Allbynnau economaidd | Targed | Cyflawnwyd | Wedi'i gyflawni hyd yma fel % o'r targed |
|---|---|---|---|
| Nifer y mentrau a gynorthwywyd | 90 | 202 | 224% |
| Nifer y mentrau a gefnogwyd yn ariannol | 0 | 0 | ddim ar gael |
| Nifer y mentrau a gafodd gyngor arbenigol sy'n cyflwyno cynnyrch, proses neu wasanaeth newydd | 0 | 0 | ddim ar gael |
| Nifer y swyddi a grëwyd | 15 | 23 | 153% |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 14 | 16 | 114% |
| Nifer y microfusnesau a'r busnesau bach a chanolig a gefnogwyd | 267 | 493 | 185% |
| Nifer y marchnadoedd newydd y cafwyd mynediad iddynt | 0 | 2 | ddim ar gael |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Tabl 7.9 Targedau a chyflawniadau eraill y prosiectau a gwblhawyd**

| Allbynnau eraill | Targed | Cyflawnwyd | Wedi'i gyflawni hyd yma fel % o'r targed |
|---|---|---|---|
| **Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd** | 32 | 50 | 156% |
| **Nifer y gweithgareddau peilot a gyflawnwyd / a gefnogwyd** | 26 | 31 | 120% |
| **Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw** | 2328 | 3554 | 153% |
| **Gweithgaredd arfer da o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid** | 5 | 0 | 0% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## 7.5. I ba raddau y mae gwaith monitro prosiectau a'r gwerthusiadau terfynol yn cofnodi cyflawniadau ac effaith

Soniodd y rhan fwyaf o'r prosiectau a gyfwelwyd eu bod wedi penodi, neu'n bwriadu penodi, gwerthuswr allanol i asesu cyflawniadau terfynol ac effaith y prosiect, neu'n gweithio gyda gwerthuswr o'r fath . Nid oedd un prosiect a gyfwelwyd wedi gallu penodi gwerthuswr oherwydd bod y darpar gontractwyr yn brysur.


O ran arfer da mewn perthynas â gweithgareddau monitro, mae prosiectau' darparu adroddiadau rheolaidd i grwpiau llywio, yn paratoi cofnodion o gyfarfodydd grŵp llywio, ac yn adolygu effeithiolrwydd y sesiynau hyfforddi a ddarperir. Dywedodd sawl prosiect hefyd ei fod wedi cynnal arolygon sylfaenol o'r cychwyn cyntaf ac wedi ailadrodd hyn tuag at ddiwedd y prosiect. Roedd prosiectau hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ailadrodd yr arolygon sylfaenol hyn yn y dyfodol, er mwyn asesu effaith hirdymor eu hymyriadau yn well. Mae tystiolaeth ffotograffig yn chwarae rhan bwysig wrth ddangos tystiolaeth o gyflawniadau prosiect. Soniodd tri phrosiect a gyfwelwyd eu bod wedi mabwysiadu ffotograffiaeth geo-tag ac yn defnyddio hyn i fapio'r data ar blatfform cwmwl ac roedd pedwerydd prosiect yn bwriadu mapio ei weithgareddau gan ddefnyddio map GIS.

Roedd un mater a godwyd gan brosiectau a gyfwelwyd yn ymwneud ag anghysondebau wrth ddehongli dangosyddion ar lefel achos. Er enghraifft, roedd un prosiect yn cwestiynu a ddylai fod yn adrodd ar y gwelliant a wnaed i ran o lwybr neu i'r rhan hirach o'r llwybr a oedd wedi dod yn fwy hygyrch o ganlyniad ac, er gwaethaf y cyngor gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu'r olaf yn yr achos penodol hwn, byddai prosiectau wedi croesawu mwy o ganllawiau ysgrifenedig ar hyn o fewn y cynllun. Yn gysylltiedig â hyn, nododd y prosiectau hefyd y byddent wedi croesawu fframwaith canlyniadau ar gyfer y cynllun o'r cychwyn cyntaf, i gefnogi eu gweithgareddau monitro ac adrodd.

## 7.6. Manteision amgylcheddol

Mae Ffigur 7.1 yn nodi'r cyfraniad yr oedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn meddwl bod eu prosiect wedi'i wneud at ganlyniadau amgylcheddol amrywiol, wedi'u trefnu yn ôl i ba raddau yr oedd prosiectau wedi gwneud cyfraniad o bwys. Mae'n dangos bod y prosiectau o'r farn eu bod wedi gwneud cyfraniad o bwys at gynyddu bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd. Yn gyffredinol, fe wnaeth y prosiectau'r cyfraniad lleiaf at reoli parthau arfordirol, adfer mawndiroedd a lleihau llygredd amaethyddol. Ymhlith y canlyniadau amgylcheddol eraill a gyflawnwyd roedd llai o dipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, rheoli glaswelltir yn well, a gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ac ecolegol ymhlith y gymuned leol.


**Ffigur 7.1: Canlyniadau amgylcheddol a gyflawnwyd gan brosiectau SMS**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=29). Cwestiwn ymateb caeedig oedd hwn a gofynnwyd i'r ymatebwyr pa gyfraniad yr oedd eu prosiect wedi'i wneud mewn perthynas â phob un o'r opsiynau hyn.

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr i'r arolwg ym mha ffordd yr oedd eu prosiect SMS wedi creu ecosystem fwy gwydn. Roedd tua thri chwarter y rhai a ymatebodd i’r arolwg o’r farn bod eu prosiect wedi gwella iechyd a chyflwr ecosystemau, fel y dangosir yn Ffigur 7.2, a nododd tua hanner y rhai a holwyd gyfraniadau eraill.

**Ffigur 7.2: Cyfraniad a wnaed gan brosiectau SMS at greu ecosystemau mwy gwydn**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=29). Cwestiwn ymateb caeedig oedd hwn a gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

Nodwyd llawer o enghreifftiau o’r canlyniadau amgylcheddol a gyflawnwyd gan brosiectau'r SMS gan y rhai a gyfwelwyd yn ystod ein gwaith maes, ac mewn adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect. Ystyrir pob un o’r canlyniadau a nodir yn ei dro yn Ffigur 7.1:

- mwy o fioamrywiaeth: roedd bron pob un o’r 21 o brosiectau a gyfwelwyd yn meddwl eu bod wedi cymryd camau a fyddai’n arwain at gynyddu bioamrywiaeth. Mewn un achos, credwyd bod darparu llwybrau newydd wedi lleihau effaith ymwelwyr ar ardaloedd mwy sensitif, megis coetiroedd, a chredwyd bod gwella llwybrau cyhoeddus mewn prosiect arall wedi arwain at lai o sathru ar diroedd a chreu amgylcheddau mwy diogel ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear. Roedd mabwysiadu rheolaethau rhag ysglyfaethu hefyd yn cael eu hystyried yn fesurau effeithiol a fyddai'n arwain at fwy o fioamrywiaeth. Er enghraifft, yn achos un prosiect, roedd disgwyl i reolaethau rhag ysglyfaethu gael effaith gadarnhaol ar nifer y gylfinirod a oedd yn gallu magu eu cywion yn llwyddiannus. Yn yr un modd, mae prosiect arall wedi mabwysiadu rheolaethau rhag ysglyfaethu i wneud yr amgylchedd yn fwy deniadol i adar sy'n nythu ar y ddaear. Dywedodd prosiectau eraill eu bod wedi nodi rhywogaethau newydd drwy eu hastudiaethau llinell sylfaen, y gellid eu gwarchod a’u rheoli’n well gan dirfeddianwyr a ffermwyr drwy gynlluniau rheoli. Dywedodd un prosiect o'r fath fod ymchwil sylfaenol wedi canfod y cornicyll aur a'r bras melyn yn yr ardal drwy. Mewn achosion eraill, roedd darparu porthiant ychwanegol i rai adar dros gyfnod y gaeaf wedi sicrhau eu bod mewn cyflwr gwell yn ystod y tymhorau magu, gan gynyddu eu siawns o oroesi

- adfer mwy o gynefinoedd: roedd bron pob un o’r 21 o brosiectau a gyfwelwyd hefyd wedi cymryd camau a fyddai, yn eu tyb nhw, yn arwain at adfer cynefinoedd. Trafodir rhai o'r camau hyn isod o dan eu canlyniad amgylcheddol (e.e. plannu coed a gwrychoedd). Yn ogystal â hynny, roedd rhyw dri phrosiect a gyfwelwyd wedi cymryd camau i gael gwared ar redyn a'i reoli ar dir comin. Credwyd bod hyn yn creu gwell cynefinoedd a fyddai'n annog bioamrywiaeth ar lefel leol. Mewn un achos, byddai creu cyfres o linellau atal tân o fewn y rhedyn hefyd yn arwain at lai o risgiau tân ar dir comin. Roedd dau brosiect a gafodd eu cyfweld wedi creu cynefinoedd gwlyptir fel rhan o'u hymyriadau. Dywedodd prosiect arall ei fod wedi creu a gwella pyllau yn ogystal â chyflwyno mwy o leiniau cysgodi ar gyfer coed collddail mewn ymgais i wella amodau cynefinoedd

- plannu mwy o goed: dywedodd y rhan fwyaf o'r prosiectau a gyfwelwyd eu bod wedi plannu coed, a/neu wedi plannu neu adfer gwrychoedd. Ystyriwyd bod y camau hyn wedi gwella cysylltiadau i gynefinoedd a chreu llochesi bywyd gwyllt naturiol (neu y byddent yn gwneud hynny), gan adeiladu ecosystem fwy gwydn. Dywedodd llawer o’r prosiectau hyn hefyd y byddai’r camau hyn yn helpu i leihau dŵr ffo a fyddai yn ei dro yn helpu i wella ansawdd y pridd. Roedd un prosiect yn benodol wedi canolbwyntio ar y mathau hyn o gamau ac wedi adfer gwrychoedd, plannu coed, adfer pyllau, creu llochesi bywyd gwyllt, a ffensio coetiroedd i greu lloriau coedwig. Roedd un arall wedi prysgoedio a phlannu gwrychoedd newydd i greu cynefinoedd newydd a gwell cysylltiadau

- gwell ansawdd dŵr: credai rhai prosiectau a gyfwelwyd eu bod wedi cymryd camau a fyddai'n gwella ansawdd dŵr. Er enghraifft, roedd un prosiect wedi adfer rhwydwaith o ffosydd traddodiadol a fydd yn gwella ansawdd dŵr, ynghyd â lleihau dŵr ffo slyri o gaeau. Byddai gwell cynnwys maethol dŵr afon yn ei dro yn gwneud yr ecosystem leol yn fwy gwydn a bywiog. O ystyried bod yr ardal sy'n cael ei hystyried yn y prosiect hwn yn SoDdGA a'i bod yn agos at Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a Safle Ramsar, credwyd bod budd cadarnhaol ehangach i'r canlyniad hwn. Dywedodd prosiect arall ei fod wedi cymryd camau i ddiogelu cyrsiau dŵr rhag llygredd drwy ffensio a mabwysiadu gwell dyluniad ar gyfer rheoli gwastraff anifeiliaid fferm

- gwell amddiffyniad rhag rhywogaethau ymledol: nododd dau brosiect a gyfwelwyd eu bod wedi cymryd camau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol. Roedd un o’r prosiectau hyn yn gweithio ar lefel Cymru gyfan i rannu arfer da ac adnoddau drwy rwydwaith o grwpiau gweithredu lleol i fynd i’r afael â materion lleol yn ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol, a dywedodd y llall ei fod wedi clirio rhywogaethau o'r fath o 200km o lannau afonydd. Yn yr achos hwn, mae tystiolaeth o leihad mewn safleoedd lle ceir Clymog Japan a thriniaeth a gwaith monitro blynyddol 3 blynedd ar ôl cael gwared arno i gadarnhau ei fod wedi'i ddileu. Mae ymarfer mapio yn dangos bod gan y gwaith clirio i fyny'r afon y potensial i leihau perygl llifogydd i lawr yr afon

- rheoli coetiroedd yn well: roedd tri o’r prosiectau SMS, a arweiniwyd gan yr un sefydliad arweiniol, yn canolbwyntio’n benodol ar gynnal ardaloedd coetir ac aethant ati i addasu arferion rheoli tir i fynd i’r afael â rhywogaethau a chlefydau ymledol, ac i leihau’r perygl o lifogydd i lawr yr afon drwy ymyriadau naturiol yn seiliedig ar y tir megis plannu gwrychoedd ac argaeau o weddillion coed. Roedd y tri phrosiect hefyd yn bwriadu cydweithio â thirfeddianwyr a hwyluso rhannu gwybodaeth ac arferion da. Fodd bynnag, ni wnaeth y tri phrosiect hyn sy'n canolbwyntio ar goetir gyfrannu at y gwerthusiad ac nid oes adroddiadau gwerthuso ar gael eto ar gyfer un o'r prosiectau a gwblhawyd (mae'r ddau arall yn parhau). Er gwaethaf y dystiolaeth gan brosiectau eraill a gyfwelwyd a oedd yn cynnwys elfennau o waith rheoli coetir, ni all y gwerthusiad hwn ddarparu tystiolaeth gynhwysfawr o sut y mae prosiectau SMS wedi helpu i wella dulliau rheoli coetiroedd
- adfer mwy o fawndiroedd: dywedodd pedwar prosiect a gyfwelwyd bod cynyddu'r mawndiroedd y maent yn eu hadfer a hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, mae un wedi llwyddo i adfer 661 hectar o fawndir tra bod un arall wedi llwyddo i reoli cerbydau oddi ar y ffordd i atal difrod pellach i’r orgors, sy’n storfa garbon bwysig. Mae trydydd prosiect wedi gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i fabwysiadu dulliau pori mwy priodol ar gyfer cadw carbon. Mae pedwerydd prosiect wedi canolbwyntio ar ddalgylch mawr o fawndir a, thrwy fabwysiadu Cod Carbon Mawndir, wedi ymrwymo i gynnal y dalgylch mewn cyflwr da am 35 mlynedd. Darparodd prosiect arall dystiolaeth drwy ei adroddiad gwerthuso diwedd prosiect o sut yr oedd wedi cynyddu'r mawndir a adferwyd. Roedd y prosiect hwn wedi ailwlychu 66 hectar o gynefin mawndir a dangosodd arolygon newid cadarnhaol ond cymedrol yn y gorchudd pridd moel
- gwella iechyd y pridd / rheoli ansawdd y pridd: dywedodd tua hanner y prosiectau a gyfwelwyd fod eu gweithredoedd wedi arwain at wella iechyd y pridd a gwell dulliau o reoli ansawdd y pridd. Mewn dau achos, roedd y canlyniadau hyn wedi deillio o fwy o ymwybyddiaeth a gwybodaeth ymhlith tirfeddianwyr a ffermwyr. Darparodd dau brosiect hyfforddiant i ffermwyr ar ansawdd ac iechyd y pridd sydd wedi arwain at newidiadau yn eu harferion rheoli pridd. Mae sesiynau hyfforddi wedi helpu rheolwyr tir i werthfawrogi pwysigrwydd iechyd y pridd, manteision ffermio adfywiol, natur fregus bioamrywiaeth leol. Yn yr achosion hyn, mae ffermwyr sy’n mabwysiadu arferion sy’n cadw cymaint o garbon yn y pridd â phosibl nid yn unig o fudd i fioamrywiaeth leol, ond hefyd o fudd ariannol iddynt. Mewn achos arall, roedd prosiect wedi gwella cyflwr iechyd y pridd ar ardaloedd ffermio ucheldir drwy blannu lleiniau cysgodi ar gyfer coed collddail, codi ffensys, ac annog dulliau pori cymysg. Mewn achos arall, canolbwyntiwyd ar leihau pridd a mawn mwynol, moel drwy annog grug a chorlwyni i dyfu ar dir moel. Mae'r dull hwn o reoli mawndiroedd wedi helpu i reoli problemau'n ymwneud ag erydiad ar safleoedd penodol. Mewn achosion eraill, mae’r ffocws wedi bod ar gasglu data sylfaenol i gael darlun cywir o iechyd y pridd drwy gymryd samplau pridd a phrofi am amlfaetholion, gan gynnwys ffosffad a charbon. Mewn un achos, defnyddiwyd y math hwn o ddata i ymgysylltu â nifer fawr o randdeiliaid a'u haddysgu ynghylch rheoli pridd yn gynaliadwy er mwyn gwella ansawdd dŵr

- lleihau perygl llifogydd: roedd dau brosiect a gyfwelwyd wedi llwyddo i leihau perygl llifogydd yn eu dalgylchoedd. Roedd y rhain wedi plannu cloddiau newydd ac wedi adfer gwrychoedd presennol mewn dalgylch afon i leihau llif dŵr, yn ogystal ag adeiladu argaeau o weddillion coed i arafu llif afonydd. Fodd bynnag, mewn un achos, ni chafodd y cymorth academaidd a thechnegol a addawyd gan brifysgol a oedd yn bartner yn y prosiect a CNC eu darparu, gan olygu bod ei effaith fel ymarfer rheoli perygl llifogydd wedi lleihau

- llai o lygredd amaethyddol: mae un prosiect wedi bod yn monitro patrymau pori gwartheg gan eu symud o ardaloedd sy'n cael eu gorbori er mwyn gwella cynefinoedd. Mae prosiectau eraill sy'n gweithredu ar lefel dalgylch afon hefyd wedi cymryd camau i wella ansawdd dŵr mewn afonydd drwy weithio gyda ffermwyr ar draws y dalgylch i ddatblygu a gweithredu cynlluniau fferm gyfan. Mae'r rhain wedi arwain at gamau gweithredu megis gosod system i gyflenwi dŵr i dda byw a gwell strategaethau a thechnegau pori. Cyflawnodd un o'r prosiectau hyn hefyd asesiadau o strwythur ac iechyd y pridd ar gyfer ffermwyr yn y dalgylchoedd i helpu i nodi ffyrdd o wella ansawdd y pridd a dal a storio carbon

- gwell rheolaeth ar y parth arfordirol: mae dau brosiect yn canolbwyntio'n benodol ar lwybr arfordir Cymru ac adroddwyd y byddai'r camau a gymerwyd yn helpu i ddatblygu ecosystem fwy gwydn yn y dyfodol. Yn y ddau achos, bydd rheoli da byw yn well ar yr arfordir yn caniatáu i fwy o laswelltiroedd bywyd gwyllt fodoli a bydd lleihad mewn rhedyn a mieri trwchus yn caniatáu i fwy o fywyd gwyllt ffynnu. Mae ffermwyr a thirfeddianwyr wedi newid y ffordd y mae gwartheg, defaid a cheffylau'n pori'r tir: mae da byw yn cael eu symud ym mis Ebrill a mis Mai er mwyn caniatáu i laswelltiroedd flodeuo, ac mae ardaloedd sydd wedi'u gorbori yn cael eu ffensio yn ystod cyfnodau blodeuo allweddol yn y gwanwyn. Bydd y newidiadau a wneir yn galluogi'r ecosystem i ffynnu drwy gefnogi mwy o rywogaethau adar, anifeiliaid a thrychfilod ar draws y forlin. Mewn un achos, cyflwynodd y prosiect hefyd beilot 'taliadau am ganlyniadau' i gymell ffermwyr i greu coridorau cyswllt ar hyd llwybr arfordir Cymru a datblygu arfer da er mwyn rheoli rhywogaethau goresgynnol

- gwella ansawdd aer: o ystyried y nifer bach o brosiectau a holwyd a ddywedodd eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr aer, nid yw'n syndod na chodwyd unrhyw enghreifftiau penodol yn ystod y cyfweliadau nac yn adroddiadau gwerthuso'r prosiectau o sut yr oedd prosiectau wedi cymryd camau i wella ansawdd aer

Canfu'r arolwg o brosiectau mai canlyniad amgylcheddol 'arall' pwysig oedd gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ac ecolegol ymhlith cymunedau lleol. Ategwyd hyn gan brosiectau a gyfrannodd at y gwaith maes. Mae hyfforddiant i ffermwyr a thirfeddianwyr wedi bod yn agwedd bwysig ar y ddarpariaeth a bydd yn allweddol i fonitro a chynnal canlyniadau amgylcheddol dros amser. Yn ogystal â'r hyfforddiant ar iechyd a rheoli'r pridd y cyfeiriwyd ato'n gynharach, roedd enghreifftiau eraill a gynigiwyd yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr cymunedol. Mewn prosiect arall mae ffermwyr wedi cael arweiniad ar y ffordd orau o ffermio i ddiogelu adar sy'n nythu ar y tir.


Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen monitro unrhyw ganlyniadau amgylcheddol a gyflawnir dros gyfnod llawer hwy na'r hyn a ariennir drwy'r SMS er mwyn dangos eu cyflawniad a'u cynaliadwyedd. Mae un prosiect wedi dod i drefniant gydag ecolegydd gwirfoddol lleol i ailadrodd ei arolwg llinell sylfaen ar ôl pum mlynedd ac eto ar ôl cyfnod o 10 mlynedd er mwyn monitro newidiadau. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio gyda sawl prifysgol i fonitro newidiadau i ecosystemau lleol dros amser. Mae un prosiect ymchwil yn edrych ar sut y mae canopi coed yn amsugno dŵr a bydd prosiect ymchwil academaidd arall yn dadansoddi data a gasglwyd o synwyryddion a osodwyd yn yr argaeau a grëwyd o weddillion coed gan y prosiect i ddeall yn well y rhybudd cynnar am lifogydd.

Fodd bynnag, nid yw trefniadau tebyg yn cael eu rhoi ar waith yn gyffredin ar draws prosiectau eraill a ariennir e.e., mewn un achos, er i arolwg sylfaenol manwl gael ei gynnal o'r cychwyn cyntaf, nid oedd yn glir sut yr oedd y prosiect yn bwriadu monitro effaith ymyriadau ar ôl i'r cyllid ddod i ben.

Nid oedd pob prosiect wedi cyflawni canlyniadau amgylcheddol hyd yn hyn a rhoddodd tri phrosiect a gyfwelwyd reswm am hyn. Nid oedd y prosiectau hyn wedi cyflawni unrhyw waith ffisegol adeg y gwaith maes gan eu bod wedi canolbwyntio ar wneud gwaith ymchwil ac ymgysylltu sylfaenol. Mewn un achos, mynegwyd llawer o rwystredigaeth bod amodau cyllido yn golygu bod yn rhaid i'r prosiect gwblhau ei waith ymchwil sylfaenol cyn y gellid cymryd unrhyw gamau er budd bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. O ran pedwerydd prosiect, ystyriwyd ei bod yn rhy gynnar i nodi unrhyw ganlyniadau amgylcheddol. Mae'r adroddiad gwerthuso diwedd prosiect ar gyfer y prosiect hwn yn nodi gan mai dim ond tua diwedd oes y prosiect yr oedd gwlyptiroedd wedi'u creu, dim ond megis dechrau tyfu planhigion yr oedd. Er hyn, roedd tirfeddianwyr eisoes yn adrodd eu bod wedi gweld rhywogaethau newydd yn ymweld â'r safleoedd.

Mae Ffigur 7.3 yn nodi i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn meddwl y byddai canlyniadau amgylcheddol yn cael eu cynnal ar ôl i gyllid SMS ddod i ben. Yn gyffredinol, mae'r graff yn awgrymu y bydd y canlyniadau hyn yn cael eu cynnal yn llawn neu'n rhannol. Er bod angen cymryd peth gofal o ystyried y nifer bach o ymatebion, y canlyniadau sydd fwy tebygol o gael eu cynnal yn llawn yw'r rhai sy'n ymwneud â phlannu mwy o goed, adfer cynefinoedd, rheoli coetiroedd, a bioamrywiaeth. Ategwyd y farn hon mewn cyfweliadau â chynrychiolwyr prosiectau, ac awgrymwyd yn gyffredinol y byddai camau gweithredu megis plannu gwrychoedd newydd, ffensio a phlannu coed yn cael eu cynnal yn yr hirdymor (gan mai ychydig iawn o waith cynnal a chadw sydd ei angen arnynt) ond y byddai newidiadau eraill yn dibynnu mwy ar dirfeddianwyr, ffermwyr a gwirfoddolwyr cymunedol yn newid eu hymddygiad.

**Ffigur 7.3: A fydd canlyniadau amgylcheddol yn cael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben**





Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=y rhai a ddywedodd y byddai prosiect SMS yn gwneud cyfraniad mawr neu rywfaint o gyfraniad at bob canlyniad. Roedd hyn yn amrywio o n=4, yn achos rheolaeth well ar barth arfordirol i n=25, yn achos adfer mwy o gynefinoedd a mwy o fioamrywiaeth)

## 7.7. Manteision cymdeithasol

Fel y dangosir yn Ffigur 7.4 mae'r ymatebwyr i'r arolwg yn credu y cyflawnwyd ystod eang o fanteision cymdeithasol drwy eu prosiectau SMS. Roedd mwyafrif mawr (86% neu 25 o blith 29 o'r ymatebwyr i'r arolwg) o'r farn bod eu prosiect wedi gwneud rhywfaint o gyfraniad neu gyfraniad mawr at gynyddu cyfleoedd i bobl leol gysylltu â byd natur ac wedi helpu i wella iechyd a lles. Roedd cyfran uchel debyg (83% neu 24 o'r ymatebwyr i'r arolwg), o'r farn bod eu prosiect wedi gwneud rhywfaint o gyfraniad neu gyfraniad mawr at bob un o'r tri chanlyniad, sef gwella iechyd a lles eu cymuned leol, cynyddu cyfleoedd addysgol a gwella diwylliant a threftadaeth gwledig.

**Ffigur 7.4: Manteision cymdeithasol a gyflawnwyd gan brosiectau SMS**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=29)

Casglwyd enghreifftiau o sut y cyflawnwyd y manteision cymdeithasol hyn o gyfweliadau ac adroddiadau gwerthuso'r prosiectau. Roeddent yn cynnwys:

- mwy o gyfleoedd i bobl leol gysylltu â byd natur: dywedodd y prosiectau eu bod wedi sefydlu adnoddau dehongli newydd, wedi'u hategu gan godau QR, i wella dealltwriaeth pobl o fywyd gwyllt a bioamrywiaeth ar safleoedd lleol. Roedd prosiectau hefyd wedi cynnal digwyddiadau a sgyrsiau i wella gwybodaeth am natur leol ac asedau amgylcheddol, gan gynnwys diwrnodau dathlu a diwrnodau agored. Roedd eraill yn hyrwyddo'r gwelliannau a wnaed i lwybrau troed lleol fel rhan o'u prosiect, er enghraifft drwy hyrwyddo teithiau natur ar eu gwefan, i annog mwy o ddefnydd ohonynt

- gwell iechyd a lles: mae prosiectau wedi cyflwyno gweithgareddau awyr agored megis teithiau cerdded tywysedig mewn ardaloedd gwledig a arweiniodd at fwy o hyder ymhlith pobl leol i ddefnyddio tirweddau nad oedd oeddent yn mentro iddynt o'r blaen. Mewn un achos, mae teithiau cerdded wedi'u haddasu i gyd-fynd â gallu a hyder unigolion ac mae'r prosiect wedi bod yn cydweithio â meddygon teulu i dreialu gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol. Dywedodd prosiectau fod eu gweithgareddau wedi helpu i oresgyn materion yn ymwneud a theimlo'n ynysig ac unigrwydd, yn aml drwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli a digwyddiadau cymunedol. Er enghraifft, dywedodd gwirfoddolwyr mewn un prosiect eu bod yn teimlo'n llai unig o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect. Yn yr un modd mewn prosiect arall, bu gweithgareddau o gymorth i'r gymuned ffermio ddod at ei gilydd ar ôl y pandemig i ddatblygu mwy o ymdeimlad o undod ac i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd

- mwy o fynediad i'r awyr agored: mae gwelliannau i lwybrau a rhodfeydd wedi arwain at well mynediad i bobl leol i ardaloedd yn yr awyr agored. Mewn un prosiect, mae mynediad newydd a gwell drwy Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau caniataol ar draws ardaloedd a oedd gynt yn eiddo preifat caeedig, bellach yn darparu gwell mynediad i fyd natur i drigolion a'r rhai a gyflogir gan fusnesau yn yr ardal. Mewn prosiect arall, credwyd bod gwelliannau a wnaed i lwybrau lleol a llwybrau ceffyl yn bwysig o ran cynnig mwy o opsiynau ymarfer corff cost isel i gymuned gymharol dlawd

- mwy o gyfleoedd addysgol: mae prosiectau wedi gweithio gydag ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth, ennyn diddordeb a gwella gwybodaeth am ecoleg a natur ymhlith disgyblion ysgol. Yn aml mae hyn wedi cynnwys darparu pecynnau adnoddau addysgol i ysgolion ac mewn achosion eraill mae'n ymwneud ag ymweliadau gan ysgolion â ffermydd lleol a thirweddau lleol. Mae un prosiect wedi cefnogi 12 ysgol gynradd ac uwchradd ac wedi codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith 600 o bobl ifanc. Mae prosiect arall wedi gweithio gyda'r ysgol leol i osod gorsaf dywydd ac mae gwirfoddolwr lleol yn cefnogi'r ysgol i ddehongli'r data a gesglir. Mewn achos arall, mae prosiect wedi cydweithio â choleg lleol i hyfforddi myfyrwyr

- mwy o gyfleoedd gwirfoddoli: mae prosiectau wedi darparu cyfleoedd gwirfoddoli i drigolion, gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli yn y meysydd cadwraeth ac amgylcheddol. Mewn un achos, defnyddir gwirfoddolwyr lleol i fonitro newidiadau

amgylcheddol a chasglu samplau dŵr o bob rhan o’r ardal i helpu i fonitro ansawdd dŵr

- gwell diwylliant a threftadaeth gwledig: nododd un prosiect ei fod wedi gwneud gwaith i warchod treftadaeth hanesyddol leol. Roedd eraill wedi gweithio gyda chapeli, eglwysi a neuaddau pentref lleol ac mewn un achos mae datblygu maes parcio newydd yn neuadd y pentref wedi golygu ei fod wedi dod yn fwy hyfyw yn economaidd ar gyfer y dyfodol

- gwell cydlyniant cymunedol: roedd un prosiect yn ystyried mai cynyddu cydlyniant cymunedol oedd ei gyflawniad mwyaf. Yn yr achos hwn mae’r gymuned yn gweithio gyda’i gilydd yn llawer agosach, a hynny o bosibl wedi'i hybu gan ymateb y gymuned i’r pandemig, a chredwyd y byddai hyn yn helpu i fynd i’r afael â rhai o’r heriau sy’n wynebu eu cymuned wledig megis cynnydd yn y boblogaeth hŷn, ynysigrwydd, a phrinder tai fforddiadwy

- mwy o ddatblygiadau lleol wedi'u harwain gan y gymuned: dywedodd un prosiect fod ymdeimlad cynyddol o falchder ac agwedd 'gallu gwneud' [troednodyn 35] o fewn y gymuned o ganlyniad i'r prosiect. Yn yr achos hwn, mae’r prosiect SMS wedi cael effaith ganlyniadol ar agweddau eraill ar fywyd y gymuned gan i'r gymuned ddod at ei gilydd i brynu tafarn leol a gaeodd yn ddiweddar


- llai o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol: nododd un prosiect ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau tipio anghyfreithlon ar dir comin ac wedi cyfyngu cerbydau rhag cael mynediad i'r tir er mwyn gyrru'n anghyfreithlon oddi ar y ffordd. O ganlyniad i’r gwelliannau hyn, ynghyd â gwell meysydd parcio a llwybrau ag arwyddbyst, mae’r tir comin wedi dod yn amgylchedd llawer mwy dymunol a gwnaed mwy o ddefnydd ohono at ddibenion hamdden

Troednodiadau

[35] Ymdeimlad o falchder.

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn llai hyderus y byddai'r manteision cymdeithasol a gyflawnwyd gan brosiectau SMS yn cael eu cynnal yn llawn ar ôl i'r cyllid ddod i ben, ond roeddent yn fwy hyderus y byddai'r manteision hyn yn cael eu cynnal i ryw raddau, yn enwedig manteision megis mwy o fynediad i'r awyr agored a gwell iechyd a lles. Fel y dangosir yn Ffigur 7.5, mae'n ymddangos mai canlyniadau megis mwy o gyfleoedd addysgol a gwirfoddoli yw'r rhai sy'n llai tebygol o gael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben, sy'n awgrymu bod angen cyllid parhaus ar y mathau hyn o weithgareddau er mwyn eu cynnal.

**Ffigur 7.5: A fydd manteision cymdeithasol yn cael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben**





Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=y rhai a ddywedodd y byddai prosiect SMS yn gwneud cyfraniad mawr neu rywfaint o gyfraniad at bob canlyniad. Roedd hyn yn amrywio o n=12, yn achos llai o droseddu gwledig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, i n+25 yn achos mwy o gyfleoedd i bobl leol gysylltu â byd natur)

## 7.8. Manteision economaidd

Mae prosiectau SMS wedi sicrhau amrywiaeth o fanteision economaidd, ac mae canfyddiadau'r arolwg a nodir yn Ffigur 7.6 yn awgrymu mai'r prif ganlyniad economaidd yw mwy o drosglwyddo gwybodaeth neu arloesi, a nodwyd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg. Credai ychydig dros hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg fod eu prosiect SMS wedi gwneud rhywfaint o gyfraniad neu gyfraniad mawr at greu cyfleoedd masnachol newydd neu wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr â'u hardal leol. Er bod llai na hanner y rhai a holwyd o'r farn bod eu prosiect SMS wedi creu cyfleoedd arallgyfeirio newydd i ffermwyr neu bartneriaid eraill, roedd y rhan fwyaf o'r cyfleoedd hyn yn rhai amaethyddol eu natur ac ychydig iawn a ddywedodd eu bod wedi arallgyfeirio i'r sector twristiaeth.

**Ffigur 7.6: Manteision economaidd a gyflawnwyd gan brosiectau SMS**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=29)

Wrth ddadansoddi canfyddiadau'r arolwg, cyfweliadau ac adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect, gellid grwpio'r prif fanteision economaidd a sicrhawyd gan brosiectau SMS yn themâu fel a ganlyn (sydd ychydig yn wahanol i'r opsiynau a restrir yn yr arolwg yn Ffigur 7.6):

- cadw cyllid grant o fewn economïau cylchol lleol: Mae pob prosiect wedi gwneud ymdrech ymwybodol i wario cymaint o'i gyllid grant â phosibl mewn economïau lleol, gan gontractio cyflenwyr a chontractwyr lleol a defnyddio deunyddiau a chynhyrchion o ffynonellau lleol lle bynnag y bo modd. Dywedodd sawl prosiect hefyd ei fod wedi cyflogi pobl leol ar y prosiect SMS ac wedi gwneud defnydd rheolaidd o asedau lleol, megis neuaddau pentref ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, gan dalu ffioedd am hynny. Gallai gwariant lleol prosiectau fod wedi bod yn fwy byth pe na bai prosiectau wedi gorfod contractio contractwyr rhatach o'r tu allan i'w hardal leol yn dilyn ymarferion caffael. Mewn un achos, er enghraifft, roedd cadw at drefniadau gaffael yn golygu bod yn rhaid defnyddio contractwyr nad oeddent yn lleol ar gyfer gwaith cyfalaf, gan eu bod yn rhatach na chontractwr lleol llai

- cefnogi ac ysgogi cadwyni cyflenwi newydd: Mewn un achos mae hyn wedi cynnwys nodi cadwyn gyflenwi newydd ar gyfer dylunio, caffael, a chynhyrchu arwyddbyst i'w defnyddio ar hyd 47km o dirweddau ar draws llwybrau troed yng Nghaerffili. Dywedodd prosiect arall fod ei waith i annog cydweithio rhwng ffermwyr a melinau llifio lleol wedi arwain at ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol newydd

- cefnogi twristiaeth leol: Dywedodd un prosiect fod ei wefan wedi hyrwyddo busnesau lleol fel y rhai yn y sector lletygarwch. Mewn prosiect arall, credwyd bod gwelliannau i lwybrau, a llwybrau arfordirol yn arbennig, wedi helpu i hybu'r economi dwristiaeth leol

- busnesau ffermio yn dod yn fwy effeithlon a chynaliadwy: Nododd un prosiect fod fferm leol wedi agor siop fferm a bod ffermwyr ifanc lleol yn cael eu defnyddio i wneud gwaith contractio fel gosod gwrychoedd a ffensys a chloddio ffosydd

- safleoedd ac atyniadau penodol wedi eu rhoi ar sylfaen ariannol well e.e., nid yw un parc awdurdod lleol bellach yn wynebu dyfodol ansicr ac mae partneriaid yn teimlo'n fwy ffyddiog yn ei gylch; ac mae clybiau golff yn y sector preifat sy'n ymwneud â phrosiect arall yn bwriadu cynnal nifer o dwrnameintiau golff rhyngwladol mawr yn y blynyddoedd i ddod a fydd yn denu ymwelwyr i'r ardal


- creu swyddi ychwanegol o ganlyniad i gynnal prosiectau llwyddiannus: Mae dwy enghraifft yn cynnwys un prosiect a ddywedodd ei fod wedi creu dwy swydd drwy ei fusnes perllannau a sudd afal a phrosiect arall a ddywedodd fod rhai o'i wirfoddolwyr wedi cael swyddi

- sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat: llwyddodd un prosiect i sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat i gefnogi'r gwaith o adfer mawndiroedd, y cyntaf o'i fath yng Nghymru

- lleihau costau i sefydliadau partner: dywedodd un prosiect fod awdurdodau lleol yn elwa ar gostau is o ganlyniad i lai o dipio anghyfreithlon yn lleol

Yn yr un modd â chanlyniadau cymdeithasol, roedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn fwy tueddol o gredu y byddai'r manteision economaidd a gynhyrchir gan eu prosiect SMS yn cael eu cynnal i ryw raddau yn y dyfodol, ond rhaid bod yn ofalus oherwydd y nifer bach o ymatebion ar gyfer llawer o'r canlyniadau hyn. Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn fwy hyderus ynghylch gallu cynnal manteision seilwaith gwyrdd a'r manteision 'economaidd eraill' a nodir uchod.

**Ffigur 7.7: A fydd manteision economaidd yn cael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=y rhai a ddywedodd y byddai prosiect SMS yn gwneud cyfraniad mawr neu rywfaint o gyfraniad at bob canlyniad. Roedd hyn yn amrywio o n=10, yn achos cyfleoedd arallgyfeirio newydd i ffermwyr neu bartneriaid eraill i n=25 yn achos mwy o drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi)

## 7.9. Beth fyddai'n helpu prosiectau i gynnal y canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar ôl i gyllid SMS ddod i ben?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg restru pa gymorth fyddai fwyaf defnyddiol a lleiaf defnyddiol iddynt er mwyn cynnal eu canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar ôl i gyllid yr SMS ddod i ben. Dengys y canfyddiadau'n glir mai'r cymorth mwyaf defnyddiol fyddai cymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru (a ddewiswyd fel y brif flaenoriaeth gan 93% o'r ymatebwyr i'r arolwg) a'r cymorth lleiaf defnyddiol fyddai cefnogaeth ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru, wedi'i ddilyn gan rwydweithiau cefnogi gyda phrosiectau yn yr un rhanbarth. Roedd y sgoriau ar gyfer y ddau fath arall o gymorth yn gymharol gyfartal, sef rhwydweithiau cefnogi gyda phrosiectau tebyg, a hyfforddiant a chyfleoedd dysgu ychwanegol.

Ymhelaethodd yr ymatebwyr i'r arolwg ar y cymorth y byddent yn ei groesawu. Roedd llawer o'r rhain yn canolbwyntio ar gyllid, a'r awydd i weld cyllid yn y dyfodol yn cael ei ddarparu ar gyfer tymor hwy.

## 7.10. I ba raddau y byddai prosiectau wedi cael eu cyflawni heb gyllid SMS

Nid oedd dwy ran o dair o'r arweinwyr prosiectau a gyfwelwyd yn ystod y cam gwerthuso terfynol hwn yn credu y byddai unrhyw un o'r gweithgareddau a ariannwyd gan eu prosiect SMS wedi digwydd yn absenoldeb cyllid. Soniodd y rhai a gyfwelwyd sut y mae ffermwyr a thirfeddianwyr o dan gymaint o bwysau, a pha mor anodd yw hi i gael cefnogaeth ac ymrwymiad gan y gymuned ffermio pan nad oes sicrwydd o newid a chamau gweithredu ar lawr gwlad. Soniodd eraill eu bod, yn y gorffennol, wedi ceisio, ac wedi methu, cael grwpiau lleol i gymryd rhan, ond bod angen cyllid i wneud i bethau ddigwydd.

Teimlai'r traean arall y gallai elfennau bach iawn o'u prosiectau fod wedi'u cyflawni yn absenoldeb cyllid. Er enghraifft, awgrymodd un prosiect y byddai tua 5% o'r gweithgareddau codi gwrychoedd a ffensio wedi'u cyflawni, a soniodd prosiect arall y gallai rhywfaint o'r gweithgaredd monitro fod wedi digwydd. Teimlai prosiectau eu bod wedi gwario'r cyllid yn ddoeth ac wedi sicrhau gwerth am arian i Lywodraeth Cymru.


# 8. Canfyddiadau allweddol: themâu ac amcanion trawsbynciol

Mae'r bennod hon yn ystyried cyfraniad y prosiectau at dair thema drawsbynciol yr UE (cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd; datblygu cynaliadwy; trechu tlodi ac allgau cymdeithasol), tri amcan trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig (amgylchedd; arloesi; addasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru) a strategaeth iaith Gymraeg y Llywodraeth: Cymraeg 2050. Daw'r enghreifftiau o gyfweliadau, ymatebion i'r arolwg a thystiolaeth sydd ar gael mewn adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect.

Dywedodd dros 90% o'r prosiectau SMS a holwyd eu bod wedi gwneud rhywfaint o gyfraniad at o leiaf y tair thema ac amcan trawsbynciol, sef yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy ac addasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru, a dywedodd rhwng traean a dwy ran o dair o'r rhai a holwyd eu bod wedi gwneud cyfraniad mawr tuag at y rhain.

Er, yn gyffredinol, eu bod yn dal i ddweud eu bod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol, nododd ychydig yn llai o ymatebwyr i'r arolwg fod eu prosiect wedi gwneud cyfraniad mawr at y tair thema ac amcan trawsbynciol arall (arloesi, trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol, a chyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd), ac nid oedd traean o'r rhai a holwyd yn meddwl bod eu prosiect wedi gwneud unrhyw gyfraniad at y thema trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Roedd pedwar o bob pump o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod eu prosiect wedi gwneud rhywfaint o gyfraniad at y strategaeth Cymraeg 2050 mae'n werth nodi nad oedd yr un o'r rhain yn ystyried eu bod wedi gwneud cyfraniad mawr yn y maes hwn.

**Ffigur 8.1: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau SMS tuag at themâu trawsbynciol a'r strategaeth Cymraeg 2050**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 o brosiectau a ariannwyd (n=29)

## 8.1. Cyfraniad at themâu trawsbynciol yr UE

### 8.1.1. Cyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhywedd

Roedd y rhan fwyaf o'r enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt mewn ymateb i'r thema drawsbynciol hon yn ymwneud â sefydliadau'n sicrhau bod prosesau recriwtio, contractau gweithwyr a dethol gwirfoddolwyr i gyd yn seiliedig ar weithdrefnau sy'n sicrhau cyfleoedd teg a chyfartal i bawb waeth beth fo'u rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran, hil, neu anabledd.

Roedd enghraifft benodol o arfer da a amlygwyd yn cynnwys penderfyniad bwriadol gan un prosiect i sicrhau bod aelodau benywaidd o dîm cyflawni'r prosiect yn ymddwyn fel modelau rôl amlwg i annog merched a menywod i gymryd mwy o ran mewn sectorau cyflogaeth llai traddodiadol a darparu cyfleoedd dysgu a hyfforddi i fenywod a merched mewn sgiliau rheoli cefn gwlad traddodiadol. Erbyn diwedd y prosiect roedd 82 o fenywod a merched wedi cymryd rhan mewn cyrsiau o'r fath.

Cyfeiriodd dau brosiect at rai diffygion yn y system adrodd a ddefnyddir gan RPW mewn perthynas â'r thema hon. Yn benodol, y gofyniad wrth adrodd ar dargedau i nodi faint o wrywod a benywod sy'n mynychu digwyddiadau neu'n gwirfoddoli. Awgrymwyd y dylid darparu sbectrwm ehangach o hunaniaeth rhywedd.

### 8.1.2. Datblygu cynaliadwy

Wrth ymateb i'r thema hon, roedd prosiectau'n awgrymu'n gyson bod yr SMS yn cyfrannu ati oherwydd dyluniad a natur y cynllun. Disgrifiodd y prosiectau sut y bu iddynt fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy drwy'r dull integredig a oedd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gyda'u cyllid SMS (fel yr amlinellir yn fanwl yn adran 7). Fodd bynnag, darparwyd rhai enghreifftiau penodol hefyd gan gynnwys:

- dod o hyd i ddefnydd cynaliadwy newydd ar gyfer coetiroedd a chynefinoedd eraill i leihau llifogydd a gwella bioamrywiaeth yn ogystal â gwneud ffermydd yn fwy hyfyw
- cefnogi'r ecosystem fioamrywiol ar Lwybr Arfordir Cymru fel ei bod yn cael ei gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- adfer cynefinoedd sy'n atafaelu CO2 mewn ffordd a all hefyd o bosibl roi incwm cynaliadwy i ffermwyr
- rheolaeth gynaliadwy drwy bori er lles cadwraeth sy'n arwain at gynyddu bioamrywiaeth
- hyfforddi staff a gwirfoddolwyr i fonitro cynefinoedd gan arwain at fwy o wybodaeth i reoli'r safleoedd yn fwy effeithiol yn y dyfodol
- hyfforddi dau brentis a darparu cyrsiau ar gyfer partneriaid prosiect gan sicrhau mwy o wybodaeth am reoli tirwedd cynaliadwy

#### 8.1.3. Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol

O bell ffordd, hon oedd y thema drawsbynciol a ddefnyddiodd prosiectau SMS i ddarparu'r nifer fwyaf o enghreifftiau cryf o'u cyfraniad gan gynnwys:

- cynnig parcio am ddim, amrywiaeth o weithgareddau am ddim, neu fynediad am ddim (3) – amlinellodd un prosiect sut yr oedd wedi gweithio'n galed i gynnwys pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol neu nad ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol drwy gysylltu ag aelodau'r gymuned drwy lythyrau a galwadau ffôn
- creu swyddi mewn ardaloedd gwledig neu greu gwariant yn yr ardal leol drwy gontractio a helpu ffermydd i ddod yn fwy hyfyw (2) – awgrymodd un sefydliad a oedd yn arwain ar nifer o brosiectau SMS fod tua £500,000 wedi'i wario'n lleol, gan gefnogi teuluoedd lleol yn uniongyrchol drwy effaith raeadru sy'n helpu i atal tlodi
- gwaith cymunedol yn yr ardal leol yn cynnwys pobl ifanc neu ysgolion lleol mewn gweithgareddau natur yn yr awyr agored, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth, na fyddent ar gael iddynt fel arfer (2)
- cyflogi pedwar o bobl yn uniongyrchol ar y prosiect ar fwy na'r isafswm cyflog, gan arwain at ddau o'r rhain yn rhoi'r gorau'n gyfan gwbl i ddibynnu ar fudd-dal cyflogaeth
- cynnig gweithgareddau iechyd a lles wedi'u targedu mewn rhannau o'r ardal leol lle ceir lefelau uchel o amddifadedd
- gwneud gwelliannau i lwybrau i'w gwneud yn fwy hygyrch i'r rhai â namau corfforol, defnyddwyr cadeiriau olwyn a theuluoedd â phlant ifanc
- lleihau ynysu cymdeithasol drwy greu cyfleoedd gwirfoddoli
- gweithio gydag elusen ceiswyr lloches yn y DU i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli. O ganlyniad i'r enghraifft benodol hon, roedd cynrychiolydd o'r prosiect wedi rhoi cyflwyniad i bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar sut yr oedd cymuned wledig wedi darparu profiad cadarnhaol i geiswyr lloches ac wedi helpu i chwalu rhwystrau a chanfyddiadau negyddol yn yr ardal leol
- cynnwys carcharorion o CEF Berwyn yn y prosiect
- staff prosiect yn cefnogi ysgol leol drwy brosiect sydd wedi'i anelu at ysbrydoli grwpiau sy'n tangyflawni i werthfawrogi ymchwil ac ystyried mynychu prifysgolion Grŵp Russell

## 8.2. Cyfraniad at amcanion trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig

### 8.2.1. Yr amgylchedd

Roedd prosiectau yn ddieithriad yn cyfeirio at gyflawniadau mewn perthynas â'u hallbynnau amgylcheddol (fel yr amlinellir yn fanwl yn adran 7 o'r adroddiad hwn). Gan fod yr SMS yn gynllun sydd wedi'i anelu at gynhyrchu allbynnau a chanlyniadau amgylcheddol ar raddfa'r dirwedd, mae ei ddyluniad a'i hanfod yn cyflawni'r amcan hwn. Roedd prosiectau'n cyfeirio'n aml at greu cynefinoedd newydd, plannu coed a mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol, sydd oll yn cefnogi amcanion amgylcheddol.

Soniwyd hefyd am gael gwared ar sbwriel ac atal tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fel ffyrdd yr oedd y prosiect wedi helpu i osgoi rhagor o ddifrod i'r amgylchedd.

### 8.2.2. Arloesi

Adroddwyd ar nifer o ddatblygiadau arloesol fel rhan o weithgareddau prosiect a ariannwyd gan yr SMS. Maent yn cynnwys:

- ymchwilio i ffyrdd newydd o ddefnyddio biomas
- creu cwmni cydweithredol o fusnesau ffrwythau i luosogi coed o darddiad lleol
- technegau electronig newydd ar gyfer monitro a rheoli pori
- dulliau cydweithredol gyda'r heddlu neu'r gwasanaethau tân ac achub
- datblygu fideo araf yn dangos effaith gwelliant mewn iechyd meddwl
- cynnwys y celfyddydau ac artistiaid yn y prosiect gan gynnwys artist preswyl a greodd osodiad clyweledol o farddoniaeth ddwyieithog
- y defnydd o wlân o dan lwybrau (dull diflanedig o gyfnod y Rhufeiniaid a ailgyflwynwyd)
- y defnydd o godau QR ar lwybrau sy'n gallu storio'r wybodaeth (yn hytrach na bod angen mynediad i'r rhyngrwyd)

Cododd tri ymatebydd y pryder nad oedd canolbwyntio ar arloesi o reidrwydd yn fuddiol mewn cynllun fel yr SMS. Nodwyd nad oedd unrhyw fudd amlwg i newydd-deb neu arloesi o ran mynd i'r afael â rhai o'r materion difrifol y mae'r cynllun yn mynd i'r afael â nhw, ac yn aml mai'r hyn sydd ei angen yw atebion 'dibynadwy', cyffredin, lle y ceir 'tystiolaeth dda' eu bod yn gweithio.

### 8.2.3. Addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru

Yn ei hanfod, cynlluniwyd yr SMS i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy weithio ar raddfa'r dirwedd. Oherwydd ei natur, mae’r cynllun felly’n dangos tystiolaeth gref o fynd i’r afael ag argyfyngau bioamrywiaeth a'r hinsawdd drwy ei allbynnau amgylcheddol amrywiol, megis ardaloedd o fawndir a adferwyd, coed a blannwyd er mwyn dal a storio carbon a gwella cynefinoedd, fel yr amlinellwyd eisoes ym Mhennod 7.

Darparodd prosiectau a gyfwelwyd hefyd sawl enghraifft benodol o weithgareddau a effeithiodd yn uniongyrchol ar yr amcan hwn. Ymysg yr enghreifftiau a roddwyd mae:

- plannu coed a gwelliannau eraill i gynefinoedd megis gwrychoedd newydd neu welliannau i fawndiroedd sy’n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd drwy leihau dŵr ffo, gwella ansawdd dŵr, neu helpu i atal perygl llifogydd
- penodi a defnyddio contractwyr lleol, neu ymdrechion ymwybodol ar ran staff y prosiect i leihau teithio neu ddefnyddio technoleg ar-lein gan leihau allyriadau diangen
- defnyddio planhigion brodorol a meithrinfeydd planhigion lleol pryd bynnag y bo modd
- gwelliannau i iechyd y pridd ac adfer mawndiroedd gan gynyddu cyfraddau dal carbon

## 8.3. Cyfraniad at strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050

Mae tystiolaeth a ddarparwyd ar y defnydd o’r Gymraeg ac yr adroddwyd arni yn adroddiadau diweddaru blaenorol gwerthusiad yr SMS wedi tueddu i fod yn seiliedig ar gynhyrchu deunyddiau dwyieithog yn unig. Yn ystod y cam olaf hwn, gwelwyd tystiolaeth o ddefnydd llawer ehangach o’r Gymraeg wedi’i ymgorffori yn y gwaith o gyflawni'r prosiectau. Ymysg yr enghreifftiau o gyfraniad prosiectau at strategaeth y Gymraeg mae:

- cynhyrchu neu gyhoeddi dogfennau i’r cyhoedd, arwyddion, byrddau dehongli, gwefannau, a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog (12)
- staff prosiect dwyieithog yn galluogi ac yn annog rhwydweithio dwyieithog yn y gymuned a chyda phartneriaid, gyda thrafodaethau a sesiynau rhyngweithio yn cael eu cynnal yn Gymraeg fel mater o drefn (10)
- cynnal gweithgareddau dwyieithog gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion, gweithgareddau addysgol, sesiynau hyfforddi a chyfarfodydd ar-lein (7)
- cyfarfodydd prosiect yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog, gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu mewn cyfarfodydd a/neu gofnodion dwyieithog yn cael eu llunio (5)
- annog aelodau di-Gymraeg o’r gymuned, ymwelwyr, a gwirfoddolwyr i ymgysylltu â’r Gymraeg gan ddefnyddio ymadroddion Cymraeg a rhyngweithio ag aelodau o’r gymuned sy’n siarad Cymraeg (2)
- dathlu’r ymdeimlad unigryw o le, hanes a diwylliant mewn elfennau rhannu gwybodaeth o’r prosiect a defnyddio’r enwau Cymraeg hanesyddol ar leoedd (2)
- drafftio cytundebau i ffermwyr yn Gymraeg

Nododd pedwar prosiect nad oeddent wedi'u lleoli mewn ardal Gymraeg ei hiaith neu mai canran isel o'r gymuned a oedd yn siarad Cymraeg ac felly roeddent yn gweld hyn fel rhywbeth a oedd yn eu 'hesgusodi' rhag cynhyrchu deunyddiau neu ddarparu gweithgareddau'n ddwyieithog. O'r herwydd roeddent wedi gwneud 'yr hyn sy'n angenrheidiol' ond 'heb wneud ymdrech enfawr mewn perthynas â'r Gymraeg'. Awgrymodd cynrychiolwyr o'r prosiectau hyn fod cyflwyno'r prosiect yn ddwyieithog yn heriol, bod yr SMS wedi bod yn 'anhyblyg iawn' ac nad oedd ganddynt y gyllideb i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. O ran un prosiect, er bod peth gwrthwynebiad ymhlith partneriaid i gynhyrchu deunyddiau addysg a dehongli yn ddwyieithog, roedd arweinydd y prosiect wedi mynnu gwneud hynny, gan ei ystyried yn ffordd o ychwanegu gwerth, 'nid ymarfer ticio bocs'.

# 9. Casgliadau ac argymhellion

Mae’r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau a’n hargymhellion, gan dynnu ar yr adolygiad o dystiolaeth ddogfennol a’r gwaith maes a wnaed yn ystod cam olaf y gwerthusiad hwn. Mae’r casgliadau wedi’u strwythuro yn unol â’r amcanion allweddol a nodir ar gyfer y gwerthusiad, a’r cwestiynau ymchwil perthnasol i adrodd arnynt yn ystod y cam hwn:

- cyfatebiaeth y prosiectau ag egwyddorion SMNR
- y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i weithredu
- natur a graddau'r cydweithio a'r hyn a gyflawnwyd yn sgil hynny
- canlyniadau'r cynllun a chamau gweithredu ar y blaenoriaethau polisi
- y cyfraniad y mae prosiectau wedi'i wneud at y themâu trawsbynciol a nodir yn Cymunedau Gwledig-Rhaglen Datblygu Gwledig, yn enwedig addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effaith

Mae llawer o'r cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â phroses ar gyfer amcan dau, sef y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i weithredu, yn enwedig mewn perthynas â'r broses ymgeisio, wedi cael sylw yn y ddau adroddiad gwerthuso blaenorol a baratowyd ar gyfer y cynllun SMS ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma. Mae’r canfyddiadau a’r argymhellion allweddol mewn perthynas â’r rheini i’w gweld yn Atodiad B.

Mae’r casgliadau hefyd yn ystyried i ba raddau y cyflawnodd y cynllun SMS ei allbynnau a’r canlyniadau a nodwyd fel y nodir yn ei fodel rhesymeg Damcaniaeth Newid (gweler Atodiad C).

## 9.1. Cyfatebiaeth y prosiectau ag egwyddorion SMNR

Roedd adroddiadau gwerthuso blaenorol eisoes wedi nodi tystiolaeth gref bod prosiectau SMS wedi ystyried egwyddorion SMNR wrth ddylunio a gweithredu eu hymyriadau. Roedd yn bosibl ymweld â nifer o brosiectau SMS a siarad â phartneriaid, cyfranwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned ar gyfer cam olaf y gwerthusiad. Wrth wneud hynny, ac wrth ddadansoddi sut y gallai prosiectau unigol ddangos tystiolaeth o'u cyfraniad at y naw egwyddor SMNR allweddol (gweler Atodiad A), gellir dod i'r casgliad bod y cynllun SMS yn cyfateb yn dda â'r dull o reoli adnoddau naturiol ac ecosystemau a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) wrth gyflawni canlyniadau prosiectau. Mae tystiolaeth gref bod dyluniad cynllun trosfwaol yr SMS wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran galluogi cyfatebiaeth â rhai o egwyddorion penodol SMNR – mae prosiectau'n gweithio ar raddfa ehangach, yn cydweithio â phartneriaid newydd neu'n dwysáu eu hymgysylltiad â phartneriaid presennol ac yn meithrin mwy o wytnwch a meddwl yn y tymor hwy sy'n arwain at ystod ehangach o fanteision.

Mae rhai enghreifftiau neu rywfaint o dystiolaeth yn dod i'r amlwg hefyd ar gyfer yr egwyddorion SMNR sy'n weddill ac mae ffactorau allanol wedi effeithio ar allu prosiectau i ddangos cymaint o gynnydd yn erbyn rhai o'r rhain ag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Er enghraifft, mae'r egwyddor o reolaeth ymaddasol wedi'i chyfyngu rhywfaint gan brosesau gweinyddol y cynllun SMS, tra bod cyfranogiad y cyhoedd yn anochel wedi bod yn gyfyngedig yn ystod cyfnodau cyflawni oherwydd y pandemig COVID-19.

Rydym yn dod i'r casgliad y gall mecanwaith cyflawni sy'n cyllido'r camau cydweithredol a phrosiectau tirwedd cydgysylltiedig neu weithgaredd grŵp fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r heriau o gyflawni ar raddfa a chyflwyno camau gweithredu lluosog sy'n cyd-fynd ag egwyddorion SMNR.

## 9.2. Rheoli a gweithredu'r cynllun

Ar y cychwyn, nododd y cynllun SMS ei fwriad i sefydlu dull mwy cydweithredol o reoli'r rhaglen. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, o safbwynt polisi, roedd y dyluniad yn gadarn. Dros y cyfnod gwerthuso, mae'r prosiectau'n teimlo bod amlygrwydd tîm polisi Llywodraeth Cymru, a'u rhyngweithio ag ef, wedi lleihau, a disgrifiodd llawer o brosiectau sut y maent wedi cyflawni eu prosiectau heb fawr o gysylltiad uniongyrchol â thîm polisi Llywodraeth Cymru, os o gwbl. RPW oedd yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun, ac felly mae'r rhan fwyaf o'r rhyngweithio â Llywodraeth Cymru wedi bod drwy RPW mewn perthynas â hawliadau a monitro. O ganlyniad, nid yw'r SMS wedi'i gyflawni na'i gynnal yn unol â'r bwriad gwreiddiol.

Gydag ychydig dros hanner dyraniad cyllid y cynllun wedi'i wario erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, a'r gofyniad i brosiectau a ariannwyd yn ystod cyfnodau 4 a 5 gael eu cyflawni o fewn amserlenni llawer byrrach nag a fwriadwyd yn wreiddiol oherwydd oedi i ddyddiad dechrau contractau, mae'r SMS yn parhau i fod mewn perygl o fethu â dyrannu cyfanswm ei gyllid yn llawn ac o danwario cyllid yr UE sydd ar gael o ganlyniad i hynny.

Yn ystod y gwerthusiad, mae prosiectau a ariannwyd ar draws pob cyfnod wedi codi pryderon a rhwystredigaethau difrifol ynghylch sut y mae problemau gweinyddol wedi

effeithio ar eu gallu i gyflawni eu prosiectau'n unol â'r bwriad, a'r effaith negyddol y mae’r profiad o reoli prosiectau a ariennir gan SMS wedi’i chael ar les ac iechyd meddwl unigolion. Ceir tystiolaeth o'r gwaith maes ar y cam hwn o'r gwerthusiad bod y teimladau cryf a fynegwyd gan staff y prosiectau wedi effeithio ar barodrwydd rhai i gyfrannu eu barn i'r gwerthusiad hyd yn oed.

Lle mae prosiectau SMS wedi nodi eu bod wedi rhyngweithio ag aelod o dîm polisi'r SMS, mae hyn wedi bod yn gadarnhaol ac wedi cael ei groesawu, ond prin fu'r cyfleoedd hynny oherwydd adnoddau annigonol ar lefel y tîm polisi, sydd wedi dod yn fwyfwy perthnasol tuag at ddiwedd cyfnod cyllido'r cynllun. Nid yw'r prosiectau a ariannwyd gan SMS wedi dweud eu bod yn teimlo’n rhan o dîm mwy, eu bod yn deall beth mae prosiectau eraill yn ei wneud na sut y maent yn cyfrannu at flaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru.

Nid yw’r prosesau hawlio, monitro ac adrodd a fabwysiadwyd drwy RPW wedi bod yn addas nac yn briodol ar gyfer y cynllun SMS. Nid yw dyluniad a natur y cynllun, a'i fwriad i gyllido prosiectau cydweithredol unigryw o reidrwydd yn addas i gael eu monitro mewn modd gor-syml. Er bod allbynnau prosiectau'n cael eu cofnodi yn erbyn dangosyddion achos y Rhaglen Datblygu Gwledig, ni chaiff allbynnau ychwanegol a gyflawnir gan brosiectau eu casglu fel mater o drefn ac felly mae rhai cyflawniadau pwysig nad ydynt yn cael eu cofnodi.

Nid yw'r prosiectau wedi cyflwyno adroddiadau gwerthuso annibynnol diwedd prosiect sy'n ddigonol o ran eu nifer a'u hansawdd. Dim ond pymtheg adroddiad a oedd ar gael adeg drafftio'r adroddiad hwn (a dim ond pedwar o'r rheini sy'n ychwanegol at y rhai a oedd ar gael ar gyfer adroddiad diweddaru'r gwerthusiad flwyddyn yn ôl), ac mae llai na hanner y rheini'n adroddiadau digonol.

Yn ystod cam datblygu'r Ddamcaniaeth Newid ar gyfer gwerthusiad y cynllun SMS yn 2020, nodwyd y bydd adroddiadau gwerthuso ar lefel prosiect…yn darparu gwybodaeth hollbwysig ynghylch i ba raddau y mae prosiectau unigol yn cyflawni eu targedau eu hunain. Mae'n resynus bod rhai sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid sylweddol drwy'r cynllun SMS ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cwblhau heb gyfrannu at y broses werthuso hyd yma. Mae hyn yn cynnwys peidio ag ymateb i geisiadau dros nifer o gyfnodau amser i gwblhau arolygon, mynychu cyfweliadau gyda gwerthuswyr allanol, peidio â chyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd, a pheidio â chyflwyno adroddiadau gwerthuso annibynnol diwedd prosiect - sydd oll yn bethau yr oedd yn rhaid iddynt eu gwneud o dan y contract. Gyda’r fath brinder tystiolaeth, ni all y gwerthusiad crynodol hwn ar lefel cynllun ddod i lawer o’r casgliadau y disgwylid iddo ddod iddynt.

Lle mae prosiectau cydweithredol wedi llwyddo i lywio'u ffordd drwy'r prosesau gweinyddol, mae ymarfer effeithiol wedi bod ar waith, a hynny fel arfer oherwydd bod y partner arweiniol wedi mabwysiadu trefniadau rheoli prosiect cryf a gweithdrefnau cynllunio da o'r cychwyn cyntaf. O ran gwersi ar gyfer y dyfodol, byddai dull mwy hyblyg o weinyddu prosiectau a ariennir, mwy o ymddiriedaeth yng nghadernid prosesau mewnol elusennau, sefydliadau ac awdurdodau a ariennir yn gyhoeddus sydd wedi'u hen sefydlu yn gwneud gwahaniaeth mawr. Erys y ffaith, hyd nes y gellir gwneud y gofynion monitro a’r prosesau hawlio yn fwy addas ar gyfer prosiectau o’r natur hon, na ddylid rhoi cyfrifoldeb arweinydd prosiect i gwmnïau neu ymddiriedolaethau buddiant cymunedol sydd newydd eu sefydlu neu sy'n

ddibrofiad heb gefnogaeth gan gyrff mwy sefydledig sydd â'r trefniadau llywodraethu a'r hyfywedd ariannol angenrheidiol i ymdrin â materion yn gysylltiedig ag oedi gyda thaliadau.

## 9.3. Natur a maint y cydweithio

Mae tystiolaeth bod effeithiau cadarnhaol cydweithio ar brosiectau yn llawer mwy na'r effeithiau negyddol, yn enwedig o ran mwy o drosglwyddo gwybodaeth, cyflawni'n fwy effeithiol ar raddfa'r dirwedd a gwell ymgysylltiad â'r gymuned. Mae SMS hefyd wedi dangos bod cydweithio yn gwella dros amser, a bod caniatáu amser i ennyn ymddiriedaeth a meithrin dealltwriaeth yn hanfodol. Nid yw’r gwerthusiad wedi sylwi ar unrhyw deipoleg neu fath penodol o gydweithrediadau sy’n fwy tebygol o lwyddo er bod y rhai a roddodd ddulliau cyfathrebu cryf a rheolaidd ar waith, a ddefnyddiodd ryw fath o broses hwyluso i ganiatáu i bob partner gael ei glywed, ac a lwyddodd i gadw cysondeb o ran aelodaeth ac eglurder o ran cyfrifoldeb yn fwy tebygol o lwyddo.

Mae hefyd yn bwysig caniatáu i bartneriaid ychwanegol gymryd rhan wrth i brosiectau ddatblygu, a sicrhau bod cynrychiolwyr allweddol o amgylch y bwrdd. Mewn un achos, er enghraifft, arweiniodd y ffaith nad oedd CNC yn rhan o'r prosiect ac yn cyfrannu'r wybodaeth angenrheidiol at ganlyniadau llai na'r disgwyl. Gellid mynd i'r afael â hyn cyn adroddiad diwedd prosiect yn y dyfodol pe bai mwy o gyfathrebu a threfniadau adrodd cadarn i arweinwyr polisi yn rhan annatod o gyflawni'r cynllun drwyddo draw.

Canfu’r gwerthusiad ddigonedd o enghreifftiau lle mae cydweithio ar raddfa tirwedd neu ddalgylch rhwng tirfeddianwyr, ffermwyr, a phartneriaid allweddol eraill, wedi arwain at fwy o fanteision i natur ac ecosystemau lleol na phe bai ffermwyr neu dirfeddianwyr wedi gweithredu’n unigol. O ganlyniad, deuwn i’r casgliad y dylai dull cydweithredol o gyllido prosiectau'n ymwneud â'r dirwedd fod yn elfen allweddol o bolisi’r llywodraeth mewn perthynas â chyllid yn y dyfodol.

Mae cynaliadwyedd prosiectau cydweithredol yn parhau i fod yn fregus. Ar draws yr holl gyfweliadau, mae tystiolaeth o awydd cryf i barhau i gydweithio, ond llai o dystiolaeth o gynlluniau pendant ar gyfer sut i gyflawni hyn, heb gyllid parhaus.

Bydd llawer o'r camau cydweithredol arfaethedig o fewn yr SFS yn parhau i flaenoriaethu'r camau gweithredu a gefnogir gan yr SMS. Mae'r SFS hefyd yn ceisio parhau â'r dull cydweithredol ar raddfa dalgylch, graddfa'r dirwedd neu raddfa genedlaethol ac mae'n ymddangos ei fod eisoes yn cyfeirio'n helaeth at elfennau cydweithredol prosiectau SMS a ariennir. Bydd yn bwysig bod y pwyntiau dysgu o ddylunio a chyflawni SMS yn parhau i fwydo a chael eu hintegreiddio i bolisïau amgylcheddol a ffermio ehangach a mecanweithiau cyllido. Fodd bynnag, gan fod rhai blynyddoedd eto cyn pontio i’r SFS, mae angen dylunio cynllun yn y cyfamser a allai gefnogi’r elfennau cydweithredol a roddwyd ar waith drwy SMS neu gydweithrediadau newydd sydd bellach wedi aeddfedu ac sy’n barod i’w cyflawni.

Gallai'r dull gweithredu a fabwysiadwyd o fewn SMS fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer cyflawni rhai o'r amcanion a nodir yn COP 15 ac ar gyfer cyflawni rhai o'r argymhellion a gynigir yn Plymio Dwfn Bioamrywiaeth. Rhaid cyllido gwaith ar raddfa’r dirwedd, gan na ellir disgwyl i ffermwyr a thirfeddianwyr gyflawni’r uchelgeisiau hyn heb gymorth ariannol. Mae’r

SMS wedi dangos yr angen i rai o’r ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur weithredu ar raddfa’r dirwedd a chyda chyllid tymor hwy, a gallai fod yn sail i hynny. Fodd bynnag, fel y mae chweched argymhelliad yr adroddiad Plymio Dwfn yn ei awgrymu, mae angen edrych ar ffynonellau cyllid eraill i gyflawni'n gyflymach ac ar raddfa fwy, gan gynnwys mecanweithiau cyllido cynaliadwy, gan y bydd hyn yn anodd ei gyflawni yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

## 9.4. Canlyniadau'r SMS

Er gwaethaf y diffyg tystiolaeth o ganlyniadau sydd ar gael ar gyfer y cynllun SMS o brosesau monitro ac adrodd yn ystod y cam olaf hwn, mae hefyd yn bwysig dweud y nodwyd o'r cychwyn cyntaf wrth ddrafftio'r adroddiad Damcaniaeth Newid ar gyfer SMS yn 2020 efallai na fydd canlyniadau tymor hwy a nodir ar gyfer yr SMS i'w gweld o fewn yr amserlenni a bennwyd ar gyfer y gwerthusiad, yn enwedig ar gyfer prosiectau SMS a ariannwyd yn fwyaf diweddar. Felly, mae'n annheg mesur llwyddiant y cynllun SMS ar sail ei allu i ddangos canlyniadau na ellir dangos tystiolaeth ohonynt ar hyn o bryd. Mae angen cyfnod cyllido hwy ar gyfer prosiectau SMS ac, yr un mor bwysig, cyfnod adrodd hwy, os disgwylir iddynt ddangos canlyniadau amgylcheddol.

Mae’r adroddiad gwerthuso terfynol hwn, fel yr adroddiadau blaenorol, wedi gallu canfod tystiolaeth o brosiectau a ariannwyd yn cyflawni gwelliannau i adnoddau naturiol ac i reoli tirweddau. Adroddir am allbynnau cryf sy'n deillio o weithgareddau prosiectau, sy'n debygol o effeithio ar well cysylltedd rhwng ecosystemau, eu maint a'u cyflwr. Yr hyn na ellir ei fesur nac adrodd arno ar hyn o bryd yw i ba raddau y mae'r rhain yn debygol o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn y tymor hwy.

Er bod rhai prosiectau wedi dangos tystiolaeth o ddulliau cynaliadwy o gynnal y gwelliannau a wnaed, noda'r mwyafrif y byddant yn dibynnu ar ewyllys da gwirfoddolwyr, neu ar lwyddo i gael rhagor o gyllid grant i barhau â'r gwaith a wnaed hyd yma. Mae perygl, yn enwedig gydag elfennau megis adfer mawn neu gael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol, y bydd gwelliannau'n cael eu colli oni bai eu bod yn cael eu hamddiffyn (e.e., rhag fandaliaeth) a'u cynnal.

At ei gilydd, mae'r prosiectau'n perfformio'n dda yn erbyn eu hystod eang o DPA a ariennir, boed yn allbynnau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd. Mae'r prosiectau a gwblhawyd wedi cofnodi allbynnau cryf yn erbyn eu dangosyddion lefel achos, gan gyflawni 19 o blith 24 o ddangosyddion neu ragori arnynt. Byddai'r cynllun wedi elwa o fwy o gysondeb o ran y modd y dehonglwyd y dangosyddion hyn yn ogystal â chael fframwaith canlyniadau o'r cychwyn cyntaf i gefnogi gweithgareddau monitro ac adrodd.

Mae'r rhan fwyaf o brosiectau a ariennir wedi cymryd camau a fydd yn helpu i wella adnoddau naturiol, ecosystemau a thirweddau. Mae prosiectau'n hyderus y bydd eu gweithredoedd yn helpu i gynyddu lefelau bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd, ond ni ddisgwylir i'r effeithiau amgylcheddol hyn gael eu cyflawni dros y cyfnod cyllido tymor byr. Nid yw nifer bach o brosiectau wedi rhoi'r mathau hyn o gamau ar waith eto gan fod angen iddynt, fel un o'r amodau cyllido, gwblhau ymchwil llinell sylfaen ac arolygon yn gyntaf i lywio eu rhaglen waith. Yn yr achosion hyn, mae'r manteision amgylcheddol yn llai clir.

Canfuwyd yn gyffredin bod prosiectau wedi cymryd camau a fydd yn helpu i wella’r cysylltedd rhwng ecosystemau gan eu bod wedi gweithio ar lefel y dirwedd i adfer gwrychoedd ar draws ffermydd a chreu llochesi bywyd gwyllt naturiol. Yn yr un modd, mae yna ddigonedd o enghreifftiau o brosiectau sydd wedi cymryd camau priodol a fydd yn arwain at welliannau i iechyd a chyflwr ecosystemau. Gellir disgwyl i gamau gweithredu fel gwella ansawdd dŵr, gwella ansawdd y pridd, a chael gwared ar rywogaethau anfrodorol ymledol wella iechyd a chyflwr ecosystemau lleol, ar yr amod eu bod yn cael eu cynnal yn y tymor hir. Mae rhai o'r camau a gymerir yn gofyn am lai o waith cynnal a chadw parhaus tra bod eraill yn fwy dibynnol ar newidiadau parhaus mewn ymddygiad ymysg tirfeddianwyr, ffermwyr a gwirfoddolwyr cymunedol.

Canfu’r gwerthusiad hefyd fod prosiectau wedi gwneud cyfraniad da at gyflawni manteision cymdeithasol i’w cymunedau o ganlyniad i fabwysiadu egwyddorion SMNR. Y prif fanteision cymdeithasol yw mwy o gyfleoedd i bobl leol gysylltu â byd natur, gwell iechyd a lles, mwy o fynediad i'r awyr agored, a mwy o gyfleoedd addysgol a gwirfoddoli. Awgryma'r dystiolaeth a gasglwyd hefyd fod y manteision cymdeithasol a gyflawnir gan brosiectau SMS yn fwy tebygol o gael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â mwy o fynediad i'r awyr agored a gwella iechyd a lles y gymuned leol.

O gymharu â’r manteision cymdeithasol, er eu bod yn dal yn gadarnhaol, mae'r prosiectau wedi gwneud ychydig yn llai o gyfraniad economaidd i’w cymunedau lleol a hynny oherwydd nad oeddent wedi bwriadu cyflawni ystod eang o ganlyniadau economaidd, ac os gwnaethant hynny, roedd y canlyniadau a ddisgwyliwyd yn gymharol fach. Y prif fanteision economaidd yw mwy o drosglwyddo gwybodaeth a chadw cyllid grant o fewn economïau cylchol lleol. Cyfeiriwyd at fanteision economaidd eraill gan lai o brosiectau.

## 9.5. Themâu ac amcanion trawsbynciol

Nid yw adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect wedi adrodd yn rheolaidd ar themâu trawsbynciol yr UE ac amcanion trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig felly dim ond ar sail yr ymatebion i'r arolwg a'r cyfweliadau y gellir dod i gasgliadau. Yn gyffredinol, mae tystiolaeth ar draws y cynllun SMS o gyfle cyfartal yn cael ei ddarparu i unigolion mewn cymunedau gwledig i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r cynllun yn gwneud cyfraniad cryf at yr amcan datblygu cynaliadwy, gydag enghreifftiau o reoli tirweddau'n gynaliadwy yn ganolog iddo. Gall SMS hefyd ddangos sawl enghraifft dda iawn o brosiectau sy'n darparu cyfleoedd mynediad am ddim i aelodau'r gymuned gyfrannu at brosiectau, ac i wario mwy yn lleol mewn ardaloedd gwledig. Mae'r SMS hefyd wedi gwneud cyfraniadau cryf at weithgareddau trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig drwy ei weithgareddau a ariennir.

Mae cyfraniadau at strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn fwy cymysg. Mae prosiectau mewn ardaloedd gwledig lle ceir canrannau uchel o gymunedau Cymraeg eu hiaith, wedi bod yn hynod ragweithiol o ran mabwysiadu arferion dwyieithog a chynnal gweithgareddau dwyieithog i alluogi unigolion i gyfrannu yn yr iaith o'u dewis tra bod y rhai sy'n gweithredu mewn ardaloedd â niferoedd llai o siaradwyr Cymraeg wedi bod yn llai tebygol o wneud hynny.

I gloi, gyda'r dystiolaeth werthuso sydd ar gael hyd yma, mae prosiectau'r SMS yn sicr yn gallu cyflawni eu hamcanion ac maent yn perfformio'n gryf yn erbyn yr allbynnau a ariennir ac yn cyflawni manteision ychwanegol hefyd. Mae mecanwaith cyllido cydweithredol trosfwaol yr SMS wedi galluogi hyn, ond nid yw'r cynllun wedi rhoi'r fframwaith monitro a gwerthuso priodol ar waith i gasglu'r dystiolaeth hon mor llawn ag y byddai wedi dymuno. Wrth edrych ar fodelau cyllido'r dyfodol, mae darparu prosiectau gyda'r ymddiriedaeth a'r hyblygrwydd sydd eu hangen i'w galluogi i weithio mewn dull cydweithredol, ar raddfa'r dirwedd sy'n cyd-fynd yn llawn ag egwyddorion SMNR yn debygol o wella ymhellach y canlyniadau y gellir eu cyflawni.

## 9.6. Argymhellion

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a oedd ar gael i ni yn ystod cam crynodol olaf gwerthusiad y cynllun SMS, rydym yn gwneud yr argymhellion ychwanegol a ganlyn i Lywodraeth Cymru eu hystyried mewn unrhyw ddull cyflawni cydweithredol ar raddfa'r dirwedd yn y dyfodol.

Mae'n dal i fod yn wir bod llawer o wersi i'w dysgu o'r cynllun SMS presennol y mae angen eu cofnodi a'u rhannu. Mae'n hanfodol bod cyfleoedd yn cael eu darparu i ddysgu'n uniongyrchol o brosiectau am wersi'r SMS, o ran ei weithrediad a'i allbynnau a'i ganlyniadau llwyddiannus. O'r herwydd, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y 35 o brosiectau sy'n weddill yn bodloni'r gofyniad i ddarparu adroddiad gwerthuso diwedd prosiect o ansawdd uchel a mynd ati i hyrwyddo'n weithredol y canllawiau a ddatblygwyd at y diben hwn. Mae rhai prosiectau wedi'i chael hi'n anodd penodi gwerthuswr allanol priodol, a dylai Llywodraeth Cymru felly ystyried caniatáu i brosiectau gynhyrchu eu hadroddiadau gwerthuso diwedd prosiect mewnol eu hunain (gan ddilyn y canllawiau a ddarperir).

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i opsiynau i gofnodi'n ffurfiol yr allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnwyd gan brosiectau a gwblhawyd, sydd y tu allan i'w DPA. Nid yw hyn yn bosibl ar drwy RPW Ar-lein ar hyn o bryd. Dylid dathlu pan fo prosiectau'n cyflawni mwy na'r hyn sy'n ddisgwyliedig, a dylid annog prosiectau i adrodd ar hynny yn eu hadroddiadau gwerthuso diwedd prosiect.

Argymhelliad 3: Yn y bôn, mae llawer o'r prosiectau a ariannwyd yn nau gyfnod olaf yr SMS wedi bod yn 'brosiectau arddangos' gan nad ydynt wedi cael cymaint o amser i gyflawni. Mae hefyd yn wir bod llawer o'r prosiectau a ariannwyd gan yr SMS wedi cyflawni gweithgareddau tebyg ond nad ydynt yn ymwybodol o'i gilydd a'r dulliau a ddefnyddiwyd. Dylai Llywodraeth Cymru geisio rhannu arfer gorau rhwng prosiectau a sicrhau bod hynny'n sail i fecanweithiau cyllido yn y dyfodol. Gallai hyn fod ar ffurf digwyddiad dathlu diwedd cynllun neu gyhoeddiad o ryw fath.

Mae llawer o'r argymhellion a wnaed yn y ddau adroddiad gwerthuso blaenorol ar y cynllun SMS yn parhau i fod yn ddilys a dylid eu hystyried, yn enwedig wrth ddatblygu a dylunio unrhyw fecanweithiau cyllido yn y dyfodol. Nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn y cam gwerthuso terfynol hwn ond mae angen ystyriaeth ofalus o hyd wrth gynllunio a gweithredu cyllid a chymorth yn y dyfodol.

Mae’r argymhellion hyn yn cynnwys gwersi pwysig a ddysgwyd mewn perthynas â dylunio a chyflwyno’r cynllun, gan gynnwys

- gwelliannau i'r broses Datgan Diddordeb a'r broses ymgeisio
- yr angen am gronfa fach o gyllid cynnal a chadw parhaus
- yr angen i ystyried cyfnod cyllido hwy
- mwy o gapasiti o fewn tîm polisi Llywodraeth Cymru i ymgysylltu’n rheolaidd â phrosiectau
- cymorth i brosiectau cydweithredol ar ffurf gweithgaredd hwyluso
- cymryd camau i sicrhau bod prosiectau a ariennir gan SMS yn teimlo’n rhan o rwydwaith ehangach, yn gallu rhannu dysgu, a datblygu dealltwriaeth o’u cyfraniad at flaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru, a
- gwelliannau niferus i brosesau gweinyddol y cynllun a'r beichiau'n gysylltiedig â hawliadau a roddir ar brosiectau

Gwneir rhai sylwadau ychwanegol ar y cam hwn i’w hystyried wrth ddylunio a gweithredu unrhyw fecanwaith cyllido cydweithredol yn y dyfodol:

Argymhelliad 4: Mae bwlch rhwng diwedd y cynllun SMS a datblygiad arfaethedig cyllid ar gyfer camau cydweithredol o dan yr SFS. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyllid ar raddfa fach i roi cymorth parhaus i rai o’r partneriaethau presennol a sefydlwyd neu a ddatblygwyd o dan yr SMS. Byddai cyllid ar gyfer rôl swyddog prosiect rhan-amser gyda'r gallu i gael rhywfaint o arian cynnal a chadw yn cael ei groesawu gan yr holl brosiectau.

Argymhelliad 5: Yn yr un modd, byddai swm bach o gyllid i alluogi prosiectau i fonitro eu cynnydd yn erbyn canlyniadau amgylcheddol ar adegau allweddol yn y dyfodol (e.e., ymhen pum a deng mlynedd) yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddysgu am fanteision rhai o'r ymyriadau dros gyfnod hwy o amser.

Argymhelliad 6: Ar gyfer unrhyw gyllid yn y dyfodol, bydd cyfnod datblygu ar gyfer partneriaethau, gydag arian sbarduno priodol i sefydlu trefniadau llywodraethu, datblygu eu cynlluniau cychwynnol ac ymgorffori cydweithio ac ymddiriedaeth, yn bwysig. Gallai hyn hefyd fod yn rhan o unrhyw ddull cyllido dros dro fel bod partneriaethau yn cael amser i sefydlu ac yn gallu manteisio ar gyllid cydweithredol yn y dyfodol o dan yr SFS.

Argymhelliad 7: Mae’r SMS wedi cyllido sawl model a dull gweithredu llwyddiannus sydd wedi gwella'r cydweithredu â ffermwyr a thirfeddianwyr, gan gynnwys y rhai a arweinir gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol a’r rhai a ddarperir yn uniongyrchol gan grwpiau a arweinir gan ffermwyr neu grwpiau a arweinir gan y gymuned. Er nad oes unrhyw deipoleg benodol sy'n fwy llwyddiannus nag eraill, yr elfen gyffredin fu trefniadau rheoli a hwyluso cryf sydd wedi galluogi'r holl bartneriaid i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn cael yr holl wybodaeth drwy gydol y broses. Argymhellwn felly fod unrhyw fecanwaith cyllido

yn y dyfodol yn ystyried sut y gall hyn fod yn ei le drwy gydol y cyfnod cyllido ar gyfer pob prosiect.

Mae adroddiadau blaenorol wedi gwneud argymhellion clir am yr angen am ddull cyllido tymor hwy. Mae hyn bob amser yn heriol o dan gyfyngiadau tymhorau gwleidyddol a gofynion cyllid yr UE, ac mae amserlenni cyflawni wedi'u herydu ymhellach o dan yr SMS oherwydd y pandemig COVID-19 ac oedi wrth brosesu. Mae RPW Ar-lein wedi achosi anawsterau, ac mae'r weithdrefn hawlio wedi bod yn llafurus i brosiectau, gan gynnwys y rhai sy'n hyddysg yn systemau a gofynion WEFO. Nid yw'r rhain wedi bod yn fecanweithiau priodol ar gyfer cynllun sy'n ceisio gweithredu egwyddorion SMNR. Daeth gwersi allweddol i'r amlwg ar draws y tri adroddiad gwerthuso a baratowyd ac mae angen ystyried y rhain wrth weinyddu unrhyw gynllun cyllido cydweithredol yn y dyfodol. Nid yw'r system bresennol yn darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer camau cydweithredol a arweinir gan ffermwyr, ac mae'n rhoi ymddiriedolaethau bach a chwmnïau budd cymunedol mewn sefyllfaoedd ariannol anhyfyw.

Argymhelliad 8: Rydym yn argymell ymhellach, hyd nes neu oni bai y gellir addasu'r gofynion monitro a'r prosesau hawlio i anghenion prosiectau cydweithredol o'r natur hon, na ddylid rhoi'r cyfrifoldeb am arwain prosiectau (a'r rhwymedigaethau ariannol sy'n dod law yn llaw â hynny) i gwmnïau buddiant cymunedol neu ymddiriedolaethau sydd newydd eu sefydlu neu sy'n ddibrofiad, heb gefnogaeth cyrff mwy sefydledig er mwyn eu diogelu rhag pwysau'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a hyfywedd ariannol.

Argymhelliad 9: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ddull mwy addas ar gyfer unrhyw gynllun cyllido cydweithredol yn y dyfodol. Gallai hyn olygu gwneud addasiadau i fodel presennol RPW Ar-lein; sefydlu model rheoli ar ffurf Corff Cyfryngol neu ddarparu'r cyllid drwy sefydliad arall fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Argymhelliad 10: Mae'r cydweithio â sefydliadau allweddol fel CNC, awdurdodau lleol a Dŵr Cymru wedi bod yn gymharol ad hoc o fewn yr SMS ac wedi dibynnu ar ddiddordeb a chyfraniad y swyddog lleol. Mae angen ystyried dull mwy cyson yn y dyfodol. Bydd casglu data gofodol a chysylltu â Datganiadau Ardal a Chynlluniau Dalgylch yn allweddol i hyn a bydd hefyd yn galluogi prosiectau a ariennir i gasglu data GIS i ddangos tystiolaeth o effaith eu prosiectau yn y tymor hwy.

Argymhelliad 11: Er bod allbynnau prosiectau'r SMS wedi'u cofnodi yn erbyn dangosyddion achos priodol y Rhaglen Datblygu Gwledig, nid yw allbynnau ychwanegol a gyflawnwyd gan brosiectau wedi'u cofnodi'n systematig sy'n golygu bod rhai cyflawniadau pwysig nad ydynt wedi'u cofnodi. Mae angen i unrhyw gynllun cyllido cydweithredol yn y dyfodol sefydlu fframwaith manwl wedi'i arwain gan ganlyniadau o'r cychwyn cyntaf sy'n rhoi hyblygrwydd i brosiectau amrywiol adrodd yn briodol ond sy'n sefydlu canllawiau a diffiniadau clir, fel y gellir adrodd yn fwy cyffredin ar allbynnau a chanlyniadau. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau y gall unrhyw gynllun cyllido yn y dyfodol adrodd ar gyd-gyflawniadau.

# 10. Cyfeiriadau


Bebb, H., Bryer, N. et al (2020), Adroddiad Gwerthuso Proses SMS a Theori Newid
Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy: adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid (Welsh Government)

Llywodraeth Cymru (2020), Papur gwyn Bil Amaeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2016), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Llywodraeth Cymru (2021) Rhaglen Lywodraethu 2021-26

Llywodraeth Cymru (2022), Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Cynigion Bras ar gyfer 2025

# Atodiad A: Enghreifftiau o gyflawniadau prosiectau wedi'u mapio yn erbyn amcanion SMNR

| | |
|---|---|
| **ENW'R PROSIECT:** | **Cynnal Tirwedd Caerffili** |
| **Cyfnod Cyllido:** | 2 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| **Grant a Ddyfarnwyd:** | 295,987 |
| **Lleoliad:** | Caerffili |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Cafodd prosiect Cynnal Tirwedd Caerffili ei ddatblygu a'i weithredu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Coetiroedd Caerffili a nifer o randdeiliaid eraill.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddarn eang o dir i'r de o Gaerffili, sy'n ffinio â Chaerdydd a Chasnewydd. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o gynefinoedd glaswelltir a choetir, ardaloedd hanesyddol, a thir comin. Mae llawer o'r ardaloedd wedi'u dynodi'n statudol fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Tirwedd Arbennig, a Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, gyda rhan helaeth wedi'i diffinio fel 'Ardal Tirwedd Arbennig' neu 'Dirwedd Leol sy'n Weledol Bwysig' yng Nghynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae CNC yn berchen ar swm sylweddol o dir yn yr ardal. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **RHEOLI MEWN MODD YMADDASOL**<br><br>**(Egwyddor SMNR 1)** | Mae datblygu Prif Gynllun a Chynllun Gweithredu wedi gwella'r dull gweithredu tameidiog blaenorol. Cafodd Covid effaith ar y prosiect, gan gynyddu'r defnydd o safleoedd, ond gan ei gwneud yn anoddach dod o hyd i gontractwyr. Roedd yn rhaid i'r prosiect addasu i'r newidiadau hyn. |
| **GRADDFA**<br><br>**(Egwyddor SMNR 2)** | Mae'r prosiect wedi codi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyhoeddus o bwysigrwydd yr ardal ac wedi lleihau'r risg o ddatblygiadau newydd ar y tir. Mae'r llwybrau newydd hefyd wedi dargyfeirio pwysau oddi wrth ardaloedd ecolegol sensitif. |
| | Bu cydweithio rhagorol gyda Coed Cadw Caerffili a rhanddeiliaid eraill, yn arbennig grwpiau cymunedol. Daeth y broses ag |

| | |
|---|---|
| **CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 3)** | asiantaethau statudol megis CNC a'r Gwasanaeth Tân ac Achub ynghyd, ochr yn ochr â gwahanol ddefnyddwyr hamdden, tirfeddianwyr, cynghorau cymuned a grwpiau cadwraeth. |
| **TYSTIOLAETH**<br><br>**(Egwyddor SMNR 5)** | Cyflawnwyd y DPA i raddau helaeth ac mae llawer o'r allbynnau yn fesuradwy. Ond mae gwir fudd y gwaith a'r dull a ddefnyddir i'w briodoli i'r lefelau uwch o gydgysylltu ac ewyllys da a gyflawnwyd – ac mae hwn yn llwyfan cadarn i adeiladu arno. Mae allbynnau 'meddalach' o'r fath yn anoddach eu mesur wrth gwrs. |
| **MANTEISION LLUOSOG**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 6)** | Mae'r strwythur llywodraethu wedi gweithio'n dda ac mae mecanwaith sydd wedi'i hen sefydlu bellach ar waith i reoli'r ardal ac addasu i bwysau sy'n newid. Y gobaith yw y bydd y cydweithio'n parhau ac na fydd y momentwm a gynhyrchir drwy'r prosiect yn cael ei golli. |
| **HIRDYMOR**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 7)** | Mae'r cynllun ar gyfer yr ardal gyffredinol wedi dod â gwahanol ddiddordebau ynghyd ac wedi darparu graddfa briodol ar gyfer cydweithio a rheoli.<br><br>Ond yr her ar hyn o bryd yw cynnal ac adeiladu ar y llwyddiant a gafwyd yn ystod y cyfnod cyllido. Gyda thoriadau yng nghyllideb y Cyngor gall hyn fod yn her, ond yn sicr mae ewyllys da grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill i'w weld yn glir. |
| **CAMAU ATALIOL**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 8)** | Nodwyd nodweddion bywyd gwyllt dynodedig a thirwedd yr ardal o'r cychwyn cyntaf. Helpodd hyn i lywio gwaith y prosiect. Bu cyfleoedd hefyd i gydweithio â'r Gwasanaeth Tân ac Achub a chyflwyno llinellau atal tân ar ochrau'r bryniau. Ynghyd â gwell ymwybyddiaeth o risgiau a pheryglon tanau, mae'r mesurau hyn wedi lleihau'n sylweddol yr achosion o losgi bwriadol yn yr ardal.<br><br>Bydd yn cymryd mwy o amser i fesur tystiolaeth o fanteision amgylcheddol pellach. |
| **Sylwadau i Gloi** | |
| Mae llawer iawn wedi'i gyflawni drwy'r prosiect, sy'n enghraifft wych o gydweithio rhwng gwahanol randdeiliaid. Yn ogystal ag allbynnau diriaethol, bu gwelliant amlwg hefyd mewn | |

ewyllys da a pherthnasoedd cadarnhaol. Er eu bod yn anoddach eu mesur, mae'r rhain yn hollbwysig o ran symud y gwaith yn ei flaen.

Cefnogir y Prif Gynllun, sydd wedi ennill sawl gwobr, gan gyfres ddyfnach a mwy ystyrlon o berthnasoedd cadarnhaol ac awydd i sicrhau bod yr ardal yn cael ei rheoli er budd yr amgylchedd naturiol ac iechyd a lles y trigolion.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PROSIECT:** | **Pennal 2050** |
| **Cyfnod cyllido:** | 2 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Partneriaeth Pennal Ltd. |
| **Grant a Ddyfarnwyd:** | £818,283 |
| **Lleoliad:** | Dalgylch Dyfi, Pennal |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Cynllun strategol hirdymor uchelgeisiol i adeiladu cymuned wledig gref a chynaliadwy yn seiliedig ar bartneriaeth gymunedol gydweithredol ar raddfa’r dirwedd o dros 40 o bartneriaid yw'r prosiect hwn. Mae tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol, cyrff amgylcheddol, undebau amaethyddol a busnesau lleol yn mynd i'r afael â nifer o broblemau lleol, gan gynnwys cynlluniau gwell i reoli a lliniaru llifogydd ar yr arfordir ac ucheldir y dalgylch; gwella ansawdd y dŵr/afon; hybu bioamrywiaeth a chynefinoedd; gwella mynediad; creu cyfleoedd gwaith, twristiaeth ac iechyd; cryfhau gwytnwch yr economi a’r gymdeithas. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **GRADDFA**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 2)** | Mae gweithio ar raddfa'r dirwedd wedi galluogi Pennal 2050 i fynd i’r afael â heriau allweddol yn y dirwedd gan gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae cynllun Slo-Flo y prosiect yn y goedwigaeth ac ar dir amaethyddol wedi galluogi'r prosiect i osod ymyriadau ar ffurf gweddillion coed, ceuffosydd ac argaeau sy'n gollwng i helpu i ddargyfeirio dŵr o gyrsiau dŵr i dir.<br><br>Mae'r ucheldir yn cael ei bori gan ddefnyddio gwartheg traddodiadol a fydd yn caniatáu i fwy o rywogaethau brodorol hunanhadu a chynyddu bioamrywiaeth.<br><br>Yn ddiweddar dyfarnwyd gwobr Rhwydwaith Gwledig Cymru i’r prosiect, yn seiliedig ar 20 mlynedd o gyllid yr UE, ar gyfer Natur, Tirweddau a Bioamrywiaeth ac mae’n adlewyrchu ymrwymiad 40 o bartneriaid ffermio i syniadau a nodau’r prosiect. Mae partneriaid wedi sylweddoli y gallant wneud mwy mewn grŵp nag yn unigol. |
| **CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU**<br><br>**(Egwyddor** | Mae Pennal 2050 yn fenter a arweinir gan y gymuned, a sefydlwyd ac sy'n cael ei llywio gan 40 o dirfeddianwyr sydd wedi ymrwymo amser a chyllid i’r prosiect. |

| | |
|---|---|
| **SMNR 3)** | Roedd grŵp anffurfiol o dirfeddianwyr eisoes yn ei le cyn sicrhau cyllid SMS, ond rhoddwyd trefniant partneriaeth (Partneriaeth Pennal) a strwythur llywodraethu mwy ffurfiol ar waith ar y pwynt hwn er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid o'r gronfa. Estynnodd yr aelodau ddalgylch daearyddol y prosiect yn ogystal â'u partneriaeth ar yr adeg y gwnaed cais i'r gronfa i gynnwys sefydliadau allweddol yn y sector cyhoeddus megis yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â busnesau lleol yn y sector preifat, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu yn y sector lletygarwch. Mae cryfhau ac ehangu'r bartneriaeth wedi galluogi'r prosiect i gael ei gyflawni ar draws ardal ddaearyddol fwy a chyflawni set ehangach o ganlyniadau: er mai bwriad gwreiddiol y grŵp oedd dileu rhywogaethau estron o dir fferm, ehangwyd uchelgeisiau'r prosiect drwy gyllid yr SMS i wella ansawdd dŵr, lliniaru perygl llifogydd, a gwella gwytnwch gwledig. |
| **TYSTIOLAETH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 5)** | Mae'r prosiect eisoes wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i DPA a ariannwyd, ac wedi darparu ystod eang o allbynnau'n ymwneud â'r dirwedd, y gymuned a'r economi. Mae cyflawniadau'r prosiect hyd yma yn cynnwys:<br><br>• cyfarfodydd grŵp llywio a chyfarfodydd is-grŵp gwaith rheolaidd (20+)<br>• adroddiadau ar faterion amaeth-amgylcheddol ac ecoleg (12)<br>• treial wedi'i dargedu i reoli rhedyn a gwella ph<br>• digwyddiadau hyfforddi ffermwyr a theuluoedd<br>• cylchlythyrau cymunedol (20)<br>• ymweliadau (9) o/i aelodau'r Bartneriaeth ac arbenigwyr gan yr ysgolion cynradd lleol, yn cwmpasu mathemateg, peirianneg, daearyddiaeth, ffermio a'r celfyddydau creadigol e.e. cerddoriaeth (yn gysylltiedig â'r prosiect) er lles<br>• gosod paneli dehongli yn y pentref<br>• uwchraddio 2,760m o draciau a llwybrau troed gan gynnwys llwybr Arfordir Cymru<br>• 2,000m+ o lannau afonydd a chyrsiau dŵr wedi'u diogelu rhag erydiad<br>• tua 2,000 o goed a 100m o wrychoedd a choed wedi'u plannu<br>• creu cynefinoedd newydd gan gynnwys pyllau<br>• ardaloedd dolydd blodau gwyllt wedi'u paratoi a'u hau<br>• uwchraddio maes parcio gweithwyr coedwigaeth i faes parcio cyhoeddus<br>• gwefan prosiect mewn 8 iaith www.croesopennal.cymru i drigolion, ymwelwyr, a busnesau.<br><br>Mae'r prosiect wedi'i chael hi'n fwy heriol i gyflawni DPA sy'n gyfrifoldeb i sefydliadau partner, gan fod capasiti rhai o'r partneriaid |

| | |
|---|---|
| | hyn i ymgysylltu â'r prosiect wedi bod yn gyfyngedig oherwydd effaith y pandemig. Gwers allweddol ar gyfer y dyfodol yw sicrhau bod gan sefydliadau partner gapasiti digonol i gyflawni gweithgareddau, gan ddefnyddio cyllid y prosiect lle bo angen.<br><br>Mae'r prosiect yn ymwybodol na fydd ymyriadau'r prosiect yn cael effaith yn y tymor byr. O'r herwydd, mae ecolegydd lleol wedi cytuno i gynnal adolygiad pum a deng mlynedd yn wirfoddol i asesu'r gwahaniaeth a wnaed<br><br>Mae'r prosiect yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n cydweithio â sawl prifysgol sy'n defnyddio tirwedd Pennal a dalgylch Dyfi fel ardal astudio i fonitro newidiadau yn yr hinsawdd ac mewn ecosystemau dros amser. Mae prosiect Pennal 2050 yn cefnogi'r prosiect ymchwil SENSUM (Smarat SENSing of landscapes Undergoing hazardous hydroegological Movement), a arweinir gan Brifysgol Caerwysg mewn cydweithrediad â Phrifysgolion Plymouth ac East Anglia. Mae'r prosiect ymchwil yn datblygu technolegau monitro newydd i fynd i'r afael â llifogydd a thirlithriadau. Gosodwyd synwyryddion ar weddillion coed a osodwyd fel rhan o'r prosiect SMS i fesur symudiad dros amser.<br><br>Mae prosiect Pennal hefyd yn cydweithio ag ymchwilwyr o Brifysgol Bangor sy'n archwilio sut y mae glaw yn cael ei amsugno drwy ganopi coed yn yr ardal leol a hefyd y defnydd o LoRaWAN (protocol rhwydweithio a ddyluniwyd i gysylltu dyfeisiau recordio batri yn ddi-wifr ee llif dŵr i'r rhyngrwyd) ar gyfer casglu data amser real. Yn ogystal, mae'n rhanddeiliad gyda'r prosiect rhyngwladol Echoes (Cymru ac Iwerddon) sy'n cynnwys datblygu ap rheoli tir ar gyfer rhywogaethau sydd dan fygythiad fel gwyddau talcen-wyn a'r gylfinir. Mae effaith fyd-eang arall gan Pennal 2050 wedi'i chyflawni gyda diddordeb gan ymchwilwyr mor bell i ffwrdd â Gogledd India a ddaeth i'r DU, ac a ymwelodd â Phennal, i weld arfer gorau mewn cydweithredu cymunedol ar raddfa tirwedd.<br><br>Disgwylir y bydd nifer o bapurau academaidd yn cael eu cyhoeddi yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaethau hyn, a fydd yn dod â chydnabyddiaeth ryngwladol i'r cynllun. Mae'r prosiect wedi cymryd rhan mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol ar-lein ar bynciau megis defnyddio deallusrwydd artiffisial ar gyfer casglu data tirwedd a chyfleoedd cyfalaf gwyrdd. |

| | |
|---|---|
| **MANTEISION LLUOSOG**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 6)** | Mae'r prosiect yn cyflawni trawstoriad o fanteision economaidd a chymdeithasol ar draws yr ardal leol.<br><br>Ar lefel gymunedol, mae'r prosiect wedi gosod esiampl i eraill ei ddilyn, ac mae'r agwedd gallu-gwneud yn cael effaith ganlyniadol ar agweddau eraill ar fywyd y pentref. Sefydlwyd chwaer grŵp cymunedol, Menter y Glan, yn ddiweddar i godi £450,000 i brynu tafarn leol i'w thrawsnewid yn hyb cymunedol.<br><br>Mae gwaith y prosiect gyda'r ysgol leol yn creu llawer o fanteision. Mae arbenigwyr Ecoleg a STEM wedi gweithio gyda disgyblion ysgol ar amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys defnyddio data mawr i fapio a modelu tueddiadau, a defnyddio data gorsafoedd tywydd. Ariannodd y prosiect y gwaith o osod gorsaf dywydd yn yr ysgol ac mae arbenigwr gwirfoddol lleol yn cefnogi'r ysgol i ddehongli'r data. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae gan blant agweddau mwy cadarnhaol tuag at yr amgylchedd a natur ac maent yn datblygu sgiliau a diddordeb newydd a allai eu gwneud yn fwy tebygol o ystyried gyrfa yn y sector hwn yn y dyfodol.<br><br>Ymhlith y manteision i'r economi mae penodi contractwyr a chyflenwyr lleol i wneud gwaith cyfalaf. Mae busnesau lleol sydd wedi'u rhestru ar wefan Pennal 2050 yn adrodd eu bod wedi elwa o archebion am lety yn deillio o'r safle. Mae perchnogion fferm wedi elwa ar sgiliau cynyddol o ganlyniad i ddigwyddiadau hyfforddi a drefnwyd drwy'r prosiect. |

| |
|---|
| **Sylwadau i Gloi** |
| Mae'r prosiect hwn yn crynhoi hanfod SMS, sef ei fod yn ddull a arweinir gan y gymuned sy'n cael ei ysgogi gan bartneriaeth fawr, ymroddedig o ffermwyr ar draws dalgylch afon Dyfi sy'n teimlo'n frwd ynghylch cynnal y gwaith a wnaed yn ystod y prosiect a ariannwyd. Mae'r prosiect wedi darparu ystod eang o allbynnau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.<br><br>Un o nodweddion allweddol y prosiect yw'r ffordd y mae'n gweithio'n agos gyda'r ysgol leol ac wedi sefydlu cysylltiadau da gyda phartneriaid academaidd amrywiol i fonitro newidiadau i ecosystemau a chynefinoedd dros amser. Mae cael hwylusydd ymroddedig a medrus hefyd wedi bod yn bwysig i'r prosiect er mwyn helpu i ddod â'r gymuned ehangach ynghyd. |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PROSIECT:** | **Coetir a Dŵr** |
| **Cyfnod cyllido:** | 3 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru |
| **Grant a ddyfarnwyd:** | £682,614 |
| **Lleoliad:** | Dalgylchoedd afonydd Alun a Chwiler, ger Yr Wyddgrug |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Mae ardal y prosiect yn cwmpasu’r Afon Chwiler a rhan uchaf yr Afon Alun a’r tir o’u hamgylch, sy’n cynnal nifer o gynefinoedd pwysig yn cynnwys coetir hynafol, gwrychoedd, glaswelltir heb ei wella, rhostir a gwlyptir Mae’n cynnwys un Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghoedwigoedd Dyffryn Alun), un ar ddeg SoDdGA, rhan o AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ac ardaloedd o dir comin. Amcanion y prosiect yw gwella’r cysylltiad rhwng pobl ag ardaloedd sy’n gyfoethog mewn bywyd gwyllt, a hyrwyddo cyfleoedd a manteision sydd yn fach eu heffaith ac yn cyfrannu i’r economi leol.<br><br>Mae’r prosiect wedi datblygu llwybrau cerdded, wedi darparu seilwaith mynediad newydd, gwell rheolaeth o lwybrau sy'n bodoli eisoes a dehongli wedi’i dargedu. Roedd yn rhaid cytuno ar y ddarpariaeth benodol drwy ymgynghori â'r cyhoedd, awdurdod lleol/AHNE, tirfeddianwyr/rheolwyr a darparwyr twristiaeth. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **RHEOLI MEWN MODD YMADDASOL**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 1)** | Dechreuodd y prosiect ar ddechrau'r pandemig COVID-19, a bu hyn yn heriol. Roedd modd cynnal rhai cyfarfodydd ar-lein ond roedd gweithio gyda ffermwyr drwy blatfformau digidol yn anodd.<br><br>Roedd yna hefyd oedi o 6 mis rhwng y dyddiad y gallai'r prosiect fwrw ymlaen a chymryd risg a'r dyddiad y derbyniwyd y llythyr cymeradwyo terfynol. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ddefnyddio ei chronfeydd wrth gefn ei hun i gyllido'r swyddog prosiect a thalu'r costau hyn. Pe na bai wedi gwneud hyn, yna byddai contract y Swyddog Prosiect a benodwyd wedi cael ei derfynu cyn iddo ddechrau hyd yn oed. Roedd hefyd yn golygu na ellid cyflogi'r aelod arall o'r tîm hyd nes y derbynnir y llythyr cymeradwyo terfynol. Defnyddiodd y swyddog prosiect y bwlch hwn o 6 mis i wneud llawer o’r gwaith arolygu a, phan ganiatawyd ymweliadau â'r safle a phan laciwyd cyfyngiadau COVID-19, |

| | |
|---|---|
| | llwyddodd i ddatblygu cysylltiadau â ffermwyr a thirfeddianwyr. Bu'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol iawn fel arweinwyr cychwynnol yr oedd aelodau'r prosiect yn gallu eu dilyn pan aeth eu gwaith yn ei flaen. |
| **GRADDFA**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 2)** | Mae gweithio ar raddfa'r dirwedd wedi bod yn hanfodol o ran y dull gweithredu a fabwysiadwyd. Er enghraifft, er mwyn lleihau llygredd amaethyddol sy'n llifo i nentydd ac afonydd, mae angen i 40 o dirfeddianwyr glannau afon weithredu ar y cyd. Yn yr un modd, mae llawer o'r gwaith rheoli coetir a chysylltedd a gyflawnwyd gan dîm y prosiect wedi golygu gweithio ar raddfa'r dirwedd gan gynnwys ymgysylltu â rheolwyr gweithrediadau coedwigoedd yn Cyngor Naturiol Cymru. |
| **CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 3)** | Mae'r prosiect wedi cryfhau'r cydweithio rhwng Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Afonydd Dyfrdwy. Mae’r grŵp llywio hefyd wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau dealltwriaeth eang o'r gwaith a chefnogaeth iddo. Cryfhawyd y cysylltiadau â CNC yn sylweddol ac mae hyn wedi arwain at y dull a fabwysiadwyd gan y prosiect yn dylanwadu ar y Datganiad Ardal ar gyfer y Gogledd-ddwyrain, yn ogystal â pholisi coedwigaeth CNC yn y dyfodol.<br><br>Yn ogystal â gweithio'n effeithiol gydag ystod o sefydliadau eraill ar godi ymwybyddiaeth yn lleol ac ymgysylltu ag ysgolion, colegau a phrifysgolion. Mae'r prosiect hefyd wedi cydweithio gyda Asylum Link Merseyside, elusen yn y DU sy'n cefnogi ceiswyr lloches. Mae’r cydweithio hwn wedi bod yn arloesol gan ei fod wedi darparu mecanwaith ar gyfer cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio rhwng ardaloedd gwledig a threfol, yn enwedig mewn tirweddau dynodedig a gallai’n wir ddylanwadu ar ddulliau gweithredu yn y dyfodol. Gwahoddwyd y rheolwr prosiect i siarad yn lansiad eu prosiect Gweithredu Lloches cenedlaethol yn Nhŷ’r Cyffredin. |
| **TREFNIADAU I'R CYHOEDD GYMRYD RHAN**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 4)** | Mae'r prosiect wedi ymgysylltu â'r gymuned leol drwy sefydlu meithrinfa goed leol, trefnu digwyddiadau, cysylltu ag ysgolion/colegau a darparu cyfleoedd gwirfoddoli. Er gwaethaf y cyfyngiadau yn sgil COVID-19 mae’r adroddiad gwerthuso yn cyfeirio at lwyddiant yr elfen hon o’r prosiect, gan nodi’r allbynnau a gyflawnwyd: |

| | |
|---|---|
| | • sefydlu meithrinfa goed newydd yng Ngwarchodfa Natur Maeshafn ac Aberduna<br>• gweithdy hyfforddi traddodiadol ar Ddefnyddio Pladur i dirfeddianwyr yn Rhydtalog<br>• cynnal digwyddiad plannu coed Action Asylum yn Nhremeirchion: cymerodd 40 o bobl o Asylum Link Glannau Mersi ran a thua 15-20 o wirfoddolwyr lleol. Cymerodd 30 o wirfoddolwyr eraill ran mewn digwyddiad ar Afon Alun yn yr Wyddgrug<br>• gwaith a wnaed gan Gyfeillion Bryn y Beili ar safle coetir hynafol Bryn y Beili, yr Wyddgrug, a oedd yn cynnwys dod o hyd i hadau clychau'r gog lleol ac adnabod planhigion coetir hynafol gyda botanegydd ymgynghorol<br>• plannu blodau gwyllt ym Mynydd Isa<br>• prosiect celf Coed Clawdd Offa a phlannu gwrychoedd gyda 6 ysgol gynradd leol<br>• diwrnod clirio prysgwydd cymunedol ar Heneb Gofrestredig Clawdd Offa yn Llanfynydd<br>• plannu Coed Nadolig Cymunedol gyda Chanolfan Gymunedol Parkfields, Yr Wyddgrug |
| **MANTEISION LLUOSOG**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 6)** | Lle bo modd, mae'r prosiect wedi defnyddio contractwyr lleol i wneud y gwaith. Yn ystod COVID-19 roedd hyn yn heriol gan fod llawer ohonynt yn brysur iawn. Pe bai mwy o amser wedi bod ar gael, byddent wedi gallu sicrhau bod mwy o gontractwyr lleol yn cymryd rhan, yn enwedig i gydweithio ar ddarnau mwy o waith.<br><br>Mae'r prosiect hefyd wedi hyfforddi ffermwyr mewn rheoli coetir cynaliadwy, yn enwedig coed glannau'r afon, plannu gwrychoedd bywyd gwyllt a choedwigaeth gorchudd di-dor. Mae'r prosiect wedi meithrin cysylltiadau â melin lifio leol ac wedi cysylltu ffermwyr lleol i werthu eu pren a neu ddefnyddio naddion pren ramial ar gyfer gwasarn gwartheg ac i wella iechyd y pridd â llwch llif fel rhan o'u gwaith. Mae hyn yn helpu i wreiddio'r prosiect o fewn yr ardal wrth iddo gael ei weld yn gynyddol fel sbardun economaidd i ffermwyr. |

| | |
|---|---|
| **HIRDYMOR**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 7)** | Mae’r prosiect eisoes wedi sicrhau rhywfaint o arian drwy’r gronfa Rhwydweithiau Natur i barhau â’r gwaith am 12 mis ac maent yn obeithiol y gellir sicrhau cam pellach o hyn yn fuan iawn. Maent hefyd wedi cael llawer o ddiddordeb ac anogaeth gan CNC sy’n gweld gwerth sylweddol yn y dulliau arloesol y maent wedi’u mabwysiadu. Mae hyn wedi cynnwys newidiadau i gyngor ar reoli coed glannau afonydd yn gynaliadwy, trosi planhigfeydd ungnwd yr ucheldir yn goedwigaeth gorchudd di-dor, mabwysiadu plygu gwrychoedd bywyd gwyllt i adnewyddu gwrychoedd sydd wedi’u hesgeuluso, a hyfforddiant i geidwaid AHNE Bryniau Clwyd, contractwyr a ffermwyr heb ffens. technegau plannu coed.<br><br>Mae'r prosiect wedi galluogi rheoli ac adfer dolydd gwair ar dir preifat yn gynaliadwy yn y tymor hir trwy hwyluso a marchnata byrnau gwair crwn bach.<br><br>Yn y tymor hwy efallai y bydd lle i'r dulliau y maent wedi'u mabwysiadu gael eu hymgorffori yn yr SFS, ond mae hyn gryn dipyn i ffwrdd. Yn y cyfamser, mae YNGC yn sefydlu Gwasanaeth Cynghori Rheoli Tir masnachol ac mae hyn yn cael ei yrru’n rhannol gan y profiad cadarnhaol a gawsant o weithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr ar y prosiect hwn. |
| **CAMAU ATALIOL**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 8)** | Mae tystiolaeth yn y cyfweliadau ac yn yr adroddiad gwerthuso a gyhoeddwyd fod y prosiect wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cymryd camau i atal ecosystem yr ardal rhag diraddio ymhellach.<br><br>Mae’r rhain yn cynnwys gwelliannau i fioamrywiaeth trwy adfer coridorau bywyd gwyllt a lleihau dŵr ffo amaethyddol o ffermydd. Ar hyn o bryd mae’n bosibl mesur yr allbynnau o ran nifer y coed a blannwyd ac yn y blaen, ond bydd y canlyniadau tymor hwy yn cymryd mwy o amser i’w gwireddu. Mae canlyniadau hirdymor yn cael eu casglu drwy’r cynllun monitro ansawdd dŵr Afonydd Clyfar y maent wedi’i sefydlu ar Afon Alun mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru, yn ogystal â lleiniau cynhyrchiant coedwigoedd a monitro ecolegol Rhwydwaith Coedwriaeth Afreolaidd y maent wedi’u sefydlu ar orchudd coedwigaeth barhaus. stondin arddangos yng Nghoed Moel Famau CNC. |

| | |
|---|---|
| **DATBLYGU GWYTNWCH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 9)** | Mae tystiolaeth sylweddol bod y prosiect wedi cymryd ystod eang o gamau ataliol. Bydd y gwelliannau i gynefinoedd a chreu coetir, gwrychoedd a lleiniau cysgodi newydd yn gwella gwytnwch ecolegol yr ardal, gan gynyddu cysylltedd a bioamrywiaeth.<br><br>Mae'r prosiect wedi cynnwys hyfforddiant i annog ffermwyr i gynnal a chadw cofnodion ar yr ardaloedd sydd wedi'u gwella. Ar yr un pryd mae'r prosiect yn chwilio am ragor o gyllid i symud y gwaith yn ei flaen. Y nod fydd cynnwys elfennau o'r dull gweithredu yn yr agweddau ar raddfa'r dirwedd yn yr SFS arfaethedig. |
| **Sylwadau i Gloi** | |
| Mae’r prosiect yn adeiladu ar fentrau blaenorol yn yr ardal ac mae rhai o’r technegau arloesol a ddefnyddiwyd wedi bod o ddiddordeb i CNC. Mae'r prosiect hefyd wedi ymgymryd â llawer o waith ymgysylltu â'r gymuned ac wedi cynnig cyfleoedd gwirfoddoli. Mae defnyddio ceiswyr lloches fel gwirfoddolwyr wedi bod o gryn ddiddordeb ac yn cael ei weld fel agwedd arloesol arall ar y dulliau cyflawni.<br><br>Mae'r bartneriaeth eisoes wedi sicrhau rhywfaint o arian i ymestyn y prosiect tan fis Mawrth 2023 ac mae'n obeithiol y bydd cam arall o hyn yn caniatáu iddo barhau â'i ddull gweithredu.<br><br>Daeth nifer o wersi pwysig i’r amlwg o’r gwaith hwn a ddylai ddylanwadu ar y ffordd y dylai'r cynllun SFS arfaethedig weithredu ar raddfa’r dirwedd a chydweithio â nifer o ffermwyr, coedwigwyr a thirfeddianwyr preifat. | |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PROSIECT:** | **Creu Cysylltiadau Gwell: Bioamrywiaeth yn ein cymunedau** |
| **Cyfnod cyllido:** | 3 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Cwm Arian Renewable Energy (Care) Ltd. |
| **Grant a Ddyfarnwyd:** | £213,975 |
| **Lleoliad:** | Gogledd Sir Benfro |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Menter rheoli tir sy'n cael ei harwain gan y gymuned yw Creu Cysylltiadau Gwell sy'n gweithredu yng Ngogledd Sir Benfro yn wardiau Clydau, Crymych, Cilgerran a Llandudoch.<br><br>Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar reoli a gwella ardaloedd presennol o fioamrywiaeth gyfoethog a chynyddu'r cysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn drwy blannu coed a gwrychoedd, ffensio, gwaith draenio a gwella seilwaith gwyrdd. Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglen wyddoniaeth i ddinasyddion, dysgu a datblygu sgiliau ehangach ac yn ceisio buddsoddi mewn gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys plannu perllannau ac agor mannau gwyrdd. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN AMCANION SMNR** | |
| **Rheoli Mewn Modd Ymaddasol**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 1)** | Cyflawnodd Creu Cysylltiadau Gwell dargedau ei ddangosyddion cyllido erbyn diwedd blwyddyn 2 ac felly datblygodd gynllun cyflawni clir ar gyfer y 12 mis sy'n weddill o'r prosiect i gynnwys:<br>• Pedwar digwyddiad ar raddfa fawr mewn safleoedd lleol yn arwain at arddangosfa o waith creadigol ar ddiwedd y flwyddyn<br>• Cysylltu o leiaf 1km o wrychoedd gan gysylltu safleoedd bywyd gwyllt yng Nghoedwig Pengelli a Thŷ Canol gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr lleol<br>• Cwmpasu'r potensial ar gyfer dylunio mannau cyhoeddus ar gyfer tyfu bwyd a darparu addysg drwy gynnwys grwpiau cymunedol o'r cychwyn cyntaf.<br>'*Cynaliadwyedd oedd y peth pwysicaf, a gwneud i bobl sylweddoli y gallent fod yn fwy annibynnol o ran cynhyrchu bwyd. Yn gyffredinol, mae wedi cyrraedd mwy o bobl nag a dybiwyd yn gyntaf ac mae'n cael effaith hirhoedlog. Yn fy marn i, nid yw'r prosiect wedi newid llawer - fe wnaethon nhw bethau'n iawn o'r dechrau - roedd angen ei ehangu ac roedd modd gwneud hynny*' [Partner lleol] |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 3)** | O dan y prosiect CLEAN, mae gwirfoddolwyr wedi bod yn samplu dŵr dalgylch afon Nyfer ar gyfer nitrad a ffosffad, ac yn gwneud sylwadau am ddefnydd tir cyfagos, rhywogaethau goresgynnol a sbwriel gan roi cipolwg da ar gyflwr ecolegol presennol y dalgylch. Mae mwy na 300 o samplau wedi'u cymryd o afonydd gyda chymorth 30 o wirfoddolwyr.<br><br>Mae Creu Cysylltiadau Gwell wedi cefnogi neu gydweithio gyda chwe grŵp cymunedol neu gwmni cydweithredol hyd yma fel Grŵp Ffrwythau a Chnau Cilgerran, Calon yn Tyfu, Grŵp Ymchwil y Frenni Fawr a Grŵp Porwyr y Frenni.<br><br>Mae Creu Cysylltiadau Gwell yn cydnabod ei fod yn gymharol newydd i'r maes datblygu seilwaith gwyrdd ond yn teimlo ei fod wedi bod yn hyblyg ac wedi llenwi bylchau o ran cydlyniad a chydweithio. Er bod rhai sefydliadau'r sector cyhoeddus yn aml yn fwy cyfyngedig o ran eu harferion gwaith neu dargedau llym, mae Creu Cysylltiadau Gwell wedi gallu 'cyrraedd y craidd a gwneud gwaith cymunedol ar lawr gwlad nad oes ganddyn nhw amser i'w wneud'. O ganlyniad, mae'r prosiect yn teimlo ei fod wedi gosod sylfaen dda ac yn cael ei weld fel partner dibynadwy a all gyrraedd cymunedau.<br><br>Mae'r prosiect hefyd yn ymchwilio i bartneriaethau pellach gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol i sefydlogi sylfaen y prosiect ymhellach ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. |
| **Trefniadau i'r Cyhoedd Gymryd Rhan**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 4)** | Mae'r prosiect wedi cwblhau cyfres Coed Lleol i Bobl Leol gyda dau ddigwyddiad llwyddiannus yn addysgu'r mynychwyr am chwilota, prysgoedio, a dulliau eraill o reoli coetiroedd yn gynaliadwy. Fe wnaeth hefyd gynnal cyfres o ddigwyddiadau yn ystod haf 2021 a gynlluniwyd i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn eu cymunedau ar gyfer cael cyfleoedd ymarferol i ddysgu am sgiliau gwledig a deall mwy am asesu cyflwr natur ar garreg eu drws. Ymhlith y digwyddiadau roedd impio coed ffrwythau, 'Whaden i Jac y Neidiwr Blaenffos!' a thaith ystlumod yng nghoedwig Ffynnon. Roedd un o'r rhain, y Pic-Nic-Dip yn cysylltu â'r prosiect CLEAN, sef rhwydwaith monitro afonydd y bu Creu Cysylltiadau Gwell yn allweddol wrth ei sefydlu a'i gefnogi fel gweithgaredd cysylltu â'r dirwedd.<br><br>Mae adroddiad blwyddyn dau y prosiect yn nodi bod 908 o bobl wedi ymgysylltu â'r prosiect drwy 29 o weithgareddau cysylltiad cymunedol. |

| | |
|---|---|
| | Mae 148 o bobl wedi cael eu hyfforddi dros 19 diwrnod hyfforddi ar reoli glaswelltir, adnabod cynefinoedd, cymorth cyntaf yn yr awyr agored, impio coed, lluosogi hadau coed a menter coetir. |
| **Tystiolaeth**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 5)** | Mae Creu Cysylltiadau Gwell wedi cefnogi grŵp Ymchwil y Frenni Fawr a chymdeithas porwyr y Frenni Fach i archwilio ffyrdd o annog rheolaeth fwy cynaliadwy a diogelu tiroedd comin cyfagos.<br><br>Helpodd offeryn mapio galw a oedd ar gael drwy'r bartneriaeth natur leol i nodi dau safle lle y byddai ymyriadau i blygu gwrychoedd i gysylltu dau safle coetir yn cael yr effaith fwyaf. Mae Creu Cysylltiadau Gwell wedi llunio map rhagolygol o'r galw i ddangos sut y mae'n meddwl y bydd y gwaith a wnaed yn cael effaith.<br><br>Ym mlwyddyn olaf y prosiect, mae Creu Cysylltiadau Gwell yn cymhwyso'r cysyniad o rwydwaith cynefinoedd coetir a ddechreuwyd ar y Frenni Fawr yn ehangach, er mwyn gwella cysylltiadau rhwng safleoedd coetir gwarchodedig ym Mhengelli a Thŷ Canol.<br><br>Mae gwerthuswr wedi bod yn rhan o'r prosiect o'r cychwyn cyntaf a darperir adroddiadau gwerthuso rheolaidd iddo. Mae'r tîm ehangach a'r grŵp llywio yn eistedd i lawr bob chwe mis gyda'r gwerthuswr ac yn edrych ar yr hyn a ddysgwyd a'r hyn y mae angen ei newid.<br><br>*'Mae wedi bod yn ddefnyddiol cael rhywun sy'n adnabod y prosiect a'r buddiolwyr cystal'* [Partner prosiect] |
| **Manteision Lluosog**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 6)** | Roedd darparu manteision lles yn rhan greiddiol o'r nodau ehangach a osododd y prosiect Creu Cysylltiadau Gwell iddo'i hun ar ddechrau'r prosiect.<br><br>Mae'r gweithgareddau a gynhaliwyd wedi cefnogi grwpiau yn yr ardal i fod yn gryfach a chael mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi eu hamgylchedd lleol. Mae tîm y prosiect yn teimlo eu bod wedi gwneud hyn mewn ffordd gynaliadwy iawn drwy gynyddu lefel dealltwriaeth a sgiliau gwledig - drwy ffocws gwirioneddol ar rannu sgiliau yn y gymuned.<br><br>Drwy ei werthusiad parhaus, mae Creu Cysylltiadau Gwell wedi cael adborth cyson gan bobl yn dweud sut y maent yn mwynhau cyfarfod ag eraill a threulio amser gyda nhw, a sut y mae bod yn rhan o'r prosiect wedi bod o fudd i'w lles a'u hiechyd meddwl:<br><br>• '*Gadewais yn teimlo'n hapus ac yn llawn egni'*<br>• *'Hwyl a sbri yn sipian te ac yn bwyta bisgedi yn yr awyr agored!'* |

| | |
|---|---|
| | • *'Oeddwn i'n teimlo'n ddefnyddiol? Roedd rhoi rhywfaint o fywyd i lwybr yn deimlad gwych'*<br><br>'*I mi yn bersonol, cwrdd â chymaint o bobl hyfryd oedd y peth mwyaf positif. Mae wedi bod yn gyfnod llwm. I bobl mewn cymunedau gwledig anghysbell, gallwch deimlo mai chi yw'r unig un yn y frwydr. Helpodd y prosiect hwn ni ar gyfnod anodd a gwnaeth wahaniaeth mawr i'n lles. Roeddwn i wedi mynd i'm cragen. Mae hwn wedi bod yn achubiaeth - bod yn rhan o rywbeth. Rwyf wastad wedi credu yng ngrym grwpiau yn dod at ei gilydd i gyflawni rhywbeth penodol. Mae'r prosiect hwn wedi gwneud gwahaniaeth amlwg i fywydau pobl, ac mae hefyd yn sicrhau gwelliannau amgylcheddol ar lawr gwlad. Creu Cysylltiadau Gwell yw'r bobl iawn ar gyfer y gwaith - mae ganddyn nhw frwdfrydedd, angerdd ac maen nhw'n gweithio'n galed - maen nhw fel dynamos'*<br>[Gwirfoddolwr lleol]<br><br>Fel prosiect, mae mesur effaith gymdeithasol yn bwysig iddo ond nid yw'n teimlo bod ganddo'r ateb ar hyn o bryd. Teimlwyd y byddai cael fframwaith o'r cychwyn cyntaf wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer mesur effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. '*Byddai angen i ni ddatblygu hynny o’r cychwyn cyntaf. Mae'n anodd gweld effaith yr hyn rydym wedi'i wneud'* [Partner prosiect] |

**Sylwadau i Gloi**

Mae hwn yn brosiect sydd â phobl wrth ei wraidd. Mae tîm y prosiect wedi gweithio'n galed i gynnwys grwpiau a phrosiectau cymunedol, i ymgysylltu â gwirfoddolwyr ac unigolion ac i gynnig gweithgareddau diddorol ar y cyd ag ystod a rhestr gynyddol o bartneriaid. Ymddengys fod y bartneriaeth, er yn un newydd, wedi cryfhau erbyn diwedd y prosiect, ac mae'r rhai sy'n cymryd rhan i gyd yn llawn syniadau ac atebion newydd i barhau â'r trefniadau cydweithredol a sefydlwyd. Mae elfen gref o ymddiriedaeth a pharch yn rhoi cyfle da i'r partneriaid barhau i gydweithio yn y dyfodol.

Mae rheolaeth dda ar y prosiect o'r cychwyn cyntaf yn golygu bod y prosiect wedi cyflawni ei dargedau ac wedi gallu darparu manteision ychwanegol drwy gynllun cyflawni clir.

| ENW'R PROSIECT: | CYDWEITHREDU AR Y COMIN – COMMON COLLABORATION |
|---|---|
| **Cyfnod cyllido:** | 3 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Gelligaer and Merthyr Commoners Ltd. |
| **Grant a ddyfarnwyd:** | £255,987 |
| **Lleoliad:** | Merthyr Tudful a Chaerffili |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Nod y prosiect cydweithredol hwn yw gwella Tir Comin Gelligaer a Merthyr. Mae'r aelodau'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, yr Heddlu, Cynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chaerffili, Cymdeithas Cominwyr Gelligaer a Merthyr, trigolion, a grwpiau a chanddynt fuddiant penodol fel cerddwyr, beicwyr a Chlwb Barcuta a Pharagleidio De-ddwyrain Cymru.<br><br>Mae gan y grŵp gynrychiolaeth gymunedol gref i gyflawni camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i adfer tirwedd y Comin trwy weithredu'r rheolaeth gynaliadwy ar egwyddorion Adnoddau naturiol. Nod y prosiect yw canolbwyntio ar dri maes allweddol; Mynd i'r afael â Throsedd Tirwedd, Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Adfer a Chreu Cynefinoedd. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **RHEOLI MEWN MODD YMADDASOL**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 1)** | Yn rhedeg ochr yn ochr â'r cynnig prosiect cychwynnol, cyflwynodd GMCA gais Adran 38 (Deddf Tir Comin 2006) er mwyn ymgymryd ag amrywiaeth o waith ar y tir comin sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Y gobaith oedd y byddai canlyniad y cais hwn wedi'i roi cyn i'r prosiect SMS ddechrau, er mwyn i'r mesurau creu amgylcheddol arfaethedig gael eu gweithredu yn ystod y prosiect hwn. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth ar ôl iddynt gyflwyno'r cais, bu'n ofynnol iddynt gynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol yn ogystal ag effeithiau COVID-19, nid yw'r cais a gyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Medi 2019 wedi'i benderfynu eto. O ganlyniad, archwiliwyd cyfleoedd newydd i ddyrannu cyllid prosiect a oedd yn cyd-fynd ag amcanion y prosiect. |
| **GRADDFA** | Gweithiodd y prosiect ar raddfa tirwedd ac roedd yn cwmpasu dros 3000ha. Gan weithio ar y lefel hon, mae'r prosiect wedi galluogi ymyrraeth wedi'i thargedu mewn lleoliadau allweddol ac wedi cyfyngu ar wasgariad materion i ardaloedd eraill o'r comin. Gan weithio ar draws y 3000 ha cyfan o'r comin maent wedi gallu cael effaith llawer |

| | |
|---|---|
| **(Egwyddor SMNR 2)** | mwy ar yrru oddi ar y ffordd. Mae delio â'r math hwn o fater ar sail un fferm yn gwthio'r broblem o un ardal i'r llall. Trwy ymdrin â'r tiroedd comin yn eu cyfanrwydd maent wedi gallu gwahardd cerbydau o ardal lawer mwy. |
| **CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU** **(Egwyddor SMNR 3)** | Er mai'r gymdeithas bori sydd wedi cyflawni'r prosiect, maent wedi datblygu cydweithrediad da ag amrywiaeth o sefydliadau megis Taclo Tipio Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Cadw, CBSMT, CBSC, GTADC, Heddlu Gwent a De Cymru a llawer mwy trwy greu Partneriaeth Comin Gelligaer a Merthyr. O ganlyniad, mae mwy o ardaloedd wedi'u hagor i'r cyhoedd ar gyfer hamdden, mae'r amgylchedd wedi'i wella ac mae'r gymuned amaethyddol leol wedi'i chefnogi. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a hyrwyddo'r ardal mewn modd cyfrifol wedi helpu i leihau problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| **DATBLYGU GWYTNWCH** **(Egwyddor SMNR 9)** | Mae plannu coed, creu a rheoli atalfeydd tân ar y cyd â rheoli rhedyn wedi'i dargedu, cyfyngu ar fynediad anghyfreithlon, creu llwybrau ag arwyddbyst, a gwaith gwella maes parcio wedi'i wneud i gynyddu gwytnwch o fewn y dirwedd tra'n darparu buddion lluosog. Er enghraifft, mae plannu coed wedi'i ganolbwyntio mewn ardaloedd trwchus o redyn gyda'r nod hirdymor o leihau tanau gwyllt drwy leihau'r 'llwyth tanwydd' yn ogystal â gwella cysylltedd cynefinoedd a chynyddu bioamrywiaeth.<br><br>Mae cyfres o weithdai a gwasanaethau gyda 12 ysgol leol wedi gweld dros 366 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn ogystal â chynnal nifer o gyrsiau 'Hyrwyddwr Cyffredin' i aelodau'r cyhoedd a swyddogion cyrff cyhoeddus ddysgu mwy am y comin a sut mae'n hanfodol i'r sector amaethyddol lleol yn ogystal â bod yn faes pwysig ar gyfer mynediad cyhoeddus. |
| **Sylwadau i Gloi** | |
| Trwy gydweithio, mae'r cominwyr wedi profi y gellir cyflawni mwy dros ardal ehangach. Gan ganolbwyntio ar leihau tipio anghyfreithlon a gyrru oddi ar y ffordd, maent wedi gwneud y tiroedd comin yn lle mwy dymunol i bobl ymweld ag ef a'i ddefnyddio. Ynghyd â mwy o gyfleusterau i ymwelwyr megis meysydd parcio newydd a llwybrau ag arwyddbyst, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â'r tiroedd comin ac yn eu defnyddio ar gyfer hamdden. | |

| ENW'R PROSIECT: | **Ffermio Gwastadeddau Gwent yn Gynaliadwy** |
|---|---|
| **Cyfnod cyllido:** | 3 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) |
| **Swm y cyllid:** | £554,221 |
| **Lleoliad:** | Gwastadeddau Gwent |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Mae’r prosiect cydweithredol hwn yn cynnwys RSPB Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur Gwent, sy’n cydweithio’n agos â ffermwyr a phartneriaid eraill i feithrin dealltwriaeth, gwybodaeth, sgiliau a phrofiad er mwyn medru cyflwyno dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol ar Wastadeddau Gwent. Mae'r ffermwyr a phartneriaid y prosiect wedi cymryd camau i wella ansawdd y dŵr a gwella a chreu cynefinoedd, gan wella cyflwr y pridd, a sefydlu stribedi cynefin ar gyfer peillwyr, a fydd hefyd yn gweithredu fel tir clustogi ar gyfer cyrsiau dŵr. Nod pob cam oedd gwella'r amgylchedd ar Wastadeddau Gwent i bobl a natur, tra’n cefnogi busnesau fferm cynaliadwy. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **RHEOLI MEWN MODD YMADDASOL**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 1)** | Pan ddechreuwyd y prosiect gyntaf un o'i fwriadau oedd edrych ar ffyrdd y gellid defnyddio canfyddiadau'r prosiect i ddylanwadu ar reoli defnydd tir yn y dyfodol ac yn arbennig y PAC. Fodd bynnag, yn sgil Brexit, newidiodd y dirwedd bolisi hon, a bu’n rhaid i’r tîm addasu i amserlenni newydd a pholisi amaethyddol newydd a ddatblygwyd o fewn Llywodraeth Cymru.<br><br>Effeithiodd COVID-19 hefyd ar eu gallu i ddod â phobl ynghyd ac nid oeddent yn gallu ymgysylltu â chymaint o bobl ag yr oeddent wedi'i obeithio'n wreiddiol. |
| **CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU**<br><br>**(Egwyddor** | Datblygodd y prosiect o'r prosiect Lefelau Byw ehangach presennol. Roedd hyn yn golygu bod partneriaeth sefydledig eisoes yn cydweithio ar gadwraeth tirwedd unigryw Gwastadeddau Gwent.<br><br>Nod y prosiect oedd gweithio gyda ffermwyr, ac roedd rhai yn teimlo bod diffyg mewnbwn a chyfranogiad parhaus gan ffermwyr mewn perthynas â dyluniad a chyfeiriad y prosiect, a bod y ffermwyr yn dderbynwyr mwy goddefol o waith ar eu tir yn hytrach nag ymwneud yn weithredol ag ef. Teimlai rhai nad oedd blaenoriaethau ffermwyr yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol mewn rhai elfennau o'r prosiect, ond dylid nodi bod ffermwyr yn cael y cyfle i gymryd mwy o ran yn y |

| | |
|---|---|
| **SMNR 3)** | prosiect, drwy gynnig gweithdai agored ac ati, ond dewisodd llawer beidio â mynychu. |
| **TREFNIADAU I'R CYHOEDD GYMRYD RHAN**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 4)** | Cynlluniwyd y prosiect cychwynnol yn seiliedig ar y blaenoriaethau a nodwyd gan grwpiau cymunedol lleol yn ystod y gwaith o ddatblygu'r prosiect Lefelau Byw. Nid oedd ymgysylltu â’r cyhoedd yn elfen allweddol o’r prosiect ac nid yw canlyniadau’r gwaith wedi’u lledaenu’n eang ac mae hyn yn rhywbeth y mae’r RSPB yn ymwybodol ohono ac yr hoffai ei ymgorffori mewn unrhyw brosiect yn y dyfodol. |
| **MANTEISION LLUOSOG**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 6)** | Er bod y prosiect wedi'i anelu'n bennaf at wella bioamrywiaeth, roedd hefyd yn edrych ar hyfywedd economaidd rhai ffermydd yn ardal y prosiect, a sut y byddai ffyrdd newydd o weithio yn effeithio ar yr hyfywedd hwn. Fodd bynnag, ni chafodd hyn gymaint o effaith ag y gallai fod wedi'i chael gan na ellid dosbarthu'r adroddiadau hyfywedd economaidd a wnaed yn eang oherwydd pryderon ynghylch cyfrinachedd. |
| **DATBLYGU GWYTNWCH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 9)** | Un o elfennau allweddol y prosiect oedd sut i ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau rheoli tir yn y dyfodol. Er na fyddai maint y prosiect a natur arbrofol edrych ar ba dechnegau newydd a allai wneud gwahaniaeth ynddo’i hun yn adeiladu gwytnwch, gallai dylanwadu ar bolisi’r dyfodol gael effaith sylweddol ar wytnwch y dirwedd yn y tymor hwy. |
| **Sylwadau i Gloi** | |
| Cyflawnodd y prosiect rai camau gweithredu da, megis gwella’r system ffosydd mewn ardaloedd a gwella ansawdd dŵr ond gallai fod wedi cynnwys ffermwyr yn fwy yn y gwaith o ddylunio'r prosiect a'i gyfeiriad. Yn hynny o beth, ystyriodd rhai mai prosiect RSPB ydoedd, ond o’i ystyried yng nghyd-destun y prosiect Lefelau Byw ehangach bydd yn cyfrannu at well dealltwriaeth o Wastadeddau Gwent a’r ffordd orau o’u ffermio ar gyfer bioamrywiaeth. | |

| ENW'R PROSIECT: | Prosiect Lleol LAND, Cwm Talyllychau a Chwm-du |
|---|---|
| **Cyfnod Cyllido:** | 4 |
| **Sefydliad Arweiniol:** | Cymdeithas Mwynder Cymunedol Talyllychau |
| **Grant a Ddyfarnwyd:** | £520,000 |
| **Lleoliad:** | Talyllychau a Chwm-du, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Gyda gweledigaeth gydweithredol, mae’r prosiect yn bwriadu cwmpasu oddeutu 800 hectar o dir ffermio ym mhentrefi hanesyddol Talyllychau a Chwm-du. Wrth wraidd y prosiect mae datblygiad a defnydd 24 hectar o dir o gynefin amrywiol sy’n eiddo i’r gymuned, wedi’i leoli ym mhentref Talyllychau. Mae trigolion lleol a thirfeddianwyr wedi creu’r prosiect hwn ar y cyd er mwyn mynd i’r afael â heriau lleol yn ymwneud ag ynysu cymdeithasol, diffyg cyfleoedd busnes a’r angen am arferion a busnes rheoli tir sy’n gynaliadwy ac yn wydn.<br><br>Mae gweithgareddau’r prosiect yn canolbwyntio ar wella cadw dŵr yn yr ucheldiroedd, gwella ansawdd dŵr yn nau lyn Talyllychau, datblygu dolydd blodau gwyllt a gwyddonydd amrywiol, plannu coed a choetiroedd a reolir yn weithredol, gwella mynediad i’r cyhoedd, gwella cysylltedd cynefinoedd a gwella rheoli pridd.<br><br>Datblygwyd y tir sy’n eiddo i’r gymuned er mwyn cynyddu bioamrywiaeth a gwella mynediad i drigolion ac ymwelwyr i’r ardal. Bydd darparu seilwaith yn y parth awyr agored hwn yn helpu i greu lle mwy deniadol i bobl yn y gymuned ei ddefnyddio i gefnogi cyfleoedd i wella iechyd a lles, cydlyniad cymdeithasol ac ymdeimlad o le yn lleol. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **GRADDFA**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 2)** | I gychwyn y prosiect, diffiniwyd ardal gychwynnol o tua 3,500 erw, gan gynnwys rhan helaeth o Gwm Talyllychau – ac yna o fewn hyn dechreuwyd ar y broses o gofrestru ffermwyr a oedd eisiau bod yn rhan o’r prosiect. Arweiniodd hyn at gynnwys tua 2,000 erw o dir fferm yn rhan o’r fenter. Mae hyn wedi caniatáu datblygu prosiectau, yn enwedig creu gwrychoedd a gwelliannau sy'n croesi ffiniau |

| | |
|---|---|
| | perchnogaeth tir. Pe bai'n gweithio ar sail ffermydd unigol, byddai'r dull gweithredu wedi bod yn gyfyngedig iawn. |
| **TREFNIADAU I'R CYHOEDD GYMRYD RHAN**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 4)** | Mae Cwm Talyllychau yn lleoliad eithaf anghysbell sydd gryn bellter o'r anheddiad agosaf, sef Llandeilo. Cyn COVID-19 nid oedd llawer o ryngweithio cymunedol nac ymdeimlad o gydweithio.<br><br>Cafodd COVID-19 effaith fawr ac arweiniodd at fwy o bobl yn rhyngweithio ac yn helpu ei gilydd. Cyflwynwyd y prosiect ar yr adeg hon, a chanfuwyd bod gan fwy o bobl na'r disgwyl ddiddordeb mewn cymryd rhan ynddo. Trefnwyd digwyddiadau a chyhoeddusrwydd a gafodd groeso brwd. Mae gweithio gyda Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol Gynradd leol wedi bod yn wych ac wedi bod o fudd i'r ddwy ochr. |
| **CAMAU ATALIOL**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 8)** | Ar ddechrau'r prosiect datblygodd un o'u contractwyr arolwg manwl Cam 1 o gynefinoedd ac roedd hwn yn fan cychwyn defnyddiol i flaenoriaethu'r camau amgylcheddol.<br><br>Mae'r ffocws wedi bod ar greu ac adfer nifer o asedau tirwedd a bioamrywiaeth yn enwedig pyllau a gwrychoedd. Wrth nesáu at ddiwedd cyfnod y prosiect, cofnodwyd maint ei waith ar fapiau digidol a lluniwyd cynllun rheoli manwl ar gyfer y camau nesaf.<br><br>Bydd y gwelliannau a wneir wedi gwella bioamrywiaeth a chymeriad y dirwedd, yn ogystal â lleihau dŵr ffo a llifogydd posibl. |
| **DATBLYGU GWYTNWCH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 9)** | Ceir tystiolaeth dda bod y prosiect eisoes wedi gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad gyda chynefinoedd helaeth newydd neu well, gan gynnwys pyllau a gwrychoedd. Datblygwyd y rhain ar y cyd â thirfeddianwyr lleol ac felly mae pob ystyriaeth wedi ei rhoi i sicrhau bod y gwelliannau yn cefnogi busnesau amaethyddol a hyfywedd. Mae hyn yn golygu bod llawer mwy o siawns y bydd y tirfeddianwyr yn cynnal y gwelliannau y tu hwnt i'r cyfnod cyllido. Mae hyn yn gwella'r posibilrwydd o ecosystem well. |

| | |
|---|---|
| | Nid oedd y prosiect yn gallu gweithredu'n llawn dros gyfnod cyflawni o dair blynedd, fel y bwriadwyd yn wreiddiol, yn bennaf oherwydd oedi cyn cael cymeradwyaeth a materion yn ymwneud â llif arian.<br><br>Wedi dweud hynny, cyflawnwyd cryn dipyn mewn cyfnod byr. Yr her nawr fydd darbwyllo sefydliadau eraill, mwy o faint, i adeiladu ar y momentwm hwn. |
| **Sylwadau i Gloi** | |
| Dylid cydnabod ymroddiad, proffesiynoldeb a gwytnwch y tîm prosiect bach, sydd oll yn wirfoddolwyr. Yn ogystal ag ystod o welliannau i gynefinoedd mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol at gydlyniant cymdeithasol a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwelliannau amgylcheddol. Mae hyn yn wir nid yn unig am y gymuned leol, sydd wedi elwa o gyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddiant, ond hefyd o ran y ffordd y mae’r prosiect wedi ymgysylltu â ffermwyr a thirfeddianwyr yn yr ardal.<br><br>Mae'r prif heriau sy'n weddill i'r tîm, wrth i ddiwedd y cyfnod cyllido agosáu, yn ymwneud â chwblhau cymaint o'r gwaith â phosibl; ac yna, drwy ddigwyddiad dathlu, amlygu ei lwyddiant ac eirioli dros barhad y gwaith gan gonsortiwm o sefydliadau mwy. | |

| ENW'R PROSIECT: | **Atebion Naturiol yn ardal Elenydd, Ceredigion** |
|---|---|
| **Cyfnod cyllido:** | 5 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Grŵp Elenydd Cyf |
| **Grant a Ddyfarnwyd:** | £252,430 |
| **Lleoliad:** | Cwmystwyth, Ceredigion |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Partneriaeth gydweithredol rhwng tirfeddianwyr, trigolion, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Hafod i gefnogi gwytnwch a chynaliadwyedd bywyd yn ardal Elenydd Ucheldiroedd Cambria a Chwm Ystwyth. Mae'r prosiect yn dathlu treftadaeth gymunedol gorffennol glofaol hanesyddol y cwm tra'n lleihau ei etifeddiaeth amgylcheddol negyddol ar y rhai sy'n byw gerllaw ac i lawr yr afon i Fae Ceredigion. Mae'r prosiect wedi dod â'r gymuned at ei gilydd er mwyn ymgysylltu a hyrwyddo arferion ffermio cynaliadwy, gwella mynediad at gyfleoedd treftadaeth a dysgu, sicrhau defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau a mynediad at wirfoddoli yn yr ardal eiconig hon gan gadw gwerth cynhenid asedau naturiol a gwarchod yr iaith a'r gymuned er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **GRADDFA**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 2)** | Graddfa ofodol y prosiect yw Ardal Ucheldir Elenydd ym Mynyddoedd Cambria a dalgylch Ystwyth, sy'n cwmpasu tua 7,500 o erwau.<br><br>*'Mae gweithio ar sail tirwedd ar draws ardal Elenydd ym Mynyddoedd Cambria wedi gwneud i ni sylweddoli y gallwn gyflawni mwy drwy gydgysylltu ymdrechion yn hytrach na gwneud pethau'n ynysig, gan gysylltu cynefinoedd a sefydliadau yn well fel hyn a datblygu cynllun ymaddasol i gwrdd â heriau lleol.'* (Aelod o'r Grŵp Llywio)<br><br>Mae meddwl a gweithio ar raddfa'r dirwedd hefyd wedi codi'r posibilrwydd o'r uchelgais a'r potensial i weithio fel hyn ar hyd cadwyn gyfan Elenydd a pha effaith y gallai hyn ei gael.<br><br>*'Potensial i gael cyfres o grwpiau ffermio cymunedol ar hyd Mynyddoedd Cambria yn gweithio ar sail yr un egwyddorion a* |

| | |
|---|---|
| | *methodoleg mewn rhwydwaith cryf sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd yr ardal.'* (Aelod o'r Grŵp Llywio) |
| **CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 3)** | Mewn ardal denau ei phoblogaeth, mae hwn yn gydweithrediad cyfannol rhwng ffermwyr, sefydliadau allweddol megis CNC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phrif sefydliadau cymunedol Cwmystwyth sef yr Eglwys, y Capel, a'r Neuadd Bentref, gydag arbenigedd technegol yn cael ei ddarparu gan Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt (FWAG) Cymru. Daethpwyd â'r sefydliadau hyn ynghyd gan yr hwylusydd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, a chwaraeodd rôl ganolog wrth ddod â'r gymuned a phartneriaid ynghyd.<br><br>Mae rôl FWAG Cymru o ran sicrhau caniatâd, hawlenni, a thrwyddedau angenrheidiol hefyd wedi bod yn hollbwysig i alluogi'r gwaith i gael ei gyflawni. |
| **TREFNIADAU I'R CYHOEDD GYMRYD RHAN**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 4)** | Mae'r rhai sy'n gwirfoddoli yn Neuadd y Pentref ac yn mynychu'r Eglwys a'r Capel yn gweld effaith y cynllun yn uniongyrchol ac maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau i hyrwyddo a chynnal y bartneriaeth newydd.<br><br>Mae'r rhai sy'n gwirfoddoli ar Ystâd yr Hafod, fel rhan o'r cynllun hwn a thu hwnt, yn cynnwys ystod eang o grwpiau e.e. pobl wedi ymddeol, Cymuned Wallich – y rhai sydd wedi profi digartrefedd ac anawsterau eraill, pobl ifanc sy'n rhan o'r Uned Cyfeirio Disgyblion ac sydd wedi'u gwahardd o addysg prif ffrwd, myfyrwyr coleg, grwpiau anabledd fel y rhai â nam ar eu golwg a grwpiau eraill fel Coed Lleol ac Aber-active. |
| **MANTEISION LLUOSOG**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 6)** | **Cymdeithasol**<br><br>Mae manteision cymdeithasol y prosiect yn cynnwys:<br><br>• dod â holl agweddau cymuned fach ynghyd ar ôl COVID a chefnogi lles ffermwyr, trigolion lleol ac ymwelwyr<br>• sefydliadau cymunedol allweddol sy'n elwa'n uniongyrchol o'r cynllun – Ffermydd, yr Eglwys, Neuadd y Pentref, y Capel gan greu ymdeimlad o gydlyniant a grymuso pobl, mewn byd lle mae cymaint o sefydliadau eraill yn effeithio ar gymunedau ffermio gwledig, mae'r cyfle hwn wedi caniatáu i'r gymuned deimlo y gall reoli rhai pethau<br>• creu llwybrau hygyrch i gadeiriau olwyn a phramiau |

| | |
|---|---|
| | • comisiynu'r gwaith o greu fideo araf – fideo 10 munud o'r Elenydd gyda'i holl synau naturiol sydd â'r potensial i greu effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles meddyliol<br>• cefnogi gweithgareddau a theithiau i leihau ynysu.<br><br>**Economaidd**<br><br>Mae manteision economaidd y prosiect yn cynnwys:<br><br>• gwario £250,000 ar gontractwyr lleol<br>• wrth i gontractwyr lleol gyflogi pobl leol, bydd y cyflogau hyn yn cael eu gwario'n lleol i gefnogi'r economi leol a'r economi gylchol sylfaenol<br>• defnyddiwyd gwefan Grŵp Cymunedol Elenydd i hyrwyddo twristiaeth leol a fydd yn dod â budd i'r economi. |
| **HIRDYMOR**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 7)** | Mae Grŵp Cymunedol Elenydd yn awyddus i barhau y tu hwnt i ddiwedd y grant SMS. Mae wedi nodi prosiectau bach yr hoffai eu cyflawni ar ôl i gyllid yr SMS ddod i ben.<br><br>Mae'r prosiect SMS wedi galluogi'r grŵp a'r gymuned i drosoli cyllid o tua £80,000 o ffynonellau eraill, megis cronfa gymunedol ffermydd gwynt lleol, i alluogi sefydlu'r ganolfan teithio cynaliadwy. Byddai ganddynt ddiddordeb mewn cyfleoedd eraill i ddatblygu ymhellach y math hwn o ddull tirwedd cydweithredol.<br><br>Bydd modd cynnal y gwelliannau ffisegol a wneir i'r tir am gyfnod gan ffermwyr lleol ac Ystâd yr Hafod, fodd bynnag, pe bai cost ariannol yn y dyfodol, byddai'n anodd dod o hyd i'r arian hwn a'i gynnal, o ystyried y rheoliadau newydd a'r costau cysylltiedig arfaethedig a'r pwysau ariannol cynyddol y bydd y gymuned ffermio yn eu hwynebu. |
| **DATBLYGU GWYTNWCH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 9)** | O fewn y 5-10 mlynedd nesaf, bydd y gwytnwch i'w weld drwy warchod rhywogaethau prin fel cen, mwsogl, rhostir graean, rhedyn prin, ac adar fel y cwtiad aur, barcud coch, bwncath, mwyalchen y mynydd ac ati, gwell iechyd y pridd, rheoli dŵr yn well, gwell amrywiaeth o blanhigion ar ucheldiroedd.<br><br>Mae'r gwytnwch yn cael ei gryfhau gan y wybodaeth a'r sgil y mae'r rhai sy'n ymwneud â rheoli'r dirwedd wedi'u casglu yn ystod y broses SMS a'r wybodaeth a'r hyder i ofyn am gymorth yn ôl yr angen. |

| **Sylwadau i Gloi** |
|---|
| Mae'r prosiect hwn, a ariennir gan SMS, yn ymateb rhagorol o ran mynd i'r afael â materion amgylcheddol byd-eang drwy bartneriaeth gyfannol sy'n cynnwys yr holl bersonél allweddol o fewn ardal denau ei phoblogaeth sy'n hyrwyddo grymuso cymunedau a buddion economaidd, cymdeithasol ac ecolegol. Mae'n brosiect sy'n cyfleu'r 'ymdeimlad o le' yn ei holl agweddau. Mae’n fodel sy’n cyfuno sgiliau ac arbenigedd ffermwyr, tirfeddianwyr mawr, arbenigwyr yn y maes amaeth-amgylchedd, sefydliadau cymunedol allweddol a’r sgiliau hwyluso sydd eu hangen ar gyfer proses datblygu cymunedol. Drwy sicrhau bod cyfleoedd gwirfoddoli, manteision uniongyrchol i’r rhan fwyaf o’r boblogaeth a thrwy hybu iechyd meddwl da a lles y cyhoedd, mae’n fenter wirioneddol gynhwysol. Wedi'i hysgogi gan nodau buddion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, ei nod yw diwallu anghenion pobl yn yr oes sydd ohoni heb niweidio anghenion cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Mae’n fodel y gellid ei ailadrodd ar draws Mynyddoedd Cambria gan greu methodoleg ffermio gydlynol, cysylltiadau rhwng coridorau, llwybrau cynefinoedd, bioamrywiaeth gryfach a thirwedd a chymuned wledig gydnerth.<br><br>'*Mae’r Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi rhoi’r gallu i grwpiau cymunedol/ffermio, a oedd wedi’u tangynrychioli o’r blaen, o ran sicrhau arian cyhoeddus o’r math hwn ac yn y rhan hon o Gymru, i wneud hynny ac mae hynny wedi creu cyfle unigryw ar gyfer cyd-ddylunio a chydweithio ar raddfa'r dirwedd er budd ein cymunedau ac yn bwysicaf oll er bydd natur drwy gydweithio yn y ffordd arloesol, gydweithredol hon.*' (Aelod o'r Grŵp Llywio). |

| ENW'R PROSIECT: | Dawnsio ar y Dibyn |
|---|---|
| **Cyfnod cyllido:** | 5 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Cyngor Gwynedd |
| **Grant a Ddyfarnwyd:** | £399,950 |
| **Lleoliad:** | Cymru Gyfan |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Mae ein prosiect Dawnsio ar y Dibyn wedi sefydlu fframwaith cydweithredol enghreifftiol i Gymru Gyfan i alluogi dull mwy strategol o fynd i'r afael yn effeithiol â'r materion amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar ecosystemau ymylol arfordirol Cymru. Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau rhwng prosiectau, mentrau a gweithgorau sy'n bodoli eisoes er mwyn lleihau'r ymdrechion sy'n cael eu dyblygu, gan arddangos arferion gorau sy'n cynnig gwerth da am arian. Mae wedi cynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad ac yn galluogi ymgymryd â dulliau cydweithredol, ymaddasol o reoli ymylon arfordirol yn gynaliadwy. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **GRADDFA**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 2)** | Drwy weithio o Ynys Môn i Sir Benfro ar hyd llwybr yr arfordir, mae'r prosiect wedi ceisio adeiladu ar sgiliau, arbenigedd, a phrofiad yr holl bartneriaid ac wedi ceisio sefydlu a hyrwyddo arfer da sy'n sicrhau methodoleg gyson ar hyd llwybr cyfan yr arfordir.<br><br>'*Mae hyrwyddo arferion ffermio da sy'n cefnogi'r amgylchedd wedi dod â safon uchel o ymarfer i'r llwybr arfordirol sydd o fudd i'r ecosystem ar y llain arfordirol.*' [Partner y prosiect]<br><br>Dyma'r llwyfan ar gyfer datblygu Strategaeth Cysylltedd ar gyfer Arfordir Cymru Gyfan fel y dywedodd un partner 'creu coridor – gorymdeithio i lawr yr arfordir'. |
| **CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 3)** | Mae'r prosiect wedi dod â Chyngor Gwynedd, Cyngor Ceredigion, yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ynghyd. Roedd gan bob un ohonynt brofiad blaenorol o reoli Llwybr Arfordir Cymru ac wedi meithrin perthynas â'i gilydd dros y blynyddoedd. Er bod pob partner yn gyfrifol am reoli ei waith ei hun yn lleol, daw'r sefydliadau at ei gilydd yn rheolaidd i drafod cynnydd ac ymarfer a cheir rhaglen o ymweliadau â |

| | |
|---|---|
| | phob ardal i wneud y gorau o'r cyfle i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Teimlai'r partneriaid fod cydweithio'n agos yn codi safonau, yn cyfuno arbenigedd, ac yn creu atebolrwydd.<br><br>'*Mae cydweithio wedi bod yn brofiad da, clywed a gweld beth mae'r ardaloedd eraill yn ei wneud, mae ymweliad ag Aberdaron wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror 2023. Bydd y cyfle i gyfnewid gwybodaeth a sgiliau yn talu ar ei ganfed yn y dyfodol.*' (Partner y prosiect)<br><br>Ceir cydweithio ac ymgysylltu hefyd â ffermwyr a thirfeddianwyr lleol, sy'n berthynas gydfuddiannol rhwng partneriaid a ffermwyr/tirfeddianwyr sy'n cynyddu faint o dir sydd ar gael ar gyfer adfer gweirgloddiau ac yn rhannu arferion a fydd yn cynnal y tir. |
| **TYSTIOLAETH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 5)** | Mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni ei holl dargedau. Mae'n casglu tystiolaeth drwy:<br><br>• Arolygon llinell sylfaen a ailadroddir o weirgloddiau<br>• Arolygon llinell sylfaen a ailadroddir o'r pridd ac infertebratau<br>• Cymryd ffotograffau o bob safle ar gyfnodau rheolaidd<br>• Cynhyrchu ffilm o ddechrau'r prosiect ac ar ei ddiwedd.<br><br>Ymhellach, mae'n cofnodi ymarfer, megis datblygu gweirglodd yr RSPB a rhennir hyn ymhlith y partneriaid.<br><br>Mae'r prosiect wedi manteisio ar arbenigwr Gweirgloddiau ac mae'r RSPB yn chwilio am arbenigwr monitro pridd ac infertebratau i roi cyngor ac i rannu sgiliau. |
| **MANTEISION LLUOSOG**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 6)** | Yn economaidd hyd yma, mae contractwyr lleol wedi'u penodi ac mae ffermwyr/tirfeddianwyr wedi elwa o fuddsoddiad uniongyrchol ar eu tir o ran ffensio a methodoleg ffermio newydd a fydd yn gwella eu tir a'u da byw, '*mae'r tirfeddianwyr ar eu hennill yn sgil buddsoddi mewn ffensio, rhent a thechnegau newydd sy'n datblygu eu tir.*' (Partner y prosiect) |

| | |
|---|---|
| | Gall potensial rhwydwaith gweirgloddiau rhyng-gysylltiedig ar hyd llwybr cyfan yr arfordir, gynyddu bioamrywiaeth ond fod yn hwb economaidd i dwristiaeth gynaliadwy.<br><br>Yn gymdeithasol, mae'r RSPB yn cynllunio teithiau tywys yn y gwanwyn i arddangos y gweirgloddiau ac i amlygu'r bywyd gwyllt a'r dulliau ffermio sydd wedi arwain at y newidiadau hyn.<br><br>Mae gan Gyngor Gwynedd/Partneriaeth Llŷn hanes o sefydlu byrddau dehongli sy'n addysgu'r gymuned ar fywyd gwyllt ac arferion ffermio. Maent yn rhan o'r www.ecomuseumlive.eu ac wedi cynhyrchu'r fideo Cysylltedd Arfordirol sy'n hybu dealltwriaeth o'r materion yn y gymuned a phecyn addysgol i ysgolion sydd â chynnig gwell i blant a phobl ifanc, yn fwy na chasglu sbwriel. |
| **HIR**<br><br>**DYMOR**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 7)** | Mae'r prosiect yn edrych ar yr hirdymor mewn sawl ffordd wahanol:<br><br>• Edrych ar gyfleoedd cyllido lleol a chenedlaethol e.e. cysylltu'r gwaith ar Ynys Lawd â Phartneriaeth Tirwedd Ynys Cybi ac edrych ar sut y gall datblygiadau amaeth-amgylcheddol newydd yng Nghymru arwain at ffermwyr yn cael eu talu am ddulliau sy'n cefnogi bioamrywiaeth.<br>• Ychydig iawn o waith cynnal a chadw fydd ei angen yn y dyfodol i sicrhau bod gwaith ffensio, adfer gweirgloddiau ac ati yn cael ei gynnal<br>• Mae partneriaid yn gweld perthnasoedd hirsefydlog gyda ffermwyr lleol fel rhywbeth a fydd yn parhau am amser hir i gefnogi ei gilydd o ran arferion ffermio da<br>• Sicrhau bod gan y staff sgiliau monitro e.e. mae RSPB yn hyfforddi staff i gynnal arolygon monitro gweirgloddiau, pridd/infertebratau<br>• Mae'r RSPB yn rhan o Brosiect Adfer Gwyrdd Blaenllaw Natur Am Byth Cymru CNC sy'n ceisio achub rhywogaethau rhag difodiant ac ailgysylltu pobl â byd natur. Mae'r RSPB yn un o'r deg partner craidd. Bydd arferion a ddysgwyd yn Dawnsio ar y Dibyn yn cael eu defnyddio yn y prosiect hwn hefyd. |
| **CAMAU ATALIOL**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 8)** | Mae'r prosiect wedi ymgymryd â rhaglen o glirio prysgwydd, ffensio, dŵr yfed ar gyfer da byw, adfer gweirgloddiau, pori priodol (stoc ac amseroedd o'r flwyddyn) a fydd yn arwain at adfer cynefinoedd a chynyddu bioamrywiaeth ar hyd llwybr yr arfordir. |

| | |
|---|---|
| | '*Arddangosfa o ffermio cynaliadwy sy'n hybu bioamrywiaeth*.' (RSPB)<br><br>Ar sail llwyddiant y prosiect hwn, mae'r RSPB wedi meddiannu caeau eraill – 30 erw ar y bryn ac yn ei rentu gan landlord preifat. Nid yw wedi cael ei reoli ers blynyddoedd. Bydd yn datblygu gweirgloddiau yma hefyd ac mae wedi cynnal arolwg monitro llinell sylfaen ar ddechrau'r broses. |
| **DATBLYGU GWYTNWCH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 9)** | Gyda rhywogaethau dangosol eisoes i'w gweld fel y gribell felen, dylid gweld cynnydd mewn adar, gwiberod, ysgyfarnogod, infertebratau, - drwy dorri gwair yn hwyr a threfniadau pori cywir - blodau, gloÿnnod byw, ysgyfarnogod, ehedydd, adar sy'n nythu ar y ddaear, pryfed, brain coesgoch yng Ngwanwyn 2023.<br><br>'*Oherwydd diffyg gweirgloddiau, roedd yr ecosystemau wedi dirywio. Dydyn ni ddim wedi gwneud dim byd, ychydig o aflonyddu a fu a bydd y tir yn addasu i gael ei bori*.'<br><br>*'Mae gennym dystiolaeth o ddarn o dir sydd wedi cael ei bori dros un gaeaf ar ôl 20 mlynedd o ddiffyg pori ac rydym wedi gweld blodau seren y gwanwyn yn ailymddangos y Gwanwyn canlynol, roedd yr hadau wedi bod yn segur ers 20 mlynedd o bosibl. Mae gennym dir nad yw'n cyflawni ei botensial, rydyn ni'n ffermio mewn ffordd sy'n sensitif ac yn gydnaws â'r fioamrywiaeth, dydyn ni ddim yn ffermio'r tir yn ddwys.'*<br><br>'*Rydym ni a'r tirfeddianwyr eraill wedi ymrwymo i'r dull hwn o bori ac yn awyddus i ymestyn yr arferiad i ardaloedd eraill. Rydym hefyd yn dysgu sgiliau monitro a bydd yr arfer hwn yn parhau hefyd*.' |
| **Sylwadau i Gloi** | |
| Mae cynefinoedd arfordirol Cymru yn enwedig rhostir, glaswelltir arfordirol, systemau twyni tywod a chlogwyni môr, aberoedd a morfeydd heli wedi dirywio'n gynyddol dros y degawdau yn wyneb nifer o newidiadau, gan gynnwys gwelliannau amaethyddol dwys, rhoi'r gorau i bori, pwysau yn sgil diwydiant ac ymwelwyr a ffactorau amgylcheddol gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. | |

Mae llawer o rywogaethau sy'n dibynnu ar gynefinoedd arfordirol wedi lleihau o ran nifer ac mae eraill bron wedi'u colli oherwydd gostyngiad yn ansawdd yr amgylcheddau hyn. Bydd diogelu rhywogaethau allweddol fel dyfrgwn a brain coesgoch, gwella'r ystod o rywogaethau sensitif fel ymlusgiaid a pheillwyr a chynnal ac adfer y matrics o gynefinoedd yn arwain yn y pen draw at gynnydd mewn bioamrywiaeth o fewn a rhwng ecosystemau ar ymylon yr arfordir.

Gan adeiladu ar waith blaenorol a wnaed gan y sefydliadau partner ac ar y perthnasoedd, y maent wedi'u meithrin â'i gilydd dros nifer o flynyddoedd, mae'r prosiect hwn yn sylfaen i ddatblygiad 'Strategaeth Cysylltedd Arfordirol' Cymru Gyfan a fydd yn gwrthweithio rhai o'r bygythiadau, yn cynnal ac ehangu lleiniau parhaus o gynefinoedd amrywiol o amgylch yr arfordir, gan ddarparu adnodd amhrisiadwy i'r rhywogaethau y mae'r cynefinoedd hyn yn eu cynnal.

Mae gweledigaeth y Bartneriaeth ar gyfer Strategaeth Cysylltedd Arfordirol Cymru yn cynnwys datblygu proses o ddewis safleoedd, casglu data a dadansoddi lle bydd yr arfordir yn cael ei rannu'n bos jig-so o safleoedd gyda gwahanol rinweddau, cyfleoedd a heriau y gellir eu dadansoddi wedyn i ddarparu sail ar gyfer dewis camau gweithredu strategol sy'n flaenoriaethau lleol.

Mae'r gwaith hwn ar raddfa'r dirwedd yn darparu ecosystemau iach, gwydn, hyblyg a chydgysylltiedig a all ddarparu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol clir i gymunedau lleol a'r cyhoedd yn ehangach.

| ENW'R PROSIECT: | Pobl a Natur – Gweithio gyda'n Gilydd |
|---|---|
| **Cyfnod cyllido:** | 5 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Grŵp Cydweithredol Maesmawr |
| **Grant a Ddyfarnwyd:** | £499,200 |
| **Lleoliad:** | Y Drenewydd |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Mae Grŵp Cydweithredol Maesmawr wedi nodi heriau lleol sy'n wynebu ffermio a bywyd cymunedol yn nhrefi a phentrefi eu tirwedd, y maent yn anelu at eu goresgyn. Mae'r prosiect yn cwmpasu rhan o ddalgylch uchaf Afon Hafren, sy'n cynnwys tua 17,240 erw o dir yr aelodau a choedwigoedd CNC sy'n ymestyn o Dolfor yn y dwyrain i Glywedog yn y gorllewin.<br><br>Y prif nod yw cefnogi iechyd ecosystemau i wella bioamrywiaeth. Mae 30 o bartneriaid ffermio wedi plannu coed a gwrychoedd, wedi adfer cynefinoedd a gwella eu cysylltedd, wedi creu pyllau a datblygu gwell mynediad i fannau gwyrdd a glas ar gyfer gweithgarwch corfforol a lles meddyliol. Hefyd, mae'r prosiect wedi ceisio deall a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r bygythiadau a sut i'w gwrthweithio drwy ddefnyddio uwch-dechnoleg. Gwneir hyn drwy ddefnyddio delweddau lloeren gwirioneddol fel rhan o brosiect delweddu digidol Cymru Fyw sy'n cael ei gynnal gan Brifysgol Aberystwyth. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **GRADDFA**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 2)** | Mae ardal y prosiect yn cynnwys rhan 15 milltir o ddalgylch uchaf afon Hafren:<br><br>'*Mae gweithio ar sail tirwedd ar draws dalgylch afon Hafren uchaf wedi gwneud i mi sylweddoli y gallwn gyflawni mwy drwy gyfuno ein hymdrechion yn hytrach na gwneud pethau'n unigol. Gallwn gysylltu cynefinoedd yn well fel hyn a datblygu cynllun ymaddasol i oresgyn heriau lleol*' [Ffermwr].<br><br>Bu cyfle i'r cyfranogwyr ymweld â ffermydd ei gilydd, deall y problemau y maent yn eu hwynebu a sut mae'r hyn sy'n digwydd ar un fferm yn effeithio ar un arall, gan greu ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd a rhoi cyfle i ddod o hyd i ddatrysiadau ar y cyd. |
| **CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU** | Mae Grŵp Maesmawr yn gyfuniad o 12 o ffermwyr lleol a'u teuluoedd ac mae'n cynnwys amrywiaeth o fodelau ffermio, gwahanol oedrannau, rhywiau, iaith, cefndir, sgiliau; nhw sy'n llywio gwaith y |

| | |
|---|---|
| **(Egwyddor**<br><br>**SMNR 3)** | prosiect. Wedi'i ddwyn ynghyd gan hwylusydd, drwy wasanaeth hwyluso SMS, mae'r hwylusydd wedi mynd ymlaen i reoli'r prosiect gan gadw'r egwyddor wreiddiol o sicrhau bod popeth yn cael ei arwain gan ffermio fel gwerth craidd. Meddai ffermwyr y prosiect:<br><br>'*Yn aml, dydyn ni ddim wedi gwneud cais gan ein bod ni'n teimlo nad oedd yr hyn yr oedden ni am ei wneud yn cyd-fynd â'r cynlluniau cyllido, fe wnaeth [yr hwylusydd] ddangos i ni ein bod yn gallu dylunio yr hyn rydyn ni'n gwybod sydd angen ei wneud a'r hyn rydyn ni eisiau ei wneud a'i addasu i'r hyn y mae cyllidwyr yn chwilio amdano*.'<br><br>'*Fydden ni ddim wedi cyrraedd mor bell hebddi hi*.'<br><br>Gwelwyd hyn fel '*proses adfywiol sydd wedi bod yn allweddol i gynnal ymrwymiad, cymhelliant ac egni'r holl aelodau*.'<br><br>Cafwyd cyngor gwyddonol technegol gan Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru (FWAG Cymru) drwy gydol y broses o'r dechrau hyd at y gwerthusiad a chafwyd cefnogaeth gyson gan CNC.<br><br>Mae'r gymuned ehangach hefyd yn ymwneud â'r gwaith drwy sesiynau hyfforddi i'r rhai sy'n gweithio ym myd ffermio, diwrnodau dysgu megis Gweithdai Gwyddoniaeth i'r Dinesydd sy'n casglu darganfyddiadau newydd, cyffrous a rhaglen addysg eang sy'n canolbwyntio ar 600 o ddisgyblion yn ogystal â threfnu a mynychu nifer o ddigwyddiadau cymunedol.<br><br>Teimlwyd bod naws y cydweithio a'r ymgysylltu yn barchus, ac y gwrandawyd ar bobl heb ragfarn a heb farnu, a bod awydd i glywed safbwyntiau gwahanol. Galwyd y diwylliant hwn o dderbyn, goddefgarwch a chynhwysiant yn 'Ffordd Sir Drefaldwyn', (ffermwr lleol). |
| **TREFNIADAU I'R CYHOEDD GYMRYD RHAN**<br><br>**(Egwyddor 4 SMNR)** | Mae llawer o gyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan yn y prosiect hwn:<br><br>• Gweithdai Gwyddoniaeth i Ddinasyddion e.e. samplu infertebratau afonydd a nentydd<br>• Hyfforddiant i ffermwyr a'u teuluoedd<br>• Rhaglen ysgolion - mae'r prosiect wedi comisiynu ecolegydd (cofnodydd mamaliaid bach Powys) i ymweld â/mynychu digwyddiadau ar gyfer 12 o ysgolion cynradd ac uwchradd ym Mhowys i ymgysylltu â thua 600 o blant, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn wardiau o amddifadedd<br>• Digwyddiadau cymunedol fel Gwyliau Bwyd yn cyrraedd 400 o bobl |

| | |
|---|---|
| **TYSTIOLAETH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 5)** | Mae swyddog amaeth-amgylcheddol FWAG yn rhoi cyngor cyn i unrhyw waith gael ei wneud a'i thystiolaeth arbenigol hi fu sylfaen y prosiect. Mae hefyd yn gyfrifol am y gwaith monitro a fydd yn sail i'r gwerthusiad terfynol.<br><br>Mae’r prosiect wedi defnyddio ffotograffiaeth wedi'i geo-tagio a mapio setiau data ar blatfform cwmwl er mwyn monitro cynnydd ar wahanol gamau er mwyn sefydlu meincnodau ecolegol. Mae aelodau yn teimlo mai dim ond ymhen ugain mlynedd o bosibl y bydd gwir effaith y gwaith yn cael ei wireddu.<br><br>Mae hefyd yn gweithio gydag arbenigwr pridd ar y cysyniad o ffermio adfywiol ac yn dysgu sut i ddadansoddi'r pridd eu hunain. Mae'r prosiect yn hyderus y bydd y gwaith yn cael effaith o ran pethau fel amsugno carbon, fodd bynnag, teimlir bod profi hyn yn ddrud.<br><br>Ymhellach, mae mentrau dysgu gweithredol bach fel y Gweithdai Gwyddoniaeth i Ddinasyddion yn cynhyrchu gwybodaeth newydd nawr drwy ganfod pethau nad oeddent yn gwybod eu bod yn bodoli'n lleol megis cimwch yr afon Prydain. |
| **MANTEISION LLUOSOG**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 6)** | **Manteision cymdeithasol**<br><br>Mae’r prosiect wedi bod yn gyfle i ffermwyr a’u teuluoedd ddod at ei gilydd ar ôl COVID-19 ac mae wedi helpu i ddatblygu ymdeimlad o undod.<br><br>'*Gall ffermio fod yn fywyd unig ac mae cydweithio wedi cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd a’n lles*'<br><br>Bu hefyd yn gyfle i glywed am syniadau newydd a thrafod syniadau arloesol.<br><br>'*Mae sawl arloeswr yn y grŵp sydd wedi croesawu’r cyfle i fod yn rhan o set dysgu gweithredol i bob pwrpas ac mae hyn wedi magu hyder.*'<br><br>Mae pobl wedi gallu uniaethu â'r prosiect ac wedi teimlo bod modd ei gyflawni, ac mae hynny wedi cefnogi cyfranogiad a gwneud i bobl deimlo eu bod wedi'u grymuso.<br><br>Yn ogystal â hynny, mae teuluoedd fferm hefyd wedi elwa o fod yn rhan o’r digwyddiadau hyfforddi, gweminarau, gweithdai, digwyddiadau cymunedol, gan gefnogi eu lles ar ôl dinistr y pandemig.<br><br>Mae'r gymuned hefyd wedi elwa o fynediad cynyddol i hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ceffylau ac mae eu defnydd wedi cynyddu'n ddiweddar. Mae'r prosiect yn cyllido gwariant mewn ysgolion lleol fel rhan o'r ffocws ar fesurau'n ymwneud â'r dirwedd i |

| | |
|---|---|
| | wneud yn siŵr bod gan blant y cyfleusterau i chwarae a dysgu y tu allan a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol.<br><br>**Manteision economaidd**<br>'*Mae'r prosiect wedi cyfrannu tua £500,000 i'r economi leol mewn modd cylchol gan fod y mwyafrif helaeth o'n cyflenwyr wedi'u lleoli o fewn y rhanbarth ac felly'n cyflogi eu staff eu hunain ac yn gwario yn yr economi honno gan helpu gydag economïau cylchol/sylfaenol yn lleol.*' |
| **HIRDYMOR**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 7)** | Mae Grŵp Maesmawr yn awyddus i barhau y tu hwnt i oes y prosiect hwn ac ar hyn o bryd mae'n chwilio am gyllid ar ôl i'r SMS ddod i ben i weld pa gyfleoedd sydd ar gael.<br><br>Mae ansawdd y gwaith cyfalaf a wneir yn golygu y bydd ffermwyr yn gallu parhau â'r gwaith cynnal a chadw am gyfnod ond cydnabyddir y bydd hyn yn anodd os bydd rhaid iddynt gyllido'r costau cynnal a chadw eu hunain:<br><br>*'Rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o gydbwyso canlyniadau amgylcheddol a manteision busnes. Mae ffermwyr yn gorfod gwneud penderfyniadau strategol am beth a sut maen nhw'n ffermio, mae rhai yn cwestiynu ffermio gwartheg, byddant yn gwneud penderfyniadau gwybodus yn y dyfodol agos. Mae ffermwyr yn ymwybodol bod mwy y gallen nhw ei wneud o ran yr amgylchedd, ond mae lleihad mewn cynhyrchiant ac incwm a chynnydd mewn costau cynnal a chadw yn creu anawsterau.*' [Ffermwr lleol].<br><br>Fodd bynnag, roedd cyd-ddysgu a chydweledigaeth hirdymor '*gan weld y gallwch gael manteision amgylcheddol ac economaidd o fewn prosiectau, gallan nhw weithio law yn llaw.*' [Ffermwr lleol].<br><br>Mae'r ffermwyr hefyd yn annog ei gilydd i ystyried ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol e.e. ffermio carbon a hyfforddiant ac mae gweminarau wedi'u trefnu.<br><br>'*Heb y cyfle i ddod at ein gilydd, mae'n debyg na fyddai'r sgyrsiau hyn yn digwydd.*'<br><br>Yr agwedd olaf o ran hirhoedledd yw'r cyfle i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf mewn ffermio cynaliadwy a bydd y rhaglen ddysgu ac addysg yn cyrraedd 600 o bobl ifanc o bob cymuned a chefndir:<br><br>'*Rydym wedi plannu'r hedyn i lawer o blant ysgol fod yn fwy ymwybodol o ffermio a sut mae'n rhaid i ni gyfuno cynhyrchu bwyd ac adfer byd natur i helpu i frwydro yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd.*' |

| | |
|---|---|
| **CAMAU ATALIOL**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 8)** | Mae gweithdai, gweminarau, sesiynau hyfforddi, ac ymweliadau ecolegydd yn annog ffermwyr lleol i ganolbwyntio mwy ar fywyd gwyllt ac i ffermio'n adfywiol a datblygu mwy o gynefinoedd i gynorthwyo bywyd gwyllt.<br><br>Mae'r prosiect wedi adfer rhai ardaloedd, gan gynnwys trwy ddefnydd gwell o dir pori uchel, ac wedi darparu amodau gwell ar gyfer iechyd y pridd, wedi gwella/cyflwyno pyllau, wedi cyflwyno mwy o leiniau cysgodi i goed collddail, wedi diogelu dŵr rhag llygredd drwy ffensio a chynllunio rheoli gwastraff anifeiliaid fferm yn well. |
| **DATBLYGU GWYTNWCH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 9)** | Mae cyfres o sesiynau hyfforddi wedi helpu rheolwyr tir i werthfawrogi pwysigrwydd iechyd y pridd, manteision ffermio adfywiol, natur fregus bioamrywiaeth leol, yn ogystal â chael cyngor ar ba rywogaethau y gellir eu cefnogi fesul fferm.<br><br>Yn ogystal â hynny, mae ecolegydd wedi ymweld â phob fferm ac mae tirfeddianwyr wedi cael eu hannog i ddewis rhywogaethau arbennig y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt i fuddsoddi ynddynt a'u hamddiffyn e.e. drwy ganolbwyntio ar gynefinoedd penodol neu newid arferion.<br><br>Mae gwrychoedd wedi'u hadfer, coed wedi'u plannu, cysylltiadau cynefinoedd wedi'u creu, pyllau wedi'u hadfer, cysgodfannau bywyd gwyllt wedi'u creu, coetiroedd wedi'u ffensio i greu lloriau coedwig, sydd oll yn helpu i adeiladu ecosystem fwy gwydn. Mae'n ddyddiau cynnar wrth i'r gwaith cyfalaf hwn fynd rhagddo, gan feincnodi marcwyr ecolegol ar yr un pryd. |

| **Sylwadau i Gloi** |
|---|
| Mae Maesmawr wedi creu ffordd unigryw o weithio a all fod yn fodel ar gyfer ardaloedd eraill. Mae wedi harneisio sgiliau, profiad ac ymrwymiad y gymuned ffermio, gwybodaeth arbenigwyr amgylcheddol, sgiliau hwylusydd ymroddedig a diddordeb y gymuned ehangach a'r genhedlaeth nesaf.<br><br>Nid yw dod â'r bobl uchod at ei gilydd yn ddigon ynddo'i hun ac nid yw'n gwarantu llwyddiant a chynnydd. Creu diwylliant iddynt barchu ei gilydd, gwrando ar ei gilydd, cynnwys pawb, bod yn barod i glywed beth sydd gan arbenigwyr allanol i'w gynnig, cael eich herio gan syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio a chael diwylliant o ymrwymiad a chymhelliant yn seiliedig ar werthoedd a gweledigaeth a rennir yw'r ffordd i sicrhau partneriaeth waith effeithiol.<br><br>Y drydedd elfen hollbwysig yw gweld tirwedd fel cyfanwaith, heb ei chyfyngu i un elfen.<br><br>Gall gymryd blynyddoedd i gyrraedd y pwynt hwn, ac eto mae'r grŵp hwn wedi gwneud hynny mewn cyfnod cymharol fyr. Mae'n ddull y dylid manteisio arno ac mae ei effaith eisoes yn weladwy o ran newidiadau mewn arferion ffermio, sylfaen adfywio bioamrywiaeth mewn |

ardaloedd gwledig ac ymatebion i newid yn yr hinsawdd, yr effaith gymdeithasol a lles o fewn teuluoedd a chymunedau ffermio hefyd yn ogystal â'r budd economaidd.

Mae’n werth tynnu sylw at y ffaith y bu'r broses hon yn brofiad unigryw i'r ffermwyr dan sylw:

'*Mae'n anodd iawn cael cefnogaeth ac ymrwymiad gan y gymuned ffermio os nad yw pobl yn teimlo y bydd pethau'n digwydd mewn gwirionedd, yn cael eu gweithredu, yn gwneud gwahaniaeth, mae cyllid yn rhan o hynny. Mae ganddyn nhw flynyddoedd o brofiad o siopau siarad, gormod o fiwrocratiaeth, pethau sy’n llyncu amser ac egni, heb fawr ddim yn digwydd o ganlyniad. Wrth i'r cynllun hwn fynd rhagddo, mae'r brwdfrydedd wedi codi, mae syniadau wedi dod yn fwy beiddgar. Mae wedi bod yn broses bleserus, gan leihau ynysu, gyda phobl yn ysbrydoli ei gilydd*,' [ffermwr lleol].

| | |
|---|---|
| **ENW'R PROSIECT:** | **Bro Cors Caron** |
| **Cyfnod cyllido:** | 5 |
| **Sefydliad arweiniol:** | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt |
| **Grant a Ddyfarnwyd:** | £490,000 |
| **Lleoliad:** | Ceredigion |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | Nod y grŵp hwn, sy'n cael ei arwain gan ffermwyr, yw gwella tir ffermydd ym mhen gogleddol gwarchodfa natur genedlaethol Cors Caron. Mae wedi mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â bioamrywiaeth, gwella cynefinoedd, iechyd y pridd ac ansawdd dŵr a gwella cysylltedd. Sbardun mawr ar gyfer y prosiect yw cefnogi'r Warchodfa Natur Genedlaethol gyfagos a gwarchod adnoddau naturiol a nwyddau ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd a ffermio sy'n creu elw. Ochr yn ochr â'r gwaith adfer cynefinoedd, nod y prosiect yw gwella lles y gymuned, gwella cysylltiadau cymdeithasol, lles a'r cysylltiad traddodiadol a hanesyddol rhwng cymuned a thir. |
| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU YN ERBYN EGWYDDORION SMNR** | |
| **RHEOLI MEWN MODD YMADDASOL**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 1)** | Un ffordd allweddol y newidiodd y prosiect oedd y trefniadau caffael. Roedd wedi gobeithio swmp brynu rhai eitemau, megis cyflenwadau ffensio, ond ar ôl cael cosb ariannol gan Lywodraeth Cymru am beidio â dewis y dyfynbris rhataf penderfynwyd ymdrin â phob ffermwr ar wahân, gan adael i bob ffarmwr benderfynu sut yr oedd pethau'n cael eu gwneud ar eu ffermydd. O ganlyniad, roedd y ffermwyr yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros yr hyn sy'n cael ei wneud ar eu tir ac roeddent yn gallu cynllunio pryd yr oedd gwaith yn cael ei wneud i leihau'r effaith ar eu ffermio o ddydd i ddydd.<br><br>Y cynllun gwreiddiol oedd i'r ffermwyr sefydlu CBC i dderbyn yr arian ac i redeg y prosiect eu hunain, ond ni wnaeth hyn ddwyn ffrwyth ac felly mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt yn parhau i fod yn gysylltiedig ac wedi rhedeg y prosiect ar ran y ffermwyr. |
| **GRADDFA**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 2)** | Teimlwyd bod hyn yn rhan annatod o'r prosiect. Roedd un o'r ffermwyr wedi bod yn ffermio fel hyn ers sawl blwyddyn ac roedd y prosiect yn gyfle i ymestyn yr arferion hyn ar draws nifer fawr o ffermydd. Drwy weithio ar raddfa'r dirwedd, byddant yn gallu cael mwy |

| | |
|---|---|
| | o effaith ar agweddau fel rheoli ysglyfaethwyr, er bod angen gwneud y math hwn o waith yn barhaus i gael unrhyw effaith wirioneddol. |
| **TYSTIOLAETH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 5)** | Mae'r prosiect yn dal yn ei gyfnod cyflawni ac mae felly'n dal i gwblhau rhywfaint o'i waith. Fodd bynnag, mae'n annhebygol o gwblhau rhai agweddau megis yr arolygon ansawdd dŵr, ond dylai allu dangos beth sydd gan yr ardal o ran bioamrywiaeth drwy'r arolygon adar.<br><br>O edrych yn ôl, teimlwyd bod rhai o'r targedau ychydig yn uchelgeisiol ar gyfer rhaglen dwy flynedd. |
| **MANTEISION LLUOSOG**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 6)** | Er bod y berthynas ymhlith y ffermwyr sy'n gweithio ar y prosiect eisoes yn dda, mae'r prosiect wedi gallu cryfhau'r cysylltiadau hyn ac amlygu manteision cydweithio'n agosach.<br><br>Mae'r prosiect hefyd wedi helpu i wella dealltwriaeth y gymuned ffermio yn yr ardal ehangach, drwy ddigwyddiadau ac ymweliadau ysgol. |
| **HIRDYMOR**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 7)** | Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt gais i'r Gronfa Rhwydwaith Natur am brosiect cadwraeth ysgyfarnogod a rhydyddion a fyddai wedi parhau â rhywfaint o'r gwaith, yn enwedig o ran cadw'r warden i reoli ysglyfaethwyr, ond bu hyn yn aflwyddiannus.<br><br>Bydd parhad y gwaith yn dibynnu ar y ffermwyr eu hunain a'u hymrwymiad. |
| **DATBLYGU GWYTNWCH**<br><br>**(Egwyddor**<br><br>**SMNR 9)** | Er y bydd llawer o'r gwaith a wnaed yn datblygu gwytnwch, megis darparu porthiant atodol dros y gaeaf, a phlannu gwrychoedd newydd i gysylltu cynefinoedd a darparu cysgod i adar, heb waith parhaus, i barhau â'r rhaglen fwydo a rheoli'r gwrychoedd newydd, ni fydd hyn yn cael effaith barhaus. |

| **Sylwadau i Gloi** |
|---|
| Mae'r prosiect wedi bod yn gyfle da i ehangu'r dulliau ffermio mwy cynaliadwy y bu un o'r ffermwyr yn eu defnyddio ers blynyddoedd lawer i ardal fwy. Bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar y Warchodfa Natur Genedlaethol gyfagos. Fodd bynnag, mae angen i lawer |

o'r ymyriadau, megis bwydo adar atodol neu reoli ysglyfaethwyr, fod ar waith dros gyfnod llawer hwy, neu hyd yn oed yn flynyddol er mwyn cael effaith barhaus ar niferoedd yr adar yn lleol.

# Atodiad B: Canfyddiadau allweddol o Adroddiadau Diweddaru SMS 2020 a 2021

## Adroddiad Diweddaru 2020 y Gwerthusiad

Roedd yr adroddiad diweddaru cyntaf yn adroddiad proses a oedd yn amlinellu'r ddamcaniaeth newid i'w defnyddio yn y gwerthusiad hwn.

Canfu adroddiad diweddaru cyntaf y gwerthusiad o ran y rhesymeg dros y cynllun a chyfatebiaeth y prosiectau ag egwyddorion SMNR:

- ei bod yn amlwg bod yr SMS wedi'i ddylunio a'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru mewn ffordd sy'n rhoi egwyddorion SMNR wrth ei wraidd
- bod y dull cyllido ar raddfa'r dirwedd, yn hytrach nag ar raddfa fferm, yn caniatáu ar gyfer partneriaethau prosiect yn seiliedig ar le a all arwain at fanteision llawer ehangach ar lefel gymunedol
- bod y meini prawf a'r broses ymgeisio am gyllid wedi ymgorffori egwyddorion SMNR yn gadarn yn y broses
- bod ymyriadau yn seiliedig ar le neu ddalgylch sy'n ceisio cynhyrchu mwy o fanteision a chanlyniadau wedi cael eu cyllido
- bod sicrhau bod cyllid ar gael i bartneriaethau sy'n cynnwys sefydliadau a pherchnogion tir, ac, yn y camau olaf, cyllido gwasanaeth cymorth gan hwylusydd i alluogi partneriaethau o'r fath i gael eu sefydlu, hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion SMNR a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- bod adborth a dderbyniwyd gan brosiectau'n awgrymu, er eu bod yn deall nodau'r SMS ac egwyddorion SMNR, bod y gofyniad i gael dealltwriaeth fanwl o flaenoriaethau ac egwyddorion polisi amgylcheddol yn her i bartneriaethau lleol

O ran rheoli a gweithredu'r cynllun, canfu'r gwerthusiad:

- bod y lefel iach hon o ddiddordeb yn yr SMS ac ymwybyddiaeth ohono ar draws ystod eang o ddarpar ymgeiswyr yn ddangosydd cychwynnol cryf o'r angen am yr SMS a'i lwyddiant
- bod y galw mawr am y cynllun, lefel y manylder a oedd yn ofynnol yn y templed Datgan Diddordeb ac ansawdd uchel a nifer y Datganiadau o Ddiddordeb a gyflwynwyd yn golygu nad oedd llawer o brosiectau yn y cyfnod cyllido diweddarach yn gallu symud ymlaen i'r cam ymgeisio. Roedd nifer o brosiectau aflwyddiannus (ond o ansawdd uchel) yn teimlo'n ddiwerth gan nad oedd eu disgwyliadau wedi'u gwireddu
- bod achos cryf dros symleiddio a lleihau faint o wybodaeth y gofynnir amdani yn y cam Datgan Diddordeb

- bod angen symleiddio a chyflymu'r broses ddyfarnu pe bai cynllun tebyg ar gael yn y dyfodol
- y byddai ymwneud yn agosach â llunwyr polisïau, staff strategol CNC a'r rhai sydd â dealltwriaeth a throsolwg o flaenoriaethau rhanbarthol yn gwella'r broses
- mae'r gofynion anhyblyg ac aneglur ar gyfer adrodd ar hawliadau ariannol, a'r diffyg cyfathrebu ac ymateb amserol i ymholiadau wedi rhwystro cynnydd ac wedi achosi problemau i nifer o'r partneriaethau a ariannwyd drwy'r SMS, yn enwedig sefydliadau'r trydydd sector llai a phartneriaethau a arweinir gan dirfeddianwyr
- roedd gan y mwyafrif o'r prosiectau a ariannwyd a oedd yn rhan o'r gwaith maes drefniant cydweithio ar waith cyn iddynt ddatblygu eu ceisiadau. Er bod yr SMS wedi cryfhau'r partneriaethau hyn ac wedi ehangu eu heffaith, mae llai o dystiolaeth ar gael hyd yma ei fod wedi ysgogi cydweithrediadau cynaliadwy newydd
- mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer mwy o gydlyniant rhwng yr SMS a CNC ar lefel fwy strategol gyda chyfle gwirioneddol i gysylltu prosiectau SMS yn agosach â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn y Datganiadau Ardal sydd bellach wedi'u cyhoeddi
- roedd prosiectau ar y cyfan yn awyddus i weld mwy o gyfleoedd i gydweithio â phrosiectau eraill a ariennir gan SMS
- y wers allweddol sy'n dod i'r amlwg yw bod dull cydweithredol o reoli tir yn llwyddiannus yn cymryd amser - i ddatblygu ymddiriedaeth rhwng partneriaid ac i ddatblygu syniadau. Gallai rôl mentor 'dal llaw' ar gyfer dyddiau cynnar y cyfnod cyflawni fod yn ddefnyddiol, drwy ehangu rôl yr hwylusydd o bosibl
- roedd yn galonogol gweld bod rhai prosiectau SMS yn cyfrannu at ddealltwriaeth o sut i ddatblygu dulliau'n ymwneud â Thaliad am wasanaethau amgylcheddol [troednodyn 36] o fewn rheolaeth amgylcheddol. Yn wir, roedd sawl prosiect hefyd yn edrych ar gyllid Glastir [troednodyn 37] neu gontractau Taliadau am wasanaethau amgylcheddol fel rhan o'u cynlluniau cynaliadwyedd

Troednodiadau

[36] Taliadau i ffermwyr neu dirfeddianwyr sydd wedi cytuno i gymryd camau penodol i reoli eu tir neu eu trothwyon er mwyn darparu gwasanaeth ecolegol yw taliadau am wasanaethau amgylcheddol.

[37] Cynllun rheoli tir cynaliadwy Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig cymorth ariannol i ffermwyr a rheolwyr tir, yw Glastir. Caiff ei gyllido gan Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru. Mae'n talu am ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol penodol sydd wedi'u hanelu at frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, gwella rheolaeth dŵr, a gwella bioamrywiaeth.

O ran canlyniadau'r cynllun a chyfraniad at themâu trawsbynciol, canfu'r gwerthusiad:

- bod arwyddion cynnar yn awgrymu bod yr SMS yn cyflawni yn erbyn ei nodau a'i amcanion a bod y prosiectau, yn gyffredinol, yn cyflawni eu targedau a'u hallbynnau
- ei bod yn bwysig bod prosiectau SMS eu hunain yn deall yn llawn y gofynion i ymgymryd â'u prosesau monitro a gwerthuso eu hunain ar lefel prosiect, ac yn defnyddio'r cyfle hwn i dynnu sylw at y ffaith eu bod wedi cyrraedd targedau ac unrhyw dystiolaeth o effeithiau a manteision y prosiect ar y cam hwn
- bod natur cyllid byrdymor yr SMS yn golygu mai dim ond allbynnau uniongyrchol y gellir adrodd amdanynt dros y cyfnod cyllido (e.e., nifer y coed a blannwyd, neu'r hectarau a adferwyd) yn hytrach na'r manteision ehangach a thymor hwy i'r ecosystem a'r canlyniadau cymdeithasol-economaidd a all gymryd sawl blwyddyn i'w gwireddu'n llawn
- bod y cyfyng gyngor hwn hefyd yn awgrymu y gallai dyluniad cynllun fel yr SMS elwa o ystyried cyfnod cyflawni llawer hwy o bum mlynedd o leiaf er mwyn gwireddu'r canlyniadau a fwriadwyd yn llawn ac er mwyn i dystiolaeth o'i effaith ddod i'r amlwg yn llawn
- ei bod yn addawol gweld cyfraniad mor gryf gan brosiectau SMS at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, at amcanion trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig ac, at nodau strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru
- bod y gwerthusiad wedi cynhyrchu tystiolaeth y dylid ei defnyddio i lywio'r ffordd y mae cynlluniau cyllido yn y dyfodol yn hwyluso cyd-ddylunio dulliau rheoli tir yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol

Roedd adroddiad diweddaru 2020 y gwerthusiad yn cynnig wyth argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer gweddill cyfnod cyflawni’r cynllun SMS ac argymhellion ehangach a allai helpu i lywio dulliau cyllido yn y dyfodol. Fe'u hamlinellir yn Ffigur Atodiad B.1 isod:

**Ffigur Atodiad B.1: Argymhellion o adroddiad diweddaru SMS 2020**

**Argymhelliad 1:** Dylid ystyried gwersi allweddol o ran dylunio polisi ar gyfer prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd mewn unrhyw ddulliau cyllido yn y dyfodol. Dylid rhannu canfyddiadau a chanlyniadau cynnar yr adroddiad gwerthuso hwn â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru sydd wrthi’n llunio’r strwythur ar gyfer cyllido ffermio yng Nghymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod dulliau cyllido ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd yn y dyfodol yn adeiladu ar ddull cydweithredol arloesol a hyblyg yr SMS ond yn ystyried mabwysiadu amserlen gyflawni 5 mlynedd a mwy ar gyfer cynlluniau grant o'r fath yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3:** Mae sawl pwynt dysgu allweddol wedi dod i'r amlwg o broses Datgan Diddordeb a phroses ymgeisio'r SMS y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu proses ymgeisio ar gyfer unrhyw gynllun cyllido yn y dyfodol, gan gynnwys:

- yr angen am broses Datgan Diddordeb fyrrach (dim mwy na 15 tudalen o hyd)
- cyfnod datblygu o rhwng chwech a 12 mis cyn cyfnod cyflawni tair blynedd llawn
- proses asesu sy'n asesu'r cais cyfan yn hytrach nag adrannau unigol
- mwy o gyfranogiad gan CNC yn y broses asesu, er mwyn sicrhau cysondeb â blaenoriaethau rhanbarthol
- amlinellu'r dyddiadau ar gyfer cyfnodau cyllido o'r cychwyn cyntaf a chadw atynt
- proses gyflym o ymdrin â cheisiadau llwyddiannus a dyfarnu cyllid

**Argymhelliad 4:** Dylai'r rôl cymorth gan hwylusydd gael ei darparu o ddechrau cynllun cyllido yn y dyfodol a dylid ymestyn ei gylch gwaith i helpu prosiectau i bontio'r bwlch a symud o'r cam ymgeisio i'r cam cyflawni. Gallai hwyluswyr ymgymryd yn rhannol â rôl rheoli prosiectau o fewn prosiectau cydweithredol nad ydynt yn cael eu harwain gan awdurdod cyhoeddus neu gyrff anllywodraethol nes bod tîm rheoli'r prosiect wedi'i benodi.

**Argymhelliad 5:** Mae angen i Lywodraeth Cymru hwyluso ac annog rhwydweithio rhanbarthol rhwng cymheiriaid ymysg prosiectau'r SMS er mwyn

rhannu profiadau a'r hyn a ddysgwyd. Dylai'r sesiynau hyn fod yn sesiynau rheolaidd (bob chwarter o leiaf ym mhob rhanbarth), a gynhelir ar y safle lle bo hynny'n bosibl, a dylent gynnwys mewnbwn gan Lywodraeth Cymru a CNC.

**Argymhelliad 6:** Dylid ymchwilio'n llawn hefyd i gyfleoedd i ymgysylltu'n fwy rhwng yr SMS a CNC. Byddai seminar polisi i staff CNC i ledaenu'r gwersi cynnar o'r SMS yn galluogi gwell dealltwriaeth o'r cynllun. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried ffyrdd o annog CNC i ymgysylltu'n fwy cyson â phob prosiect SMS ledled Cymru.

**Argymhelliad 7:** Dylid cynyddu capasiti Llywodraeth Cymru fel bod digon o amser ac adnoddau staff ar gael i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer ystod mor eang o brosiectau cymhleth ac amrywiol a ariennir gan yr SMS ar gyfer y cyfnod sy'n weddill.

**Argymhelliad 8:** Mae angen adolygu ac addasu'r weithdrefn hawliadau gyfredol ar unwaith fel y gall fod yn fwy ymatebol i anghenion yr SMS. Dylid trefnu hyfforddiant i sicrhau bod holl staff Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â hawliadau yn deall natur cynlluniau grant ar raddfa'r dirwedd a goblygiadau oedi wrth gyflawni. Dylid ystyried sefydlu tîm pwrpasol o fewn RPW, er mwyn caniatáu prosesau asesu a chymeradwyo symlach, a dyrannu unigolyn penodol ar gyfer pob prosiect SMS i ymateb yn brydlon i ymholiadau.

## Adroddiad Diweddaru 2021 y Gwerthusiad

Roedd yr adroddiad diweddaru nas cyhoeddwyd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2021 yn nodi rhai casgliadau ac argymhellion pellach yn unol â’r amcanion allweddol a bennwyd ar gyfer y gwerthusiad.

Canfu'r ail adroddiad diweddaru o ran cyfatebiaeth prosiectau ag egwyddorion SMNR:

- bod tystiolaeth dda i awgrymu bod prosiectau wedi deall egwyddorion SMNR ac wedi ystyried y rhain wrth ddylunio a gweithredu eu hymyriadau. Gwnaed ymdrechion i gyflawni prosiectau ar raddfa'r dirwedd a gwelwyd nifer o enghreifftiau cryf o brosiectau sy'n cyflawni hyn. Roedd tystiolaeth o bartneriaethau newydd yn cael eu ffurfio o fewn prosiectau a ariannwyd gan yr SMS a rhai presennol yn cael y cyfle i feithrin cysylltiadau cryfach

- roedd y prosesau adrodd ar gyllid a hawliadau a'r oedi wrth ailbroffilio cyllid yn llesteirio hyblygrwydd a gallu ac awydd prosiectau i addasu a newid eu dull gweithredu o ran y ffordd y cynlluniwyd yr SMS yn wreiddiol i’w galluogi i wneud hynny

- mae'r allbynnau a adroddwyd gan brosiectau a ariannwyd hyd yn hyn yn awgrymu bod yr SMS wedi llwyddo i gymryd camau i atal difrod i ecosystemau, megis drwy adfer mawn a datblygu mentrau atal llifogydd. Roedd llawer o’r prosiectau cydweithredol sydd bellach wedi’u cwblhau ac sydd wedi cyflwyno eu hadroddiadau gwerthuso terfynol yn dangos tystiolaeth o ecosystemau mwy gwydn o ganlyniad i ymyriadau prosiect

O ran y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i weithredu:

- roedd materion yn ymwneud â gweithredu’r SMS wedi parhau i dra-arglwyddiaethu ar y trafodaethau gyda phrosiectau a mynegwyd barn gref am yr anawsterau a brofwyd gan brosiectau gyda phrosesau rheoli a hawliadau grant safonol y Rhaglen Datblygu Gwledig

- roedd y prosiectau'n parhau i deimlo’n rhwystredig ynghylch y newidiadau i'r gofynion a’r oedi wrth ymateb i geisiadau, gyda llawer o'r rhai a oedd yn cael eu harwain gan bartneriaid llai neu lai profiadol yn teimlo eu bod wedi’u gorlethu, dan straen, ac wedi digalonni

- nid oedd yr SMS a ddisgrifiwyd i brosiectau wedi cael ei gyflawni fel yr addawyd mewn ffordd a oedd yn caniatáu i brosiectau weithredu yn unol ag egwyddorion SMNR. Mae’r dystiolaeth o’n dau adroddiad diweddaru bellach yn dangos yn glir nad oedd prosesau gweinyddu grantiau RPW yn addas at y diben ar gyfer prosiectau cydweithredol wedi'u harwain gan bartneriaeth a chanddynt amcanion hirdymor.

- gwers amlwg ar gyfer unrhyw gronfa yn y dyfodol oedd y dylai un tîm fod yn gyfrifol am ddylunio, cymhwyso a rheoli'r broses o gyflwyno grantiau

O ran natur a graddau'r cydweithio a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma:

- roedd partneriaethau sefydledig yn ei chael hi'n haws cydweithio a chydweithredu. Roedd y prosiectau hynny a chanddynt eisoes bartneriaethau cryf wedi bod yn fwy llwyddiannus o ran cyflawni pethau ac yn fwy tebygol o barhau i gydweithio yn y dyfodol. Roedd hyn yn awgrymu bod angen mwy o amser nag un tymor o gyllid i sefydlu gwir bartneriaeth o fewn cymuned
- roedd yr anawsterau o ran sefydlu gwaith partneriaeth gwirioneddol wedi'u rhwystro ymhellach gan oedi wrth gymeradwyo prosiectau. At hynny, roedd effeithiau'r pandemig COVID-19 ar gyflawni wedi arwain at golli momentwm mewn rhai prosiectau, gyda phartneriaethau’n gweithredu gyda thîm cyflawni prosiect mwy traddodiadol a oedd yn adrodd i grŵp llywio drwy ddiweddariadau rheolaidd.
- roedd rhannu arfer da a gwersi rhwng prosiectau tebyg wedi bod yn ad-hoc hyd yn hyn, ond yn wedi'i groesawu. Nid oedd cyfyngiadau COVID-19 wedi’i gwneud hi’n hawdd i brosiectau gwrdd a rhannu'r hyn a ddysgwyd, ond roedd awydd a rhinwedd cryf i wneud hynny
- roedd adborth yn ystod y cam hwn o waith maes gyda phrosiectau’n awgrymu eu bod yn llwyr ddisgwyl i’w trefniadau cydweithredol barhau ar ôl i gyllid yr SMS ddod i ben, ond roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â disgwyliad y byddai cyfleoedd cyllido pellach ar gael
- awgrymodd y dyddiadau dechrau a gorffen ar gyfer prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 4 a 5 y byddent yn cael eu cyfyngu gan yr angen i gyflawni o fewn amserlenni llawer byrrach na'r rhai a ariennir yng Nghyfnodau 1-3. Roedd yr amserlenni byrrach hefyd yn debygol o gyfyngu ar ddatblygu partneriaethau ystyrlon a chynaliadwy
- er bod tystiolaeth a oedd yn dod i'r amlwg o brosiectau a ariannwyd yn y cyfnodau cyllido cynharach yn awgrymu awydd gwirioneddol ymhlith partneriaid y prosiect i barhau i gydweithio yn y dyfodol, roedd ansicrwydd o hyd ynghylch sut y gallai prosiectau barhau i gydweithio mewn hinsawdd o gyfyngiadau ariannol cynyddol. Amlygodd Cyrff Anllywodraethol, elusennau mwy, a sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus bwysau ar ffrydiau incwm a galluoedd staffio ac roeddent bellach yn llai tebygol o fod mewn sefyllfa i gefnogi gofynion parhaus prosiectau

O ran canlyniadau'r cynllun a chyfraniad at flaenoriaethau trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig:

- mae angen datrys materion yn ymwneud â chywirdeb ac adrodd ar ddangosyddion lefel achos fel y gellir cyflwyno gwybodaeth gywir am yr allbynnau cyfunol mewn perthynas â chamau a gymerwyd i wella adnoddau naturiol a thirweddau sy’n cael eu cyflawni drwy gyllid yr SMS
- roedd y diffyg tystiolaeth ar y canlyniadau a gyflawnwyd gan yr SMS yn parhau i fod yn bryder mawr. Nid oedd yr ail adroddiad diweddaru wedi gallu adrodd ar gyflawniadau ar lefel cynllun o ganlyniad. O ran y dyfodol, dylai RPW rannu gwybodaeth er mwyn galluogi tîm polisi SMS a gwerthuswyr y cynllun i ddadansoddi effaith y cynllun. Ar hyn o bryd, nid yw ffigurau ynghylch proffil gwariant y cynllun ar gael (a oedd yn golygu na ellid gwirio sylwadau anecdotaidd a wnaed yn ystod y gwaith maes a oedd yn awgrymu bod problemau'n ymwneud â thanwariant)
- roedd tystiolaeth bod amrywiaeth o bartneriaid yn cydweithio, ac mewn cyfnodau cyllido diweddarach, cynnydd mewn prosiectau a arweinir gan ffermwyr neu brosiectau a arweinir gan y trydydd sector a ariennir gan y cynllun. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o adroddiadau diwedd prosiect yn dangos sut roedd prosiectau a ariannwyd gan yr SMS wedi cyfrannu at weithgareddau cymdeithasol, lles neu economaidd, ond byddai’n heriol dangos effaith y rhain yn y tymor hwy o fewn yr amserlen adrodd
- ychydig iawn o adroddiadau gwerthuso terfynol ar lefel prosiect a oedd ar gael i'w hystyried yn ystod y cam adrodd hwn. Lle roeddent yn bodoli, cofnodir cyfoeth o dystiolaeth mewn perthynas ag allbynnau, ac roedd rhai canfyddiadau allweddol ynghylch canlyniadau tymor byr i ganolig yn cael eu hadrodd. Fodd bynnag, roedd ansawdd yr adroddiadau arfarnu terfynol hyn yn amrywio. Bydd yn hollbwysig bod adroddiadau gwerthuso o ansawdd da ar lefel prosiect yn cael eu llunio sy'n cofnodi'r dystiolaeth ar lefel prosiect. Pe bai hyn yn cael ei ailadrodd ar draws pob un o’r hanner cant o brosiectau SMS a ariennir, yna byddai’n bosibl dangos ei effaith yn llawer mwy effeithiol ar lefel cynllun
- Roedd prosiectau SMS wedi wynebu nifer o heriau sylweddol, oedi a chyfyngiadau a oedd y tu allan i reolaeth prosiectau a fyddai wedi cael effaith sylweddol Byddai’n annheg mesur llwyddiant yr SMS heb roi pwyslais priodol ar y cyd-destun heriol y bu’n rhaid i'r cynllun weithredu ynddo.
- roedd tystiolaeth gynnar o brosiectau unigol yn awgrymu bod disgwyl i'w gweithgareddau gyfrannu at themâu trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig. Fodd bynnag, ar y cam hwn o'r gwerthusiad, ychydig iawn o dystiolaeth a oedd ar gael i lunio canfyddiadau pendant ar hyn

Roedd adroddiad diweddaru 2021 y gwerthusiad yn cynnwys chwe argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu hystyried:

**Ffigur Atodiad B.2: Argymhellion o adroddiad diweddaru SMS 2021**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu rhestr wirio glir ar gyfer diwedd prosiectau a ariennir er mwyn sicrhau y gellir darparu'r data, y wybodaeth a'r dystiolaeth mewn gwerthusiadau diwedd prosiect o ansawdd uchel sy'n darparu dadansoddiad cadarn o ganlyniadau ac effeithiau ar lefel prosiect. |
| **Argymhelliad 2:** Mae angen i ddata gwiriadwy sy'n ymwneud ag allbynnau prosiectau SMS, a data sy'n ymwneud â chyflawni a rheolaeth ariannol y cynllun gael eu rhannu'n rheolaidd ac yn amserol gan RPW gyda thîm polisi Llywodraeth Cymru, ac wedi hynny, gyda thîm gwerthuso'r cynllun. |
| **Argymhelliad 3:** Dylai RPW addasu ei ddull o ailbroffilio hawliadau er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach o ran gwariant ar brosiectau. Dylai hyn gynnwys proses lle y gall arweinwyr prosiectau drafod materion yn bersonol fel y gellir datrys unrhyw faterion sy'n codi'n gyflym. |
| **Argymhelliad 4:** Mae pryderon cynnar wedi'u codi y bydd rhai o'r manteision amgylcheddol sy'n deillio o brosiectau SMS yn cael eu colli heb waith cynnal a chadw blynyddol. O'r herwydd, dylid ystyried darparu cronfa cynnal a chadw fel etifeddiaeth barhaus y cynllun grant. |
| **Argymhelliad 5:** Mae'r oedi a brofwyd gan yr SMS a'r diffyg eglurder o ran yr adroddiadau gofynnol ar allbynnau a chanlyniadau yn golygu mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i'w hystyried hyd yma. Byddai'n fuddiol ailedrych ar y fethodoleg a'r amseriad ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol ar lefel cynllun, er mwyn gwella'r cyfle i ddadansoddi'n gadarn yr holl ffynonellau tystiolaeth posibl a fydd ar gael tuag at ddiwedd y cynllun cyllido. |
| **Argymhelliad 6:** O ran gwersi penodol i'w dysgu ar gyfer dulliau cyllido yn y dyfodol, nid yw model cyflawni presennol yr SMS yn gweithio.<br><br>Er bod egwyddorion dylunio'r SMS wedi cadw at egwyddorion SMNR, mae angen i unrhyw gronfa yn y dyfodol hefyd gael ei strwythuro mewn modd sy'n adlewyrchu amcanion y cynllun ac sy'n cyd-fynd ag egwyddorion SMNR. Dylai: |

- gael ei reoli gan un tîm gyda'r un cyfrifoldeb rheoli am ddylunio, cyflawni a monitro'r cynllun
- bod yn hyblyg ac yn ymatebol i newidiadau yn ystod oes y prosiect, a bod yn gymesur â’r disgwyliad cyllido
- cael ei lywio gan fframwaith wedi'i arwain gan ganlyniadau sydd wedi’i nodi’n glir o’r cychwyn cyntaf
- sefydlu prosesau gweinyddu grantiau sy'n adlewyrchu amcanion cyllido ac anghenion penodol prosiectau cydweithredol a arweinir gan bartneriaeth
- darparu cymorth hwyluso parhaus i bartneriaethau a ddatblygir yn y gymuned sy'n cael eu harwain gan ffermwyr
- darparu sefydlogrwydd cyllido hirdymor dros o leiaf bedair blynedd lawn.

# Atodiad C: Manylion prosiectau SMS a ariannwyd

| Enw'r Prosiect | Ymgeisydd | Swm Cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig a Gymeradwywyd (£) | Dyddiad Cymeradwyo'r Prosiect | Dyddiad Gorffen (Cwblhau'r Materion Ariannol) |
|---|---|---|---|---|
| SMS Golygfa Gwydyr | Golygfa Gwydyr Cyf | 232,478.00 | 13/07/2017 | 31/07/2020 |
| Talu am Wasanaethau Ecosystemau Pumlumon | Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn | 269,319.00 | 21/07/2017 | 31/08/2020 |
| Rheoli Adnoddau'n Gynaliadwy ar y Mynydd Du | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 1,004,155.00 | 24/07/2017 | 30/06/2020 |
| Gallu Dalgylchoedd i Wrthsefyll Newidiadau (BRICs) | PLANED | 609,549.00 | 26/07/2017 | 30/09/2020 |
| Partneriaeth Rhostiroedd Powys | Ireland Moor Conservation Limited | 600,000.00 | 02/08/2017 | 31/03/2020 |
| Mawndiroedd Cymru | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 924,956.00 | 24/08/2017 | 31/12/2020 |
| Rheoli perygl llifogydd naturiol ger Afon Clwyd | Cadwyn Clwyd | 330,000.00 | 12/09/2017 | 31/07/2020 |
| SMS Eden | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 815,444.00 | 29/11/2017 | 31/08/2020 |
| Prosiect Rheoli Dalgylch Naturiol Barrog | Coed Cymru Cyf | 299,728.00 | 19/12/2017 | 30/06/2022 |
| Coetiroedd Integredig Cymru - Atebion yn Seiliedig ar Natur | Coed Cymru Cyf | 413,194.00 | 12/02/2018 | 31/05/2022 |
| Partneriaeth Tirwedd Caerffili Landscape Partnership | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 295,987.00 | 03/04/2018 | 30/09/2020 |
| Cynllun Gwella Gwasanaethau Ecosystemau Fferm Ifan | Fferm Ifan | 696,352.00 | 09/04/2018 | 31/12/2021 |
| Pennal 2050 | Partneriaeth Pennal Ltd. | 698,346.00 | 19/06/2018 | 31/05/2022 |
| Prosiect Tir a Môr Llŷn | Cyngor Gwynedd | 700,000.00 | 20/06/2018 | 31/03/2021 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lles yr Afon - Atebion Seiliedig ar Natur yn Nalgylch Afon Dyfrdwy | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru | 700,000.00 | 09/07/2018 | 31/03/2021 |
| Prosiect Tirweddau Byw Mynydd Helygain | Cyngor Sir y Fflint | 285,000.00 | 11/07/2018 | 31/05/2022 |
| Ucheldiroedd cadarn de-ddwyrain Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 399,000.00 | 16/07/2018 | 31/07/2021 |
| Trwy'r Twyni Tywod | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 312,541.00 | 06/08/2018 | 30/06/2020 |
| Prosiect Tirweddau Byw Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru | 388,438.00 | 08/08/2018 | 31/03/2021 |
| Prosiect Comin a Chysylltiadau Cymunedol Uwch Gwyrfai | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 418,010.00 | 07/09/2018 | 31/03/2021 |
| Cyfleoedd Unigryw - Atebion Tirwedd ar gyfer Gogledd-ddwyrain Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych | 561,391.00 | 16/11/2018 | 31/12/2021 |
| Cynnal Gwastadeddau Gwent | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar | 554,221.00 | 14/01/2019 | 31/08/2021 |
| Cryfhau Coetiroedd Eiconig Cymru | Coed Cymru Cyf | 563,400.00 | 02/02/2019 | 30/06/2022 |
| Coetir Anian Cambrian Wildwood | Sefydliad Tir Gwyllt Cymru CIO | 566,024.00 | 02/05/2019 | 28/02/2022 |
| Tirwedd Dyffryn Elwy | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt | 257,660.00 | 13/06/2019 | 31/12/2022 |
| Dyffryn Tywi | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 698,000.00 | 22/07/2019 | 31/07/2021 |
| Dolydd Dolau Dyfi | Pori Natur a Threftadaeth | 467,115.00 | 24/07/2019 | 30/06/2022 |
| Adfer Dalgylch Taf Bargoed | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil | 417,000.00 | 12/08/2019 | 31/10/2022 |
| Ecosystemau Afonydd Gwy, Ieithon a Hafren (WISE) | Sefydliad Gwy ac Wysg | 530,215.00 | 02/09/2019 | 30/06/2021 |
| Creu Cysylltiadau Gwell-Bioamrywiaeth yn ein Cymunedau | Cwm Arian Renewable Energy Ltd | 215,891.00 | 10/10/2019 | 31/03/2023 |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Tri Phlwyf ar gyfer y Da Cyffredin | CBC Y Tri Phlwyf ar gyfer y Da Cyffredin | £695,300.00 | 25/08/2020 | 31/03/2023 |
| Prosiect Lleol LAND Talyllychau a Chwm-du | Cymdeithas Mwynder Cymunedol Talyllychau | £520,000.00 | 26/09/2020 | 31/05/2023 |
| Coetir a Dŵr | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru | £520,000.00 | 27/10/2020 | 31/03/2022 |
| Prosiect Dyffryn Camlad | Cwmni Buddiannau Cymunedol SMS Dyffryn Camlad | 585,000.00 | 05/11/2020 | 31/05/2023 |
| Cydweithredu ar y Comin-Common Collaboration | Gelligaer and Merthyr Commoners Ltd | 255,987.00 | 10/12/2020 | 31/12/2022 |
| Adfer Rhostir Pori | Ymddiriedolaeth Natur Maesyfed Ltd | 349,200.00 | 19/01/2021 | 31/03/2023 |
| Prosiect Sgiliau Gwyllt, Lleoedd Gwyllt | Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn | 609,157.00 | 28/01/2021 | 30/06/2023 |
| Prosiect Rheoli Tir a Gwydnwch Hinsawdd Nant Alan | Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren | 268,020.00 | 23/02/2021 | 30/06/2023 |
| Prosiect Rheolaeth Tir a Dŵr Cynaliadwy Dyffryn Cain | Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren | 364,715.00 | 23/02/2021 | 30/06/2023 |
| Prosiect Coedlan Glynllifon | Cyngor Gwynedd | 284,336.00 | 25/02/2021 | 30/04/2023 |
| Prosiect Lles Golygfa Gwydyr | Golygfa Gwydyr Cyf | 70,000.00 | 26/02/2021 | 31/03/2022 |
| Pobl a Natur - Gweithio Gyda'n Gilydd | Grŵp Cydweithredol Maesmawr | 499,200.00 | 05/03/2021 | 30/06/2023 |
| Dawnsio ar y Dibyn | Cyngor Gwynedd | 399,590.00 | 26/03/2021 | 30/06/2023 |
| Partneriaeth Rhostir Gogledd Cymru | Partneriaeth Rhostir Gogledd Cymru CBC | 699,691.00 | 08/04/2021 | 30/06/2023 |
| Gwella a Chof (De-orllewin Ynys Môn) | Rheolaeth Amgylcheddol Bodorgan Cyfyngedig | 595,000.00 | 23/04/2021 | 30/06/2023 |
| Atebion Naturiol yn Ardal Elenydd Ceredigion | Grŵp Elenydd Cyf | 252,430.00 | 17/05/2021 | 31/03/2023 |
| Cynefinoedd Dŵr Croyw Gwydn Dalgylch Irfon | Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw | 684,437.00 | 24/05/2021 | 30/06/2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SMS Cors Caron | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt | 490,000.00 | 03/06/2021 | 30/06/2023 |
| Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN 2) | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru | 499,999.00 | 26/11/2021 | 31/03/2023 |

# Atodiad D: Model Rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid

| *Mewnbwn* | *Nodau* | *Gweithgareddau* | *Allbynnau* | *Canlyniadau tymor byr-canolig* | *Canlyniadau tymor hir* |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a LIC (£ 30m)<br><br>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<br><br>Cyllid ar gyfer hyd at 60 o brosiectau dros gyfnod o 3 blynedd<br><br>Tîm gweithredu SMS LIC<br><br>Tîm Taliadau Gwledig LIC | Hybu lefelau bioamrywiaeth Cymru<br><br>Profi mecanwaith cyllido cydweithredol a thirwedd arloesol, i lywio cynlluniau cyllido'r dyfodol<br><br>Cyflawni cynllun cyllido grant cyfannol a hyblyg, sy'n diwallu anghenion lleol<br><br>Ariannu prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd i wella adnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau buddion i fusnesau fferm a gwledig a chymunedau gwledig | Datblygu canllawiau cynllun a cheisiadau grant<br><br>Gwasanaeth cymorth annibynnol i ymgeiswyr<br><br>Pum rownd cyllido grant cystadleuol cyfnodol, i gynnwys Datganiad o Ddiddordeb a cham ymgeisio llawn<br><br>Asesu a chymeradwyo Datganiad o Ddiddordeb sydd â'r sgôr uchaf<br><br>Grŵp ymarferwyr SMS<br><br>Monitro ac adrodd yn rheolaidd | Nifer y Datganiadau o Ddiddordeb a gyflwynwyd ar draws pum rownd ariannu<br><br>Nifer yr ymgeiswyr Datganiad o Ddiddordeb a ddewiswyd i symud ymlaen i'r cais llawn<br><br>Nifer y prosiectau a ariannwyd<br><br>Amrywiaeth sectoraidd a daearyddol o brosiectau a ariennir<br><br>Gwerth cyllido grant wedi'i ymrwymo<br><br>Prosiectau a ariennir yn cyflawni yn erbyn eu DPA | Prosiectau a ariennir yn cael eu harwain gan ystod eang o sefydliadau a grwpiau arweiniol<br><br>Prosiectau wedi'u hariannu sy'n mabwysiadu egwyddorion SMNR<br><br>Partneriaethau prosiect yn cryfhau ac yn ehangu dros y cyfnod cyflawni<br><br>Prosiectau a ariennir sy'n adrodd ar lefelau bioamrywiaeth gwell<br><br>Prosiectau a ariennir yn adrodd ar fuddion cymdeithasol ac economaidd<br><br>Arfer SMS effeithiol wedi'i nodi a'i ddangos trwy werthuso cadarn | Gwelliannau ar lefel bioamrywiaeth yn cael eu cynnal ar ôl cyllid<br><br>Cydweithrediad partneriaeth prosiect yn cael ei gynnal ar ôl y cyfnod cyllido<br><br>Partneriaethau prosiect sy'n sicrhau ffynonellau cyllid eraill ar ôl SMS a / neu'n dod yn hunangynhaliol<br><br>Arfer SMS effeithiol yn llywio dulliau cyllido yn y dyfodol |

***Allanolion***

- *Brexit yn creu ansicrwydd ar gyfer prosiectau a ariennir ac yn arwain at lai o adnoddau staff LIC*
- *Covid-19 yn codi materion mewn perthynas â chronfeydd cynllun heb eu hymrwymo ac effaith bosibl ar waith sylfaen prosiect, gan arwain at oedi*

# Atodiad E: Gwybodaeth Gefndir – Prosiectau SMS

## CYFNOD 1

Rheoli adnoddau'n gynaliadwy ar y Mynydd Du

Prosiect cydweithredol Partneriaeth Defnydd Tir y Mynydd Du sy'n cynnwys tirfeddianwyr lleol, porwyr a chyrff rheoleiddio. Ei nod yw sicrhau newidiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy gyflwyno dulliau rheoli tir cydweithredol a chynaliadwy ar y Mynydd Du. Mae'r prosiect yn cynnwys rheoli rhedyn, adfywio grug a diogelu adnoddau mawn. Mae cynlluniau i wella mynediad i dda byw yn helpu i reoli stoc a gwella profiad y rhai sy'n ymweld â'r ardal. Rheoli'r mawndir a'r rhedyn, ochr yn ochr â gwella profiad ymwelwyr, fydd y prif ffocws a chaiff y cymunedau lleol eu cynnwys yn y gwaith drwy ddatblygu rhaglen sgiliau cefn gwlad, ymgysylltu ag ysgolion a chreu cyfleoedd gwaith.

Prosiect cydweithredol i gyflwyno dulliau cynaliadwy a naturiol o reoli perygl llifogydd ger afon Clwyd

Prosiect ar raddfa'r dirwedd gyfan i leihau'r dŵr sy'n llifo i afon Clwyd pan fydd y llif ar ei anterth, a hybu bioamrywiaeth drwy gyflwyno dulliau naturiol o reoli'r tir, a deall sut y gall hyn arwain at fuddion ehangach os cânt eu defnyddio drwy'r dalgylch cyfan. Y nod yn y tymor hwy yw manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i ffermwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd gydweithio i greu cynefinoedd, lleihau llifogydd a gwella ansawdd dŵr er budd yr ardal leol. Y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn helpu i ddatrys y problemau llifogydd sy'n effeithio ar bobl a busnesau'r ardal.

Gwireddu cyfalaf naturiol mawndiroedd Cymru

Nod y prosiect hwn yw trawsnewid a gwella mawndiroedd ar hyd a lled Cymru ar y cyd â rhanddeiliad a chymunedau. Bydd y prosiect yn ceisio creu sefydlogrwydd ecolegol a dulliau cynaliadwy o reoli mawndiroedd. Y gobaith yw y bydd y prosiect yn cael ei roi ar waith ar raddfa'r dirwedd gyfan (e.e. dalgylch) neu sector cyfan (ee safleoedd gwarchodedig), ac y bydd yn gyfle i bartneriaid ddatblygu arbenigedd a meithrin gallu ym maes adfer mawndiroedd. Bydd y prosiect hwn yn helpu i gyrraedd y targed a bennwyd ar gyfer 2020 i sicrhau bod mawndiroedd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Drwy weithio ar y cyd, bydd modd sicrhau buddion amgylcheddol amrywiol drwy barhau i gydweithredu â'r systemau presennol a drwy waith cyfalaf i fynd i'r afael â'r agweddau hynny ar adfer mawndiroedd sy'n 'anodd ei wneud.' Bydd hyn yn arwain at ddulliau rheoli cynaliadwy mwy hirdymor a gaiff eu hariannu drwy daliadau am wasanaethau ecosystemau (PES). Bydd gweithgareddau eraill yn arwain at ddulliau mwy gydgysylltiedig â chydlynol o weithio gan gynnwys ym maes cyllid allanol, hyfforddiant, addysg, caffael PES, monitro a gwaith ymchwil yn ymwneud â mawndiroedd Cymru.

Datblygu gallu dalgylchoedd i wrthsefyll newidiadau (BRICs)

Prosiect, gan arweiniad PLANED, i weithredu ar y cyd ar raddfa'r dirwedd gyfan gan ddwyn partneriaid o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi ynghyd mewn tri dalgylch i ddatblygu cynlluniau i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, i gymryd camau i wella pridd, rheoli dŵr, a gwella cynefinoedd. Bydd y partneriaid hyn yn cynnwys rheolwyr tir, diwydiant a chymunedau. Y gobaith yw y bydd gwaith yn mynd rhagddo mewn tri is-dalgylch amrywiol, yn cynnwys tua 50 o ffermydd, i roi'r prosiect ar waith; mae'r buddion ehangach yn cynnwys diogelu dŵr yfed.

Talu am wasanaethau ecosystemau: Pumlumon

Prosiect cydweithredol sy'n dwyn cymunedau lleol, rheolwyr tir, asiantaethau statudol a busnesau ynghyd i ailgysylltu'n gymdeithasol ac yn economaidd â'r amgylchedd naturiol yn eu hardal. Drwy gynnwys proses o ddysgu ar y cyd drwy gyfrwng prosiectau a chyrff PES eraill yng Nghymru a'r tu hwnt, y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn sicrhau gwerth ychwanegol sylweddol. Nid yw nifer o gynlluniau a phrosiectau arloesol wedi llwyddo eto i sicrhau cytundebau PES pendant; drwy rannu gwybodaeth a'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect hwn ag arloeswyr PES eraill, gall y prosiect hwn wneud cyfraniad gwirioneddol i ddatblygu PES yn ehangach. Gan adeiladu ar waith blaenorol, bydd y prosiect yn archwilio ac yn ymchwilio i ddulliau newydd o sefydlu cytundebau Talu am Wasanaethau Ecosystemau (PES) fel system hunangynhaliol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Cynllun gwella gwasanaethau ecosystemau Fferm Ifan

Prosiect cydweithredol dan arweiniad ffermwyr i gymryd camau ar raddfa'r dirwedd gyfan i gryfhau'r ecosystem a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, a hynny drwy ddulliau rheoli tir. Mae 11 o ffermwyr yn rhan o brosiect Fferm Ifan, a'r nod yw gwella a rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy ac effeithlon. Mae tua 2,456 Ha wedi'u cynnwys yn y prosiect, a chaiff dulliau rheoli tir penodol eu cyflwyno a fydd hefyd yn sicrhau buddion economaidd-gymdeithasol i'r 11 o ffermydd a'r gymuned wledig ehangach y mae Fferm Ifan yn rhan ohoni.

Rheoli dalgylch naturiol Barrog

Prosiect dan arweiniad Coed Cymru Cyf sy'n dwyn partneriaid o'r gymuned ffermio lleol ynghyd i newid arferion rheoli tir yn nalgylch Nant Barrog ac Elwy er mwyn medru storio mwy o ddŵr ar y llethrau a lleihau perygl llifogydd islaw ym mhentref Llanfair Talhaearn. Y bwriad yw rheoli perygl llifogydd drwy ymyrryd mewn ffyrdd naturiol â'r tir, fel plannu gwrychoedd a gylïau, defnyddio dulliau gwell o reoli coetiroedd ar lan afon, creu argaeau malurion pren a newid dulliau o reoli tir er mwyn lleihau dŵr ffo a lleihau'r dŵr sy'n cyrraedd amddiffynfeydd rhag llifogydd i lawr yr afon pan fydd y llif ar ei anterth.

Coetiroedd Integredig Cymru: Nature Based Solutions

Prosiect ar raddfa'r dirwedd gyfan i helpu rhanbarthau penodol ar hyd a lled Cymru i gynnal a chreu coetiroedd ac i adfer, cynnal a chreu gwrychoedd. Mae'r prosiect yn cynnig amrywiaeth eang o fuddion ac yn cynnwys dros hanner coetiroedd Cymru. Mae'n ceisio sefydlu dulliau o sicrhau: (a) bod coetiroedd Cymru yn cael eu cynnal a'u gwella a (b) bod coetiroedd a choed yn cyflawni eu potensial llawn ar dirwedd Cymru, ac yn parhau i gynnig buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Golygfa Gwydyr: Pobl a Choedwigoedd

Prosiect cymunedol sy'n gobeithio adeiladu ar y broses o ddatblygu sgiliau a meithrin gallu a ddechreuwyd ac a gwblhawyd gyda chymorth y Gronfa Natur. Rhan ganolog o'r prosiect fydd rheoli a defnyddio adnoddau'r tir i: wella bioamrywiaeth a chyfleusterau hamdden; datblygu systemau rheoli cymunedol cynaliadwy; a hyrwyddo cymunedau sy'n fwy cynaliadwy ac iach ac sydd ag ymdeimlad gwell o le. Mae'r prosiect hwn yn adfer ac yn rheoli arboretwm 3 hectar ac yn rheoli plot planhigfa conwydd ungnwd 11 hectar (Caerdroia) yn gynaliadwy gan sicrhau manteision lluosog i'r amgylchedd a'r gymuned leol.

Partneriaeth Rhostiroedd Powys

Prosiect ar raddfa'r dirwedd gyfan i annog y rhai sy'n byw ac yn gweithio ar y rhostiroedd i weithio ar y cyd i'w hadfer. Y nod yw sicrhau buddion amrywiol gan gynnwys gwella iechyd cyhoeddus, a rhannu sgiliau ac addysg. Bydd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys tirfeddianwyr, ffermwyr a chymunedau, yn creu amgylchedd llawn bywyd ar y rhostiroedd er mwyn hybu bioamrywiaeth a sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol i'r ardal. Y gobaith yw creu menter strategol gyffrous ym Mhowys a gwneud y mwyaf o bron 20,000 erw o rostir, sy'n ymestyn o Ddyffryn Ewias yn ardal ddeheuol y sir i dir comin Bugeildy yn y gogledd, er mwyn i bobl leol, yn ogystal ag ymwelwyr eu mwynhau, ac er mwyn creu cyfleoedd busnes a chreu swyddi yng nghefn gwlad a rhoi hwb i'r economi wledig.

Cynllun Dalgylch Afon Eden

Prosiect dan arweiniad ffermwyr sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd ecolegol Afon Eden a'i llednentydd ar raddfa'r dalgylch gyfan drwy blannu a rheoli coed collddail brodorol. Bydd y buddion eraill yn cynnwys gwella cynefinoedd naturiol ac atal erydiad. Bwriedir i grŵp o hyd at 22 o fusnesau fferm yn yr ardal cadwraeth arbennig hon i gydweithredu i roi'r prosiect ar waith. Thema gyffredinol y prosiect yw gwella dalgylch yr afon, yn enwedig o ran diogelu'r misglod perlau dŵr croyw. Caiff hyn ei wneud drwy weithio gyda ffermwyr ac ymgysylltu â'r gymuned leol i gymryd camau amrywiol a fydd yn cryfhau ecoleg y dalgylch ac yn datblygu dulliau cynaliadwy o reoli tir.

## CYFNOD 2

Pennal 2050 & Mynd i'r afael â materion amgylcheddol a chymdeithasol drwy atebion yn seiliedig ar natur yn nalgylch Dyfi

Cynllun strategol hirdymor uchelgeisiol, a'i nod yw datblygu cymuned wledig gref a chynaliadwy yn seiliedig ar bartneriaeth gymunedol gydweithredol ar raddfa'r dirwedd gyfan o dros 40 o bartneriaid. Mae tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol, cyrff amgylcheddol, undebau amaethyddol a busnesau lleol yn canolbwyntio ar ddatrys nifer o broblemau lleol gan gynnwys cynlluniau gwell i reoli a lliniaru llifogydd ar yr arfordir ac ucheldir y dalgylch; gwella ansawdd y dŵr/afon; hybu bioamrywiaeth a chynefinoedd; gwella mynediad; creu cyfleoedd gwaith, twristiaeth ac iechyd; cryfhau cadernid yr economi a'r gymdeithas.

Tir a Môr Llŷn – Land and Sea

Partneriaeth Tirwedd Llŷn sy'n arwain y prosiect cydweithredol hwn ac mae grwpiau statudol, amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn rhan ohono. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddatrys problemau sy'n effeithio ar adnoddau naturiol yn yr ardal. Nod y prosiect hwn yw cynnal ac ehangu stribyn di-dor o gynefinoedd amrywiol ar hyd ar arfordir, gweithio gyda ffermwyr i greu coridorau i'w cysylltu â llwybr arfordir Cymru, creu cyfleoedd hamdden a chyfleoedd hybu iechyd. Bydd y prosiect hefyd yn ystyried y syniad o 'dalu am ganlyniadau' gyda chymorth tair fferm sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y nod yw creu model ac annog y gymuned ehangach i dreialu a mabwysiadu'r dull newydd o weithredu.

Cysylltiadau Cymunedau Tir Comin Uwch Gwyrfai

Mae'r prosiect hwn yn gweithredu yn ardal Tir Comin Uwch Gwyrfai sy'n ymestyn o gyrion tref i gopa anghysbell Mynydd Mawr. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd, gyda rhostiroedd eang a glaswelltir asid, llyn, gwlypdiroedd corsiog a rhai mignenni yn ogystal â chwareli llechi segur a rhai safleoedd o ddiddordeb archeolegol. Nod y prosiect arloesol hwn yw trawsnewid Tir Comin Uwch Gwyrfai drwy ei ailgysylltu â chymunedau lleol. Bydd yn galluogi porwyr i gydweithio'n well i bori'r Tir Comin a hynny er mwyn hybu bioamrywiaeth ac er mwyn creu buddion i'r economi gwledig lleol. Bydd y gweithgareddau ymarferol yn canolbwyntio ar leihau peryglon tân yn yr ardal drwy gael gwared ar brysg a gwella trefniadau rheoli da byw i helpu i wella cynefinoedd, cyflwr y pridd ac ansawdd y dŵr. Nod y prosiect yw dwyn grwpiau cymunedol lleol, plant ysgol a chynghorau cymuned ynghyd i benderfynu ar hyn y maent am ei weld yn digwydd i wella mynediad a'r gallu i ddefnyddio'r tir comin at ddibenion hamdden.

Cysylltu Cymunedau â Natur: Mynydd Helygain

Mae Mynydd Helygain yn ardal ychydig o dan 800 hectar o dir comin agored i bawb, sydd wedi'i ddynodi yn Safle o Ddiddirdeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a 610 hectar fel Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae'r comin a'i hadnoddau naturiol yn allweddol i ffyniant y cymunedau hyn yn y dyfodol. Y partneriaid sy'n rhan o'r prosiect yw'r Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub, chwarel leol a thirfeddianwyr, a'r nod yw mynd I'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r Comin. Nod y prosiect yw creu tir comin o safon, wedi'i reoli'n dda ar gyfer cyfleoedd hamdden i'r cymunedau cyfagos, gan ddatblygu sgiliau i helpu i gyfoethogi eu bywydau, gan arwain at gymunedau cryfach a iachach.

Cynnal tirwedd Caerffili

Mae'r prosiect hwn yw canlbwyntio ar ddarn eang o dir i'r de o Gaerffili sy'n ffinio â Chaerdydd a Chasnewydd sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau a safleoedd dynodedig. Caiff y prosiect ei ddatblygu ar y cyd gan Bartneriaeth Tirwedd Caerffili a fydd yn efelychu model y byrddau gwasanaeth lleol, ac yn cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid. Un o'r prif flaenoriaethau fydd gwella amrywiaeth, mynediad a chyfleusterau hamdden awyr agored heb niweidio neu fygwth cynefinoedd a rhywogaethau yn yr ardal. Bydd hyn hefyd yn cynnig cymorth ariannol i gyflogi arbenigwr ymarfer corff y GIG i weithio gyda rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng nghyffiniau Caerffili a chreu cyfleoedd i annog pobl i gerdded mwy. Bydd pobl sydd â chyflyrau iechyd llai difrifol hefyd yn cael hannog i ddefnyddio'r safleoedd awyr agored er lles eu hiechyd.

Bioamrywiaeth a Busnes

Ffocws y prosiect hwn yw safle gwledig eang Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam (550ha) a'r cymunedau gwledig cyfagos. Bydd busnesau, tirfeddianwyr, ffermwyr a grwpiau cymunedol yn cydweithredu i gryfhau ecosystemau ar y dirwedd, gan sicrhau bod yr ardal yn atyniadol i fusnesau. Bydd pwyslais ar y seilwaith gwyrdd gan gynnwys plannu blodau gwyllt, adfer llwybrau troed cyhoeddus, plannu coed brodorol, annog pobl i ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy a dangos dulliau peirianyddol meddal a fydd yn helpu i gronni dŵr wyneb a gwella coridorau bywyd gwyllt yn ogystal â chreu lle brafiach i'r rhai sy'n gweithio yn yr ardal. Rhan o amcanion hirdymor y prosiect yw ymgysylltu â'r cymunedau lleol cyfagos a chynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr fod yn rhan o'r prosiect, gan greu naws am le.

Partneriaeth Rhosdir Gogledd Cymru

Mae’r prosiect cydweithredol hwn yn canolbwyntio ar y Berwyn a’r Migneint yng Ngogledd Cymru a’i nod yw gwella’r rhostiroedd drwy weithredu o’r gwaelod i fyny, dan arweiniad y rhai sy’n byw ac yn gweithio ar y rhostiroedd a’r ardaloedd cyfagos. Mae amrywiaeth o gynefinoedd ar y dirwedd ac mae nifer fawr o ymwelwyr a chymunedau’n eu mwynhau. Mae nifer o gyfleoedd i ddenu twristiaid ac i greu cyfleoedd busnes. Mae nifer o broblemau yn yr ardal hefyd, ee tipio anghyfreithlon a gyrru’n anghyfreithlon oddi ar y ffordd. Gyda’i gilydd, maent yn cymryd camau i wella’r dirwedd gan ddefnyddio tystiolaeth wyddonol, eu sgiliau a’u harbenigedd i fynd i’r afael â’r heriau ac i wella dulliau o reoli grug a threfniadau pori i adfer cyflwr y cynefin. Y nod yn y tymor hir yw denu’r rugiar, y gornchwiglen, y gylfinir a’r cornicyll aur yn ôl i’r cynefin.

Dolydd Dolau Dyfi

Mae’r prosiect cydweithredol hwn yn canolbwyntio ar gyfuno adnoddau naturiol â buddion iechyd a lles yn ardal afon Dyfi. Nod y prosiect yw mynd i’r afael â heriau drwy wella ardaloedd penodol o’r dirwedd a chysylltu pobl â natur. Caiff arian ei fuddsoddi hefyd i wella mynediad a hyrwyddo’r ardal er mwyn annog pobl leol ac ymwelwyr i ddefnyddio’r awyr agored ac i greu lleoedd diogel a phleserus i ymweld â nhw. Bydd gweithgareddau eraill yn mynd rhagddynt hefyd fel sefydlu rhwydwaith o wirfoddolwyr lleol, prosiect celf a rhaglen “cerdded i dramatig iechyd” o bosibl. Gall y rhai a fydd yn elwa ar y prosiect gynnwys busnesau fferm a chymunedau gwledig, gan gynnwys cyflogi contractwyr lleol a hybu busnesau twristiaeth lleol.

Dulliau Naturiol o Adfer Tirweddau Byw

Bydd 10 corff yn rhan o’r prosiect cydweithredol hwn a’r nod cyffredin fydd ymdrin â phroblemau sy’n effeithio ar gymunedau gwledig yr ardal. Y bwriad yw gwneud y gorau o oddeutu 40 o safleoedd ar y dirwedd gan wella cynefinoedd a chyflwr y pridd, sicrhau nad oes rhagor o rywogaethau’n diflannu, gwella’r broses o ailgylchu maetholion a chynyddu’r posibilrwydd o storio carbon. Nod y prosiect yw adfer sgiliau rheoli tir traddodiadol a datblygu sgiliau newydd a chyfleoedd busnes posibl gan fanteisio ar brofiadau’r cydweithredwyr amrywiol a drwy ennyn diddordeb pobl ifanc yr ardal.

Cryfhau Coetiroedd Eiconig Cymru

Nod y prosiect hwn yw canolbwyntio ar gynefinoedd coetiroedd eiconig Cymru a’u gwella. Gan fod y rhan fwyaf o’r coetiroedd eiconig a hynafol hyn yn nwylo perchnogion preifat, mae’n allweddol sicrhau cydweithrediad rhwng tirfeddianwyr, rheolwr a defnyddwyr. Bydd y prosiect yn adeiladu ar y gwaith ymgysylltu a’r partneriaethau sydd ar waith i wella nifer o goetiroedd ar hyd y lled Cymru. Drwy hyn bydd modd i’r safleoedd amrywiol rannu syniadau a gwybodaeth i sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â bygythiadau fel rhywogaethau a chlefydau goresgynnol. Bydd y prosiect hefyd yn helpu i ddatblygu dulliau o gynhyrchu pren yn gynaliadwy, ymchwilio i gyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm a threialu opsiynau ar gyfer cynorthwyo coetiroedd ar ôl Brexit i ddatblygu modelau o gymorth hunangynhaliol.

Lles yr Afon: Atebion seiliedig ar natur yn nalgylch afon Dyfrdwy

Mae’r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddalgylch gyfan afon Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru gan gynnwys nifer o afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr. Mae’r ardal yn cynnwys pum awdurdod lleol, y Parc Cenedlaethol a nifer o safleoedd dynodedig. Mae’r prosiect yn anelu at fynd i’r afael â’r problemau niferus sy’n wynebu’r dalgylch gan amrywio o lifogydd, erydiad pridd ac ansawdd dŵr i ddiweithdra ac amddifadedd cymdeithasol hirdymor a datblygu grŵp o gyrff cydweithredol gan gynnwys AHNE Dyffryn Dyfrdwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaethau Natur a Bryniau Clwyd a’r Parc Cenedlaethol i weithredu atebion yn seiliedig ar natur a chynnwys y gymuned.

Ucheldiroedd Cadarn De-ddwyrain Cymru

Mae tirwedd yr ucheldir yn Nhorfaen, Caerffili a Blaenau Gwent yn wynebu nifer o broblemau sy’n amrywio o drosedd tirwedd, a diflaniad cynefinoedd i seilwaith gwael a chymunedau gwasgaredig. Gan adeiladu ar gynlluniau ymgysylltu blaenorol, bydd y prosiect yn datblygu camau cydweithredol i wella’r ucheldiroedd, yn cefnogi mentrau fferm, yn gwella profiadau i ymwelwyr ac yn creu cymunedau mwy cadarn. Bydd y tri awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaethau tân ac achub, cymdeithasau tir comin, grwpiau gweithredu, undebau amaethyddol a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydweithredu i roi’r prosiect ar waith. Ar y dechrau, bydd y pwyslais ar reoli tir i wella cyflwr y pridd ac ansawdd y dŵr, bioamrywiaeth a storio carbon. Yr amcanion eraill fydd cryfhau’r berthynas rhwng rhanddeiliaid a defnyddwyr y tir comin i hybu cymunedau’r ucheldir, meithrin gallu drwy greu cyfleoedd i wirfoddoli a hyfforddi, ymgysylltu â’r gymuned, creu ffermydd mwy cystadleuol a hyfyw drwy eu hannog i arallgyfeirio, a datblygu cyfleoedd busnes arloesol.

Trwy’r Twyni Tywod: Dulliau cynaliadwy o reoli tirwedd arfordirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bydd ardal y prosiect hwn yn cwmpasu tirwedd Twyni Cynffig a Merthyr Mawr yn Ne Cymru. Nod y prosiect yw creu cydweithrediad parhaus rhwng rheolwyr y tir a’r warchodfa a tirfeddianwyr, defnyddwyr a buddiolwyr. I helpu i reoli’r dirwedd arfordirol hon yn gynaliadwy er mwyn gwella bioamrywiaeth a sicrhau buddion i’r gymuned leol. Y nod yw manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd iechyd a lles drwy gynnal a chadw llwybrau cerdded hygyrch a mannau gwyrdd o safon. Bydd y prosiect hefyd yn gyfle i weithio ar y cyd â busnesau lleol fel y clwb golff gan eu helpu i gyflawni eu huchelgais o sicrhau label ECO y GEO.

## CYFNOD 3

Iachau a Chofio (De-orllewin Môn)

Nod y prosiect cydweithredol hwn, ar raddfa'r dirwedd gyfan, yw adfywio tirweddau De-orllewin Môn drwy wella'r ecosystemau a chreu mwy o gyfleoedd i bobl fwynhau adnoddau naturiol cyfoethog yr ardal. Byddant yn cydweithredu i wella cynefinoedd yr afonydd, y gwlypdiroedd, yr arfordir a'r tir. Bydd y prosiect yn ceisio gwella mynediad i'r ardal, yn ffisegol drwy wella'r seilwath, ac yn gymdeithasol drwy sicrhau bod gwybodaeth hanesyddol ar gael sy'n disgrifio'r seilwaith milwrol o'r Ail Ryfel Byd sydd i'w weld o hyd. Bydd llwybr troed da a fydd yn cysylltu'r ardal â Llwybr Arfordir Cymru ac yn archwilio'r posibilrwydd o greu llwybr beicio oddi ar y ffordd i'r traethau lleol ac i safleoedd diddorol. Bydd ffensys yn cael eu codi a bydd gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd y dŵr yn yr afonydd ac i wella'u glannau drwy gael gwared ar rywogaethau goresgynnol.

Coetir Anian – Cambrian Wildwood

Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar ardal 140ha ym Mwlch Corog ym Mynyddoedd Cambria gan adfer cynefinoedd a cysylltu coetiroedd gan helpu i gryfhau'r ecosystem a gwella bioamrywiaeth. Bydd y gwaith yn cynnwys cau ffosydd draenio a chynyddu tyfiant mewn yn y coetiroedd i helpu i leihau llif y dŵr, gwella ansawdd dŵr, a storio mwy o garbon mewn pridd a choed. Bydd y prosiect hefyd yn creu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a mwynhau natur. Mae cynlluniau hefyd i ymgysylltu â'r cyhoedd, meithrin sgiliau, datblygu rhaglen addysgol i ysgolion cynradd, cynnig cyrsiau i bobl ifanc a gweithgareddau ar y safle, gan gynnwys gwirfoddoli.

Adfer Dalgylch Taf Bargoed

Nod y prosiect hwn yw cyflwyno dulliau cynaliadwy o reoli dalgylch afon Taf Bargoed ym Merthyr Tudful. Bydd grŵp hirsefydlog o bartneriaid yn cydweithredu i roi'r prosiect ar waith gyda'r gymuned leol a rhan ganolog o'r prosiect fydd y gwaith o adfer y llyn llawn silt ym Mharc Taf Bargoed. Bydd y prosiect yn cyflwyno dulliau cynaliadwy o reoli'r ucheldir a fydd yn: adfer safle poblogaidd i'r cymunedau lleol ei ddefnyddio a'i fwynhau; lleihau'r silt yn y dŵr; hybu bioamrywiaeth a chryfhau amgylchedd ecolegol; gwella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl llifogydd yn y cymunedau lleol. Ffermydd lleol, busnesau hamdden a chymunedau Bedlinog, Trelewis a Threharris fydd yn elwa fwyaf o'r prosiect.

Cydweithredu ar y Comin – Common Collaboration

Nod y prosiect cydweithredol hwn yw gwella Tir Comin Gelligaer a Merthyr. Mae'r aelodau'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, yr Heddlu, Cynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chaerffili, Cymdeithas Cominwyr Gelligaer a Merthyr, y trigolion lleol a grwpiau a chanddynt fuddiant penodol fel cerddwyr, beicwyr a Chlwb Barcut a Pharagleidio De-ddwyrain Cymru. Mae nifer o aelodau'r grŵp yn dod o'r gymuned leol ac maent yn cydweithredu i adfer tirwedd y tir comin trwy fabwysiadu egwyddorion cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol. Bydd y prosiect yn ymdrin â nifer o ffactorau cymdeithasol – ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn benodol, fel gyrru'n anghyfreithlon oddi ar y ffordd, tipio anghyfreithlon a gadael sbwriel ar ymyl y ffordd, gadael i anifeiliaid bori ar ymyl y ffordd a diffyg rheolaeth dros y tir yn ogystal â pori cynaliadwy ac adfer cynefinoedd.

Dyffryn Tywi: Tirwedd Hanesyddol Ein Bro – Tywi Valley Historic Landscape

Nod y prosiect cydweithredol hwn, ar raddfa'r dirwedd gyfan, yw cyfuno ac integreiddio'r gwaith o reoli ardal arbennig yn Nyffryn Tywi, rhwng Caerfyrddin a Llandeilo, er budd bywyd gwyllt, treftadaeth a chymunedau'r ardal a hynny drwy gryfhau'r rhwydwaith o dirfeddianwyr, rheolwyr tir ac arbenigwyr. Bydd y prosiect yn galluogi tirfeddianwyr a rheolwyr i fanteisio ar wybodaeth a chyngor arbenigol a gwaith i wella'r parcdir hanesyddol. Mae'r ardal yn gyrchfan gwych ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden, gan gynnwys cerdded, rhedeg, beicio, archaeoleg, garddwriaeth, arolygu ecolegol ac ymweld â ffermydd. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig cyfleoedd i hybu iechyd fel gweithio gyda Down To Earth, menter gymdeithasol lwyddiannus.

Creu Cysylltiadau Gwell: Bioamrywiaeth yn ein Cymunedau

Prosiect rheoli tir yw Creu Cysylltiadau Gwell ac mae'n cael ei arwain gan y gymuned. Mae'n gweithredu yng Ngogledd Sir Benfro a'i nod yw helpu cymunedau i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, creu ymdeimlad o le a gwella cydlyniant a lles cymunedol. Yn ganolog i hyn oll yw'r gwaith o wella adnoddau naturiol yn yr ardal gyda chymorth y bobl leol. Bydd y prosiect yn cael ei roi ar waith yn wardiau Clydau, Crymych, Cilgerran a Llandudoch a bydd yn canolbwyntio ar amddiffyn a diogelu ardaloedd sydd eisoes yn gyfoethog o ran eu bioamrywiaeth, a datblygu cysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn drwy blannu coed a gwrychoedd, ffensio, gwaith draenio ac asesu'r seilwaith gwyrdd. Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglen wyddoniaeth i ddinasyddion, ac i ddatblygu sgiliau ehangach ac yn ceisio buddsoddi mewn gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys plannu perllannau ac agor mannau gwyrdd.

Ffermio Gwastadeddau Gwent yn Gynaliadwy

Mae'r prosiect cydweithredol hwn yn cynnwys RSPB Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur Gwent, sy'n cydweithio'n agos â ffermwyr a phartneriaid eraill i feithrin dealltwriaeth, gwybodaeth, sgiliau a phrofiad er mwyn medru cyflwyno dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol ar Wastadeddau Gwent. Bydd y ffermwyr a'r partneriaid eraill yn cymryd camau i wella ansawdd y dŵr a gwella a chreu cynefinoedd, gan wella cyflwr y pridd, a sefydlu stribedi cynefin ar gyfer peillwyr, a fydd hefyd yn gweithredu fel tir clustog ar gyfer cyrsiau dŵr. Bydd pob cam yn anelu at wella yr amgylchedd ar Wastadeddau Gwent i bobl a natur, tra'n cefnogi busnesau fferm cynaliadwy.

Ecosystemau Afonydd Gwy, Ieithon a Hafren (WISE)

Bydd y prosiect cydweithredol hwn yn gweithio gyda phartneriaeth sydd wedi'i hen sefydlu yn y dalgylch, gan gynnwys tirfeddianwyr a chymunedau lleol, i wella'r adnoddau naturiol mewn tirwedd eang yn nalgylch afon Gwy. Bydd y gwaith yn cynnwys gwella cyflwr pridd tir amaethyddol, creu coetir i fanteisio i'r eithaf ar y posibilrwydd o leihau perygl llifogydd, gwella cynefinoedd i hybu bioamrywiaeth ac i wella ansawdd dŵr, a gwella'r seilwaith ar glosydd fferm i leihau llygredd. Nod y prosiect yw annog cymunedau gwledig a busnesau amaethyddol yn yr ardal i ddeall sut y gallant wella ecosystemau dros gyfnod a deall y gwasanaethau y mae'r ecosystemau hynny'n eu darparu, ac sy'n allweddol i'r ymdrech i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a llifogydd. Yn ei dro, bydd hynny'n creu cyfleoedd i wella iechyd a lles.

Tirwedd Dyffryn Elwy

Mae'r prosiect yn cynnwys 23,500 hectar mewn cydweithrediad â CNC, Llywodraeth Cymru, sefydliadau partner a nifer o dirfeddianwyr ac unigolion. Bydd y prosiect yn rhoi cyngor a chymorth i berchnogion coetiroedd adfer, rheoli, clustogi ac ymestyn y rhwydwaith coetiroedd, rheoli coed hynafol a gwella cysylltedd rhwng y 60 safle a ragwelir. Gweithio gyda Phrifysgol Bangor i fonitro ceirw gwyndwn ac edrych ar unrhyw effaith ar reoli clefydau anifeiliaid a deall dosbarthiad a dwysedd y poblogaethau ceirw ar y raddfa hon a phennu effeithiau ceirw ar fioamrywiaeth. Creu canolfan sgiliau yn yr ardal sy'n cynnig yr holl sgiliau amrywiol sydd eu hangen i reoli'r coetir lleol, gan weithio gydag Ymddiriedolaeth y Wiwer Goch ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Ddwyrain Cymru ar Reoli rhywogaethau anfrodorol e.e. Jac y Neidiwr.

## CYFNOD 4

Prosiect rheolaeth tir a dŵr cynaliadwy Dyffryn Cain

Partneriaeth yn cynnwys cymuned amaethyddol dalgylch Dyffryn Cain, gyda'r bwriad o ostwng llygredd gwasgaredig yn y dalgylch i arafu llif y dŵr i wella bioamrywiaeth. Bydd gweithgaredd y prosiect yn cynnwys creu gwelyau cyrs a choridorau glannau afon, plannu ac adfer gwrychoedd a choetir, adeiladu gwaliau dyfrgwn a llwybrau ar hyd glannau'r afon, a chreu parth cadwraeth cymunedol naturiol. Bydd y prosiect hefyd yn datblygu rhaglen addysgu ar gyfer ysgolion a grwpiau lleol, a darparu mynediad i ofod awyr agored ar gyfer unigolion gyda chyflyrau iechyd meddwl.

Prosiect Dyffryn Camlad

Prosiect yw hwn sy'n cael ei arwain gan ffermwyr ac sy'n darparu rheolaeth ar raddfa tirwedd, gyda'r nod o wella gwydnwch ecosystemau a galluogi busnesau amaethyddol gwydn a chynhyrchiol. Bydd bioamrywiaeth Dyffryn Camlad yn cael ei wella trwy weithredu cydweithredol o'r gwaelod i fyny gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal. Bydd tirfeddianwyr, ffermwyr, cymunedau a rhanddeiliaid allweddol yn canolbwyntio ar adfer cynefin glaswelltir iseldir gwlyb traddodiadol i greu ecosystem iach, wydn ac amrywiol. Bydd y prosiect yn defnyddio dull seiliedig ar leoedd (i lunio a deall blaenoriaethau lleol, yn cynnwys camau i gynnal niferoedd adar sy'n nythu ar y ddaear, sydd, er yn annwyl gan bobl leol, yn prinhau. Bydd y prosiect yn defnyddio'r rhywogaethau yma fel dangosyddion allweddol o iechyd cyffredinol yr ecosystem. Bydd y prosiect hefyd yn cynnig cyfleoedd i gyfranogi trwy wirfoddoli ac i archwilio manteision hynny ar iechyd a llesiant.

Cynefinoedd Dŵr Croyw Gwydn Dalgylch Irfon

Mae dalgylch Irfon yn y canolbarth wedi'i bennu yn Ardal Cadwraeth Arbennig yn sgil ei fioamrywiaeth dŵr croyw eithriadol. Bwriad y prosiect yw gweithredu i gyflwyno gwelliannau i ansawdd y dŵr trwy gydweithio rhwng ffermwyr lleol, tirfeddianwyr, busnesau gwledig, coedwigwyr, sefydliadau statudol, cyrff dŵr croyw anllywodraethol arbenigol a'r diwydiant dŵr. Bydd y prosiect yn cyflwyno mesurau ymarferol i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle mewn lleoliadau strategol, a gostwng llygryddion ffo trwy reoli pridd a maetholion fferm, plannu coed a rheoli coetir, gostwng mewnbynnau yn y tarddle a gweithredu technegau naturiol i reoli risg llifogydd naturiol (NFRM). Bydd y prosiect yn annog ymgysylltiad y cyhoedd â rheoli a monitro ansawdd dŵr, gan ddefnyddio gwyddoniaeth dinasyddion. Bydd rhagnodi cymdeithasol yn cael ei dreialu yn yr ardal o gwmpas yr amgylchedd dŵr, er mwyn sicrhau'r manteision iechyd gorau posibl. Bydd rhaglen fonitro gynhwysfawr yn sicrhau bod gweithredoedd a gwybodaeth o'r prosiect yn berthnasol iawn i gynnal gwydnwch dyfroedd croyw yng Nghymru.

Y tri Plwyf – ar gyfer y Da Cyffredin

Mae cominwyr Llanwrthwl, Llysdinam a Llanfihangel Bryn Pabuan wedi dod ynghyd i reoli'u tiroedd comin yn weithredol, gan greu tirwedd fwy gwydn a chynaliadwy i gynnal gwell bioamrywiaeth. Bydd y bartneriaeth hon yn rheoli rhostir, rhostir pori gyda'i gyfoeth o blanhigion, ffriddoedd a choetir oddi mewn i ardal y prosiect. Bydd cominwyr a grwpiau gwirfoddol hefyd yn creu ac ehangu pyllau a gwlyptir, mynd i'r afael â rhedyn gan ddefnyddio technegau gwahanol a phori'n gynaliadwy gyda gwartheg a merlod. Mae'r prosiect hefyd yn bwriadu hybu cyfleoedd antur awyr agored a thwristiaeth trwy wella arwyddion, dehongli a chefnogaeth ar gyfer ymweliadau addysgol. Mae'r cydweithio'n cynnwys arbenigedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r RSPB ym meysydd cyflenwi, monitro a gwerthuso.

Prosiect Sgiliau Gwyllt Lleoedd Gwyllt

Diolch i gydweithrediad arloesol rhwng GIG Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn (MWT), bydd y prosiect yn darparu amrywiaeth o atebion sy'n seiliedig ar natur i wella iechyd, sgiliau a llesiant ein cymunedau lleol. Bydd cynefinoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn cael eu creu a'u rheoli gan grwpiau prosiect, a hynny er mwyn galluogi treulio amser ystyrlon yn deall ac yn rheoli ardaloedd lleol sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt. Bydd gwarchodfeydd natur sy'n cael eu gwella gan y prosiect yn galluogi cymunedau lleol i archwilio cynefinoedd yn ddiogel, yn cynnwys glannau afon, coetir, glaswelltir, ffiniau camlas, gwlyptir ac ucheldir. Bydd y prosiect hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu rhaglen strwythuredig, achrededig o weithgareddau natur i alluogi pobl i gyfranogi yn y Pum Nod Llesiant, sy'n gwella iechyd a llesiant, datblygu sgili Bu newydd, meithrin hyder a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol. Y nod yw i hyn fod ar gael i'w atgyfeirio'n uniongyrchol gan y GIG a meddygon teulu yn ogystal â bod yn agored i gymunedau lleol ar draws Sir Drefaldwyn.

Adfer Rhostir Pori

Prosiect ar y cyd yw hwn rhwng ffermwyr lleol, rheolwyr tir, busnesau twristiaeth, grwpiau amgylcheddol a busnesau celfyddydol a diwylliant gyda'r nod o adfer cynefin rhostir pori eiconig Cymru yng ngogledd Brycheiniog a gorllewin Maesyfed. Bydd y prosiect yn cyflawni camau i adfer yr ardaloedd glaswelltir corsiog presennol i fod yn dir pori mwy gwydn, amrywiol a chyfoethog o ran rhywogaethau. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn cynnwys lleihau cywasgu pridd, gwella strwythur pridd a gwella'r gallu i storio carbon a dŵr, arafu dŵr ffo ac erydiad. Unwaith eto, bydd y rhostir pori presennol yn cael ei gysylltu'n nodwedd dirwedd barhaus. Bydd y cydweithio yn mynd ymlaen i ddathlu gwerth diwylliannol, ysbrydoledig ac esthetig cynefin rhostir pori yn y Gymru gyfoes. Bydd gwell mynediad ar gyfer cymunedau lleol ac ymwelwyr i'r dirwedd arbennig hon yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd hamdden ac ymarfer corff yn yr awyr agored.

Coetir a Dŵr

Mae ardal y prosiect yn cwmpasu'r Afon Chwiler a rhan uchaf yr Afon Alyn a'r tir o'u hamgylch, sy'n cynnal nifer o gynefinoedd pwysig yn cynnwys coetir hynafol, glaswelltir heb ei wella, rhostir a gwlyptir. Mae'n cynnwys un Ardal Cadwraeth Arbennig (Coedwigoedd Dyffryn Alyn), un ar ddeg Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ac ardaloedd o dir comin. Amcanion y prosiect yw gwella'r cysylltiad rhwng pobl ag ardaloedd sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt, a hyrwyddo cyfleoedd a manteision sydd yn fach eu heffaith ac yn cyfrannu i'r economi leol. Bydd y prosiect yn nodi cyfleoedd i gynnwys datblygu llwybrau cerdded, darparu seilwaith mynediad newydd, gwell rheolaeth o lwybrau sy'n bodoli eisoes a dehongli wedi'i dargedu. Byddai'r ddarpariaeth benodol angenrheidiol yn cael ei phennu trwy ymgynghori â'r cyhoedd, yr awdurdod lleol/AHNE, perchnogion/rheolwyr tir a darparwyr twristiaeth.

Prosiect Lleol LAND – Talyllychau a Chwm-du

Gyda gweledigaeth gydweithredol, mae'r prosiect yn bwriadu cwmpasu oddeutu 800 hectar o dir ffermio mewn pentrefi hanesyddol Talyllychau a Chwm-du. Wrth wraidd y prosiect mae datblygiad a defnydd 24 hectar o dir o gynefin amrywiol sy'n eiddo i'r gymuned, wedi'i leoli ym mhentref Talyllychau. Mae trigolion lleol a thirfeddianwyr wedi creu'r prosiect hwn ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â heriau lleol arwahanrwydd cymdeithasol, diffyg cyfleoedd busnes a'r angen am arferion a busnes rheoli tir sy'n gynaliadwy ac yn wydn. Bydd gweithgareddau'r prosiect yn canolbwyntio ar; gwella dal dŵr yn yr ucheldiroedd, gwella ansawdd dŵr yn nau lyn Talyllychau, datblygu dolydd blodau gwyllt a gwyndonnydd amrywiol, plannu coed a choetiroedd a reolir yn weithredol, gwella mynediad i'r cyhoedd, gwella cysylltedd cynefinoedd a gwella rheoli pridd. Bydd y tir sy'n eiddo i'r gymuned yn cael ei ddatblygu i gynyddu bioamrywiaeth a gwella mynediad i drigolion ac ymwelwyr i'r ardal. Bydd darparu seilwaith yn y parth awyr agored hwn yn helpu i greu lle mwy deniadol i bobl yn y gymuned ei ddefnyddio i gefnogi cyfleoedd i wella iechyd a llesiant, cydlyniad cymdeithasol ac ymdeimlad o le yn lleol.

Prosiect rheoli tir a gwydnwch hinsawdd Nant Alan

Nod y prosiect yw gwella bioamrywiaeth a gwneud dyffryn Nant Alan a'i ddalgylch yn fwy gwydn. Mae llifogydd i lawr yr afon o'r dalgylch yn creu trafferthion I gartrefi a busnesau, ffermwyr a'u da byw. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar weithgareddau i helpu i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig, lleihau llif dŵr wyneb, ac adfer coetir llydanddail. Bydd hefyd yn creu canolfan ysgolion coedwig at ddefnydd cymunedol, yn cynyddu cyfleoedd hamdden, yn gwella gwydnwch busnesau fferm ac yn gwella ymgysylltiad cymunedol. Bydd gweithgareddau rheoli tir yn cynnwys creu gwelyau cyrs, creu pyllau newydd, plannu gwrychoedd a choetiroedd newydd, ac adfer safleoedd coetiroedd hynafol. Bydd y prosiect hefyd yn cynnal rhaglen ymgysylltu ysgol/cymuned ac yn creu 'labordy byw' a rhwydwaith i drafod a chynllunio cynaliadwyedd y dyffryn yn yr hirdymor.

## CYFNOD 5

Dawnsio ar y Dibyn

Bydd ein prosiect Dawnsio ar y Dibyn yn sefydlu fframwaith cydweithredol enghreifftiol i Gymru Gyfan i alluogi dull mwy strategol o fynd i'r afael yn effeithiol â'r materion amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar ecosystemau ymylol arfordirol Cymru. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau rhwng prosiectau, mentrau a gweithgorau sy'n bodoli eisoes er mwyn lleihau yr ymdrechion sy'n cael eu dyblygu, gan arddangos arferion gorau sy'n cynnig gwerth da am arian. Bydd yn cynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad ac yn galluogi ymgymryd â dulliau cydweithredol, addasol o reoli ymylon arfordirol yn gynaliadwy.

Prosiect Coedlan Glynllifon

Bydd y prosiect hwn yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddatblygu dull cydweithredol o reoli adnoddau naturiol Parc Gwledig Glynllifon a'r ardal gyfagos er budd pawb. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar reoli'r coetir yn y parc yn gynaliadwy yn y tymor hir ac archwilio cysylltiadau ag ecosystemau tebyg ar dir fferm cyfagos. Bydd hefyd yn edrych ar y gwasanaethau y gall yr ecosystem hon eu darparu, a sut y gallwn ddod â phobl a natur at ei gilydd i ddarparu manteision cymdeithasol, economaidd a iechyd a lles. Mae cynefinoedd y coetir (gan gynnwys ACA a SoDdGA dynodedig) yn wynebu heriau oherwydd difrod stormydd, dealltwriaeth annigonol o gyflwr ac anghenion rheoli, a llai o adnoddau. Mae'r buddsoddiad hwn yn gwella eu rhinweddau a'u potensial gan ganiatáu i fanteision i'r cymunedau lleol gael eu gwireddu'n llawn.

Bro Cors Caron

Mae'r grŵp o dan arweiniad ffermwyr yn anelu at wella tir ffermydd o amgylch gwarchodfa natur genedlaethol Cors Caron yng Ngogledd Cymru. Canolbwyntio'n gyfannol ar fioamrywiaeth, gwella cynefinoedd, iechyd pridd ac ansawdd dŵr a gwella cysylltedd. Cefnogi'r GNG i reoli'r dirwedd gyfagos a gwarchod adnoddau naturiol a nwyddau cyhoeddus ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd a ffermio sy'n creu elw. Mae olyniaeth a darparu cyfleoedd i'w plant a chenedlaethau'r dyfodol yn sbardun enfawr i'r prosiect. Ochr yn ochr â gwaith sylweddol yn adfer cynefinoedd amgylcheddol mae'r prosiect hwn yn gwella lles y gymuned; gwella cysylltiadau cymdeithasol, lles a'r cysylltiad traddodiadol a hanesyddol rhwng y gymuned a'r tir.

Prosiect Lles Golygfa Gwydyr

Nod y prosiect yw nodi'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau coedwig Golygfa Gwydyr (o dan Gytundeb Rheoli Cymunedol 10 mlynedd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)) i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau lles ac i ddatblygu ein hadnoddau coedwig ar gyfer gweithgareddau lles i gefnogi buddiolwyr ledled Gogledd Cymru. Yn draddodiadol, mae bywyd yng Nghonwy wledig wedi canolbwyntio ar ffermio a choedwigaeth ac mae'r ddau yn parhau i fod yn bwysig i bobl leol. Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf bu newid o'r sectorau hyn i dwristiaeth ond, yn ddiwylliannol, mae ffermio a choedwigaeth yn parhau i fod yn bwysig i'r bobl ac mae llawer o wybodaeth a sgiliau o hyd yn y meysydd hyn y mae'r prosiect hwn yn anelu at eu cadw yn y gymuned. Prif gorff: Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gemau a Bywyd Gwyllt

Atebion Naturiol yn Ardal Elenydd Ceredigion

Partneriaeth gydweithredol rhwng tirfeddianwyr, trigolion, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Hafod i gefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd bywyd yn ardal Elenydd Ucheldiroedd Cambria a Chwm Ystwyth. Mae'r prosiect yn dathlu treftadaeth gymunedol gorffennol glofaol hanesyddol y cwm tra'n lleihau ei etifeddiaeth amgylcheddol negyddol ar y rhai sy'n byw gerllaw ac i lawr yr afon i Fae Ceredigion. Mae'r prosiect yn gobeithio dod â'r gymuned at ei gilydd er mwyn ymgysylltu a hyrwyddo arferion ffermio cynaliadwy, gwell mynediad at gyfleoedd treftadaeth a dysgu, defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau a mynediad at wirfoddoli yn yr ardal eiconig hon gan gadw gwerth cynhenid asedau naturiol a gwarchod yr iaith a'r gymuned er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Pobl a Natur – Gweithio Gyda'n Gilydd

Mae Grŵp Cydweithredol Maesmawr, wedi nodi heriau lleol sy'n wynebu ffermio a bywyd cymunedol yn nhrefi a phentrefi eu tirwedd. Mae rhan o dalgylch uchaf Afon Hafren, sy'n cynnwys tua 17,240 erw o dir aelodau a choedwigaeth CNC sy'n ymestyn o Dolfor yn y dwyrain i Clywedog yn y gorllewin. Y prif nod yw cefnogi iechyd ecosystemau i wella bioamrywiaeth. Bydd ein 30 o bartneriaid ffermio yn plannu coed a gwrychoedd, adfer cynefinoedd a gwella eu cysylltedd, creu pyllau a datblygu gwell mynediad i fannau gwyrdd a glas ar gyfer gweithgarwch corfforol a lles meddyliol. Byddant hefyd yn ceisio deall a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r bygythiadau a sut i'w gwrthweithio drwy ddefnyddio uwch-dechnoleg. Gwneir hyn drwy fod y ffermwyr cyntaf yng Nghymru i ddelweddau lloeren gwirioneddol fel rhan o brosiect delweddu digidol Cymru Fyw sy'n cael ei gynnal gan Brifysgol Aberystwyth.

Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN 2)

Mae prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) yn gweithredu fframwaith cydweithredol enghreifftiol ar gyfer Cymru gyfan i hwyluso camau mwy effeithiol i fynd i'r afael ag effeithiau INNS ar amgylchedd, yr economi a lles pobl Cymru. Nod y prosiect yw hwyluso'r gwaith o ffurfio rhwydwaith cynaliadwy o Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru er mwyn gallu cyflawni camau gweithredu effeithiol ar lawr gwlad ar faterion INNS lleol ac mewn mannau â blaenoriaeth. Byddant yn cynhyrchu a chyfleu offer prosiect i gefnogi camau gweithredu INNS effeithiol cydweithredol gan gynnwys pecynnau cymorth, rhaglen hyfforddi, cymorthfeydd, fforwm rhannu gwybodaeth a chyfleoedd ariannu, er mwyn galluogi mesurau ataliol i leihau yr INNS ledled Cymru.

Cynefinoedd Cynaliadwy Amaethwyr Mawddwy

Mae'r grŵp yn cynnwys perchnogion tir ifanc sy'n ffermio'n helaeth o amgylch Dinas Mawddwy yn ne Meirionnydd. Mae eu ffermydd da byw yn ymestyn o'r ucheldiroedd mawn o amgylch Aran Fawddwy (905m), i gymoedd toreithiog Cwm Cywarch a Llanymawddwy. Mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y nod yw ymgymryd â phrosiect i sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r adnoddau naturiol sydd gennym yn yr ardal, i'n busnesau ni ac i'r gymuned ehangach. Nod y grŵp yw darparu amrywiaeth o atebion sy'n seiliedig ar natur ar draws y ffermydd i adfer yr ucheldiroedd a'u rheoli i gynyddu gwydnwch a gwella bioamrywiaeth, storio carbon, gwella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd. Byddant hefyd yn edrych ar fanteision hamdden yr ardal, un o'r adnoddau naturiol mwyaf trawiadol yn yr ardal hon yw y statws Gwarchodfa Awyr Dywyll. Bydd hyn ochr yn ochr â chynlluniau i wella mynediad yn yr ardal, gan weithio ar y cyd â phrosiectau eraill sy'n seiliedig ar fynediad. Eu nod yw cynnig llu o gyfleoedd hyfforddi a datblygu cymunedol a gweithio ochr yn ochr â phartneriaid eraill i gynnig hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli yn yr ardal i feithrin gallu yn eu cymunedau.

# Atodiad F: Canllaw Trafod – Staff a rhanddeiliaid

Cyflwyniad

Comisiynwyd Ymchwil OB3, ar y cyd â Phartneriaeth BRO, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS).

Nod y gwerthusiad yw gwerthusol SMS, a ddarperir fel rhan o gynllun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig i gefnogi camau gweithredu ar y cyd i wella adnoddau naturiol, helpu i sicrhau gwytnwch yr ecosystem ac asesu ei gyfraniad at gynnal manteision cymdeithasol ac economaidd i gymunedau.

Mae gan y gwerthusiad bum amcan allweddol i'w hystyried:

- cyfatebiaeth y prosiectau ag egwyddorion SMNR
- y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i weithredu
- natur a graddau'r cydweithio a'r hyn a gyflawnwyd drwy hynny
- canlyniadau'r cynllun a chamau gweithredu ar y blaenoriaethau polisi
- y cyfraniad at y themâu trawsbynciol, yn enwedig addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.

Elfen allweddol o'r astudiaeth hon yw siarad â phobl sydd wedi bod yn rhan o'r SMS. Yn hynny o beth, mae cam olaf y gwerthusiad yn cynnwys cyfle i glywed barn prosiectau a rhanddeiliaid allweddol eraill yn uniongyrchol.

Bydd canlyniadau'r trafodaethau hyn a'r arolwg yn cael eu defnyddio i ddrafftio adroddiad i Lywodraeth Cymru a fydd yn cynnwys casgliadau ac argymhellion i'r dyfodol.

Byddwn yn disgwyl i'n trafodaeth gymryd dim mwy nag awr.

Er ein bod yn hoffi defnyddio dyfyniadau yn ein hadroddiadau i ategu pwyntiau allweddol, bydd yr hyn a ddywedwch yn gyfrinachol ac ni chaiff ei briodoli i chi.

Hoffech chi gynnal y cyfweliad yn:

Saesneg? □ Cymraeg? □

Fel arfer cynhelir cyfweliadau drwy Teams. Os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i wneud y cyfweliad yn fwy hygyrch i chi, fel anfon y cwestiynau atoch yn ysgrifenedig ymlaen llaw neu drefnu fformat gwahanol, rhowch wybod i ni)

Hoffem gael caniatâd i gofnodi'r drafodaeth, at ddibenion ymchwil yn unig. Ni fydd unrhyw un o'r tu allan i'r tîm ymchwil yn clywed nac yn gweld nodiadau'r recordiad. Ydych chi'n hapus i mi recordio'r drafodaeth? Ydw □ Nac Ydw □

A: Cefndir

1. [os na chyfwelwyd yn flaenorol] Dywedwch wrthyf am:
    - Eich rôl
    - Eich sefydliad arweiniol
    - Eich ymwneud â'r SMS

B: Nodau ac amcanion yr SMS

2. Pa gyfraniad y mae'r SMS wedi'i wneud i gyflawni ei nodau polisi allweddol, yn benodol
    - Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
    - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? (Prociwch: sut y mae wedi cefnogi'r pum ffordd o weithio [troednodyn 38] yn benodol?)
3. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod nodau ac amcanion yr SMS wedi'u bodloni, sef?
    - profi mecanwaith ariannu arloesol, cydweithredol yn seiliedig ar y dirwedd, i lywio cynlluniau yn y dyfodol
    - atal a mynd i'r afael â dirywiad mewn bioamrywiaeth ledled Cymru
    - darparu cynllun cyllid grant cyfannol a hyblyg sy'n diwallu anghenion lleol
    - ariann prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd i wella ein hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i fusnesau gwledig a busnesau fferm, a chymunedau gwledig.
4. I ba raddau y mae'r prosiectau'n gydnaws ag egwyddorion a ffyrdd o weithio SMNR?
    - I ba raddau y mae'r' gyfatebiaeth ag egwyddorion a ffyrdd o weithio SMNR wedi galluogi'r SMS i gyflawni ei nodau?
5. Pe baech chi'n dylunio'r SMS (neu gynllun tebyg yn y dyfodol) o'r newydd…
    - beth fyddech chi'n ei gadw/ddim yn ei newid?
    - beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

Troednodiadau

[38] Hirdymor (cydbwyso anghenion tymor byr ag anghenion hirdymor), integreiddio, cynnwys, cydweithio, atal

C: Y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i weithredu

6. Pa newidiadau a fu (os o gwbl) i'r ffordd y mae'r SMS yn cael ei reoli a'i fonitro dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - (Os gwnaed newidiadau) Pam y gwnaed y newidiadau hyn?
    - Beth fu prif gryfderau y ffordd y rheolwyr yr SMS dros gyfnod y cynllun?
    - Beth y gellid ei wella?
7. Pa effeithiau allanol sydd wedi helpu neu rwystro gweithrediad y cynllun?
    - Pa ansicrwydd a wynebodd prosiectau? (Prociwch: Covid-19, materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi, tywydd garw ac ati)
    - Pa effaith a gafodd unrhyw un o’r materion hyn ar y cynllun (e.e., cronfeydd cynllun heb eu hymrwymo, oedi i brosiectau, newid mewn dulliau gweithredu)
    - Sut yr ymdriniwyd â'r rhain?

D: Allbynnau, canlyniadau a'r gwahaniaeth a wnaed

8. I ba raddau y mae'r SMS wedi cyllido ystod amrywiol o brosiectau?
    - A oes unrhyw sectorau neu ardaloedd daearyddol yn cael eu tangynrychioli o fewn y prosiectau a ariennir?
    - [Os yw'n berthnasol] Beth y gellid ei wneud i ehangu'r ystod o brosiectau a ariennir?
9. I ba raddau y mae prosiectau a ariennir gan SMS wedi cyflawni eu DPA?
    - Beth yw'r rhesymau dros unrhyw berfformiad cryf neu wan yn erbyn DPA y prosiect?
10. I ba raddau y mae prosiectau a ariannwyd gan SMS wedi'u harwain gan ystod eang o sefydliadau a grwpiau arweiniol?
    - I ba raddau y mae partneriaethau prosiectau wedi cryfhau ac ehangu dros y cyfnod cyflawni? Pa enghreifftiau fyddech chi'n eu rhoi?
    - Pa werth ychwanegol, os o gwbl, sydd wedi'i sicrhau o'r dull cydweithredol hwn?
    - Beth fu'r heriau mwyaf o ran partneriaethau prosiectau?
    - Yn eich barn chi, pa mor debygol yw partneriaethau prosiectau a threfniadau cydweithredol o gael eu cynnal ar ôl y cyfnod cyllido?
    - Pa enghreifftiau o gydweithio parhaus ar ôl i'r cyllid ddod i ben yr ydych yn ymwybodol ohonynt (os o gwbl)?

- Pa enghreifftiau sydd o bartneriaethau prosiectau yn sicrhau cyllid arall ar ôl i gyllid yr SMS ddod i ben a/neu ddod yn hunangynhaliol?
- Beth yn eich barn chi fyddai'n helpu i gynnal y partneriaethau hyn yn yr hirdymor?

11. I ba raddau y mae prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd a ariannwyd gan SMS wedi gwella adnoddau naturiol?
    - Pa welliannau i adnoddau naturiol sydd wedi eu sicrhau?
    - Pa mor debygol yw hi y bydd y gwelliannau hyn yn cael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben yn eich barn chi?
    - Beth fyddai'n helpu i gynnal y gwelliannau hyn?
12. I ba raddau y mae prosiectau a ariannwyd gan SMS wedi helpu i wella lefelau bioamrywiaeth Cymru? *(Prociwch ynglŷn â'r: cysylltedd rhwng ecosystemau; cynnydd ym maint/graddfa ecosystemau; iechyd/cyflwr ecosystemau)*
    - Pa dystiolaeth sydd o hyn?
    - I ba raddau y mae'r gwelliannau hyn ar lefel bioamrywiaeth yn debygol o gael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben?
    - Beth fyddai'n helpu i gynnal y gwelliannau hyn?
13. I ba raddau y mae'r SMS wedi darparu cynllun cyllid grant cyfannol a hyblyg, sydd wedi bodloni anghenion lleol?
    - Pa fanteision cymdeithasol i gymunedau lleol a gyflawnwyd gan yr SMS?
    - Pa fanteision economaidd i gymunedau lleol sydd wedi'u sicrhau gan yr SMS?
    - Pa dystiolaeth sydd yna?
    - Pa mor debygol yw'r effeithiau hyn o gael eu cynnal ar ôl i gyllid yr SMS ddod i ben yn eich barn chi?
    - Beth yn eich barn chi fyddai'n helpu i gynnal yr effeithiau hyn yn y tymor hir?

E: Themâu Trawsbynciol

14. I ba raddau y mae’r cynllun SMS wedi cyfrannu at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, sef:

    - Cyfle Cyfartal
    - Datblygu Cynaliadwy
    - Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol?

15. I ba raddau y mae’r cynllun SMS wedi mynd i’r afael ag amcanion trawsbynciol penodol y Rhaglen Datblygu Gwledig sef:

    - Arloesi
    - Amgylchedd
    - Addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru?

16. I ba raddau y mae’r cynllun SMS wedi cyfrannu at strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050?

F: Gwersi a Ddysgwyd

17. I ba raddau y mae’r SMS wedi profi mecanwaith cyllido arloesol, cydweithredol, sy’n seiliedig ar y dirwedd a fydd yn llywio cynlluniau cyllido yn y dyfodol?

    - Pa ymarfer effeithiol sydd wedi'i nodi ac y ceir tystiolaeth ohono?
    - Pa arferion sydd wedi bod yn aneffeithiol?
    - Sut y bydd hyn yn llywio cynlluniau cyllido yn y dyfodol?

18. I ba raddau y mae cyllido prosiectau cydweithredol a phrosiectau sy’n seiliedig ar y dirwedd wedi arwain at fwy o enillion a chanlyniadau nag ymyriadau ar lefel fferm unigol a/neu lefel cynefin/rhywogaeth yn eich barn chi?

19. I ba raddau yr ydych chi’n meddwl y bydd dull o ddarparu cyllid grant llai rhagnodol yr SMS yn arwain at fwy o gynaliadwyedd ar ôl i'r cyllid ddod i ben yn eich barn chi?

20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi am y gwasanaeth, ei gynllun neu ei weithrediad nad yw wedi cael ei drafod?

Diolch a chau

# Atodiad G: Canllaw Trafod – cyfweliadau â phrosiectau

A: Cefndir

1. [os na chyfwelwyd yn flaenorol] Dywedwch wrthyf am:
    - eich rôl yn y bartneriaeth a'ch cysylltiad â'r prosiect SMS hwn
    - eich prosiect, y sefydliadau partner a gymerodd ran, a sut y daethoch i gydweithio.

B: Gweithredu'r Prosiect SMS

2. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod eich prosiect wedi cyflawni'r hyn yr oeddech yn bwriadu ei gyflawni? (*ychwanegwch gwestiynau penodol yn ymwneud â nodau ac amcanion y prosiect sy'n cael ei gyfweld*)
    - Sut, os o gwbl, ydych chi wedi addasu neu newid eich prosiect dros amser a pham?
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda a pham?
    - Beth na weithiodd cystal a pham?
3. Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli a monitro eich prosiect SMS, yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - Beth yw cryfderau allweddol y berthynas rhwng LlC a chi fel prosiect?
    - Beth, os o gwbl, y gellir ei wella?
4. Pa ffactorau neu bwysau allanol a effeithiodd ar gyflawniad eich prosiect? *(Anogwch: e.e., COVID-19, materion cadwyn gyflenwi, materion caffael)*
    - I ba raddau (os o gwbl) y gwnaeth eich partneriaeth addasu ei dull cyflawni i liniaru yn erbyn unrhyw rai o'r pwysau allanol hyn?
    - (Os yw'n berthnasol) I ba raddau yr effeithiodd y pwysau allanol hyn ar eich gallu i gyflawni eich canlyniadau?
5. Os oeddech yn dylunio'r SMS (neu gynllun tebyg yn y dyfodol) o'r newydd…
    - beth fyddech chi'n ei gynnal/gadw'r un peth?
    - beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?
6. Yn eich barn chi, beth sydd ei angen i gyflawni prosiect cydweithredol effeithiol ac effeithlon ar raddfa'r dirwedd?
    - Beth fyddech chi'n ei gynnal/gwneud yr un peth?
    - Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

C: Natur a graddau'r cydweithio

7. Beth yw maint a natur y cydweithio o fewn eich prosiect?

    - Pa mor ymglymedig yw'r partneriaid? (h.y., beth yw maint a chwmpas y cydweithio a’r ymwneud â gwneud penderfyniadau)
    - Sut datblygodd rolau a chyfrifoldebau partneriaid dros amser?
    - Sut, os o gwbl, y gwnaeth partneriaeth y prosiect gryfhau neu ehangu dros y cyfnod cyflawni yn eich barn chi?
    - Beth sy'n gweithio'n dda/beth yw manteision cydweithio?
    - Beth yw'r heriau?
    - Pa werth ychwanegol sy'n cael ei sicrhau o'r cydweithio hwn?

8. Pa mor gynaliadwy yw eich partneriaeth prosiect ar ôl cyllid SMS?

    - Sut, os o gwbl, y mae hyn yn wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd ar y cychwyn (h.y., fel y nodir yn y ffurflen gais)?
    - Pa enghreifftiau sydd gennych (os o gwbl) o gydweithio ychwanegol neu barhaus sy'n digwydd o fewn eich partneriaeth?
    - Pa enghreifftiau sydd gennych (os o gwbl) o'ch partneriaeth prosiect yn sicrhau cyllid arall ar ôl SMS a/neu ddod yn hunangynhaliol?
    - Yn eich barn chi, pa gymorth ychwanegol fyddai'n helpu i gynnal y partneriaethau ar gyfer y tymor hir? (*Anogwch: e.e., gwasanaethau cymorth, gwasanaethau cynghori, rhwydweithiau cyfoedion-i-gymar ac ati*)

D: Llwyddiannau ac Effeithiau

9. I ba raddau ydych chi wedi cyflawni yn erbyn KPIs eich prosiect? (Prociwch am or-a than-gyflawni yn erbyn DPA)

    - Beth sydd wedi eich galluogi i gyflawni eich KPIs?
    - Beth fu'r heriau a'r rhwystrau i gyflawni unrhyw un o'ch KPIs?
    - Pa gyflawniadau annisgwyl (os o gwbl) wnaethoch chi eu cyflawni? Pam oedd hynny?

10. I ba raddau y mae monitro eich prosiect a'ch gwerthusiad terfynol yn dal ac yn myfyrio ar y cyflawniadau a'r effeithiau y mae eich prosiect wedi'u cyflawni?

    - [Os nad yw monitro/gwerthuso'n adlewyrchu] Pa ddata monitro a gwerthuso y dylid ei gasglu yn y dyfodol i gasglu'r effeithiau hyn?

11. Pa gyfraniad a gwahaniaeth y mae eich prosiect SMS wedi'i wneud i fioamrywiaeth?

- I ba raddau mae eich ecosystem nawr yn fwy gwydn? *(Holwch ynghylch amrywiaeth, cysylltedd, graddfa, cyflwr, addasrwydd yr ecosystem)*
- I ba raddau y gwnaeth eich gweithredoedd helpu i atal difrod sylweddol i ecosystemau?
- Pa dystiolaeth sydd gennych o'r effaith hon?
- I ba raddau mae'r gwahaniaeth a wneir i fioamrywiaeth yn debygol o gael ei gynnal ar ôl cyllid?
- Sut ydych chi'n bwriadu rheoli a chynnal yr hyn a gyflawnwyd?

12. I ba raddau y gwnaeth cydweithio ar raddfa tirwedd eich galluogi i wella bioamrywiaeth?

- I ba raddau y mae'r ymyriadau hyn sy'n seiliedig ar natur wedi'u darparu ar y raddfa gywir?
- I ba raddau y mae gweithio ar raddfa tirwedd wedi cael mwy o effaith nag ar sail fferm i fferm (os o gwbl)

13. I ba raddau mae eich prosiect SMS wedi helpu i fynd i'r afael â heriau lleol yn eich barn chi? *(Nodyn i'r cyfwelydd: Ystyriwch yr anghenion a'r heriau lleol a amlinellwyd yn y cais cychwynnol)*

- Pa gyfraniad a gwahaniaeth y mae eich prosiect wedi'i wneud i'r gymuned leol? *(Anogwch: e.e., cymuned leol yn gwneud mwy o ddefnydd o fannau neu asedau awyr agored, buddion iechyd a lles, gwirfoddoli)*
- Pa gyfraniad a gwahaniaeth y mae eich prosiect wedi'i wneud i'r economi leol? *(Anogwch: e.e. arallgyfeirio ar ffermydd, cyfleoedd masnachol i fusnesau lleol ac ati)*
- Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth a wnaed?
- I ba raddau y mae aelodau o'r gymuned leol wedi cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau i gyflawni'r rhain?
- Pa mor debygol yw'r rhain o gael eu hariannu ar ôl SMS yn eich barn chi?
- Beth yn eich barn chi fyddai'n helpu i gynnal y cyfraniad a'r gwahaniaeth a wneir yn y tymor hir?

14. Pa mor debygol fyddai'r cyfraniadau a'r gwahaniaeth hyn i'r amgylchedd, economi a/neu gymuned yn cael eu cyflawni heb arian SMS?

- Pam ydych chi'n dweud hynny?

E. Themâu ac amcanion trawsbynciol

15. Sut mae eich prosiect wedi cyfrannu at themâu trawsbynciol (CCTs) Llywodraeth Cymru sef:

- Sut mae eich prosiect wedi cyflawni Cyfle Cyfartal (Ymbwyll: er enghraifft, cyfansoddiad gweithwyr neu wirfoddolwyr o ran rhywedd neu leiafrifoedd ethnig)?
- Sut mae eich prosiect wedi sicrhau Datblygiad Cynaliadwy? [troednodyn 39]
- Sut mae eich prosiect wedi helpu i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol?
- Pa arloesedd a ddangosodd neu a gyflawnodd eich prosiect?
- Pa enghreifftiau sydd gennych chi o hyn?
- Pa addasiadau a wnaeth eich prosiect (os o gwbl) i leihau effaith eich prosiect ar yr hinsawdd? *(Holwch am newidiadau i'r seilwaith e.e. adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd, neu newidiadau ymddygiad e.e., lleihau gwastraff neu ddefnydd dŵr, atal tanau gwyllt)*
- Sut (os o gwbl) y gwnaeth eich prosiect liniaru yn erbyn newid hinsawdd (h.y., atal neu leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr)? *(Holwch am y defnydd o ynni adnewyddadwy, plannu coed, cynyddu maint y goedwig)*
- Pa enghreifftiau sydd gennych chi o hyn?

16. Sut mae eich prosiect wedi cyfrannu at strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050?

F. Gwersi a Ddysgwyd

17. Pa wersi sydd wedi'u dysgu o ddull eich prosiect o reoli ar y cyd ar raddfa'r dirwedd (os o gwbl)?

- Beth sydd wedi'ch galluogi i lwyddo neu fod yn gynaliadwy?
- Beth fu'r rhwystrau i dangyflawni?

18. Pa wersi a ddysgwyd o'r SMS y dylid eu hystyried mewn unrhyw fecanweithiau ariannu cydweithredol yn y dyfodol, yn eich barn chi?

19. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi am y gwasanaeth, ei gynllun neu ei weithrediad nad oeddem wedi'i gynnwys?

Diolch a chau

---

Troednodiadau

[39] Mae datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ar gyfer cyflawni nodau datblygu dynol tra hefyd yn cynnal gallu systemau naturiol i ddarparu'r adnoddau naturiol a'r gwasanaethau ecosystem y mae'r economi a chymdeithas yn dibynnu arnynt.

## Atodiad H: Templed ar gyfer yr Astudiaethau Achos

| | |
|---|---|
| **ENW'R PROSIECT:** | |
| **TROSOLWG O'R PROSIECT:** | *Rhowch ddisgrifiad byr o'r prosiect yma gan gynnwys:*<br>• *swm y cyllid a dderbyniwyd*<br>• *manylion y partneriaid arweiniol ac allweddol*<br>• *y lleoliad a'r raddfa ofodol ar gyfer cyflawni'r prosiect.* |

| **TYSTIOLAETH O GYFLAWNIADAU / CANLYNIADAU** |
|---|
| *Canllawiau:*<br>*Adroddwch yn erbyn yr egwyddorion SMNR perthnasol isod.*<br>*Ceisiwch ddewis <u>o leiaf</u> 4-5 egwyddor SMNR ac adrodd ar y dystiolaeth sydd ar gael o gyfweliadau (gan gynnwys dyfyniadau) ac adroddiadau cynnydd / diwedd prosiect ynghylch sut y mae'r prosiect wedi cyflawni yn erbyn y rhain.*<br>*Lle bynnag y bo modd, ceisiwch ddewis dwy egwyddor sy'n ymwneud â 'phrosesau' o'r golofn chwith a chwpl o egwyddorion sy'n ymwneud â 'chanlyniadau' o'r golofn dde.* |

| **RHEOLI MEWN MODD YMADDASOL**<br>**(Egwyddor 1 SMNR)** | **TYSTIOLAETH**<br>**(Egwyddor SMNR 5)** |
|---|---|
| *Sut y mae'r prosiect wedi newid ei gamau gweithredu yn ôl yr angen? Pa effaith a gafodd hyn? Pa ffactorau allanol a effeithiodd arno a sut yr ymatebodd i hynny?*<br>*Pa dystiolaeth sydd bod y prosiect yn hyblyg ac yn gallu addasu? Sut y bu i hyn wneud y prosiect yn fwy effeithlon neu effeithiol? Sut y gwnaeth hyn gynyddu arloesedd o fewn y prosiect?* | *A yw wedi cyflawni ei DPA? Ble mae wedi rhagori ar ei dargedu a pham? A yw'r prosiect wedi llwyddo i gasglu tystiolaeth o allbynnau a chanlyniadau? Sut y cyflawnodd hyn? Beth weithiodd yn dda?* |
| **GRADDFA**<br>**(Egwyddor SMNR 2)** | **MANTEISION LLUOSOG**<br>**(Egwyddor SMNR 6)** |
| *Pa dystiolaeth sydd bod graddfa ofodol y camau gweithredu (h.y, gweithio ar raddfa'r dirwedd) wedi sicrhau mwy o ganlyniadau?* | *Pa ganlyniadau, manteision neu effeithiau cymdeithasol, economaidd neu annisgwyl eraill y mae'r prosiect wedi'u cyflawni? E.e.* |

| | |
|---|---|
| | *Cymdeithasol – llai o droseddu, gwell cydlyniant cymunedol, gwell diwylliant/treftadaeth, gwell iechyd a lles,*<br><br>*Economaidd – mwy o wariant uniongyrchol yn yr economi leol, penodi contractwyr lleol, mwy o ddatblygu sgiliau gwledig, sicrhau ffynonellau cyllid eraill (e.e. o'r sector preifat, TWE), cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, arallgyfeirio neu gyfleoedd masnachol, datblygu seilwaith gwyrdd* |
| **CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU**<br><br>**(Egwyddor SMNR 3)** | **HIRDYMOR**<br><br>**(Egwyddor SMNR 7)** |
| *Sut y mae'r prosiect wedi hyrwyddo a mynd ati i gydweithio a chydweithredu? Sut y mae hyn wedi effeithio ar y canlyniadau?*<br><br>*Pa dystiolaeth sydd bod y prosiect wedi:*<br><br>• *datblygu trefniadau cydweithredol newydd*<br>• *ehangu neu gryfhau'r bartneriaeth bresennol*<br>• *cryfhau trefniadau llywodraethu*<br>• *darparu mynediad i dîm cyflawni mwy*<br>• *cryfhau'r gyfatebiaeth â nodau cyffredin*<br>• *trosglwyddo gwybodaeth rhwng partneriaid* | *Sut y mae'r prosiect wedi ystyried yr effaith y gall ei chael yn y tymor canolig a'r hirdymor? A yw wedi sicrhau unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru/ffynonellau eraill? Sut y bydd y prosiect yn dod yn rhannol neu'n gwbl hunangynhaliol?* |
| **TREFNIADAU I'R CYHOEDD GYMRYD RHAN**<br><br>**(Egwyddor 4 SMNR)** | **CAMAU ATALIOL**<br><br>**(Egwyddor SMNR 8)** |
| *Sut y mae'r prosiect wedi ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau? Sut y mae wedi caniatáu ar gyfer ymgysylltu'n well â'r gymuned leol? Pa dystiolaeth sydd o gynnydd mewn datblygiadau lleol a arweinir gan y gymuned? Pa dystiolaeth sydd o fwy o gyfleoedd gwirfoddoli neu addysgol? Pa dystiolaeth sydd o gyfleoedd cynyddol i* | *Pa dystiolaeth sydd bod y prosiect wedi cymryd camau i atal difrod i ecosystemau?*<br><br>*Pa dystiolaeth sydd o:*<br><br>• *Lai o berygl llifogydd*<br>• *Gwell ansawdd pridd*<br>• *Gwell ansawdd aer/dŵr*<br>• *Llai o lygredd*<br>• *Gwell amddiffyniad rhag rhywogaethau ymledol Mwy o fioamrywiaeth* |

| | |
|---|---|
| *bobl leol gysylltu â byd natur? Pa effaith y mae hyn wedi'i chael?* | • *Adfer mwy o gynefinoedd*<br>• *Gwell rheolaeth ar y parth arfordirol*<br>• *Gwell rheolaeth coetir*<br>• *Mwy o blannu coed* |
| | **DATBLYGU GWYTNWCH**<br><br>**(Egwyddor SMNR 9)** |
| | *Pa dystiolaeth sydd bod y prosiect wedi creu ecosystem fwy gwydn? E.e., gwell amrywiaeth, cysylltiadau rhwng, graddfa, cyflwr, neu allu i addasu ecosystemau?*<br><br>*Pa dystiolaeth sydd y bydd y canlyniadau a ddisgrifir o dan Egwyddor 8 uchod yn cael eu cynnal?* |
| **Sylwadau i Gloi** | |
| | |

# Atodiad I: Arolwg ar-lein yr SMS

**GWERTHUSIAD TERFYNOL SMS**
**HOLIADUR AR-LEIN O BROSIECTAU A ARIANNWYD**

Mae OB3 Research yn cynnal gwerthusiad hirdymor o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) ar ran Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r cam olaf hwn o'r gwerthusiad rydym am gasglu adborth gan brosiectau a ariannwyd am yr effaith a'r gwahaniaeth a wnaed gan eich prosiect.

Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r holiadur byr hwn i ddweud wrthym am ganlyniadau ac effeithiau eich prosiect. Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 10 munud i'w gwblhau.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwerthusiad, gan gynnwys Hysbysiad Preifatrwydd yn nodi sut y byddwn yn defnyddio eich adborth ar gael yma

**A hoffech lenwi'r holiadur yma yn:**

**Would you like to complete this questionnaire in:**

- ❑ English
- ❑ y Gymraeg

## Cefndir

**A1. Rhowch enw eich prosiect SMS (Mae hyn er mwyn i ni allu monitro'r ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer yr arolwg. Bydd eich ymatebion yn cael eu dadansoddi'n ddienw)**

Enw eich prosiect SMS ________________________________
________________________________

**A2. Ydych chi yn:**

- ❑ Prif ymgeisydd sefydliadol y prosiect
- ❑ Partner yn y prosiect
- ❑ Aelod o’r tîm rheoli prosiect
- ❑ Arall

*Nodwch os gwelwch yn dda:*
__________________________________________

**A3. [If A2=1] Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio amgylchiadau presennol eich prosiect orau?**

- ❑ Mae eich prosiect SMS yn parhau i redeg
- ❑ Mae eich prosiect SMS bron wedi’i gwblhau
- ❑ Mae eich prosiect SMS wedi’i gwblhau
- ❑ Arall

*Nodwch os gwelwch yn dda:*
__________________________________________

## Cydweithio

**B1. [If A2=1] Pa fath o sefydliadau oedd eich prosiect wedi partneru â nhw? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

- ❑ Sefydliad nad sy'n gysylltiedig gyda'r llywodraeth
- ❑ Trydydd sector (e.e. elusen, grwp cymunedol, ymddiriedolaeth)
- ❑ Awdurdod Parc Cenedlaethol
- ❑ Awdurdod Lleol
- ❑ Bwrdd Iechyd
- ❑ Awdurdod heddlu neu wasanaeth tân
- ❑ Arall
  *Nodwch os gwelwch yn dda:*
  __________________________________

**B2. [If A2=1] A wnaeth y cyllid SMS a dderbyniwyd gan eich prosiect gefnogi…**

- ❑ Datblygiad cydweithredu newydd ar gyfer cyflawni eich prosiect SMS
- ❑ Cydweithredu oedd yn digwydd eisoes i gyflawni eich prosiect SMS
- ❑ Datblygu cydweithredu newydd yn ogystal â chefnogi rhai oedd yn bodoli eisoes
- ❑ Heb gefnogi unrhyw gydweithio newydd neu oedd yn bodoli
- ❑ Ddim yn gwybod

**B3. Pa rai o'r effeithiau <u>cadarnhaol</u> canlynol, os o gwbl, a gafodd gweitio ar y cyd, mewn partneriaeth, ar eich prosiect [Dewiswch bob un sy'n berthnasol]**

- ❑ Cryfhau trefniadau llywodraethu
- ❑ Sicrhau mynediad at dîm cyflawni ehangach
- ❑ Cryfhau aliniad i nodau cyffredin
- ❑ Galluogi gwell ymgysylltu gyda'r gymuned leol
- ❑ Galluogi camau gweithredu ar raddfa tirwedd gael eu cyflawni yn fwy effeithiol
- ❑ Galluogi'r prosiect i addasu a bod yn fwy hyblyg
- ❑ Galluogi gweithgareddau gael eu darparu yn fwy effeithlon
- ❑ Cynyddu arloesi a throsglwyddiad gwybodaeth rhwng partneriaid
- ❑ Dim un o'r uchod
- ❑ Arall

*Nodwch os gwelwch yn dda:* ____________________________

**B4. Pa rai o’r effeithiau <u>negyddol</u> canlynol, os o gwbl, a gafodd gweithio ar y cyd mewn partneriaeth ar eich prosiect? (Dewisiwch bob un sy’n berthnasol)**

- ❑ Cynyddu’r baich gweinyddol
- ❑ Ei gwneud yn fwy anodd i wneud penderfyniadau
- ❑ Arafu cyflymder y gweithredu
- ❑ Ei gwneud yn fwy heriol ymgysylltu â’r gymuned leol
- ❑ Rhwystro arloesi a throsglwyddo gwybodaeth rhwng partneriaid
- ❑ Ei gwneud yn anoddach addasu a bod yn hyblyg
- ❑ Gwneud darparu gweithgareddau yn llai effeithlon
- ❑ Dim un o’r uchod
- ❑ Arall

*Nodwch os gwelwch yn dda:* ___________________________

**B5. Pa mor debygol yw hi y bydd partneriaid y prosiect yn parhau i gydweithio yn y dyfodol (wedi cyllid SMS ddod i ben) yn eich barn chi?**

- ❑ Tebygol iawn
- ❑ Gweddol debygol
- ❑ Ddim yn debygol iawn
- ❑ Ddim yn debygol o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod/Ddim yn siwr

**Canlyniadau ac allbynnau'r prosiect**

**C1. [If A2=1] I ba raddau ydych chi'n debygol o gyflawni (neu wedi cyflawni ecih Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ar gyfer eich prosiect SMS?**

- ❑ Cyflawni neu ragori ar bob un o'r dangosyddion
- ❑ Cyflawni bron pob un o'r dangosyddion
- ❑ Cyflawni dangosyddion yn rhannol
- ❑ Annhebygol o gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion
- ❑ Annhebgol o gyfawni unrhyw ddangosyddion

**C2. Pa gyfraniad (os o gwbl), y mae eich prosiect SMS wedi'i wneud i'r canlyniadau amgylcheddol canlynol?**

| | *Cyfraniad mawr* | *Rhywfaint o gyfraniad* | *Dim cyfraniad* | *Ddim yn berthnasol i'r prosiect* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|---|
| Llai o berygl llifogydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwell iechyd pridd/rheolaeth ansawdd pridd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwell ansawdd aer | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwell ansawdd dŵr | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mwy o fioamrywiaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Adfer mwy o fawndiroedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Adfer mwy o gynefinoedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwell rheolaeth ar yr parth arfordirol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Llai o lygredd amgylcheddol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwell rheolaeth coetir | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mwy o blannu coed | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwell amddiffyniad rhag rhywogaethau ymledol (invasive species) | | | | | |

Arall (nodwch os gwelwch yn dda) ____________________

**C3. [Where C2=1,2] I ba raddau y bydd y canlyniadau amgylcheddol a nodwyd gennych yn cael eu cynnal ar ôl cyllid SMS yn eich barn chi?**

| | *Wedi'i gynnal yn llawn* | *Wedi'i gynnal i raddau* | *Ddim yn debygol o gael ei gynnal* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|
| e.e. Gwell ansawdd aer | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| e.e. Cynefinoedd wedi'u hadfer | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| e.e. Llai o lygredd amaethyddol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**C4. [If C2a=1,2] Sut (os o gwbl) y mae eich prosiect SMS wedi creu ecosystem mwy gwydn (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

- ❑ Gwell cysylltedd rhwng ecosystemau
- ❑ Mwy o amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau
- ❑ Cynyddu graddfa neu faint yr ecosystem
- ❑ Gwell iechyd a chyflwr yr ecosystem
- ❑ Gwell gallu gan yr ecosystemau i addasu
- ❑ Dim un o'r uchod/Ddim yn siwr
- ❑ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

____________________________

**C5. Pa fuddion cymdeithasol (os o gwbl) y mae eich prosiect SMS wedi'u cyfrannu at y gymuned leol?**

| | *Cyfraniad mawr* | *Rhywfaint o gyfraniad* | *Dim cyfraniad* | *Ddim yn berthnasol i'r prosiect* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|---|
| Llai o droseddu gwledig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwell cydlyniant cymunedol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwell diwylliant a threftadaeth gwledig | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mwy o ddatblygiadau lleol wedi eu harwain gan y gymuned | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwell iechyd a lles | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mwy o fynediad i'r awyr agored | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mwy o gyfleoedd addysgol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mwy o gyfleoedd i bobl leol gysylltu â byd natur | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) ___ | | | | | |

**C6. [Where C5=1,2] I ba raddau y bydd y buddion cymdeithasol hyn i gymunedau lleol yn cael eu cynnal ar ôl cyllid SMS yn eich barn chi?**

| | *Wedi' gynnal yn llawn* | *Wedi'i gynnal i raddau* | *Ddim yn debygol o gael ei gynnal* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|
| e.g. Gwell iechyd a lles | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| e.g. Gwell cydlyniant cymunedol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| e.g. Gwell diwylliant a threftadaeth wledig | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**C7. Pa fuddion economaidd (os o gwbl) y mae eich prosiect SMS wedi'u cyfrannu at y gymuned leol?**

| | *Cyfraniad mawr* | *Rhywfaint o gyfraniad* | *Dim cyfraniad* | *Ddim yn berthnasol i'r prosiect* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnydd mewn gwariant uniongyrchol yn yr economi leol e.e. penodi contractwyr lleol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu datblygiad sgiliau gwledig | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mwy o drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Sicrhau ffynonellau cyllid eraill (e.e. y sector breifat) i'r ardal | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal leol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Creu cyfleoedd arallgyfeirio newydd i ffermwyr neu bartneriaid eraill | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Creu cyfleoedd/swyddi masnachol newydd yn yr ardal | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Datblygu seilwaith gwyrdd (green infrastructure) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

Arall (nodwch os gwelwch yn dda ________________

**C8. [If C7f=1,2] Pa fath o gyfleoedd arallgyfeirio a grëwyd o ganlyniad i gyllid SMS?**

❑ Arallgyfeirio i'r sector dwristiaeth
❑ Arallgyfeirio i gyfleoedd amaethyddol eraill
❑ Arall [nodwch os gwelwch yn dda]

**C9. [If C7=1,2] I ba raddau bydd y buddion economaidd hyn i'r ardal leol yn cael eu cynnau ar ôl cyllid SMS yn eich barn chi?**

| | *Wedi'i gynnal yn llawn* | *Wedi'i gynnal i raddau* | *Ddim yn debygol o gael ei gynnal* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|
| e.e. Mwy o ddatblygu/capasiti sgiliau gwledig | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| e.e. Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r ardal leol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| e.e. Seilwaith gwyrdd wedi'i ddatblygu | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**C10. Beth fyddai'n eich helpu i gynnal y canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd hyn, ar ôl cyllid SMS? [Rhowch eich atebion mewn trefn defnyddioldeb lle mae 1=mwyaf defnyddiol, a 5=lleiaf defnyddiol]**

❑ Cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru
❑ Cefnogaeth ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru
❑ Rhwydweithiau cefnogi gyda phrosiectau tebyg
❑ Rhwydweithiau cefnogi gyda phrosiectau yn yr un rhanbarth
❑ Hyfforddiant a chyfleoedd dysgu ychwanegol

Arall [Nodwch os gwelwch yn dda]
___________________________

## Themâu ac amcanion trawsbynciol

**D1. [If A2=1] Faint o gyfraniad y mae eich prosiect wedi'i wneud i'r tair thema ac amcan trawsbynciol, sef:**

| | *Cyfraniad mawr* | *Rhywfaint o gyfraniad* | *Dim cyfraniad* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|
| Cyfle cyfartal a phrif-ffrydio rhyw | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Datblygu cynaliadwy | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol (social exclusion) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Yr amgylchedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Arloesedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**D2. [If D1=1,2] Darparwch enghreifftiau o sut mae eich prosiect wedi cyfrannu at y themau ac amcanion trawsbynciol isod:**

____________________________________________________

____________________________________________________

**D3. [If A2=1] Faint o gyfraniad y mae eich prosiect wedi'i wneud i strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050?**

- ❑ Cyfraniad mawr
- ❑ Rhywfaint o gyfraniad
- ❑ Dim cyfraniad o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**D4. [If D3=1,2] Darparwch enghreifftiau o sut mae eich prosiect wedi cyfrannu at y strategaeth iaith Gymraeg?**

____________________________________________________

## Cynaliadwyedd eich prosiect

**E1. [If A2=1] A yw'r cyllid SMS wedi galluogi eich partneriaeth prosiect i sicrhau unrhyw gyllid ychwanegol neu arall? [Nodwch bob un sy'n berthnasol]**

- ☐ Ydy, mae ffynonellau cyllid eraill gan Lywodraeth Cymru wedi'u sicrhau
- ☐ Ydy, mae ffynonellau cyllid tu hwnt i'r llywodraeth wedi'u sicrhau
- ☐ Rydym yn aros am ganlyniad cais am gyllid ar hyn o bryd
- ☐ Ddim eto, ond mae bwriad i geisio am ffynonellau cyllid eraill
- ☐ Bydd y gweithgareddau yn hunangynhaliol (yn rhannol neu'n llawn)
- ☐ Does dim bwriad i barhau gyda'r partneriaeth prosiect/chwilio am gyllid
- ☐ Ddim yn gwybod / Ddim yn siwr

**E2. [If E1=1,2,3, 4] Pa ffynonellau cyllid eraill y gwnaed cais amdanynt (neu y gwneir cais amdanynt)?**

________________________________________________________________
________________________________________________________________
______________

**E3. Pa wersi o'r SMS y dylid eu hystyried mewn unrhyw fecanweithiau ariannu cydweithredol yn y dyfodol?**

________________________________________________________________
________________________________________________________________
______________

**E4. Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau eraill i wneud am yr SMS?**

________________________________________________________________
________________________________________________________________
____________